

**Adolygiad Annibynnol o
Gymorth Cyfreithiol Troseddol**

Syr Christopher Bellamy

29 Tachwedd 2021

Tabl Cynnwys

Atodiadau.....	vi
PENNOD UN: CYFLWYNIAD A CHRYNODEB.....	1
Cyflwyniad.....	1
Y Prif Faterion	7
Crynodeb o'r Dull o Weithredu a'r Argymhellion.....	9
Yr Argymhelliad Canolog	10
Bwrdd Cyngorol.....	10
PENNOD DAU: CASGLU'R DYSTIOLAETH	13
PENNOD TRI: PAM CYLLIDO CYMORTH CYFREITHIOL TROSEDDOL?.....	16
PENNOD PEDWAR: HANES BYR CYMORTH CYFREITHIOL TROSEDDOL A DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG	21
PENNOD PUMP: TROSOLWG AR Y SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL.....	37
Yr Heddlu	32
Y Cyhuddiad (neu Beidio â Chyhuddo).....	38
Yr Erlyniad.....	34
Y Llys Ynadon.....	36
Llys y Goron.....	38
Elfennau Eraill y System.....	45
Y Cyflenwyr	40
PENNOD CHWECH: CYNALIADWYEDD FFYRMIAU CYMORTH CYFREITHIOL TROSEDDOL	51
Y Dull Cyffredinol o Weithredu	45
Y Ddadl a Gyflwynwyd i'r Adolygiad.....	47
Dadansoddi'r Dystiolaeth.....	47
(1) Y Gostyngiad yn Niferoedd y Darparwyr	53
(2) Yr Effaith o Beidio â Chynyddu Ffioedd am Nifer o Flynyddoedd ac o Doriadau	56
(3) Anawsterau o ran Hyfforddiant, Recriwtio a Chadw.....	58
(4) Proffidioldeb a Sefydlogrwydd Ariannol	62
Casgliad am Gynaliadwyedd Ffyrniau Cymorth Cyfreithiol Troseddol.....	59
PENNOD SAITH: FFYRMIAU CYMORTH CYFREITHIOL TROSEDDOL: CAMAU I'W CYMRYD	69
Yr Opsiynau Presennol.....	61
Lefel Gyffredinol y Cyllido sydd ei Angen	63

Strwythur y Cynlluniau	65
I Ble y Byddai'n Well Cyfeirio Cyllid Ychwanegol?	75
PENNOD WYTH: CYNLLUN GORSAF YR HEDDLU	77
Strwythur Cynllun Gorsaf yr Heddlu	68
Materion Ychwanegol sy'n Effeithio ar Waith yng Ngorsaf yr Heddlu	71
PENNOD NAW: YMGYSYLLTU CYNNAR	90
Ymgysylltu Cyn Cyhuddo	80
Ymgysylltu Ar Ôl Cyhuddo.....	81
PENNOD DEG: Y LLYS YNADON	95
PENNOD UN AR DDEG: Y LLYS IEUENCTID	100
PENNOD DEUDDEG: YR LGFS A MATERION CYSYLLTIEDIG	104
Strwythur yr LGFS	104
Y Diwygio ar yr LGFS a Argymhellir.....	108
Casgliadau ar yr Argymhellion ar gyfer yr LGFS	111
Perthynas yr LGFS â'r AGFS	111
PENNOD TRI AR DDEG: YR AGFS A'R BAR TROSEDDOL	113
Disgrifiad Byr o'r AGFS.....	113
Y Ddadl a Gyflwynwyd i'r Adolygiad.....	103
Y Brif Dystiolaeth	105
Dadansoddiad	115
Sylwadau Rhagarweiniol	116
Y Rhesymau o Blaid Cynyddu Cyllid i'r AGFS.....	130
Gweithredu i Gynyddu Cyllid i'r AGFS	133
PENNOD PEDWAR AR DDEG: GWARIANT ARALL AR GYMORTH CYFREITHIOL TROSEDDOL	141
Apelau	128
Achosion Cost Uchel lawn (VHCCs).....	146
Cyfraith Carchardai.....	135
Ffioedd Tystion Arbenigol.....	138
PENNOD PYMTHEG: FFYRDD YMLAEN A MATERION SYDD HEB EU TRAFOD	154
Y Bwrdd Cynghorol.....	140
Datblygiadau Strwythurol.....	141
Amrywiaeth	144
Ansawdd.....	147

Tryloywder, Data a Chystadleuaeth	163
Rhestru	149
Technoleg Cysylltu o Bell yn y Llysoedd	151
Yr LAA	167
PENNOD UN AR BYMTHEG: CRYNODEB O'R ARGYMHELLION	171

Atodiadau

Atodiad A: Cylch Gorchwyl ac Aelodau'r Panel Cyngorol Arbenigol

Atodiad B: Casglu Tystiolaeth

Atodiad C: Tueddiadau mewn Cymorth Cyfreithiol Troseddol

Atodiad D: Adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder 'The Future of Legal Aid' 2021

Atodiad E: Canfyddiadau o Grwpiau Ffocws yr Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol ar gyfer Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol

Atodiad F: Dadansoddiad o Gyfweiliadau â Defnyddwyr y System Cyfiawnder Troseddol

Atodiad G: Adroddiad ar yr Arolwg o Fyfrwyr

Atodiad H: Adroddiad ar Astudiaethau Achos o Ffyrmyau Cymorth Cyfreithiol Troseddol

Atodiad I: Astudiaeth Gymharol o Gyflogau'r Sector Cyhoeddus

Atodiad J: Crynodeb o'r Arolwg Ariannol

Atodiad K: Casgliad Data - Ffyrmyau Cymorth Cyfreithiol Troseddol a Bargyfreithwyr Trosedd Hunangyflogedig

Atodiad L: Bargyfreithwyr Trosedd Hunangyflogedig

Atodiad M: Y Cynlluniau Ffioedd a Sut Maent yn Gweithio

Atodiad N: Rhestr Termau

PENNOD UN: CYFLWYNIAD A CHRYNODEB

Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Adroddiad hwn yn codi o bryderon hirsefydlog am y diffyg cyllid ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol yng Nghymru a Lloegr. Mae cymorth cyfreithiol troseddol yng Nghymru ac yn Lloegr yn cael ei gyflenwi'n unol â dyletswyddau statudol yr Arglwydd Ganghellor o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012 (LASPO), drwy ddefnyddio darparwyr sector preifat, sef cyfreithwyr a bargyfreithwyr yn bennaf, heblaw am Wasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus (PDS) bach a ddarperir gan gyfreithwyr cyflogedig. Gweinyddir y system ar ran yr Arglwydd Ganghellor gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA), sydd hefyd yn gyfrifol am y PDS.
- 1.2 Mae'r system cymorth cyfreithiol troseddol yn cynnwys pum prif ran:
- A) Gorsaf yr Heddlu: mae hawl gan berson sydd wedi'i arestio neu sy'n dod am gyfweliad gwirfoddol â'r heddlu i gael cyngor a chynhorthwy cyfreithiol am ddim, heb ystyried modd ariannol, a ddarperir drwy gynllun cyfreithiwr ar ddyletswydd, er y caiff y cleient ofyn am gyfreithiwr o'i ddewis.
 - B) Y Llys Ynadon: mae hawl gan berson a gyhuddwyd o drosedd yn y Llys Ynadon i gael cymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth a chyngor, ar yr amod y bydd yn bodloni prawf modd a phrawf "budd cyfiawnder". Yn ogystal â hyn, mae cynllun cyfreithiwr ar ddyletswydd y Llys lle bydd diffynyddion sydd heb gynrychiolaeth yn gallu cael cyngor a chynhorthwy am ddim.
 - C) Llys y Goron: fel arfer bydd hawl gan berson a gyhuddir o drosedd yn Llys y Goron, sef un o'r troseddau mwy difrifol fel arfer, i gael cymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth a chyngor, ond gall fod yn ofynnol iddo wneud cyfraniad ariannol os yw ei incwm yn uwch na throthwy penodol.
 - D) Cyfraith Carchardai: gall carcharor fod â hawl i gael cymorth cyfreithiol mewn perthynas â rhai materion dedfrydu a disgyblu a gweithrediadau o flaen y Bwrdd Parôl.
 - E) Apelau: mae cymorth cyfreithiol ar gael mewn rhai apelau o'r Llys Ynadon i Lys y Goron, o Lys y Goron i'r Llys Apêl, ac ar gyfer ceisiadau i'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol.¹
- 1.3 Yn Rhagfyr 2018, yn dilyn yr hanes eithaf cythryblus sydd wedi'i ddisgrifio'n fanylach ym Mhennod 4, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor, y Gwir Anrhydeddus David Gauke AS, Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol (ACCT), gyda'r prif amcanion a ganlyn:

"a) To reform the Criminal Legal Aid fee schemes so that they:

¹Mae'r Adolygiad wedi canolbwyntio ar y prif achosion lle y rhoddir cymorth cyfreithiol. Oni nodir fel arall, y bwriad yw y bydd argymhellion yr Adolygiad yn gymwys, lle bo'n berthnasol, i achosion nad ydynt yn cael eu trafod mewn modd penodol (e.e. apelau i'r Goruchaf Lys, achosion am ddirmyg llys, materion a bennwyd yn rhai troseddol o dan adran 14(h) LASPO, a gwahanol faterion eraill). Gweler y Rhestr Termau yn Atodiad N am y byrfoddau a ddefnyddir yn yr Adroddiad hwn.

- fairly reflect, and pay for, work done.
- support the sustainability of the market, including recruitment, retention, and career progression within the professions and a diverse workforce.
- support just, efficient, and effective case progression; limit perverse incentives, and ensure value for money for the taxpayer.
- are consistent with and, where appropriate, enable wider reforms.
- are simple and place proportionate administrative burdens on providers, the Legal Aid Agency (LAA), and other government departments and agencies; and
- ensure cases are dealt with by practitioners with the right skills and experience.

b) To reform the wider Criminal Legal Aid market to ensure that the provider market:

- responds flexibly to changes in the wider system, pursues working practices and structures that drive efficient and effective case progression, and delivers value for money for the taxpayer.
- operates to ensure that Legal Aid services are delivered by practitioners with the right skills and experience.
- operates to ensure the right level of Legal Aid provision and to encourage a diverse workforce.”

1.4 Cam cyntaf yr ACCT, a ohirwyd oherwydd y pandemig, oedd casglu data sydd wedi’u cyhoeddi bellach yn y Casgliad Data² a rhoi sylw i “feysydd carlam” penodol, sef diwygiadau a ddaeth i rym yn Awst 2020.³ Yn Rhagfyr 2020 fe’ m penodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor y Gwir Anrhydeddus Robert Buckland CF AS i gyflawni ail gam yr ACCT, sef Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol (AAGCT). Mae’r cylch gorchwyl sydd wedi’i ddangos yn Atodiad A yn gofyn i mi ystyried y system cymorth cyfreithiol troseddol yn ei chyfanrwydd, y gwasanaeth a ddarperir, a sut y caiff ei chaffael a sut y telir amdani, gan gyfeirio’n benodol at bum thema: cadernid, tryloywder, cystadleuaeth, effeithlonrwydd ac amrywiaeth. Mae pob un o’r pynciau hyn i’w ystyried mewn modd mor gynhwysfawr â phosibl, gan fod disgwyl i gwmpas yr Adolygiad fod “yn llawer mwy uchelgeisiol” nag adolygiadau blaenorol, y cynhaliwyd y diwethaf ohonynt gan yr Arglwydd Carter yn 2006.

Y System Cymorth Cyfreithiol Troseddol

1.5 Pan fydd person heb fodd yn ceisio cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol i’w amddiffyn rhag cyhuddiad troseddol, rhaid iddo wneud hynny drwy gyfreithiwr sydd wedi’i gontractio i’r LAA o dan y Contract Trosedd Safonol (SCC), sy’n pennu’r gofynion sydd i’w bodloni gan gyfreithwyr wrth gyflenwi’r gwasanaethau

² [data-compendium.pdf \(publishing.service.gov.uk\)](https://data-compendium.pdf.publishing.service.gov.uk)

³ Gweler Pennod 4 isod.

hynny. Wedyn rhaid i'r cyfreithiwr wneud cais ar ran y cleient i'r LAA am Orchymyn Cynrychiolaeth, gan roi manylion am y drosedd honedig a'r modd sydd gan y cleient. Os bydd y meini prawf ar gyfer cymorth cyfreithiol wedi'u bodloni, bydd yr LAA yn rhoi'r Gorchymyn.

- 1.6 Mae cyfreithwyr yn darparu cyngor a chynhorthwy yng ngorsaf yr heddlu, un ai drwy weithredu ar ran eu cleientiaid eu hunain neu drwy'r cynllun cyfreithiwr ar ddyletswydd; cyngor a chynrychiolaeth yn y Llys Ynadon, yn cynnwys cynllun cyfreithiwr ar ddyletswydd y llys ynadon; ac yn paratoi achosion yn Llys y Goron lle bydd bargyfreithiwr yn cael ei gyfarwyddo fel arfer. Mae cyfreithwyr eiriolwyr sydd â hawliau i ymddangos mewn llysoedd uwch yn cynnal achosion yn Llys y Goron hefyd, ac yn gyfrifol am gyfran helaeth o'r achosion lle mae'r diffynnydd yn pledio'n euog, er enghraifft.⁴
- 1.7 Mae aelodau Sefydliad Siartredig Gweithredwyr Cyfreithiol (CILEX) yn gweithio mewn ffyrmau cyfreithwyr gan mwyaf. Er nad yw'r un ffym 'CILEX yn unig' wedi gwneud contract â'r LAA hyd yn hyn, mae aelodau CILEX sydd â'r cymwysterau angenrheidiol yn gallu gweithio mewn partneriaeth â chyfreithwyr, ymgymryd â gwaith yng ngorsaf yr heddlu, ac ymddangos yn y Llys Ynadon. Yn yr adroddiad hwn, wrth ddefnyddio'r termau cryno 'cyfreithiwr' a 'ffyrmau cyfreithwyr', nid wyf ar unrhyw gyfrif yn anghofio'r gwaith hanfodol a wneir gan aelodau CILEX.
- 1.8 Y cyfreithiwr sy'n gyfrifol am gyfarwyddo'r bargyfreithiwr i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth ar ran y cleient. Bydd bargyfreithwyr yn ymddangos yn Llys y Goron yn bennaf er bod bargyfreithwyr iau hefyd yn cael eu cyfarwyddo yn y Llys Ynadon, yn enwedig yn Llundain. Nid oes perthynas gontractiol uniongyrchol rhwng bargyfreithwyr a'r LAA.⁵
- 1.9 Mae'r rhan fwyaf o'r rheoliadau ynghylch cydnabyddiaeth ariannol i gyfreithwyr a bargyfreithwyr am gyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol yn cael eu pennu yn Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Cydnabyddiaeth Ariannol) 2013, fel y'u diwygiwyd, a wnaed o dan LASPO ('y Rheoliadau').⁶ Am resymau hanesyddol sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 4, mae clytwaith o wahanol ddulliau gweithredu. Telir ffi sefydlog am waith gorsaf yr heddlu; telir am waith Llys Ynadon ar sail cymysgedd o ffioedd safonol penodol a chyfraddau yr awr; a thelir am y rhan fwyaf o waith Llys y Goron ar sail ffioedd "graddedig", lle y penderfynir y ffi drwy ddefnyddio gwahanol "brocsis", fel y drosedd yn y cyhuddiad, a blediwyd yn euog, treial chwâl⁷ neu dreial; hyd y

⁴ Gweler Pennod 13 isod

⁵ Felly, nid yw cleient lleig yn gallu cyfarwyddo bargyfreithiwr yn uniongyrchol mewn mater cymorth cyfreithiol.

⁶ [Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol \(Cydnabyddiaeth Ariannol\) 2013 \(legislation.gov.uk\)](https://www.legislation.gov.uk/uk/2013/435)

⁷ "Treial chwâl" yw un lle mae'r diffynnydd wedi pledio'n ddieuog i un cyhuddiad o leiaf, ac wedyn, ar unrhyw bwynt rhwng y gwrandawriad lle y cofnodwyd y ple a chyn gweinyddu llwon y rheithwyr, yn newid i bledio'n euog, neu lle mae'r erlyniad yn penderfynu peidio â mynd yn ei flaen. Mae diffiniad o dreialon chwâl yn y Rheoliadau ym mharagraff 1, Rhan 1, Atodlen 1:

<https://www.legislation.gov.uk/uk/2013/435>

gwrandawriad; a Thudalennau Tystiolaeth yr Erlyniad (PPE). Mae dau gynllun talu gwahanol yn Llys y Goron, un ar gyfer eiriolwyr – h.y. bargyfreithwyr a chyfreithwyr eiriolwyr – a elwir yn Gynllun Ffioedd Graddedig Eiriolwyr (AGFS), a'r llall ar gyfer cyfreithyddion llys – h.y. y cyfreithwyr yn ystod y gwaith paratoi – a elwir yn Gynllun Ffioedd Graddedig Cyfreithyddion Llys (LGFS). Mae darpariaeth ar wahân ar gyfer rhai Achosion Cost Uchel lawn (VHCCs) yn Llys y Goron.

- 1.10 Yn 2019/20 cyfanswm y gwariant ar gymorth cyfreithiol troseddol oedd tua £841 miliwn, lle'r oedd tua £255 miliwn yn gysylltiedig â gwaith gorsaf yr heddlu, y Llys Ynadon a charchardai (a elwir am resymau ystadegol yn "drosedd is"), a £586 miliwn yn ymwneud yn bennaf ag achosion yn Llys y Goron ("trosedd uwch"). O fewn Llys y Goron yn 2019/20 roedd costau cyfreithyddion llys o dan yr LGFS oddeutu £358 miliwn, a chostau eiriolwyr o dan yr AGFS oddeutu £208 miliwn, a gweddill y gwariant yn Llys y Goron yn gysylltiedig â VHCCs yn bennaf.

Y System Cyfiawnder Troseddol Ehangach

- 1.11 Fel y dangosir yn yr adroddiad hwn drwyddo draw, ni ellir rhoi ystyriaeth briodol i gymorth cyfreithiol troseddol heb roi sylw i weithrediad y System Cyfiawnder Troseddol (SCT) ehangach. Mae'r SCT yn cynnwys 43 o Heddluoedd, Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), y Llysoedd Ynadon a Llys y Goron, a weinyddir gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM), y Farnwriaeth, y gwasanaeth Prawf a'r gwasanaeth Carchardai (Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi - HMPPS - bellach), a'r LAA. Mae gan bob un o'r rhain ei flaenoriaethau ei hun a chyllideb ar wahân fel arfer. Mae'r rhan fwyaf o'r sefydliadau hyn yn annibynnol ar ei gilydd am resymau cyfansoddiadol amlwg. Er hynny, mae'r sylwadau hyn gan yr Arglwydd Carter 15 mlynedd yn ôl yn taro tant o hyd:

"None of the active participants in the justice system has any responsibility to ensure that the overall result is the best possible allocation of public funding for society as a whole, each participant can say that it has protected the interests entrusted to it and that the fault lies elsewhere..."

"Each of the participants [in the CJS] is able to cause a significant cost burden to fall on some of the others but, in many cases, little account appears to be taken of the overall financial burden."⁸

- 1.12 Y dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad yw bod y cyfathrebu rhwng yr amddiffyniad a'r erlyniad, ar y naill law, a rhwng y Llysoedd a'r amddiffyniad ar y llall, heb fod cystal ag y gallai fod. Nid yw'r cyfathrebu â'r carchardai yn ddirwysr ychwaith. Mewn gwirionedd, wrth wneud penderfyniadau o fewn y SCT ehangach, ni roddir sylw fel arfer i'r effaith ar yr amddiffyniad ac yn wir ar brif "ddefnyddwyr" y system, sef rhai dan amheuaeth, diffynyddion a dioddefwyr troseddu.
- 1.13 Mae un o'm prif argymhellion yn ymwneud â'r angen am well mecanweithiau, ar lefel genedlaethol a lleol, i gynnwys yr holl randdeiliaid, yn cynnwys yr

⁸ Adolygiad Carter ar dudalen 6, paragraff 37 [\[ARCHIVED CONTENT\] \(nationalarchives.gov.uk\)](#)

amddiffyniad, mewn dull mwy cydgysylltiedig o weithredu. Fel y dywedodd Syr Brian Leveson yn 2015, wrth wneud yr un pwynt,

*“Part of the solution to improving the whole system is to acknowledge the critical role the defence can play...” “The only way of improving the end to end operation is to bring the different participants in these systems together to debate and agree on initiatives to improve the whole”.*⁹

- 1.14 Nodwedd drawiadol bellach yn y dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad yw bod cymaint yn cael ei wneud yn y SCT yn hwyr neu heb nemor ddim amser i baratoi. Mae hyn yn ganlyniad yn rhannol i nodweddion cynhenid cyfiawnder troseddol, er enghraifft, lle mae’n rhaid i bersonau a arestiwyd yn ystod y nos gael eu dwyn i’r Llys y bore wedyn, neu oherwydd y diffyg trefn ym mywydau rhai diffynyddion. Fodd bynnag, hyd yn oed o ystyried y pwysau hyn a phrinder adnoddau yn y SCT, mae’r dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad yn awgrymu bod diffyg cyfathrebu amserol rhwng y cyfranogwyr, ac nad oes ymgysylltu cynnar rhwng yr Heddlu/CPS a’r amddiffyniad. Mae hyn yn effeithio hefyd ar y gallu i baratoi’n ddigonol. Yma eto, dwy o’r prif themâu yn fy argymhellion yw hybu ymgysylltu cynnar gwell, a gwella’r cyllid ar gyfer gwaith paratoi.

Y cyflenwyr

- 1.15 Mae ffioedd darparwyr troseddol yn cael eu pennu’n allanol o dan y Rheoliadau a, lle mae ffi benodol yn dibynnu ar farn yr LAA ynghylch ei rhesymoldeb, mae cryn ddisgresiwn gan yr LAA i wrthod yr hawliad.¹⁰ Ar ochr y cyfreithiwr, mae’r model busnes hefyd yn dod o dan gyfyngiadau’r SCC.
- 1.16 Mae’r cyflenwad o gymorth cyfreithiol troseddol wedi’i seilio ar y galw, a bennir gan nifer y personau a gaiff eu harestio neu eu cyf-weld o’u gwirfodd gan yr Heddlu, a chan nifer y personau a gaiff eu cyhuddo wedyn gan yr Heddlu neu’r CPS.
- 1.17 O ran y cyflenwi, mae hyn hefyd yn cael ei bennu gan ffactorau allanol gan mwyaf. Yr heddlu fydd yn penderfynu pa bryd y cyfwelir rhai dan amheuaeth, yn aml yn ystod y nos. Am wahanol resymau, gall y CPS gyflwyno tystiolaeth yr erlyniad ar y funud olaf. Yn y Llys Ynadon ac yn Llys y Goron, gall y rhestrau newid yn hwyr iawn yn ystod y dydd. Os bydd GLITEM yn penderfynu cau llys lleol – caewyd 164 o blith 320¹¹ o Lysoedd Ynadon er 2010 – bydd effaith ar y darparwyr, ac ar eraill wrth gwrs; ac yn y blaen.
- 1.18 Nid oes bwriad i awgrymu nad yw cyfranogwyr eraill yn y SCT, sydd hefyd heb eu cyllido’n ddigonol, yn wynebu anawsterau mawr hefyd. Y pwynt syml yw bod darparwyr cymorth cyfreithiol troseddol wedi’u gwasgu rhwng yr Heddlu a’r CPS ar y naill law, a’r Llysoedd ar y llall, a bod prosesau a gofynion yr LAA yn y cefndir drwy’r amser. Er bod disgwyliad priodol iddynt fod yn effeithlon, nid yw darparwyr cymorth cyfreithiol troseddol ond yn gallu bod mor effeithlon ag a

⁹ Review of Efficiency in Criminal Proceedings, 2015, ar dudalen 30 <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2015/01/review-of-efficiency-in-criminal-proceedings-20151.pdf>

¹⁰ E.e. y ffi am waith paratoi arbennig o dan yr AGFS neu’r LGFS, gweler Atodlen 1, paragraff 17(3) ac Atodlen 2, paragraff 20, yn y drefn honno yn y Rheoliadau.

¹¹ Gweler troednodyn 91

ganiateir gan yr effeithlonrwydd, neu ddiffyg effeithlonrwydd, yng ngweddill y SCT.

Patrwm y Galw

- 1.19 Daeth gwariant ar gymorth cyfreithiol troseddol i'w anterth o £1.2 biliwn yn 2004/05 ond erbyn 2019/20¹² roedd wedi gostwng i £841 miliwn, lleihad yn nhermau arian parod o tua 30% a lleihad mewn termau real o tua 43% er 2004/5. Yn 2020/21 cafodd y pandemig effaith ddifrifol ar nifer o ddarparwyr ac mae hyn yn parhau. Dangosir holl fanylion y gwariant ar gymorth cyfreithiol troseddol a niferoedd yr achosion rhwng 2016/17 a 2020/21 yn Atodiad C. Wrth gwrs, mae'r ffigurau ar gyfer 2020/21 wedi'u hystumio gan y pandemig.
- 1.20 Un ffactor pwysig sy'n egluro'r lleihad yn y galw hyd at 2020/21 yw'r gostyngiad yn nifer yr achosion sy'n dod i'r SCT. Ysgogwyd hyn yn ei dro gan ostyngiad yn nifer yr arestiadau gan yr heddlu, ac yn nifer y personau a gyhuddwyd o drosedd. Yn y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn 2018/19 cyn y pandemig, un ffactor ychwanegol oedd cyfyngiad ar nifer y diwrnodau eistedd yn y Llysoedd.
- 1.21 Fodd bynnag, yn dilyn polisi diweddar y Llywodraeth i recriwtio mwy o swyddogion heddlu,¹³ a'r ymdrech i leihau'r ôl-groniad yn y Llysoedd sydd wedi cynyddu yn ystod y pandemig, mae disgwyl y bydd cynnydd nawr yn y galw am gymorth cyfreithiol troseddol. Mae'r Adolygiad wedi'i hysbysu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei bod yn debygol, er mor anodd yw rhag-weld, y bydd cynnydd sylweddol yn y llwyth gwaith erbyn 2025/26, a fyddai'n cyfateb yn fras i gynnydd mewn gwariant o 13%¹⁴ ar y cyfraddau presennol. Yn ogystal â hyn, o ganlyniad i'r pandemig, yn ail chwarter 2021 yr ôl-groniad o achosion yn y Llysoedd oedd tua 364,122 yn y Llysoedd Ynadon a thua 60,692 o achosion yn Llys y Goron.¹⁵
- 1.22 Mae'r cynnydd disgwyledig hwn yn y galw, ynghyd â'r rheidrwydd i leihau'r ôl-groniad, yn ystyriaeth ganolog yn fy nghasgliadau yn yr Adolygiad hwn. Mae'r system cymorth cyfreithiol troseddol eisoes wedi'i gwanhau. Yn syml, os na cheir cynnydd sylweddol mewn cyllid, mae perygl mawr na fydd y system yn gallu ymdopi â'r heriau sydd o'n blaen, am y rhesymau sydd wedi'u hegluro'n fanwl isod.¹⁶

Lleihau Ffioedd neu Ddiffyg Cynnydd

- 1.23 Mae sefyllfa bresennol y darparwyr yn ganlyniad hefyd i bolisi Llywodraeth blaenorol. Cafwyd gostyngiadau yn nhermau arian parod, fel y gostyngiad o

¹² Er bod ffigurau ar gael am 2020/21, mae'r rhain wedi'u hystumio gan effaith y pandemig.

¹³ Gweler [National campaign to recruit 20,000 police officers launches today - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/national-campaign-to-recruit-20000-police-officers-launches-today). Mae'r Adolygiad yn deall bod cynnydd mewn cyllid o braeseptau yn lleol hefyd yn rhagfynegi creiwtio swyddogion heddlu vchwanegol.

¹⁴ Gwnaed amcangyfrifon eraill: er enghraifft, mae'r Sefydliad Llywodraeth wedi amcangyfrif y bydd angen cynnydd o 15% yng nghapasiti'r Llysoedd erbyn 2023. [The Future of Legal Aid \(parliament.uk\)](#), paragraff 79.

¹⁵ [National statistics overview: Criminal court statistics quarterly: April to June 2021 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/statistics/national-statistics-overview-criminal-court-statistics-quarterly-april-to-june-2021)

¹⁶ Gweler Penodau 6, 7 a 13 isod

8.75% yn ffioedd cyfreithwyr yn 2014 er enghraifft, a thoriadau rhwng 2010 a 2012 yn ffioedd eiriolwyr. O ran cyfreithwyr, ni chafwyd cynnydd yn y ffioedd perthnasol am gyfnodau hir, am 15 mlynedd neu hyd yn oed 25 mlynedd mewn rhai achosion. Mae nifer o'r cyfraddau tâl, er enghraifft yng Ngorsaf yr Heddlu a'r Llysoedd Ynadon, yn is bellach, hyd yn oed yn nhermau arian parod, nag yr oeddent yn 2008 neu hyd yn oed yn y 1990au.¹⁷ Mae'n anodd gweld sut y gellir parhau â'r sefyllfa hon. Er bod y cymariaethau o ran eiriolwyr yn fwy cymhleth, oherwydd newidiadau yn yr AGFS yn y cyfamser yn anad dim, mae lefel gyffredinol y ffioedd yn codi cwestiynau mawr am gynaliadwyedd y Bar troseddol, fel y trafodir ymhellach isod.¹⁸

Erydu Cymhwysra i Gael Cymorth Cyfreithiol

- 1.24 Un ffactor ychwanegol yw nad yw'r meini prawf ar gyfer cymhwysra ariannol i gael cymorth cyfreithiol wedi newid er 2008, er bod gwerth arian wedi lleihau tua 24% mewn termau real, a siarad yn fras, yn y cyfamser. Mae hyn yn effeithio ar achosion yn y Llys Ynadon yn bennaf, gan fod cyngor a chynhorthwy yng Ngorsaf yr Heddlu ar gael am ddim, ac mae cymorth cyfreithiol ar gael yn gyffredinol yn Llys y Goron, er ei fod yn aml yn amodol ar wneud cyfraniad sylweddol.

Y Prif Faterion

Cynaliadwyedd

- 1.25 Yng ngolwg yr uchod, roedd yn anorfod mai cadernid y system cymorth cyfreithiol troseddol fyddai'r mater mwyaf amlwg o'r rheini a drafodwyd yn yr Adolygiad. Wrth "gadernid" neu'r term cyfystyr "cynaliadwyedd", yr hyn rwyf yn ei olygu'n fras yw system cyllido cyhoeddus sydd dros y blynyddoedd yn gallu denu a chadw darparwyr sy'n ddigonol o ran eu nifer, ansawdd a phrofiad i ddarparu cyngor, cynhorthwy a chynrychiolaeth gyfreithiol effeithiol i bawb sy'n gymwys ac sydd ag angen y gwasanaethau hynny. Yn benodol, mae hynny'n golygu system sy'n ariannol hyfyw; sydd â llwybr gyrfa y gellir ei gymharu â rhai eraill; sy'n hybu amrywiaeth; ac yn hyrwyddo buddsoddi, yn enwedig mewn technoleg newydd a ffyrdd newydd o weithio.

Amrywiaeth

- 1.26 Mae amrywiaeth yn nhermau cefndir cymdeithasol, rhywedd, ethnigrwydd ac oed, yn neilltuol o bwysig i'r Adolygiad hwn, gan fod angen i'r ddarpariaeth o gymorth cyfreithiol troseddol, a'r SCT gyfan, fod yn adlewyrchiad o gymdeithas fodern yn ei holl gyfoeth a chymhlethdod. Mae'r mater hwn yn un clir iawn yn y cyd-destun presennol oherwydd nifer o ffactorau: y pwysigrwydd o gael llwybrau gyrfa cynaliadwy i'r rheini o gefndiroedd llai breintiedig; a yw datblygiad gyrfaoedd yn amrywio yn ôl rhywedd neu ethnigrwydd; y gyfran

¹⁷ Gweler Pennod 6 isod.

¹⁸ Gweler Pennod 13 isod.

gymharol fawr o ddiffynyddion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig; a nifer y bobl ifanc sydd o fewn y SCT neu'n cael eu heffeithio ganddi.

Effeithlonrwydd

- 1.27 Mae effeithlonrwydd y system cymorth cyfreithiol troseddol yn fater canolog hefyd. Ni edrychwyd yn fanwl ar weithrediad y Rheoliadau ers adolygiad yr Arglwydd Carter yn 2006, 15 mlynedd yn ôl. Yn y cyfamser, mae'r SCT wedi symud yn ei blaen, yn enwedig o ran gwella'r rheoli ar achosion, a dyfodiad yr oes ddigidol; mae'r dystiolaeth i'w chael yn amlach o lawer bellach ar deledu cylch cyfyng, camerâu a wisgir ar y corff, ffonau symudol a chyfryngau cymdeithasol; mae ystyriaethau o ran datgelu a deunydd nas ddefnyddiwyd yn codi cwestiynau cymhleth nad oeddent yn codi bron byth 15 mlynedd yn ôl; a chafwyd nifer o newidiadau pwysig eraill, er enghraifft, cynnydd mewn problemau iechyd meddwl ymysg diffynyddion, yng nghymhlethdod a difrifoldeb rhai troseddau, yn nifer y troseddau difrifol a gyflawnir gan bobl ifanc ac, yn fwy diweddar, effaith technoleg cyfathrebu o bell. Mae'r gwahanol gynlluniau tâl am gymorth cyfreithiol troseddol yn "perthyn i'w cyfnod eu hunain", fel y dywedodd un ymatebydd, ac mae angen eu diwygio a'u diweddarau.
- 1.28 Fel y nodwyd uchod, mae effeithlonrwydd y system cymorth cyfreithiol troseddol yn agored i'r effaith o nifer o ffactorau allanol sy'n cael effaith fawr ar ddefnyddwyr a darparwyr cymorth cyfreithiol troseddol, ac sydd felly'n bwysig i'r Adolygiad hwn. Y rhain yn benodol yw effaith gweithdrefnau o fewn yr Heddlu/CPS mewn perthynas ag ymgysylltu cynnar, a datgelu tystiolaeth yr erlyniad yn amserol; rhestru achosion troseddol yn y Llysoedd; y defnydd o dechnoleg cyfathrebu o bell mewn gorsafoedd heddlu ac yn y Llysoedd; a gweithrediadau'r LAA.

Tryloywder a Data

- 1.29 Er bod gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol yn cael eu cyflenwi gan ddarparwyr preifat, dylai'r ffordd o ddyrannu a gwario arian cyhoeddus gan ddarparwyr fod yn dryloyw. Un anhawster mawr a wynebodd yr Adolygiad oedd diffyg data, er enghraifft ar y graddau y mae system sy'n dibynnu yn y bôn ar benderfyniadau gan ddarparwyr preifat yn cwrdd yn ddigonol â'r angen cyhoeddus, er enghraifft mewn perthynas ag ardaloedd penodol (lleoliadau gwledig, canol dinasoedd), defnyddwyr penodol (e.e. rhai ifanc sydd dan amheuaeth neu sy'n ddiffynyddion, neu'r rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl); troseddau penodol (e.e. twyll difrifol, neu achosion yn ymwneud â phlant) neu feysydd gwaith penodol (e.e. cyfraith carchardai, apelau, achosion POCA¹⁹). Yn wir, nid oes dealltwriaeth da o gapasiti cyffredinol y system.²⁰
- 1.30 Un o'm hargymhellion pwysig yw y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a phartïon perthnasol eraill gymryd camau i wella'r data sydd ar gael. Yn benodol, nid oes data i werthuso sut byddai penderfyniadau mewn un rhan o'r SCT yn gallu

¹⁹ Mae Deddf Enillion Troseddau 2002, a statudau tebyg, yn rhoi'r gallu i atafaelu asedau'r diffynnydd mewn rhai achosion.

²⁰ [Reducing the backlog in criminal courts \(nao.org.uk\)](http://nao.org.uk)

gorfodi costau ar ran arall o'r system, yn enwedig ar gymorth cyfreithiol troseddol.²¹ Ymysg y materion eraill sydd heb fod yn dryloyw iawn ar hyn o bryd y mae'r dull o ddarparu cyngor mewn gorsafoedd heddlu, pa mor gyffredin yw problemau o ran datgelu hwyr neu beidio â datgelu, a beth sy'n achosi hyn; y ffordd o ddyrannu gwaith rhwng cyfreithwyr, cyfreithwyr eiriolwyr, a bargyfreithwyr ac o fewn siambrau bargyfreithwyr; a'r effaith gyffredinol ar gymorth cyfreithiol troseddol o rai penderfyniadau ar restru yn y Llysoedd. Gweler ymhellach Bennod 15 isod.

Y Ffordd Ymlaen

- 1.31 Rwyf wedi ystyried dulliau gwahanol posibl o weithredu yn lle'r model presennol ond, am y rhesymau a roddir ym Mhennod 15, nid wyf yn gweld ei bod yn debygol, ar hyn o bryd o leiaf, y byddai dull sylfaenol wahanol o weithredu, fel ehangu'r PDS ar raddfa fawr er enghraifft, yn welliant ar yr hyn sydd gennym, o ran cost, ansawdd ac effeithlonrwydd, gan gofio hefyd am strwythur gwrthwynebol hirsefydlog y SCT. Yn wir, er gwaethaf yr anawsterau, mae darparwyr, boed yn gyfreithwyr neu fargyfreithwyr, yn cystadlu os nad ar sail pris, ond ar sail ansawdd, gwasanaeth ac enw da, gan amlaf o dan lygad anfaddeugar y gwrandawriad cyhoeddus. Yn fy marn i, mae'r model presennol hefyd wedi profi ei fod yn gallu ymaddasu, ac mae'n ymaddasu o hyd, i'r oes ddigidol gan gynnal ethos system deg o gyfiawnder troseddol.
- 1.32 Yn fy marn i, gwell yw dyfalbarhau â gwelliannau sylweddol i sefydlogi cymorth cyfreithiol troseddol ar ei ffurf bresennol – yn cynnwys mecanwaith ar ffurf Bwrdd Cynghorol a fydd yn gallu diweddu'r system yn gyson, fel y trafodir isod. Er hynny, ym Mhennod 15 rwyf yn trafod gwahanol ffyrdd posibl i ddatblygu'r system ymhellach, er enghraifft drwy Gwmnïau Buddiannau Cymunedol nid er elw, neu fentrau eraill a ariennir drwy grantiau. Rwyf hefyd yn tynnu sylw at wahanol agweddau a ddylai gael eu hystyried gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r LAA er mwyn gwneud y gwaith o weinyddu'r system yn llai beichus heb amharu ar yr ansawdd na'r defnydd o arian cyhoeddus.

Crynodeb o'r Dull o Weithredu a'r Argymhellion

- 1.33 Rwyf o'r farn bod yr Adolygiad hwn yn ymwneud â mwy o lawer na chydabyddiaeth ariannol i gyfreithwyr amddiffyn: mae'n ymwneud hefyd ag effeithiolrwydd y SCT yn ei chyfanrwydd. Nid yw system wrthwynebol y SCT yn gallu gweithredu heb yr amddiffyniad. Pe byddai darparwyr amddiffyn cymorth cyfreithiol troseddol yn methu neu'n cael eu gwanhau'n sylweddol, byddai'r SCT gyfan yn arafu a stopio, gan ddod â chanlyniadau niweidiol amlwg, yng nghyd-destun lleihau'r ôl-groniad yn anad dim. Yn ogystal â hynny, nid cynorthwyo'r amddiffyniad yn unig y mae cymorth cyfreithiol troseddol: mae hefyd yn meithrin nifer mawr o fargyfreithwyr sydd hefyd yn erlyn, a chyfreithwyr ac eraill sydd wedyn yn ymuno â'r CPS, neu awdurdodau eraill sydd ag angen arbenigedd yng nghyfraith trosedd. Mae cymorth cyfreithiol

²¹ Gweler paragraff 1.11 uchod.

troseddol hefyd yn darparu'r maes hyfforddi i nifer sy'n dod yn farnwyr yn ddiweddarach. Y farn a fynegwyd i'r Adolygiad yw nad oes digon o gyfreithwyr trosedd, fel y mae, i ateb y galw.

1.34 Wrth wneud fy argymhellion, rwyf wedi ceisio dilyn dwy egwyddor sy'n ymddangos yn hollbwysig i mi. Yn gyntaf, y dylai'r gydnabyddiaeth ariannol i gyfreithwyr trosedd fod yn gyfryw fel y bydd yn denu cyfreithwyr sydd â'r ddawn a'r gallu sydd eu hangen ar y system, fel y nodwyd yn wir gan y Comisiwn Brenhinol ar Gyfiawnder ym 1993; ac yn ail, bod egwyddor arfau cyfartal – sef yn gyffredinol nad yw'r adnoddau sydd ar gael i'r amddiffyniad i fod yn isradd i'r rheini sydd gan yr erlyniad – yn hanfodol i'r system cyfiawnder troseddol bresennol. I wneud y pwynt yn blaen, os cafodd yr heddlu a'r CPS adnoddau ychwanegol, yna ar sail egwyddor a phragmatiaeth, dylai'r amddiffyniad gael cymorth hefyd.

1.35 Yn gyffredinol, bwriad fy argymhellion yw:

- rhoi cymorth cyfreithiol troseddol ar sail ariannol sydd mor gadarn â phosibl, gyda'r gallu i ddenu a chadw'r talentau sydd eu hangen, a pharchu egwyddor arfau cyfartal;
- ailstrwythuro'r gydnabyddiaeth ariannol i ddarparwyr i dalu am waith a wnaed, dileu cymhellion gwrthnysig a hybu effeithlonrwydd, yn enwedig wrth ymgysylltu'n gynnar a pharatoi achosion;
- canolbwyntio ar y camau cyntaf neu "ben blaen" y system, yn cynnwys gwaith yng ngorsaf yr heddlu, a gwell ymgysylltu rhwng yr amddiffyniad a'r erlyniad, nid yn unig cyn y cyhuddo ond ar ôl cyhuddo hefyd, cyn y gwrandawriad cyntaf yn y Llys Ynadon, ac yn y weithdrefn cyn treial yn Llys y Goron;
- meithrin dull mwy cydgysylltiedig o drafod cymorth cyfreithiol troseddol yn y system cyfiawnder troseddol gyfan, ar lefel genedlaethol a lleol;
- cefnogi datgelu llawn ar y cyfle cynharaf, perchnogaeth ar achosion, ac ymgysylltu cynharach o lawer nag wrth 'ddrws y llys';
- helpu i wella'r cyfathrebu rhwng yr amddiffyniad, ar y naill law, a'r heddlu, y CPS, y Llysoedd a HMPPS yn y drefn honno, ar y llaw arall, gan gadw egwyddor perchnogaeth achosion mewn cof drwy'r amser;
- talu sylw penodol i gyfiawnder ieuenctid;
- delio â materion amrywiaeth sy'n ymwneud â chymorth cyfreithiol troseddol.

1.36 Mae eglurhad o'm casgliadau manwl yn y Penodau sy'n dilyn ac mae rhestr o'm hargymhellion ym Mhennod 16.

Yr Argymhelliad Canolog

1.37 Yr argymhelliad canolog gennyf yw y dylid cynyddu'r cyllid ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol yn gyffredinol i gyfreithwyr a bargyfreithwyr cyn gynted â

phosibl i lefel flynyddol gyson sydd o leiaf 15% yn uwch na'r lefelau presennol, a fyddai'n golygu darparu cyllid blynyddol ychwanegol o tua £135 miliwn y flwyddyn yn fras. Trafodir sut y dylid dosbarthu'r swm hwnnw, a sut y dylid gweithredu'r gwelliannau cysylltiedig yn effeithlonrwydd y gwahanol gynlluniau, ym Mhenodau 7 – 14.

- 1.38 Dylwn bwysleisio mai'r swm o £135 miliwn yw'r lleiaf sydd ei angen yn fy marn i fel cam cyntaf i adfer iechyd y system cymorth cyfreithiol troseddol wedi blynyddoedd o esgeulustod. Os caf ddweud hynny, nid wyf yn gweld y swm hwnnw fel "cynnig agoriadol" ond yn hytrach fel yr hyn sydd angen ei ddarparu, cyn gynted ag y gellir, i alluogi ochr yr amddiffyn ac felly'r SCT gyfan i weithredu'n effeithiol, i ymateb i'r cynnydd yn y galw a ragwelwyd, ac i leihau'r ôl-groniad. Nid wyf yn diystyru o gwbl y posibilrwydd y bydd angen symiau ychwanegol yn y dyfodol i gyflawni'r amcanion hyn er budd y cyhoedd.
- 1.39 Mae hefyd yn dair blynedd ers cyhoeddi'r Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol, a thynnwyd sylw at y problemau sylfaenol am flynyddoedd lawer cyn hynny. Nid oes lle i ragor o oedi yn fy marn i.
- 1.40 Rwyf yn pwysleisio, er hynny, o safbwynt Trysorlys EM a'r trethdalwr, fy mod yn argymhell newidiadau sylweddol ochr yn ochr â hyn yn y system cymorth cyfreithiol troseddol, i gynyddu effeithlonrwydd a rheoli costau, gan awgrymu ffyrdd posibl ymlaen hefyd ym Mhennod 15. Rwyf yn gobeithio y bydd y canlyniad cyffredinol yn cael ei weld fel pecyn o ddiwygiadau sy'n ymestyn yn bellach o lawer na chydabyddiaeth ariannol at welliannau er budd y cyhoedd yn gyffredinol.

Bwrdd Cynghorol

- 1.41 Rwyf am dynnu sylw at un pwynt arall yn y fan hon, fodd bynnag, sef yr angen rwyf yn ei weld am Fwrdd Cynghorol ar gymorth cyfreithiol troseddol, fel yr eglurir ymhellach ym Mhennod 15.
- 1.42 Fel y gwelir ym Mhennod 4 isod, mae hanes cymorth cyfreithiol dros yr 20 mlynedd diwethaf wedi bod ymhell o'r hyn sy'n ddelfrydol. Mae'r cynlluniau'n gaeth i'r gorffennol yn aml ac yn ei chael yn anodd cadw'n wastad ag anghenion y SCT, neu'r newidiadau yn yr hyn sydd o bwys i ddarparwyr. Pan fydd darparwyr yn wynebu anawsterau, mae tuedd i negodiadau gael eu cynnal ar sail ddwyochrog rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r prif ddarparwyr, heb gynnwys rhanddeiliaid a defnyddwyr eraill yn y SCT.
- 1.43 Yn fy marn i, byddai Bwrdd Cynghorol Annibynnol, yn adrodd yn rheolaidd i'r Arglwydd Ganghellor, yn gallu cymryd golwg ehangach, ymgynghori â rhanddeiliaid eraill yn y SCT, helpu i ddatblygu polisi, a meddwl ymlaen llaw am welliannau yn y system a'r data ychwanegol sydd eu hangen. Yn benodol, ni fydd y system cymorth cyfreithiol troseddol yn cael ei hailgodi dros nos, a bydd yn cymryd cryn amser i weithredu argymhellion yr Adolygiad, i'r graddau y byddant yn cael eu mabwysiadu.

- 1.44 Mae hefyd yn ymddangos yn hollbwysig i mi fod ffyrdd mwy cydgysylltiedig o feddwl yn cael eu hyrwyddo ym mhob rhan o'r SCT ar faterion sy'n effeithio ar gymorth cyfreithiol troseddol. Yn fy marn i, byddai'n bwysig bod rhanddeiliaid eraill, yn cynnwys yr heddlu/CPS a'r Llysoedd, yn gallu cymryd rhan yn y Bwrdd Cynghorol ar faterion sy'n effeithio arnynt, fel perchnogaeth ar achosion neu ymgysylltu cynnar er enghraifft, er mwyn meithrin dull mwy cydlynol o ddelio â chymorth cyfreithiol troseddol ac osgoi beirniadaeth lem yr Arglwydd Carter a ddyfynnwyd yn 1.11 uchod. Byddwn yn gobeithio bod modd cryfhau trefniadau tebyg ar lefel leol.
- 1.45 Er mwyn bod yn glir, nid wyf yn gweld y Bwrdd Cynghorol fel "corff adolygu tâl" o'r math a geir mewn rhai sectorau cyhoeddus eraill. Fodd bynnag, fe fyddai'n fforwm lle y gellir dal gweithrediadau cyffredinol y system dan sylw, gyda chymorth data ychwanegol maes o law ynghylch sut mae'r system yn diwallu angen y cyhoedd. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'n ddigon posibl y bydd materion yn codi ynghylch y gydnabyddiaeth ariannol i ddarparwyr, ond nid hynny yw prif ffocws y cynnig.

PENNOD DAU: CASGLU'R DYSTIOLAETH

- 2.1 Gan fod darparwyr cymorth cyfreithiol troseddol yn rhan annatod o'r SCT ac yn ddibynol ar weddill y system honno, a bod y sefyllfa'n amrywio mewn gwahanol rannau o Loegr ac yng Nghymru, mae'r Adolygiad wedi ymgysylltu nid yn unig â'r darparwyr, ond hefyd â'r Heddlu, y CPS, yr Ynadaeth, Barnwriaeth Llys y Goron, GLITEM a'r LAA, ymysg eraill. Cefais y fantais o ymweld ag Abertawe, Birmingham, Bryste, Caer, Caerdydd, Llundain, Manceinion, a Newcastle on Tyne i gael trafodaethau mewn gorsafoedd heddlu ac mewn Llysoedd yn y rhan fwyaf o'r dinasoedd hynny, a hefyd ag ymarferwyr sydd â'u swyddfeydd yno neu mewn ardaloedd cyfagos, yn ogystal â nifer mawr o gyfarfodydd rhithiol â chyfreithwyr a bargyfreithwyr ym mhob rhan o Loegr ac yng Nghymru, Arweinwyr y Cylchdeithiau, academyddion sy'n gweithio yn y maes hwn, a nifer o rai eraill. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn Atodiad B.
- 2.2 Cafodd yr Adolygiad gyflwyniadau gan y prif gyrff proffesiynol a'r prif reoleiddwyr ac mae wedi cwrdd â'r rhain. Cafodd yr Adolygiad 330 o ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth, a chynhaliwyd nifer o astudiaethau ariannol ac astudiaethau eraill i ategu'r Casgliad Data²² a luniwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder drwy gydweithio â Chymdeithas y Cyfreithwyr, Cyngor y Bar, y CPS a'r LAA. Mae'r Adolygiad wedi adeiladu ar y sail honno wrth gynnal Arolwg Ariannol o ffyrmau cyfreithwyr, Astudiaethau Achos o nifer o ffyrmau cyfreithwyr, ac Astudiaeth i ganfod incwm bargyfreithwyr trosedd a ariennir gan y cyhoedd ar ôl talu treuliau. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd nifer o wahanol grwpiau ffocws a chyfweiliadau i ymgysylltu â defnyddwyr, ac arolwg o fyfyrwyr. Ceir y canlyniadau yn y gwahanol Atodiadau sydd wedi'u rhestru yn y fynegai uchod.
- 2.3 Un o ddibenion yr Adolygiad oedd taflu goleuni ar faterion perthnasol, felly ar ôl cael cydsyniad gan y partion cysylltiedig mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gafwyd, heblaw am ymatebion a gafwyd gan unigolion ar-lein, wedi'i chyhoeddi ar-lein ar wefan yr Adolygiad.²³ Nid wyf wedi ceisio crynhoi'r holl ddeunydd hwn, ond mae ar gael i bawb ei ddarllen gan fod hynny'n cael ei weld yn briodol.
- 2.4 Mewn Adolygiad o'r math hwn, mae'n anorffod bod llawer o'r dystiolaeth yn dod oddi wrth y darparwyr, a/neu'n mynegi barn sy'n feirniadol o gyfranogwyr eraill yn y SCT, er enghraifft yr heddlu, y CPS, yr LAA neu swyddogion rhestru sydd dan bwysau. Dylwn ei gwneud yn glir mai Adolygiad yw hwn lle nad yw'r broses yn wrthwynebol nac yn ddyfarnol. Er fy mod yn teimlo dan ddyletswydd i

²² Mae'r Casgliad Data yn grynodedb a luniwyd ar gyfer yr Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol. Mae'n ceisio crynhoi rhai o'r prif eitemau gwybodaeth disgrifiadol sydd ar gael am wasanaethau cyfreithiol troseddol a ariennir gan y cyhoedd.
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/960290/data-compendium.pdf

²³ Gwefan yr Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol:
<https://www.gov.uk/government/groups/independent-review-of-criminal-legal-aid>

gyhoeddi'r dystiolaeth, nid yw'n fwriad gennyf feirniadu. Nid wyf yn dod i unrhyw "gasgliadau" ynghylch pwyntiau sy'n destun dadl, ac ni fyddwn wedi gallu gwneud hynny ychwaith, gan nad yw strwythur yr Adolygiad na'r amserlen fer yn caniatáu ymchwil fanwl i bob pwynt a godwyd. Yr hyn y gallaf ei ddweud, fodd bynnag, yw bod cydnabyddiaeth glir a chyffredinol ymysg y darparwyr amddiffyn fod pawb o fewn y SCT yn ymgodymu â phroblemau tebyg, o ganlyniad i gyllido annigonol ac, yn fwy diweddar, effaith y pandemig. Yn ystod yr Adolygiad, roeddwn hefyd wedi dod ar draws nifer mawr o swyddogion heddlu, erlynwyr, swyddogion llys, staff yr LAA a nifer o staff ymroddedig eraill yn cyflawni eu dyletswyddau mewn modd tra phroffesiynol o dan amgylchiadau anodd iawn. Fy unig fwriad wrth fynegi barn a gwneud sylwadau yn yr Adolygiad hwn yw dod o hyd i ffyrdd adeiladol ymlaen.

- 2.5 Rwyf hefyd wedi ceisio cofio mai'r hyn sydd bwysicaf yw buddiannau'r rheini sydd heb lais gan mwyaf, neu sydd heb lais uniongyrchol o leiaf. Y rhain yw'r cyhoedd, sy'n disgwyl i'r SCT gynnal cymdeithas wâr sy'n ufudd i'r gyfraith; y defnyddwyr, yn cynnwys y rheini sy'n "mynd i helynt gyda'r heddlu", boed fel rhai dan amheuaeth neu'n ddiweddarach fel diffynyddion, dioddefwyr troseddu a'u teuluoedd; a'r trethdalwr, y mae ei barodrwydd i ariannu cymorth cyfreithiol troseddol yn sail i'r system gyfan.

Strwythur yr Adroddiad hwn

- 2.6 Gan fod pob Llywodraeth yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch cyllid cyhoeddus am nad oes byth ddigon o arian i ateb yr holl alwadau, mae Pennod 3 isod yn egluro beth yw'r prif resymau o ran polisi a phragmatiaeth yn fy marn i dros gyllido cymorth cyfreithiol troseddol. Ar y sail bod cynllunio ar gyfer y dyfodol yn haws o wybod am y gorffennol, mae Pennod 4 yn amlinellu'r hanes cymysg yn aml a fu i gymorth cyfreithiol troseddol. Mae Pennod 5 yn grynodeb byr o'r ffordd y mae'r SCT yn effeithio ar gymorth cyfreithiol. Mae Penodau 6 a 7 yn ymdrin â chynaliadwyedd ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol a'm hargymhellion mewn cysylltiad â hynny. Mae Penodau 8 i 12 yn delio yn eu tro â Chyngor a Chynhorthwy yng Ngorsaf yr Heddlu, Ymgysylltu Cynnar, y Llys Ynadon, y Llys Ieuencid a'r LGFS. Mae Pennod 13 yn ymdrin â chynaliadwyedd y Bar Troseddol a diwygio'r AGFS. Mae Pennod 14 yn disgrifio ffyrdd eraill o ddefnyddio cymorth cyfreithiol mewn perthynas ag apelau, VHCCs, cyfraith carchardai a chydabyddiaeth ariannol i arbenigwyr. Mae Pennod 15 yn trafod y Bwrdd Cyngorol a gynigir, a gwahanol fodelau eraill ar gyfer y dyfodol. Trafodir materion trawsbynciol yn cynnwys Amrywiaeth lle maent yn codi yn y Penodau perthnasol, ond mae crynodeb ohonynt ym Mhennod 15 ynghyd â nifer o faterion eraill a oedd heb eu trafod. Mae fy argymhellion wedi'u rhestru ym Mhennod 16.
- 2.7 Yn olaf, hoffwn ddiolch o galon i bawb a ymatebodd i'r Adolygiad neu a gymerodd ran mewn trafodaeth, y Barnwyr a'r Ynadon a roddodd yn hael o'u hamser, ac yn anad neb i'r swyddogion dalfa, cynghorwyr cyfreithiol, tywyswyr, a nifer mawr o rai eraill a gynorthwyodd yr Adolygiad. Hoffwn ddiolch hefyd i Banel Herio yr Adolygiad, a hoeliodd fy sylw ar y prif faterion ac, wrth gwrs, i

holl aelodau tîm yr Adolygiad, o dan arweiniad Lawrence Price ar y dechrau ac wedyn Paul Daly, am eu gwaith rhagorol. Fodd bynnag, fi yn unig sydd biau'r farn a fynegir.

PENNOD TRI: PAM CYLLIDO CYMORTH CYFREITHIOL TROSEDDOL?

- 3.1 Oherwydd ei hanes helbulus, roedd i'w ddisgwyl y byddai rhai ymatebwyr yn cwestiynu'n blwmp ac yn blaen a oedd y Llywodraeth wedi ymrwymo o ddifrif i gyllido cymorth cyfreithiol troseddol. Pam, yn ôl un ymatebydd, y dylai wylltio bellach yn erbyn yr hyn sy'n anochel?
- 3.2 Er y byddai llawer yn credu ei bod yn amlwg y dylai'r Wladwriaeth gyllido amddiffyniad y rheini heb fodd sy'n wynebu cyhuddiad o drosedd, dylai rhywun hefyd wynebu'r farn a fynegir ar goedd mewn rhai cylchoedd fod talu am gyfreithwyr i amddiffyn troseddwr tybiedig yn achos llai haeddiannol na nifer o achosion eraill y gellid dadlau eu bod â mwy o hawl i dderbyn adnoddau cyhoeddus.
- 3.3 Yr ateb byr i'r cwestiwn "Pam cyllid cymorth cyfreithiol troseddol?", yw bod Adran 1 o LASPO yn ei gwneud yn ofynnol i'r Arglwydd Ganghellor drefnu bod system ar gael i ddarparu cyngor, cynhorthwy a chynrychiolaeth gyfreithiol droseddol. Yn ogystal â hyn, mae hawl gyfansoddiadol i gael mynediad at gyfiawnder²⁴ ac i gael treial teg.²⁵ Fodd bynnag, nid yw'r ateb byr hwnnw'n egluro'n llwyr pam mae'n hanfodol cyllido cymorth cyfreithiol troseddol mewn modd priodol.
- 3.4 Yn gyntaf, mae system gyfiawnder wrthwynebol yng Nghymru a Lloegr lle mae un ochr, yr erlyniad, yn gosod ei thystiolaeth o flaen penderfynwr diduedd – y fainc yn y Llys Ynadon neu'r rheithgor yn Llys y Goron – tra bydd yr ochr arall, yr amddiffyniad, yn herio tystiolaeth yr erlyniad ac yn cyflwyno ei hochr hi i'r stori. Yn y byd modern, mae proses o'r fath wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth bod cyfle gweddol gyfartal gan y ddwy ochr i gyflwyno eu hachos, ac i gael at yr arbenigedd sydd ei angen i wneud hynny. Mewn geiriau eraill, dylid cael cydraddoldeb arfau rhwng y partion. Pe na byddai felly, byddai'r canlyniad yn cael ei weld yn annheg, ac yn tanseilio hyder yn y system cyfiawnder troseddol, sy'n delio'n bennaf â diffynyddion sy'n cael cymorth cyfreithiol.
- 3.5 Pe byddai hyder yn y system cyfiawnder troseddol byth yn cael ei niweidio'n ddifrifol yng ngolwg rhannau helaeth o'r gymuned, gallai'r canlyniadau posibl fod yn drychinebus. Er ei bod yn gweithio yn y cefndir gan mwyaf, a'i bod yn llawer llai gweladwy i'r cyhoedd na'r sector iechyd neu addysg er enghraifft, system cyfiawnder troseddol sy'n deg a dibynadwy yw'r sylfaen i gymdeithas sifil, ac arni hi y mae cyfraith a threfn, a rhyddid personol, yn dibynnu yn y pen draw. O'r safbwynt hwn, mae cymorth cyfreithiol troseddol yn hanfodol i gynnal gymdeithas fodern, heddychlon a democrataidd.

²⁴ R (UNISON) V Lord Chancellor [2017], UKSC 51. <https://www.supremecourt.uk/cases/uksc-2015-0233.html>

²⁵ Gweler yn gyffredinol Bingham *The Rule of Law* (2010) Pennod 9; gweler hefyd Erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, 1950, sy'n adlewyrchu egwyddorion cyfraith gyffredin a chyfraith sifil https://www.echr.coe.int/documents/convention_eng.pdf tudalen 11

- 3.6 Yn ail, mewn cymdeithas ddemocrataidd fodern mae pob unigolyn yn gydradd o flaen y gyfraith, beth bynnag fo'i amgylchiadau personol neu gefndir. Ni pherchir yr egwyddor cydraddoldeb honno os mai rhai'n unig, ond nid eraill, sydd â'r modd i'w hamddiffyn eu hunain rhag cyhuddiad o drosedd, gan arwain eto at driniaeth anghyfartal ac ymdeimlad dwys o anghyfiawnder. Mae cymorth cyfreithiol troseddol yn cynnal egwyddor cydraddoldeb ac ufudd-dod i reolaeth y gyfraith, sydd hefyd yn sylfaen i gymdeithas gyfan.
- 3.7 Ategir yr ystyriaethau hyn gan y rhagdybiaeth o ddieuogrwydd yn y gyfraith gyffredin, gan fod yr egwyddor bod rhywun "yn ddieuog nes ei brofi'n euog" yn rhan o'r gyfraith gyffredin ers cyn cof. Yr un mor sylfaenol yw'r egwyddor gysylltiedig mai lle'r erlyniad yw profi ei achos y tu hwnt i amheuaeth resymol, a defnyddio'r term arferedig. Os nad yw diffynnydd, oherwydd diffyg modd, wedi'i alluogi i herio achos yr erlyniad, yna ychydig iawn o werth fydd i'r egwyddorion sylfaenol hyn sy'n cael eu parchu ar lefel ryngwladol fel y safon aur mewn cyfiawnder troseddol. Byddai canfyddiad bod Cymru neu Loegr wedi troi cefn neu wedi diraddio'r sylfeini hirsefydlog hyn i'r gyfraith gyffredin yn ymddangos yn niweidiol iawn ar lefel ddomestig a rhyngwladol.
- 3.8 Mewn perthynas agos â'r uchod, mae cymorth cyfreithiol troseddol yn diogelu trefn briodol y gyfraith. Yn yr un modd â meysydd eraill mewn bywyd, bydd partiön yn fwy parod i dderbyn penderfyniad anffafriol os ydynt yn teimlo eu bod wedi cael gwrandawriad priodol mewn proses deg. Yng ngolwg llawer o ddifffynyddion, dioddefwyr a'u teuluoedd, mae'r ffaith eu bod wedi cael gwrandawriad teg cyn bwysiced yn aml â'r canlyniad ei hun. Os na fydd y broses a ddilynir yn un deg, fe geir ymdeimlad ysol o fod wedi cael cam o ganlyniad i hynny.
- 3.9 Ceir gwell canlyniadau hefyd o ddilyn y drefn briodol. Os na ddilynir y drefn briodol, wynebir risgiau o ran gwneud camgymeriadau, neu gamweinyddu cyfiawnder, a fydd yn gwneud niwed mawr i'r unigolion cysylltiedig ac yn costio'n ddrud iawn i'r pwrs cyhoeddus wrth wneud iawn. Mae'r drefn briodol yn bwysicach fyth lle mae anghydraddoldeb clir rhwng y partiön, er enghraifft pan fydd rhywun dan amheuaeth yn cael ei ddal mewn gorsaf heddlu.
- 3.10 Mae'r ystyriaethau hyn yn galw am gnewyllyn o gyfreithwyr da sy'n fedrus yn y gyfraith gyffredin i gadw'r system droseddol yn weithredol, ac mae angen i'r cyfreithwyr hynny ennill profiad ar bob lefel yn y system gyfiawnder. Er enghraifft, bydd bargyfreithwyr yn gwneud gwaith a ariennir gan y cyhoedd dros y erlyniad a thros yr amddiffyniad. Mae angen cyfreithwyr trosedd profiadol a galluog hefyd oddi mewn i'r CPS, y Swyddfa Twyll Difrifol (SFO), a nifer o awdurdodau eraill. Mae gwaith cymorth cyfreithiol troseddol yn faes hyfforddi hefyd i farnwyr y dyfodol. Os na fydd gyrfa mewn gwaith trosedd a ariennir gan y cyhoedd yn gallu denu digon o bobl sydd â'r ddawn a'r gallu angenrheidiol, am ba reswm bynnag, bydd y system gyfiawnder ei hun yn dihoeni'n araf deg a fesul tipyn, nid yn unig oherwydd prinder cyfreithwyr amddiffyn ond hefyd oherwydd prinder erlynwyr ac, yn y pen draw, diffyg barnwyr profiadol. Fel y nodwyd ym mharagraff 1.33 uchod, mae cyllido cymorth cyfreithiol troseddol yn

ymwneud nid yn unig â chyllido'r amddiffyniad; mae'n sicrhau dyfodol cyfiawnder troseddol yn ei gyfanrwydd.

- 3.11 Yn ogystal â hyn, ac o safbwynt tra gwahanol, er eu bod yn cael eu talu gan y Wladwriaeth, mae cyfreithwyr amddiffyn da hefyd yn arbed arian cyhoeddus. Ychydig o ddiffynyddion sy'n gallu deall y broses gyfreithiol neu reolau tystiolaeth, neu lawn werthfawrogi'r opsiynau sydd ar gael iddynt yng ngolwg achos yr erlyniad. Yn wir, mae nifer mawr o ddiffynyddion sydd ag anawsterau dysgu, problemau iechyd meddwl, problemau dibyniaeth neu afael cyfyngedig ar y Saesneg. Yn hyn o beth, mae cyfreithwyr amddiffyn yn chwarae rhan hollbwysig wrth alluogi'r system i weithredu drwy dreulio amser gyda'r cleient ac wedyn dadlau ei achos mor glir a chryno â phosibl.²⁶
- 3.12 Mae'r pwynt bod cyfreithwyr amddiffyn yn arbed arian cyhoeddus yn cwmparu mwy nag eiriolaeth draddodiadol. Un agwedd bwysig ar gyfiawnder troseddol modern yw'r system o ddisgowntiau dedfrydu sy'n golygu mai po cynharaf y bydd y diffynnydd yn pledio'n euog, mwyaf fydd y disgownt: er enghraifft, os cofnodir ple yn y gwrandawriad cyntaf yn y Llys Ynadon, bydd yn gymwys am y disgownt mwyaf o hyd at un rhan o dair. Nid yw'r system hon yn gallu gweithio'n deg ac effeithiol os nad yw'r diffynnydd yn gallu cael cyngor gan gyfreithiwr medrus ar y cam cynharaf posibl, yn dadansoddi'r dystiolaeth a'r canlyniadau posibl. Os bydd cyngor clir a gwrthrychol yn arwain at ble euog yn gynharach nag a fyddai wedi digwydd fel arall, neu at ollwng yr achos gan yr erlyniad neu dderbyn ple ar gyhuddiad llai difrifol, ceir arbedion sylweddol – ar amser yr heddlu, yn y CPS, ar amser ac adnoddau'r Llys, o ran osgoi gofid ac anhwylustod i ddioddefwyr a thystion – heb sôn am leihau'r pwysau ar yr ystad garchardai os bydd y diffynnydd yn gymwys i gael dedfryd fyrrach drwy hyn.
- 3.13 Yn ogystal â hynny, mae'r SCT fodern yn ceisio meithrin mwy o gydweithredu rhwng yr erlyniad a'r amddiffyniad. Wrth reoli achosion ac ymgysylltu rhwng y partion, y nod yw sicrhau y bydd unrhyw dreial a geir yn y pen draw yn rhedeg yn esmwyth, ac y bydd y partion yn cael cyfle ymlaen llaw i ystyried canlyniadau eraill, ple posibl er enghraifft neu, yn wir, a ddylai'r erlyniad ddod i ben. Mae'n sicr y bydd achosion lle nad yw ymgysylltu o'r fath er y budd gorau i'r diffynnydd. Ond ni fydd ymgysylltu cynnar yn gallu dechrau o gwbl os na fydd yr amddiffyniad wedi cael cyllid i gymryd rhan.

²⁶ Gweler Adolygiad Jeffrey, 2016, Cyflwyniad. *"Effective advocates simplify rather than complicate; can see the wood for the trees and enable others to do so; and thereby can contribute to just outcomes and save court time and money"*.

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/310712/jeffrey-review-criminal-advocacy.pdf.

Gweler hefyd Leveson yn achos *R v Crawley* [2014] EWCA Crim 1028 ym mharagraff 57 *"The better the advocates, the easier it is to concentrate on the real issues in the case, the more expeditious the hearing, and the better the prospect of true verdicts according to the evidence. Poor quality advocates fail to take points of potential significance, or take them badly, leading to confusion and, in turn, appeals and, even more serious, leading to potential miscarriages of justice. We have no doubt that it is critical that there remains a thriving cadre of advocates capable of undertaking all types of publicly funded work, developing their skills from the straightforward work until they are able to undertake the most complex."* <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCA/Crim/2014/1028.html>

- 3.14 Cadarnheir yr ystyriaethau uchod gan y digideiddio yn y SCT. Ers rhai blynyddoedd, mae'r System Achosion Digidol (DCS) wedi cymryd lle gweithdrefnau ar bapur i raddau helaeth yn y Llysoedd trosedd. Ar hyn o bryd, mae GLITEM yn cyflwyno'r Llwyfan Cyffredin, set o gynhyrchion sydd â'r bwriad o ddigideiddio hynt achosion drwy'r SCT fesul cam a hwyluso "pwyntiau cyffwrdd" rhwng y gwahanol asiantaethau. At hynny, yn ystod y pandemig sefydlodd GLITEM y Llwyfan Fideo Cwmwl (CVP) i hwyluso gweithio o bell yn y SCT. Mae'n amlwg na fydd dim yn gweithio os na fydd y cyfreithwyr amddiffyn yn cael mynediad at y systemau hyn. Mewn rhai achosion mae'n anodd bellach i ddiffynnydd heb gynrychiolaeth allu cymryd rhan yn llawn mewn cyfiawnder troseddol os na fydd yn gallu mynd at gyfreithwyr sydd â chysylltiad â'r systemau digidol hyn.
- 3.15 Ar ben hynny, mae llawer o'r dystiolaeth mewn achosion modern ar ffurf glyweledol neu ddigidol. Rhaid ianlwytho'r holl dystiolaeth hon i'r systemau sy'n gyffredin i'r llysoedd, yr erlyniad a'r amddiffyniad. Yma eto, mae angen i ddiffynnyddion gael eu cynrychioli gan gyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol sy'n cael mynediad at y systemau digidol hyn ac sydd â'r modd i'w gweithredu a thalu amdanynt.
- 3.16 Yn olaf, ond nid yn lleiaf, ceir amgylchiadau lle bydd datrysiadau y tu allan i'r llys, fel datrysiad cymunedol neu fathau eraill o ddargyfeirio oddi wrth y system llysoedd, yn opsiwn synhwyrol, yn enwedig ar gyfer diffynnyddion ifanc. Bydd troseddu yn aml yn gysylltiedig â phroblemau lluosog yng nghartref neu gefndir y diffynnydd, ac mae dull "cydgysylltiedig" o ddelio ag achosion sylfaenol trosedd yn rhan o bolisi cyhoeddus. Yma eto, mae cyfreithiwr cymorth cyfreithiol troseddol da yn gallu chwarae rhan fuddiol, er enghraifft drwy eirioli i'r heddlu o blaid canlyniad dargyfeiriol a bod mewn cysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau cymorth eraill. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig wrth ymgysylltu cyn cyhuddo lle mae rhai dan amheuaeth yn cael eu rhyddhau cyn cwblhau ymchwiliad.²⁷
- 3.17 Unwaith eto, gellir arbed adnoddau cyhoeddus sylweddol. Un enghraifft benodol yw'r defnydd o rybuddiadau, sy'n cael ei ddiffinio ymhellach yn awr gan Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd²⁸ sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd. Er mwyn bod yn gymwys i gael rhybuddiad, rhaid i'r troseddwr gyfaddef ei fod yn euog; ond os gofynnir am gyfaddef euogrwydd heb ddarparu mynediad effeithiol at gyngor cyfreithiol, nid yw hyn yn debygol o arwain at ganlyniadau boddhaol.

Casgliad

- 3.18 Ar wahân i faterion o egwyddor, y byddai llawer yn eu gweld yn brif ystyriaeth, mae rhesymau pragmataidd cryf o blaid cyllido cymorth cyfreithiol troseddol mewn modd priodol. Mae polisi o danariannu cymorth cyfreithiol troseddol yn

²⁷ Rwyf hefyd yn trafod barnau pellach ar y pwynt hwn ym Mhennod 15 isod

²⁸ Gweler rhan 6 o Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd ([Police, Crime, Sentencing and Courts Bill - Parliamentary Bills - UK Parliament](#))

creu risg ddifrifol o gael SCT sy'n camweithio. Yn fwy penodol, mae tanariannu cymorth cyfreithiol troseddol yn mynd yn gwbl groes i bolisi'r SCT o geisio gwell ymgysylltu a gwaredu cynharach ar achosion, agwedd sydd o bwys neilltuol o ystyried yr ôl-groniad presennol yn y Llysoedd.

- 3.19 O dan yr amgylchiadau presennol, o ystyried gwendid y system sydd wedi'i disgrifio'n fanwl isod, y mae disgwyl bellach iddi ymdopi â galw mwy o lawer, nid wyf yn gweld unrhyw ddewis ymarferol arall heblaw darparu cyllid priodol ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol yng Nghymru ac yn Lloegr, a'i adfywio.

PENNOD PEDWAR: HANES BYR CYMORTH CYFREITHIOL TROSEDDOL A DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG

- 4.1 Mae pryderon Llywodraeth ynghylch cost cymorth cyfreithiol troseddol yn dyddio'n ôl 30 mlynedd o leiaf. Mae crynodeb o'r hanes anodd ac anarferol hwn yn cynnig gwybodaeth gefndir bwysig ar gyfer deall y materion presennol.

1945 hyd y 1990au

- 4.2 Sefydlwyd y trefniadau i sicrhau bod cymorth cyfreithiol troseddol (a sifil) ar gael yn gyffredinol, yn amodol ar brawf modd, a phrawf "buddiannau cyfiawnder", o dan Ddeddf Cymorth a Chyngor Cyfreithiol 1949, yn dilyn yr adroddiad gan Bwyllgor Rushcliffe ym 1945.²⁹ Roedd Pwyllgor Rushcliffe wedi dewis o blaid darparu cymorth cyfreithiol drwy ddarparu preifat gan ddefnyddio strwythur presennol y proffesiwn cyfreithiol, sef cyfreithwyr a bargyfreithwyr, a'u talu fesul achos. Mae'r strwythur sylfaenol hwn wedi aros yr un fath byth ers hynny.
- 4.3 Nid oedd darpariaethau Deddf 1949 wedi'u gweithredu'n llawn am rai blynyddoedd, ond erbyn y 1960au byddai cymorth cyfreithiol yn cael ei roi fel arfer i unrhyw un heb fodd a oedd yn wynebu treial drwy ddiad yn Llys y Goron.³⁰ Nid tan y 1970au y byddai cymorth cyfreithiol yn cael ei roi fel arfer yn y Llysoedd Ynadon.
- 4.4 Roedd penderfyniadau i roi cymorth cyfreithiol mewn achosion penodol yn cael eu gwneud gan y llysoedd (gan y clerod llys mewn gwirionedd), gan gymhwyso'r meini prawf cymhwysra ar y pryd o dan y prawf modd, a'r hyn a elwir yn egwyddorion Widgery, a sefydlwyd ym 1965, o dan y prawf buddiannau cyfiawnder.
- 4.5 Yn ôl egwyddorion Widgery, sydd bellach wedi'u hadlewyrchu yn LASPO, bydd y prawf buddiannau cyfiawnder wedi'i fodloni os yw'r diffynnydd o'i gael yn euog yn debygol o golli ei ryddid, os yw o dan ddedfryd ohriedig bresennol, os yw'n debygol o golli ei fywoliaeth, neu os yw'n debygol o brofi niwed difrifol i'w enw da; pa un a yw'r achos yn ymwneud â chwestiwn cyfreithiol pwysig; pa un a yw'n bosibl na fydd y diffynnydd yn gallu deall y gweithrediadau neu gyflwyno ei achos ei hun; pa un a fydd tystion yn cael eu croesholi; neu a yw er budd trydydd parti i'r diffynnydd gael ei gynrychioli.³¹
- 4.6 O'r 1970au ymlaen, am fod cymorth cyfreithiol sifil a throseddol ar gael yn fwy eang, cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y cyfreithwyr a bargyfreithwyr, a

²⁹ Cyn yr Ail Ryfel Byd, roedd cynhorthwy cyfreithiol di-dâl ar gael i raddau cyfyngedig ar gyfer treialon o flaen rheithgor o dan Ddeddfau Amddiffyn Carcharorion Tlawd 1903 a 1930.

³⁰ Yn y cyfnod hwn y Brawdlysoedd a'r Llysoedd Chwarter, a ddisodlwyd gan Lys y Goron o dan Ddeddf Llysoedd 1971

³¹ Gweler bellach LASPO, adran 17(2) ([Legal Aid, Sentencing and Punishment of Offenders Act 2012 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk/ukpga/2012/17/section/17))

chynnydd yn y gwariant ar gymorth cyfreithiol. Cyflwynwyd y cynllun cyfreithiwr ar ddyletswydd i helpu diffynyddion a oedd heb eu cynrychioli yn y Llysoedd Ynadon ym 1983. Sefydlwyd cynllun cyfreithiwr ar ddyletswydd yr orsaf heddlu ym 1986, yn dilyn y diwygiadau a gyflwynwyd yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE).

- 4.7 Ym 1986 daeth y CPS yn gyfrifol am yr holl erlyniadau, boed yn dditiadwy, neilllog neu ddiannod,³² llawer ohonynt yn rhai a oedd wedi'u trafod o'r blaen gan adrannau erlyn yr heddlu ac, yn y Llysoedd Ynadon, gan y swyddogion heddlu eu hunain yn aml.
- 4.8 Ym 1988 roedd y Bwrdd Cymorth Cyfreithiol (LAB) a oedd newydd ei sefydlu wedi cymryd drosodd y gweinyddu ar gymorth cyfreithiol o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol 1988. Roedd yr LAB wedi'i rwymo i gyllido unrhyw sefydliad a oedd yn cyflawni gwaith cymorth cyfreithiol troseddol, ond roedd y penderfyniad i roi cymorth cyfreithiol wedi aros yn nwylo'r llysoedd. Roedd y gydnabyddiaeth ariannol i ddarparwyr wedi'i seilio'n bennaf ar gyfraddau yr awr ac roedd yr LAB yn asesu pob bil oddi wrth yr holl ddarparwyr ar sail ei resymoldeb.
- 4.9 Erbyn y 1990au roedd cryn bryder ynghylch cost cymorth cyfreithiol troseddol, yn enwedig bod cymorth cyfreithiol yn cael ei roi mewn achosion anhaeddiannol. Yn ôl un sylwebydd adnabyddus "By the late 1980s government spending on criminal legal aid had become a national scandal".³³ Gwrthododd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol gymeradwyo Cyfrifon Dyraniadau'r Arglwydd Ganghellor ar gyfer 1990-91.

Diwygio ffioedd yn y 1990au

- 4.10 Ym 1991 cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd, yr Arglwydd Mackay o Clashfern, ei fwriad i gyflwyno ffioedd safonol ar gyfer cyfreithwyr sy'n gwneud gwaith cymorth cyfreithiol troseddol. Roedd hyn wedi sbarduno gwrthwynebiad cryf a chais aflwyddiannus am adolygiad barnwrol. Dyfalbarhaodd yr Arglwydd Ganghellor, gan ddweud yn Ionawr 1993 "The normal basis for paying lawyers for legal aid work must become a standardised fee, set at a level which will attract enough lawyers of appropriate quality to do legal aid work".³⁴ Roedd y Comisiwn Brenhinol ar Gyfiawnder Troseddol ym 1993 hefyd o blaid cyflwyno ffioedd safonol, a dywedodd yn benodol:

*"The fees should be kept under review to ensure their adequacy in attracting sufficient numbers of competent solicitors, properly trained, to perform this very necessary work..."*³⁵

- 4.11 Cyflwynwyd ffioedd safonol am waith cyfreithwyr mewn llysoedd ynadon ym 1993. Yr un yn y bôn yw'r system a fabwysiadwyd bryd hynny â'r un a geir

³² Gweler Pennod 5 isod

³³ Joshua Rosenberg, *The Search for Justice* (1994) tudalennau 246-247

³⁴ *The Times*, 22 Ionawr 1993

³⁵ Adroddiad y Comisiwn Brenhinol ar Gyfiawnder Troseddol 1993, tudalen 118.

<https://www.gov.uk/government/publications/report-of-the-royal-commission-on-criminal-justice>

heddiw: ffi safonol is sydd wedi'i bwriadu ar gyfer y rhan fwyaf o achosion; ffi safonol uwch os bydd y gwaith a wnaed, a gyfrifir ar sail cyfraddau yr awr a thaliadau diffiniedig, yn cyrraedd lefel benodol; a ffi ansafonol a asesir fesul achos i ddelio ag achosion mwy anarferol.

- 4.12 O 1 Ionawr 1997, sefydlwyd cynllun ffioedd sefydlog, sef yr AGFS, ar gyfer eiriolaeth gan fargyfreithwyr a chyfreithwyr eiriolwyr yn Llys y Goron³⁶. Roedd yr AGFS gwreiddiol yn pennu'r ffi ar sail categori'r drosedd; y canlyniad, sef a gafwyd ple euog, treial chwâl, neu dreial; a oedd yr eiriolwr yn Gwnsler y Frenhines neu'n eiriolwr o fath arall; hyd y treial; y PPE; a nifer tystion yr erlyniad.³⁷ Defnyddiwyd gwahanol fersiynau o'r AGFS byth ers hynny. Bryd hynny roedd yr AGFS yn gymwys dim ond i dreialon hyd at 10 niwrnod o hyd ac achosion â llai na 1000 o dudalennau o PPE. Ers hynny, ehangwyd cwmmpas yr AGFS dros y blynyddoedd ac mae bellach yn cynnwys holl waith Llys y Goron heblaw VHCCs, sydd fel arfer yn golygu cynnal treial sy'n para'n hirach na 60 diwrnod.

Deddf Mynediad at Gyfiawnder 1999

- 4.13 Roedd Deddf Mynediad at Gyfiawnder 1999 wedi sefydlu'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC) yn lle'r LAB. Roedd yr LSC i redeg Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol, ochr yn ochr â Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol ar gyfer materion sifil. Roedd y gwasanaethau hyn i'w seilio ar gontractau a wnaed gan yr LSC â chyfreithwyr mewn ymarfer preifat, sefydliadau a ariennir gan elusennau, neu gyfreithwyr cyflogedig sy'n cael eu talu gan y Llywodraeth. Sefydlwyd Contract Troseddol Cyffredinol o dan Ddeddf 1999, a'r SCC presennol a'i dilynodd yw'r sail o hyd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol gan gyfreithwyr.³⁸
- 4.14 Roedd Deddf 1999 hefyd wedi creu'r PDS, i'w redeg gan yr LSC, a oedd yn cynnwys cyfreithwyr cyflogedig a ariennir gan y cyhoedd a ddarparai wasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol, wedi'i drefnu'n bennaf yn debyg i ffyrm cyfreithwyr. Ar ôl ei sefydlu i ddechrau mewn wyth swyddfa, a ostyngwyd i bedair wedyn (yn Abertawe, Cheltenham, Darlington a Phontypridd) a chyda rhai eiriolwyr cyflogedig yn gwneud gwaith yn Llys y Goron, mae'r PDS wedi parhau'n sefydliad bach. Mewn arolwg a gynhaliwyd gan yr LSC yn 2008, daethpwyd i'r casgliad nad oedd tystiolaeth bod y PDS yn gallu darparu gwasanaethau amddiffyn troseddol ar gost gymesur â'r rheini a gynigir gan ddarparwyr preifat.

Adroddiad Auld (2001)

³⁶ Rhoddwyd hawliau i ymddangos mewn llysoedd uwch i gyfreithwyr eiriolwyr o dan Ddeddf y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990.

³⁷ [The Legal Aid in Criminal and Care Proceedings \(Costs\) \(Amendment\) \(No. 2\) Regulations 1996 \(legislation.gov.uk\)](http://www.legislation.gov.uk). Ynghylch y fersiwn wedi'i diweddaru o'r AGFS, gweler Pennod 13 isod.

³⁸ Gweler Pennod 5 isod.

- 4.15 Ym marn y Gwir Anrhydeddus Syr Robin Auld, yn ei Adolygiad o'r Llysoedd Trosedd a gyhoeddwyd yn 2001,³⁹ yr elfen allweddol mewn proses droseddol gyfiawn ac effeithlon yw gwaith paratoi da ar gyfer achosion a phennu'r materion yn yr achos yn gynnar. Un o'r pethau hanfodol i gyflawni hyn yw ***“experienced and motivated defence lawyers who are adequately paid for pre-trial preparation”... “the general thrust of the criminal graduated fees scheme... is fundamentally flawed in that it does not provide an adequate reward or incentive for preparatory work”***. (pwyslais wedi'i ychwanegu)

Diwygiadau 2005/2008

- 4.16 Ar ddechrau'r 2000au roedd y Llywodraeth yn pryderu o hyd ynghylch cost cymorth cyfreithiol. Yn ôl *A Fairer Deal for Legal Aid* a gyhoeddwyd yn 2005,⁴⁰ roedd gwariant ar gymorth cyfreithiol troseddol wedi codi o tua £900 miliwn yn 1997/98 i £1.2 biliwn yn 2004/05 er mai ychydig o gynnydd a gafwyd yn nifer yr achosion. Roedd y gwariant yn Llys y Goron wedi cynyddu 65 y cant yng nghyd-destun nifer sefydlog o achosion. Roedd yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Falconer o Thoroton bellach, wedi pwysleisio bod tuedd yn y system cymorth cyfreithiol *“towards court-based outcomes and insufficient emphasis on resolving problems swiftly or without recourse to litigation. A small number of very expensive criminal cases absorb too great a share of the budget.”*⁴¹
- 4.17 Prif fyrddyn cynigion y Llywodraeth oedd cyflwyno cystadleuaeth ar sail prisiau yn y broses o gaffael gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol drwy wneud contractau bloc, awgrym a godwyd yn gyntaf ym 1995 ac a ragwelwyd yn Neddf 1999. Gan gydnabod yr anawsterau ymarferol, sefydlodd y Llywodraeth Adolygiad o dan arweiniad yr Arglwydd Carter o Coles i wneud argymhellion pendant.

Adolygiad yr Arglwydd Carter (2006)

- 4.18 Nod Adolygiad Carter⁴² oedd sicrhau canlyniad wedi'i seilio ar y farchnad a fyddai yn ei hanfod yn golygu rhagor o gamau i fabwysiadu ffioedd sefydlog lle bynnag roedd hynny'n ymarferol, a system Tendro Gwerth Gorau (BVT) ynghyd â sicrhau ansawdd drwy adolygu gan gymheiriaid. Bwriad y system BVT, ymysg pethau eraill, oedd sicrhau arbedion maint drwy leihau nifer y ffyrniau cyfreithwyr. Fodd bynnag, roedd y system BVT wedi wynebu problemau ymarferol a gwrthwynebiad gan ddarparwyr, wedi'i seilio'n bennaf ar ofnau y byddai rhai darparwyr yn gwneud cynigion anymarferol o isel wrth dendro, gan ddisodli ffyrniau cwbl hyfyw, a'u cael eu hunain wedyn heb y gallu i gael

³⁹ [Review of Criminal Courts](https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/+http://www.criminal-courts-review.org.uk/ccr-00.htm), Pennod 10, paragraff 13.
<https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/+http://www.criminal-courts-review.org.uk/ccr-00.htm>

⁴⁰ Yr Adran Materion Cyfansoddiadol, *A Fairer Deal for Legal Aid*, 2005.
<https://www.gov.uk/government/publications/a-fairer-deal-for-legal-aid>

⁴¹ *A Fairer Deal for Legal Aid* ar dudalen 5

⁴² Adolygiad Carter:
<https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20081205143452/http://www.legalaidprocurementreview.gov.uk/docs/carter-review-p1.pdf>

deupen y llinyn ynghyd; mai'r canlyniad fyddai oligopolïau lleol o ansawdd gwaeth; y byddai darparwyr arbenigol, fel y rheini sy'n gwasanaethu cymunedau lleiafrifol ethnig, yn cael eu cau allan; ac y byddai llai o ddewis i gleientiaid. Nid aeth y system BVT yn ei blaen.

- 4.19 Er hynny, cafwyd tri newid pwysig yn sgil Adolygiad Carter: ffioedd sefydlog yn yr orsaf heddlu; cynllun newydd, yr LGFS, ar gyfer paratoi achosion yn Llys y Goron gan gyfreithwyr; a diwygio'r AGFS.

Cyflwyno Ffioedd Sefydlog yng Ngorsaf yr Heddlu

- 4.20 O 14 Ionawr 2008, roedd cyngor a chynhorthwy yng ngorsaf yr heddlu, y codwyd amdanynt cyn hynny ar gyfraddau yr awr ynghyd ag amser teithio ac aros, yn cael eu seilio ar ffi sefydlog, i gynnwys amser teithio ac amser aros. Os oedd y gwaith cysylltiedig yn golygu treulio mwy o lawer na'r cyfnod cyfartalog yn yr orsaf heddlu gysylltiedig, byddai "ffi dianc" yn daladwy, ond dim ond am yr amser a dreuliwyd wedyn. Roedd ffioedd sefydlog o'r fath yng ngorsaf yr heddlu wedi'u seilio'n wreiddiol ar y gweithgarwch hanesyddol a gafwyd mewn gorsafoedd heddlu penodol, a'r ffioedd dianc wedi'u pennu ar gyfradd a oedd yn dair gwaith gymaint â'r ffi safonol ar gyfer yr orsaf heddlu dan sylw. O dan y system hon, sydd ar waith o hyd, mae ffioedd sefydlog am ymbresenoli mewn gorsafoedd heddlu yn amrywio'n sylweddol rhwng gorsafoedd heddlu, gan adlewyrchu'r defnydd lleol fel yr oedd yn 2008. Heblaw am ostyngiad o 8.75% yn 2014, mae'r ffioedd hyn wedi aros yr un fath byth ers hynny.

Cyflwyno'r LGFS

- 4.21 Hyd at y diwygiadau yn sgil Adolygiad Carter, roedd ffioedd cyfreithwyr am waith yn Llys y Goron heblaw am eiriolaeth gan gyfreithwyr a oedd eisoes yn dod o dan yr AGFS, yn cael eu seilio'n bennaf ar gyfraddau yr awr ynghyd â rhai ffioedd safonol am faterion cyffredin. Ar argymhelliad yr Arglwydd Carter, disodlwyd y system hon gan yr LGFS a sefydlwyd yn 2008.⁴³ Cyflwynwyd yr LGFS ar sail egwyddorion tebyg i'r AGFS. Mae ffi'r cyfreithydd llys wedi'i bwriadu i gynnwys y gwaith o baratoi'r achos yn Llys y Goron, ac mae'n cael ei phennu gan wahanol elfennau procsi, a'r pwysicaf o'r rhain yw'r drosedd, y canlyniad (pledio'n euog, treial chwâl neu dreial) a nifer y PPE. Unwaith eto, nid oedd VHCCs wedi'u cynnwys yn yr LGFS.

Diwygio'r AGFS

- 4.22 Ym marn yr Arglwydd Carter, byddai'r AGFS yn fwy effeithlon os oedd y gydnabyddiaeth ariannol am dreialon ar ffurf un ffi sylfaenol a godir gan yr eiriolwr a gafodd ei gyfarwyddo, ac y dylai'r rhan fwyaf o'r materion ategol y codwyd amdanynt ar wahân cyn hynny gael eu cynnwys yn y ffi sylfaenol hon. Roedd yr Arglwydd Carter yn argymhell y dylai'r ffi sylfaenol gael ei phennu yn ôl dosbarth y drosedd, ac a oedd yr eiriolwr yn Gwnsler y Frenhines neu'n eiriolwr iau, gydag ychwanegiadau yn ôl nifer y PPE a oedd yn gysylltiedig a nifer y

⁴³ Gorchymyn y Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol (Cyllido) OS 2007 Rhif 3352

tystion. Byddai'r ffi sylfaenol hon yn cynnwys gwrandawriad pledio a rheoli achos, hyd at bum gwrandawriad yng nghwrs yr achos yn cynnwys crybwylliadau, dau ddiwrnod cyntaf y treial a hyd at dri chynghoriad. Cafodd y diwygiadau hyn eu gweithredu'n briodol yn unol ag argymhellion yr Arglwydd Carter.⁴⁴

Lleihau ffioedd yr AGFS 2010-2012

4.23 Roedd Adolygiad Carter wedi arwain at gynydd yn ffioedd yr AGFS, ond erbyn 2009 roedd y ffioedd a oedd yn daladwy o dan yr AGFS yn uwch na'r rheini roedd yr CPS yn eu talu i eiriolwyr yr erlyniad. Oherwydd y pwysau ar y gyllideb cymorth cyfreithiol, roedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi'i lleihau drwy ostwng ffioedd yr AGFS o gyfanswm o 13.5% dros gyfnod o dair blynedd rhwng Ebrill 2010 ac Ebrill 2012. Ar yr un pryd, ehangwyd yr AGFS i gynnwys treialon yr oedd disgwyl iddynt bara hyd at 60 niwrnod.⁴⁵ Meddai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder:

"We believe that it is right to compare payments for advocacy made by the CPS to those made to defence advocates via legal aid. We do not accept that the roles of prosecuting and defending advocate are not, broadly speaking, comparable".⁴⁶

LASPO a'r LAA

4.24 Yn 2012, cafodd y ddarpariaeth o gymorth cyfreithiol ei diwygio'n sylfaenol o dan LASPO, sef y sylfaen fodern i'r system cymorth cyfreithiol. Yn benodol, mae LASPO yn pennu'r ddyletswydd statudol sydd ar yr Arglwydd Ganghellor i drefnu bod cymorth cyfreithiol troseddol ar gael i bersonau cymwys ar gyfer cyngor a chynhorthwy yng ngorsaf yr heddlu, ac ar gyfer cyngor, cynhorthwy a chynrychiolaeth mewn achosion troseddol lle y bodlonir y prawf buddiannau cyfiawnder.

4.25 Roedd LASPO hefyd wedi creu'r LAA a gymerodd le'r LSC. Yr LAA, asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yw'r corff y mae dyletswydd yr Arglwydd Ganghellor i ddarparu cymorth cyfreithiol troseddol yn cael ei chyflawni drwyddo. Yn benodol, roedd yr LAA wedi cymryd drosodd y swyddogaeth o ganiatáu cymorth cyfreithiol oddi wrth y llysoedd. Felly, am y tro cyntaf, roedd prif gamau'r broses cymorth cyfreithiol, sef y cais am gymorth cyfreithiol, cais y darparwr am ei ad-dalu, a phennu'r ad-daliad a oedd yn ddyledus, i gyd yn dod o dan yr un to.

Cynigion ar gyfer diwygio yn 2013/2014

⁴⁴ Gorchymyn y Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol (Cyllido) OS 2007 Rhif 1174. <https://www.legislation.gov.uk/uksi/2007/1174/contents/made>.

⁴⁵ Gweler Gorchymyn y Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol (Cyllido) (Diwygio) (Rhif 2) 2010 rhif 1181. <https://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/1181/contents/made>

⁴⁶ Memorandwm Esboniadol ar OS 2010 rhif 1181 a osodwyd gerbron y Senedd ac Asesiad o'r Effaith 5 Ebrill 2010. https://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/1181/pdfs/uksem_20101181_en.pdf

4.26 Yn y cyfamser, yn 2010, roedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi cynigion eto ar gyfer tendro cystadleuol am gymorth cyfreithiol troseddol.⁴⁷ Bwriwyd ymlaen â hyn yn Ebrill 2013 gan yr Arglwydd Ganghellor, y Gwir Anrhydeddus Christopher Grayling AS erbyn hyn, a gyhoeddodd ddiwygiadau pellgyrhaeddol⁴⁸ gyda'r nod o arbed £220 miliwn. Y prif gynigion oedd:

- Cyflwyno proses tendro ar gyfer caffael gwaith cleient y cyfreithiwr a gwaith cyfreithiwr ar ddyletswydd. Nifer mwyaf y contractau cyfreithiwr ar ddyletswydd fyddai 527, ar gyfer 97 o ardaloedd caffael a rhwng 4 a 17 o gontractau wedi'u dyfarnu ym mhob ardal. Roedd y cynnig gwreiddiol yn cynnwys pris, ond hepgorwyd hyn yn ddiweddarach gan wneud capasiti ac ansawdd y darparwr yn brif benderfynyddion
- Lleihau ffioedd cyfreithwyr 17.5% i gyd, gyda gostyngiad o 8.75% yn 2014, a gostyngiad pellach o 8.75% ar ôl hynny
- Creu cyfradd ffioedd sefydlog genedlaethol ar gyfer gwaith yng ngorsaf yr heddlu, gyda chyfradd uwch ar gyfer gorsafoedd heddlu yn Llundain
- Gwneud gwahanol newidiadau yn yr LGFS a'r AGFS, a'r olaf hefyd yn cynnwys torri ffioedd yr AGFS ar amcangyfrif o 6%
- Lleihau'r ffioedd a delir mewn achosion VHCC 30%⁴⁹
- Lleihau cwmplas cymorth cyfreithiol ar gyfer cyngor ar gyfraith carchardai.
- Lleihau ffioedd a delir i arbenigwyr 20%

4.27 Nid oedd y proffesiynau wedi croesawu'r cynigion hyn. Ar ôl rhagor o ymgynghori ym Medi 2013,⁵⁰ cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder gynigion wedi'u haddasu yn Chwefror 2014. Cafwyd adolygiad barnwrol llwyddiannus wedyn o'r cynigion wedi'u haddasu, fel bod angen cynnal ymgynghoriad pellach ym Medi 2014. Yn y cyfamser, roedd aelodau o'r proffesiynau wedi streicio yn lonawr a Mawrth 2014, gan amharu ar achosion llys yng Nghymru a Lloegr.

Canlyniad Cynigion 2013 i Gyfreithwyr

4.28 Yn Chwefror 2014, roedd Adroddiad a baratowyd i Gymdeithas y Cyfreithwyr a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan Otterburn Legal Consulting (Adroddiad Otterburn) wedi dangos mai tua 5% oedd maint elw ffyrmiau cymorth cyfreithiol troseddol ac wedi tynnu sylw at sefyllfa ariannol fregus nifer o ffyrmiau cymorth cyfreithiol. Er hynny, aethpwyd ymlaen â'r toriad cyffredinol cyntaf o 8.75% ar

⁴⁷ Proposals for the Reform of Legal Aid in England & Wales, 2010.

<https://www.gov.uk/government/publications/proposals-for-reform-of-legal-aid-in-england-and-wales>

⁴⁸ Transforming Legal Aid: Delivering a more credible and efficient system, 2013.

<https://www.gov.uk/government/consultations/transforming-legal-aid-delivering-a-more-credible-and-efficient-system>

⁴⁹ Bryd hynny, dywedwyd bod chwe bargyfreithiwr yn ennill incwm cymorth cyfreithiol o fwy na £500,000 y flwyddyn.

⁵⁰ Transforming Legal Aid: Next Steps, 2013.

<https://www.gov.uk/government/consultations/transforming-legal-aid-next-steps>

ffioedd cyfreithwyr yn Ebrill 2014. Roedd y gostyngiad o 30% yn ffioedd cyfreithwyr mewn achosion VHCC wedi mynd yn ei flaen hefyd, fel y gwnaeth y gostyngiad yn ffioedd arbenigwyr.

- 4.29 Wedyn cychwynnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y broses tendro. Gan fod mwy na 1500 o ffyrniau'n gwneud o leiaf rywfaint o waith cymorth cyfreithiol troseddol, roedd gostwng nifer y contractau cyfreithiwr ar ddyletswydd a oedd ar gael ar dendr i 527 yn newid mawr a sydyn. Roedd ymgais i atal y broses tendro drwy adolygiad barnwrol wedi methu, ond pan roddwyd gwybod am y canlyniad ar ddiwedd 2015, cafodd rhyw 99 o heriau cyfreithiol pellach eu dwyn gan dendrwyd aflwyddiannus o dan y rheolau caffael cyhoeddus, ac wedyn adolygiad barnwrol a oedd wedi'i ddwyn gan sefydliad o'r enw Fair Crime Contracts Alliance.
- 4.30 O ganlyniad i'r cyfreitha hwn, roedd yn rhaid gohirio dyddiad gweithredu'r broses tendro ac, ar ddechrau 2016, penderfynodd yr Arglwydd Ganghellor, y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS bellach, beidio â bwrw ymlaen â'r broses tendro. Nid yw cynigion ar gyfer trefniadau tendro wedi'u hatgyfodi ers hynny.
- 4.31 Roedd yr ail ostyngiad mewn ffioedd o 8.75% hefyd wedi mynd yn ei flaen ym mis Gorffennaf 2015 ond, ar yr un pryd â chefnu ar y broses tendro, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor⁵¹ y byddai'r ail doriad hwn yn cael ei atal o Ebrill 2016, a hynny a ddigwyddodd. Yn dilyn adolygiad barnwrol, roedd her i'r cyfyngu ar gwmpas cyngor cyfreithiol ar rai agweddau ar gyfraith carchardai wedi llwyddo yn y Llys Apêl, ond tynnwyd agweddau eraill ar gyfraith carchardai o'i gwmpas.⁵²

Protestiadau'r Bar yn 2013 a 2014

- 4.32 Yn y cyfamser, yn dilyn y toriadau rhwng 2010 a 2012 y cyfeiriwyd atynt uchod, roedd y Bar o'i ran ef yn credu bod y cynigion yn 2013 wedi arwain at doriad pellach yn ffioedd yr AGFS, er bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi nodi bod cyflenwad gormodol o fargyfreithwyr yn barod. Er mwyn protestio, roedd y Bar wedi mabwysiadu polisi "dim dychwelyd" – a oedd yn golygu os oedd y bargyfreithiwr a gafodd ei gyfarwyddo'n wreiddiol yn yr achos heb fod ar gael, na fyddai bargyfreithiwr arall yn cymryd drosodd. Cytunodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedyn i atal y toriadau yn yr AGFS tan ar ôl yr Etholiad Cyffredinol nesaf a oedd i'w gynnal yn 2015.
- 4.33 Roedd y Bar hefyd yn gwrthwynebu'r toriad a gynigiwyd ar gyfer achosion VHCC, ac roedd y gweithredu rhwystrol gan y Bar wedi arwain at wrthod achos twyll (o'r enw Operation Cotton) am na ellid cael treial teg heb gynrychiolaeth

⁵¹ Datganiad Ysgrifenedig i'r Senedd, 28 Ionawr 2016. <https://hansard.parliament.uk/Commons/2016-01-28/debates/56f6b60f-2d57-4b3a-a5e2-c1293e16b3e2/WrittenStatements>

⁵² *R (The Howard League and the Prisoners' Advice Service) v the Lord Chancellor* [2017] EWCA Civ 244. <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCA/Civ/2017/244.html>. Mae'r agweddau sy'n parhau y tu allan i gwmpas cymorth cyfreithiol yn cynnwys cynllunio dedfrydau, asesiadau risg, achosion triniaeth, amodau trwydded a gorchmynion cyrffiw cyfyngu i'r cartref.

ddigonol. Fodd bynnag, gwrthdrowyd y penderfyniad hwnnw ar apêl, yn bennaf ar y sail y byddai eiriolwyr y PDS ar gael i'r amddiffyniad.⁵³

- 4.34 Ym mis Gorffennaf 2014, cyhoeddwyd setliad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bar lle byddai achosion VHCC yn cael eu negodi â'r Bar o dan y trefniadau a elwir yn Gynigion Ffi Sefydlog Interim (IFFOs)⁵⁴ ac mae'r trefniadau hyn wedi parhau ers hynny.

Cynllun Sicrhau Ansawdd ar gyfer Eiriolwyr (QASA - 2013)

- 4.35 Tra oedd y newidiadau mawr hyn yn digwydd, yn 2013 cafwyd cynnig ar y cyd gan Fwrdd Safonau'r Bar (BSB), yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) a CILEX ar gyfer cynllun achredu a fyddai'n gymwys i'r holl eiriolwyr trosedd, yn seiliedig yn y bôn ar arfarnu gan farnwyr, a elwir yn Gynllun Sicrhau Ansawdd ar gyfer Eiriolwyr (QASA). Gwrthwynebwyd y cynllun hwn gan Gymdeithas y Bar Troseddol (CBA), yn bennaf ar y sail bod QASA yn rhoi'r eiriolwr a'r barnwr mewn lle problemus, o ystyried eu priod rolau. Aeth y CBA â'r mater i adolygiad barnwrol a chafodd yr achos ei wrthod yn y pen draw gan y Goruchaf Lys yn 2015.⁵⁵ Serch hynny, yn 2017 penderfynodd yr awdurdodau rheoleiddio beidio â bwrw ymlaen â QASA, ac o ganlyniad i hyn nid oes cynllun sicrhau ansawdd ffurfiol ar gyfer eiriolwyr trosedd.⁵⁶ Mae ansawdd cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol yn cael ei reoli drwy ddarpariaethau'r SCC.⁵⁷

Yr ymgais i leihau effaith PPE yn yr LGFS (2017)

- 4.36 Wrth bennu'r ffi raddedig sy'n daladwy o dan yr LGFS, gwneir taliad sefydlog ychwanegol am bob tudalen o dystiolaeth yr erlyniad, hyd at 10,000 o dudalennau. Mae'r cysyniad o PPE yn dyddio o'r amser pan oedd "tudalen" ar fformat papur traddodiadol. Yn y cyfnod modern, mae dogfennau papur wedi amlhau yn ogystal â thystiolaeth electronig fel cofnodion ffonau symudol, cynnwys cyfryngau cymdeithasol, a gyriannau caled cyfrifiaduron. Yn 2014, penderfynwyd yn achos Napper⁵⁸ fod PPE yn cynnwys tystiolaeth electronig o'r fath, yn groes i ganllawiau'r LAA ar y pryd.
- 4.37 Roedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder o'r farn y byddai'r penderfyniad yn achos Napper yn arwain at gynnydd pellach yng nghostau'r LGFS, a oedd eisoes yn cynyddu er bod nifer yr achosion yn gostwng. Felly, yn 2017 ymgynghorodd y

⁵³ *R v Crawley and others v FCA* [2014] EWCA Crim 1028. <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2014/05/r-v-crawley-others-21052014.pdf> Gweler hefyd sylwadau Leveson P a ddyfynnwyd yn nhroednodyn 26 uchod.

⁵⁴ [Interim Fixed Fee Offer \(IFFO\) Scheme](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/740586/Interim_Fixed_Fee_Offer_Scheme_explanatory_note.pdf), Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr LAA a Chyngor y Bar, 2014. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/740586/Interim_Fixed_Fee_Offer_Scheme_explanatory_note.pdf

⁵⁵ Gweler *R (on the application of Lumsdon and others) v Legal Services Board* [2015] UKSC 41. <https://www.bailii.org/uk/cases/UKSC/2015/41.html>

⁵⁶ Gweler Pennod 15 isod

⁵⁷ [Standard Crime Contract 2022 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/859646/R_v_NAPPER.PDF), mewn grym o fis Mehefin 2021.

⁵⁸ *R v Napper* [2014] 5 Costs LR 947. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/859646/R_v_NAPPER.PDF

Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gynnig i ostwng y terfyn uchaf ar gyfer PPE o 10,000 i 6,000. Roedd yr Asesiad o'r Effaith gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dangos y byddai arbediad rhwng £26 miliwn a £36 miliwn yng nghostau'r LGFS.⁵⁹

- 4.38 Cafwyd gwrthwynebiad cryf i hyn gan Gymdeithas y Cyfreithwyr a ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol, a nododd fod y taliadau hyn am PPE o dan yr LGFS yn hanfodol, gan fod nifer mawr o ffyrniau'n dibynnu ar nifer bach o achosion o werth uwch o dan yr LGFS am ran sylweddol o'u hincwm blynyddol. Roedd ffyrniau eisoes mewn sefyllfa ariannol fregus. Fel y digwyddodd, fe lwyddodd Cymdeithas y Cyfreithwyr yn ei her i'r broses ymgynghori drwy adolygiad barnwrol, felly nid oedd y diwygiad i PPE o dan yr LGFS wedi mynd yn ei flaen.

Map Gwres Cymdeithas y Cyfreithwyr 2018

- 4.39 Yn Ebrill 2018 roedd Cymdeithas y Cyfreithwyr, a oedd yn pryderu'n fawr erbyn hyn am hyfywedd ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol, wedi cyhoeddi "map gwres" yn dangos y rhanbarthau hynny lle'r oedd prinder cyfreithwyr ar ddyletswydd am fod llai a llai'n ymuno â'r proffesiwn. Yn ôl Cymdeithas y Cyfreithwyr, oed cyfartalog cyfreithwyr ar ddyletswydd oedd 47, ac mewn nifer mawr o ranbarthau roedd yn uwch o lawer, ac mewn nifer o ranbarthau nid oedd cyfreithwyr ar ddyletswydd o dan 35 oed. Yn y datganiad i'r wasg a oedd gyda'r map gwres, rhybuddiodd Cymdeithas y Cyfreithwyr "*Criminal defence lawyers in England & Wales could become extinct*".⁶⁰ Yn ôl Cymdeithas y Cyfreithwyr, o fewn 5 i 10 mlynedd roedd yn bosibl na fyddai digon o gyfreithwyr amddiffyn trosedd mewn nifer o ardaloedd.

Negodiadau ar yr AGFS 2017 - 2018

- 4.40 Yn Ionawr 2017, ac wrth gydweithio â Chyngor y Bar, amlinellodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ragor o gynigion ar gyfer diwygio'r AGFS, gyda'r bwriad o ategu'r camau i gyflwyno gwell rheolaeth ar achosion yn y llysoedd⁶¹ a gwella sefyllfa bargyfreithwyr iau. Prif nodweddion y cynnig oedd gostyngiad sylweddol yn y defnydd o PPE wrth bennu'r ffi (ond ei fod i'w gadw i ryw raddau mewn achosion twyll a chyffuriau); ehangu'r categorïau o droseddau a'r bandiau oddi mewn i gategorïau sy'n pennu'r ffi i gyfanswm o 42 o fandiau; ffioedd ar wahân ar gyfer y chwe ymddangosiad safonol cyntaf, fel y Gwrandawriad Ple a Pharatoi ar gyfer Treial (PTPH) a gwrandawriadau dedfrydu; a ffioedd dyddiol ychwanegol am ymbresenoli ar ôl diwrnod cyntaf y

⁵⁹ Asesiad o'r Effaith gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, IA Rhif MoJ013/2017, Hydref 2017. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/653263/lqfs-consultation-response-impact-assessment.pdf

⁶⁰ [Criminal duty solicitors in England and Wales \(carto.com\)](https://www.carto.com)

⁶¹ Ymgynghoriad ar Ddiwygio'r Cynllun Ffioedd Graddedig Eiriolwyr, Ionawr 2017. <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reforming-the-advocates-graduated-fee-scheme/>

treial. Roedd hyn, mewn gwirionedd, yn gwrthdroi'r dull o weithredu a fabwysiadwyd gan Adolygiad Carter.

- 4.41 Wrth amlinellu'r diwygiad hwn, cyhoeddwyd mai'r bwriad oedd iddo fod yn niwtral o ran cost o'i gymharu â 2013/14. Fodd bynnag, roedd y CBA yn gwrthwynebu defnyddio 2013/14 yn llinell sylfaen, gan ddadlau bod y cynigion yn golygu toriad arall mewn ffioedd i bob pwrpas. Nododd Cyngor y Bar fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi dweud yn ei Datganiad Effaith ei hun wrth ddefnyddio data 2015-16, yn hytrach na data 2013/14, fod y cynllun newydd yn golygu gostyngiad mewn cost o 3%.
- 4.42 Wrth ymateb i'r pwyntiau hyn ar 23 Chwefror 2018, roedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi addasu'r cynllun mewn nifer o ffyrdd, yn arbennig drwy gynyddu'r ffioedd am waith a wneir fel arfer gan fargyfreithwyr iau. Roedd y gwahanol newidiadau hyn, o'u modelu ar gyfer 2014/15 a 2015/16, yn dangos cynnydd yng ngwariant yr AGFS o tua 4% ac 1% yn y drefn honno ond, o'u modelu ar gyfer 2016/17, roedd y gwariant yn nhermau arian parod oddeutu 1% yn llai, er bod hynny'n ganlyniad i ostyngiad a ragwelwyd yn nifer yr achosion.⁶²
- 4.43 Roedd y CBA yn anfodlon dros ben ar y cynigion diwygiedig ac ar 29 Mawrth 2018 argymhellodd fod ei haelodau'n ystyried gwrthod achosion cymorth cyfreithiol newydd o 1 Ebrill, gan ddatgan bod y system cyfiawnder troseddol yn diffygio ac mai'r diffyg buddsoddi gan Lywodraeth mewn cymorth cyfreithiol oedd yr ergyd olaf. Ar 9 Mai 2018 cyhoeddodd y CBA bolisi dim dychwelyd, yn debyg i'r un a fabwysiadwyd mewn amgylchiadau cyffelyb yn 2014, i ddod i rym o 25 Mai 2018.
- 4.44 Cynhaliwyd negodiadau wedyn â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac, ar 24 Mai 2018, cyhoeddwyd y byddai'r Trysorlys yn trefnu i swm ychwanegol o £15 miliwn fod ar gael, wedi'i dargedu'n bennaf at yr achosion a allai fod ar eu colled am fod ffioedd yn dibynnu'n llai ar PPE, ac at fargyfreithwyr iau, gyda chynnydd o 1% mewn ffioedd o Ebrill 2019, ac adolygiad o'r AGFS o fewn 18 mis.
- 4.45 Cynhaliodd y CBA bleidlais ar y cynnig newydd hwn, a phleidleisiodd ei haelodau i'w dderbyn o 51.55% i 48.45%. Daeth y newidiadau a gynigiwyd yn yr AGFS i rym yn Rhagfyr 2018 ac, yn ôl y Datganiad Effaith gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder,⁶³ roeddent yn golygu cynnydd o £23 miliwn y flwyddyn.

Adroddiad Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin 2018

⁶² [MOJ Impact Statement, 20 February 2018, IA No. MoJ033/2016.](https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reforming-the-advocates-graduated-fee-scheme/supporting_documents/agfsimpactassessment.pdf)
https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reforming-the-advocates-graduated-fee-scheme/supporting_documents/agfsimpactassessment.pdf

⁶³

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/762983/agfs-response-impact-assessment.PDF

4.46 Cyhoeddwyd Adroddiad ar Gymorth Cyfreithiol Troseddol gan Bwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin o dan gadeiryddiaeth Syr Robert Neill AS ar 18 Gorffennaf 2018. Prif gasgliadau'r Pwyllgor oedd:

- Ei bod yn ymddangos bod cwynion difrifol gan gyfreithwyr ynghylch y ffioedd. Roedd digalondid i raddau a oedd yn peri pryder a bygythiadau i gynaliadwyedd eu ffyrniau.
- Er ei fod yn destun gofid bod y Bar Troseddol wedi dewis cymryd camau uniongyrchol, y rhesymau sylfaenol oedd gostyngiadau mewn ffioedd o 2010 ymlaen, anfodlonrwydd ynghylch yr AGFS diwygiedig, a phryder didwyll a gwirioneddol am ddyfodol eu proffesiwn ac am danariannu cyfiawnder troseddol
- Y dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o gymorth cyfreithiol troseddol, gyda'r bwriad o ddyfeisio cynllun sy'n gynaliadwy ac yn canolbwyntio ar y defnyddiwr, i'w lansio ym Mawrth 2019 ar yr hwyraf.

4.47 Roedd y Pwyllgor wedi cofnodi tystiolaeth gan Gymdeithas y Cyfreithwyr na fu cynnydd mewn ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol ar sail chwyddiant am 20 mlynedd, a bod gostyngiadau sylweddol wedi digwydd hefyd, i'r fath raddau fel bod ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol bellach yn un rhan o dair y cyfraddau am waith preifat ar y mwyaf. Roedd Cymdeithas Cyfreithwyr Cyfraith Trosedd (CLSA) o'r farn bod ffioedd wedi gostwng 42% mewn termau real er 1997.

Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol

4.48 Fel y nodwyd uchod, yn Rhagfyr 2018, cyhoeddwyd Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol (ACCT) gan yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus David Gauke AS. Yn dilyn pwysau gan y Bar, fel rwyf yn deall, penderfynwyd trafod rhai agweddau ar y cynlluniau ffioedd a elwir yn "feysydd carlam" drwy ddull carlam. Yn dilyn ymgynghoriad a agorwyd ar 28 Chwefror 2020 (a'i ymestyn wedyn o ganlyniad i'r pandemig) ac ymateb y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar 21 Awst 2020, cyflwynwyd nifer o newidiadau yn yr LGFS a'r AGFS o 17 Medi 2020. Y newidiadau hyn oedd cyflwyno ffi sefydlog am adolygu deunydd nas defnyddiwyd, gyda hawliad ychwanegol am waith paratoi arbennig o fwy na 3 awr; ffi am waith paratoi arbennig ychwanegol o dan yr AGFS os yw nifer y PPE yn fwy na'r hyn a ddiffiniwyd ar gyfer y drosedd; bod y ffioedd o dan yr AGFS yn yr holl dreialon yn Llys y Goron sy'n chwalu ar ôl y PTPH yn cael eu talu ar yr un gyfradd sylfaenol â threialon; a bod cyfreithyddion llys i gael ffi sefydlog am anfon pan anfonir achos i Lys y Goron o'r Llys Ynadon.⁶⁴

⁶⁴ [Criminal Legal Aid Review: An accelerated package of measures amending the criminal legal aid fee schemes](https://www.gov.uk/government/consultations/criminal-legal-aid-review-an-accelerated-package-of-measures-amending-the-criminal-legal-aid-fee-schemes). <https://www.gov.uk/government/consultations/criminal-legal-aid-review-an-accelerated-package-of-measures-amending-the-criminal-legal-aid-fee-schemes>. Un maes a oedd heb ei drin fel "maes carlam" yw'r cynnig i gyflwyno ffi amddiffyn ychwanegol lle y daethpwyd i gytundeb gwirfoddol i ymgysylltu â'r erlyniad cyn cyhuddo'r un dan amheuaeth, gweler Pennod 9.

4.49 Yn ôl y Dadansoddiad o'r Effaith gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, mae'r newidiadau hyn yn golygu cynnydd o £19-26 miliwn y flwyddyn ar gyfer yr AGFS a £17-24 miliwn ar gyfer yr LGFS, o'i gymharu â'r gwariant yn 2019/20. Byddai hynny'n golygu tua 9-13% yn ychwanegol i eiriolwyr a 5-7% yn ychwanegol i gyfreithyddion llys.⁶⁵ Fodd bynnag, oherwydd yr ansefydlogrwydd a achoswyd gan y pandemig, nid yw holl effaith y newidiadau hyn wedi cyrraedd y darparwyr eto.

Adroddiad Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin, 27 Gorffennaf 2021

4.50 Tra oedd yr Adolygiad hwn yn mynd yn ei flaen, cyhoeddwyd adroddiad pellach gan Bwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin ar Ddyfodol Cymorth Cyfreithiol, sef y rhan sy'n ymdrin â chymorth cyfreithiol troseddol yn dilyn Adroddiad blaenorol y Pwyllgor yn 2017.⁶⁶ Parhaodd y Pwyllgor i fynegi pryderon difrifol ynghylch cynaliadwyedd cymorth cyfreithiol troseddol, ac mae ei argymhellion wedi'u cynnwys yn Atodiad D.

4.51 Ychydig cyn cwblhau'r Adolygiad hwn, roedd Comisiwn San Steffan ar Gymorth Cyfreithiol hefyd wedi cyhoeddi adroddiad am Gynaliadwyedd ac Adferiad y Sector Cymorth Cyfreithiol,⁶⁷ gan fynegi pryderon dwys am gynaliadwyedd cymorth cyfreithiol sifil a throseddol, yn enwedig o safbwynt cyfreithwyr ifanc sy'n ymuno â'r proffesiwn.

Adroddiadau Perthnasol Eraill

Adolygiad Jeffrey (2014)

4.52 Yn 2014 cafwyd adolygiad gan Syr Bill Jeffrey, cyn Ysgrifennydd Parhaol y Swyddfa Gartref, o weithrediad eiriolaeth droseddol yng Nghymru a Lloegr. Y casgliadau mwyaf perthnasol ganddo oedd:

- Bod cyflenwad gormodol o eiriolwyr gan y Bar, sy'n "*a substantial national asset*",⁶⁸ ond ei fod yn broffesiwn sy'n heneiddio: roedd y strwythur oed yn siambrau nifer mawr o fargyfreithwyr yn debyg i byramid â'i ben i lawr, lle'r oedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn eu 40au a'u 50au, a dim ond llond llaw wedi'u galw o fewn y pum mlynedd diwethaf, a llai a llai o ddisgybleddau, yn arwain at broffesiwn a oedd yn llai amrywiol, er bod galw parhaus am ddisgybleddau,⁶⁹

⁶⁵ [MOJ Impact Statement, 21 August 2020, IA No. MOJ052/2020](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/910944/clar-impact-assessment.pdf).

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/910944/clar-impact-assessment.pdf

⁶⁶ [The Future of Legal Aid - Justice Committee - House of Commons \(parliament.uk\)](https://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/justice-committee/publications/the-future-of-legal-aid/)

⁶⁷ [The Westminster Commission on Legal Aid WEB.pdf \(lapq.co.uk\)](https://www.lapq.co.uk/wp-content/uploads/2017/07/The-Westminster-Commission-on-Legal-Aid-WEBSITE.pdf)

⁶⁸ [Jeffrey Review](#), tudalen 62, paragraff 9.12.

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/310712/jeffrey-review-criminal-advocacy.pdf

⁶⁹ Roedd Syr Bill hefyd wedi codi'r posibilrwydd y gallai bargyfreithwyr eu hailstrwythuro eu hunain yn endidau cyfreithiol a symud "i lawr y gadwyn gyflenwi" i wneud rhagor o'r gwaith sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chleientiaid a wneir yn draddodiadol gan gyfreithwyr; neu fel arall y gellid cael un

- Nad oedd mecanwaith gan y Bar ar gyfer addasu i ostyngiad yn y galw, a'i bod yn debygol bod hynafedd yn dylanwadu ar y dyrannu ar achosion o fewn siambrau,⁷⁰
- Bod oedi wrth neilltuo eiriolwyr ar gyfer achosion ac ansicrwydd ynghylch dyddiadau treialon yn peri bod y system yn un “*more hand to mouth than is conducive to good quality*”. Yn benodol, beirniadodd y system “rhestr rybudd” yn y Llysoedd.⁷¹

Ni chafwyd camau dilynol yn sgil Adolygiad Jeffrey.

Adroddiad Leveson (2015): Rheoli Achosion yn Well

4.53 Yn ei adroddiad *Review of efficiency in Criminal Proceedings* yn 2015, roedd y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Llywydd Adran Mainc y Frenhines ar y pryd, wedi argymhell pedair egwyddor, sydd wedi'u mabwysiadu ers hynny'n sail dros reoli achosion yn y SCT:

- **Ei gael yn iawn y tro cyntaf** – dylai'r heddlu a'r CPS gydweithio'n agos i sicrhau bod y cyhuddiadau iawn yn cael eu cyflwyno ar y dechrau, gan ddatgelu deunydd yn briodol i'r amddiffyniad; ar y sail hon, gall cyfreithwyr amddiffyn gymryd cyfarwyddiadau priodol a symud ymlaen yn fuan – yn wir, byddai'n ddyletswydd arnynt wneud hynny.
- **Perchenogi achosion** – ar gyfer pob achos, yn yr heddlu, y CPS a'r amddiffyniad, rhaid cael un person sydd (ac y pennir ei fod) yn gyfrifol am gynnal yr achos.
- **Dyletswydd ymgysylltu uniongyrchol** – mae'r cynrychiolwyr a bennwyd i ymgysylltu ar y cyfle cyntaf a chyn y gwrandawriad cyntaf; y peth pwysig yw ymgysylltu uniongyrchol cynnar, boed dros y ffôn, drwy'r e-bost neu fel arall. Os gwneir hyn yn iawn, anaml y byddai angen gwrandawiadau yng nghwrs yr achos.
- **Rheolaeth farnwrol gyson ar achosion**, yn enwedig i sicrhau bod y dystiolaeth angenrheidiol wedi'i chyflwyno, bod datgelu wedi'i gyflawni, a bod amser y llys yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon.

Gweithredwyd y newidiadau hyn gan mwyaf yn y Rheolau Trefniadaeth Droseddol, ond ni threfnwyd i gyllid ychwanegol fod ar gael i ymarferwyr amddiffyn i'w helpu i gyflawni eu rhwymedigaethau.

4.54 Ar fater ymgysylltu cynnar, dywedodd Syr Brian Leveson:

pwyt mynediad yn y dyfodol i'r proffesiwn cyfreithiol, gyda'r dewis i ddod yn fargyfreithiwr yn cael ei wneud yn hwyrach mewn gyrfa, yn hytrach nag ar y dechrau fel y gwneir ar hyn o bryd.

⁷⁰ [Jeffrey Review, tudalen 49, paragraff 6.8](#)

⁷¹ [Jeffrey Review](#), tudalen 9.

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/310712/jeffrey-review-criminal-advocacy.pdf

“Part of the solution to improving the whole system is to acknowledge the critical role that the defence can play”.⁷² (pwyslais wedi’i ychwanegu)

- 4.55 Roedd Syr Brian wedi argymhell y dylai’r CPS gyflwyno’r Datgeliad Cyntaf o Achos yr Erlyniad (IDPC) mewn pryd i alluogi’r amddiffyniad a’r CPS i gymryd rhan mewn trafodaethau am yr achos cyn y gwrandawriad cyntaf yn y Llys Ynadon neu cyn y gwrandawriad cyntaf yn Llys y Goron. Mynegodd bryder bod materion *“are far too frequently left to the door of the Court”*.⁷³
- 4.56 Dywedodd Syr Brian Leveson fod y system rhestr rybudd yn *“inefficient means of organising the court’s work [which] frequently leads to dissatisfaction on the part of victims, witnesses, the general public and the professions”*.⁷⁴

*Adolygiad Lammy (2017)*⁷⁵

- 4.57 Ynghylch agwedd wahanol ond pwysig, ym Medi 2017 cyhoeddodd y Gwir Anrhydeddus David Lammy AS, Arglwydd Ganghellor yr Wrthblaid hyd yn ddiweddar, ei adolygiad annibynnol o’r driniaeth a’r canlyniadau a geir gan unigolion Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig (BAME)⁷⁶ yn y SCT. Gwnaeth Mr Lammy y sylw bod nifer o gymunedau BAME yn teimlo eu bod o dan anfantais yn y SCT. Roedd yn pryderu’n neilltuol am gyfiawnder ieuenctid, gan nodi bod tueddiadau o ran troseddu ac aildroseddu ar gynnydd, a bod 41% o’r rheini o dan 18 oed yn y ddalfa yn rhai o gefndir BAME. Nododd Mr Lammy fod diffynyddion BAME yn fwy tebygol na diffynyddion gwyn o bledio’n ddieuog, o fod heb ymddiriedaeth yn yr heddlu ac o weld cyfreithwyr cymorth cyfreithiol yn *“rhan o’r system”*. Roedd diffynyddion BAME hefyd yn fwy tebygol o ddewis treial o flaen rheithgor, heb ymddiried yn y Llys Ynadon. Roedd diffynyddion BAME yn aml yn cael dedfrydau hirach, gan eu bod wedi colli’r disgownt sydd ar gael am bledio’n euog yn gynnar.
- 4.58 Ymysg nifer o argymhellion eraill, awgrymodd Mr Lammy y dylid edrych ar ddulliau gwahanol o weithredu mewn perthynas ag egluro eu hawliau cyfreithiol i ddifynyddion BAME yn y ddalfa yng ngorsaf yr heddlu, er enghraifft drwy greu rôl i gyfryngwyr cymunedol, cynnig dewis rhwng gwahanol gyfreithwyr ar ddyletswydd i rai dan amheuaeth, a threfnu i gyngor fod ar gael yn gynharach gan fargyfreithwyr. Roedd Mr Lammy hefyd yn pryderu’n benodol am gyfiawnder ieuenctid, er enghraifft am y gyfradd aildroseddu o 45% ymysg diffynyddion du.

⁷² Tudalen 30, paragraff 99. <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2015/01/review-of-efficiency-in-criminal-proceedings-20151.pdf>

⁷³ E.e. tudalen 40 ym mharagraffau 138-141. <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2015/01/review-of-efficiency-in-criminal-proceedings-20151.pdf>

⁷⁴ Tudalen 100, paragraff 30. <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2015/01/review-of-efficiency-in-criminal-proceedings-20151.pdf>

⁷⁵ Adolygiad Lammy 2017: <https://www.gov.uk/government/publications/lammy-review-final-report>

⁷⁶ Wrth ddefnyddio’r acronym “BAME” fel term cryno yn yr Adolygiad hwn, nid wyf yn anwybyddu’r gwahaniaethau rhwng y gwahanol leiafrifoedd sydd wedi’u cwmpasu gan y term hwnnw, nac yn diystyru lleiafrifoedd o gefndiroedd eraill.

4.59 Byddaf yn cyfeirio at yr adroddiadau hyn lle y bo'n berthnasol yn ddiweddarach yn yr Adolygiad hwn.

PENNOD PUMP: TROSOLWG AR Y SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL

- 5.1 Yn y bennod hon, ceir trosolwg byr ar y SCT lle mae'n berthnasol i'r ddarpariaeth o gymorth cyfreithiol troseddol.

Yr Heddlu

- 5.2 Heblaw am droseddau moduro a'u tebyg, mae'r broses cyfiawnder troseddol yn dechrau fel arfer pan fydd rhywun dan amheuaeth yn cael ei arestio gan yr heddlu a'i hebrwng i orsaf heddlu neu ei wahodd i ddod i gyfweiliad o'i wirfodd. Mae 43 o wahanol heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, a'r rhain yn aml yn defnyddio systemau cyfrifiadurol gwahanol. Ym Mawrth 2021 roedd tua 135,000 o swyddogion heddlu gweithredol, heb gynnwys staff cymorth, nifer sy'n cynyddu o ganlyniad i gynlluniau'r Llywodraeth i recriwtio 20,000 o swyddogion heddlu ychwanegol a gyhoeddwyd yn 2019. Cost yr heddlu yw tua £15 biliwn y flwyddyn, er bod nifer o gyfrifoldebau gan yr heddlu sydd heb gysylltiad â throseddau, wrth gwrs. Mae'r Adolygiad o Wariant diweddar yn rhag-weld y bydd rhagor o adnoddau ar gyfer yr heddlu, yn cynnwys £540 miliwn ychwanegol i gwblhau'r broses o recriwtio hyd at 148,000 o swyddogion heddlu ychwanegol erbyn 2023.⁷⁷
- 5.3 Yn 2019/20 cofnododd yr heddlu tua 5 miliwn o droseddau hysbysadwy (heb gynnwys twyll), ac roedd oddeutu 350,000 o droseddau o'r fath wedi arwain at gyhuddiad neu wŷs.

Cymorth Cyfreithiol yng Ngorsaf yr Heddlu

- 5.4 Mae hawl gan unrhyw un sydd wedi'i arestio yng Nghymru a Lloegr neu sy'n dod i gyfweiliad o'i wirfodd fel un dan amheuaeth, i gael cyngor a chynhorthwy cyfreithiol, heb ystyried y modd sydd gan y person hwnnw. Darperir hyn ddydd a nos, bob diwrnod o'r wythnos gan gyfreithwyr neu gynrychiolwyr achrededig yng ngorsaf yr heddlu o dan y cynllun cyfreithiwr ar ddyletswydd a weinyddir gan yr LAA, mewn tua 1400 o orsafoedd heddlu.⁷⁸ Mae'r un dan amheuaeth yn gallu gofyn am ei gyfreithiwr ei hun neu ddefnyddio'r cyfreithiwr ar ddyletswydd (yn ddi-dâl yn y ddau achos). Credir bod tua 50% o ddiffynyddion yn gofyn am gyngor cyfreithiol yng ngorsaf yr heddlu,⁷⁹ sy'n golygu bod nifer mawr o ddiffynyddion heb eu cynrychioli. Yn 2019/20 roedd

⁷⁷ Adolygiad o Wariant, tudalen 99 [BUDGET 2021: Protecting the jobs and livelihoods of the British people \(publishing.service.gov.uk\)](https://www.budget2021.gov.uk/protecting-the-jobs-and-livelihoods-of-the-british-people)

⁷⁸ A bod yn fanwl, mae'r ffi am ymbresenoli yn daladwy hyd yn oed os na fydd y cyfweiliad yn digwydd mewn gorsaf heddlu: y diffiniad o "police station" o dan Contract Trosedd Safonol 2017 yw "a police station or any other place where a Constable is present".

⁷⁹ Gweler ymhellach – Vicky Kemp, Tystiolaeth Ysgrifenedig i'r Senedd, 2020 <https://committees.parliament.uk/writtenevidence/12784/pdf/>. Mae Dr Kemp yn amcangyfrif mai'r ganran yw 56%.

tua 600,000 o hawliadau mewn gorsafoedd heddlu wedi'u talu gan yr LAA ar gost o tua £126 miliwn.⁸⁰

Y Cyhuddiad (neu Beidio â Chyhuddo)

Diannod, Neillog neu Dditiadwy

- 5.5 Bydd y llwybr a ddilynir wedyn drwy'r broses droseddol yn dibynnu ar ba lys sy'n gallu profi'r drosedd a amheuir. Mae troseddau diannod yn droseddau llai, fel troseddau moduro, ymosod cyffredin, neu fân ddifrod troseddol, a gellir eu rhoi ar brawf yn y Llys Ynadon yn unig. Troseddau ditiadwy yw troseddau difrifol fel llofruddiaeth neu drais difrifol a gellir eu rhoi ar brawf yn Llys y Goron yn unig o flaen barnwr a rheithgor. Troseddau neillog yw troseddau o wahanol raddau o ddifrifoldeb lle y gall y diffynnydd ddewis cael treial un ai yn y Llys Ynadon neu yn Llys y Goron. Troseddau neillog nodweddiadol yw dwyn, bwrgeriaeth, bod â chyffuriau yn eich meddiant, neu ymosod yn achosi gwir niwed corfforol.

Y Broses Cyhuddo

- 5.6 Fel arfer bydd yr heddlu yn cyf-weld y person dan amheuaeth, ac wedyn yn penderfynu ar y camau nesaf. Os credir bod digon o dystiolaeth eisoes, bydd yr heddlu yn mynd ymlaen i gyhuddo. Fodd bynnag, gall yr un dan amheuaeth gael ei Ryddhau yn Destun Ymchwiliad (RUI) ar fechnïaeth cyn cyhuddo fel y gellir gwneud ymholiadau pellach cyn penderfynu ynghylch cyhuddo, a bydd hyn yn digwydd yn aml.⁸¹
- 5.7 Rheolir y broses cyhuddo gan *Director's Guidance on Charging*⁸² a ddyroddir gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP), sef pennaeth y CPS. Ni ellir cyhuddo'r un dan amheuaeth o drosedd oni bai fod digon o dystiolaeth i roi gobaith rhesymol o gael euogfarn a bod y cyhuddo er budd i'r cyhoedd. Gall yr heddlu wneud penderfyniadau ynghylch cyhuddo mewn achosion diannod ac mewn perthynas â rhai troseddau neillog lle y rhagwelir ple euog, a lle mae'r achos yn addas ar gyfer y Llys Ynadon. Yn yr holl achosion eraill, gwneir y penderfyniad ynghylch cyhuddo gan y CPS.
- 5.8 Os cyhuddir yr un dan amheuaeth yng ngorsaf yr heddlu, mater i swyddog y ddalfa fydd penderfynu a yw'r un dan amheuaeth i gael ei remandio yn y ddalfa neu ei ryddhau ar fechnïaeth. Os caiff yr un dan amheuaeth ei remandio yn y

⁸⁰ Mae rhai o'r hawliadau hyn am gyngor dros y ffôn yn unig, yn cynnwys hawliadau o dan CDS Direct sy'n gallu cynnwys cyngor dros y ffôn mewn achosion gyrru, yn cynnwys yfed a gyrru.

⁸¹ Gweler ymhellach Ddeddf Plismona a Throseddu 2017 a [Pre-charge bail and released under investigation 2020](https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/3/contents), Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM ac Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EM. <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/publications/pre-charge-bail-and-released-under-investigation-striking-a-balance/>. Cafwyd cynnig i ddiwygio RUI ond nid ei ddiddymu o dan Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd (gweler Cymal 43 ac Atodlen 4)

⁸² Gweler [Director's Guidance on Charging](https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/charging-directors-guidance-sixth-edition-december-2020), 6^{ed} Argraffiad, mewn grym o 31 Rhagfyr 2020. <https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/charging-directors-guidance-sixth-edition-december-2020>

ddalfa, rhaid dod ag ef gerbron yr ynadon y diwrnod canlynol fel arfer: bydd yr ynadon yn penderfynu wedyn a ddylid rhyddhau'r diffynnydd ar fechnïaeth neu ei remandio yn y carchar tan y treial. Mae terfynau amser ar y cyfnod y gellir cadw'r diffynnydd yn y ddalfa cyn y treial, er enghraifft 182 o ddiwrnodau am drosedd dditiadwy, gyda'r posibilrwydd o ymestyn y cyfnod os oes rhesymau da.

Dewisiadau yn lle Cyhuddo

- 5.9 Mae'n bosibl na sylweddolir yn gyffredinol fod nifer mawr o faterion yr heddlu na fyddant byth yn cyrraedd llys neu ond yn gwneud hynny ar ôl oedi hir.
- 5.10 Yn y bôn, mae tri phenderfyniad arall ar gael i'r heddlu:
- Dim camau pellach (NFA): er enghraifft, os nad yw dioddefwr troseddu o blaid cymryd camau pellach, bod y dystiolaeth yn rhy wan neu fod yr amgylchiadau'n rhy ddibwys.
 - Datrysiaid y tu allan i'r llys: gall hyn fod yn gamau ffurfiol, er enghraifft derbyn rhybuddiad os cyfaddefir i'r drosedd, neu gamau anffurfiol. Mae camau anffurfiol yn cynnwys yn enwedig ddatrysiaid cymunedol, sydd fel arfer yn galw am gydsyniad y dioddefwr, a gall fod ar ffurf ymddiheuriad ac iawndal, er enghraifft. Er bod polisi'n amrywio rhwng heddluoedd, gwneir llawer o ymdrech i ddargyfeirio diffynnyddion ifanc oddi wrth y broses gyfiawnder ffurfiol, drwy ddatrysiaid y tu allan i'r llys, sy'n arwain at lai o erlyniadau yn erbyn diffynnyddion ifanc. Mae'n amlwg bod datrys y tu allan i'r llys yn anaddas ar gyfer troseddau difrifol.
 - RUI: Fel y nodwyd uchod, bydd yr heddlu'n aml yn rhyddhau un dan amheuaeth heb ei gyhuddo ar y cam cyntaf er mwyn gwneud rhagor o ymchwilio. Nid rhyddhau ar fechnïaeth yn yr ystyr draddodiadol yw hyn ac, oherwydd hynny, mae niferoedd y personau ar fechnïaeth, h.y. wedi'u cyhuddo a'u rhyddhau ar fechnïaeth wedyn, wedi gostwng yn sylweddol. Yn aml, ni fydd rhywun sydd wedi'i ryddhau yn destun ymchwiliad yn clywed dim pellach am fisoedd, os nad blynnyddoedd, ac wedyn yn cael gofyniad drwy'r post (h.y. gwŷs) yn dweud ei fod wedi'i gyhuddo, gan roi dyddiad ar gyfer ei ymddangosiad yn y llys.⁸³

Yr Erlyniad

Gwasanaeth Erlyn y Goron

- 5.11 Mae'r CPS, o dan arweiniad y DPP, yn gyfrifol ar ran y Goron am y rhan fwyaf o'r erlyniadau yng Nghymru a Lloegr, er bod rhai cyrff eraill sydd â phwerau

⁸³ O dan Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, bydd mechnïaeth cyn cyhuddo wedi'i chyfyngu i naw mis ac mewn rhai achosion i 12 mis. Gweler hefyd, Police Powers: pre-charge Bail, y Swyddfa Gartref, Ionawr 2021

erlyn, fel y Swyddfa Twyll Difrifol.⁸⁴ Mae'r CPS wedi wynebu toriadau llym yn y blynyddoedd diwethaf, ond yn 2019 rhoddwyd £85 miliwn iddo i ariannu rhaglen recriwtio sylweddol a hwyluso hynt achosion drwy'r SCT. Yn ogystal â hyn, yn yr Adolygiad o Wariant diweddar cyhoeddwyd cynnydd o £80 miliwn mewn cyllid adnoddau ar gyfer y CPS,⁸⁵ yn rhannol i hwyluso gwaith y 20,000 o swyddogion heddlu ychwanegol.

- 5.12 Unwaith y mae'r penderfyniad ar gyhuddo wedi'i wneud, mater i'r CPS yw paratoi tystiolaeth yr erlyniad i'w chyflwyno i'r llys perthnasol. Bydd y CPS yn adolygu ffeil achos yr heddlu ac yn nodi pa dystiolaeth ychwanegol y mae angen ei chael, proses sydd yn aml yn hir a chymhleth ac yn cynnwys tystiolaeth ddigidol a fforensig. Mae'r broses adolygu yn cael ei chymhlethu hefyd gan ddiffyg cydweddoldeb rhwng system y CPS a systemau'r gwahanol heddluoedd.

Datgelu

- 5.13 Rhaid i'r CPS ddatgelu'r dystiolaeth y mae'n dibynnu arni i'r amddiffyniad ar y cyfle cyntaf. Rhaid datgelu'r IDPC ar y cyfle cyntaf a dim hwyrach na dechrau diwrnod y gwrandawriad cyntaf yn y Llys Ynadon, sydd fel arfer yn 28 o ddiwrnodau ar ôl y cyhuddo. Mae'r dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad yn awgrymu nad yw'n anarferol i'r IDPC gael ei dderbyn gan yr amddiffyniad yn fuan iawn cyn diwrnod y gwrandawriad cyntaf neu, yn wir, ar y diwrnod hwnnw, a gall fod yn anghyflawn wrth ei ddatgelu.
- 5.14 Un anhawster neilltuol yw bod disgwyl i'r diffynnydd gofnodi ple yn y gwrandawriad cyntaf ac y gall gael y credyd mwyaf wrth ddedfrydu am wneud hynny.⁸⁶ Os nad oes amser i adolygu tystiolaeth yr erlyniad neu os yw'n anghyflawn, mae hynny'n rhoi cynrychiolydd y diffynnydd mewn lle anodd. Ar y llaw arall, mae'n bosibl na fydd y CPS wedi cael gwybod pwy yw cynrychiolydd y diffynnydd neu wedi cael y deunydd mewn pryd gan yr heddlu.
- 5.15 Mae'r CPS yn gyfrifol hefyd am ddatgelu i'r amddiffyniad restr o ddeunydd ar ffeil yr heddlu nas defnyddiwyd. O dan y gyfraith gyffredin ac yn unol â Chanllawiau'r Twrnai Cyffredinol ar Ddatgelu,⁸⁷ rhaid i'r Goron ddatgelu i'r amddiffyniad dystiolaeth nad yw'n rhan o achos yr erlyniad ond a allai danseilio achos yr erlyniad neu helpu'r diffynnydd. Bydd problemau'n codi'n aml o ran datgelu amserol a digonol ar ddeunydd nas defnyddiwyd, a derbynnir nad yw bob amser yn hawdd i'r heddlu, sy'n gyfrifol yn y lle cyntaf, benderfynu pa ddeunydd nas defnyddiwyd y mae'n ofynnol ei ddatgelu.

⁸⁴ Gellir cael erlyniadau preifat hefyd. Er nad ydynt yn digwydd yn aml, un enghraifft ddiweddar yw erlyn nifer mawr o is-bostfeistri gan Swyddfa'r Post, a arweiniodd at gamweinyddu cyfiawnder ar raddfa fawr.

⁸⁵ Dogfen Adolygiad o Wariant Trysorlys EM, tudalen103 [BUDGET 2021: Protecting the jobs and livelihoods of the British people \(publishing.service.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/publications/budget-2021-protecting-the-jobs-and-livelihoods-of-the-british-people/publishing.service.gov.uk)

⁸⁶ [Reduction in Sentence for a Guilty Plea Guideline - January 2017 \(sentencingcouncil.org.uk\)](https://www.gov.uk/government/publications/reduction-in-sentence-for-a-guilty-plea-guideline-january-2017/sentencingcouncil.org.uk)

⁸⁷ Gweler [Attorney General's Guidelines on Disclosure](https://www.gov.uk/government/publications/attorney-general-guidelines-on-disclosure), mewn grym o 31 Rhagfyr 2020.

<https://www.gov.uk/government/publications/attorney-general-guidelines-on-disclosure-2020>

Y CPS a'r Heddlu

- 5.16 Mae'r CPS a'r Heddlu yn cydweithio i wella effeithlonrwydd eu gweithrediadau drwy'r safon ffeiliau genedlaethol a mecanweithiau eraill, ac mae Bwrdd Gwella Gweithrediadau ar y Cyd sy'n cael ei gadeirio ar y cyd gan y CPS a'r Heddlu.⁸⁸ Yn 2021 roedd ymrwymiad gan Goleg yr Heddlu, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a'r CPS, yr Ymrwymiad Cenedlaethol ar Hwyluso Achosion,⁸⁹ wedi cydnabod nad oedd achosion yn symud yn effeithlon bob amser drwy'r system cyfiawnder troseddol, ac wedi disgrifio'r anawsterau y mae'r heddlu a'r CPS yn eu hwynebu wrth ddod ag achos i dreial, yn enwedig yr amser a gymerir i gael a dadansoddi dyfeisiau digidol a thystiolaeth fforensig. Mae'r Ymrwymiad yn cyfeirio at yr angen i wella'r cyfathrebu rhwng yr holl bartïon mewn achos, nid yn unig rhwng yr heddlu a'r CPS, ond hefyd rhwng yr Heddlu, y CPS a'r Amddiffyniad:

"There is commonly little or no engagement with the defence before the first hearing and any discussions with a view to resolving issues generally takes place with the advocate at court. As a result, engagement only starts to take place in court at the first hearing and correspondence begins after the first hearing once the evidence has been fully considered. Early engagement should be encouraged and requests made of the prosecution team dealt with in a timely manner."

Y Llys Ynadon

- 5.17 Mae'r holl achosion yn dechrau yn y Llys Ynadon,⁹⁰ sy'n cynnwys mainc o ynadon lleyg neu Farnwr Rhanbarth yn eistedd ar ei ben ei hun neu gyda dau ynad.⁹¹ Caiff y fainc gymorth gan gynghorydd cyfreithiol sy'n gyfreithiwr cymwysedig. O dan fenter a elwir yn *Trawsnewid Cyfiawnder Diannod* a gyflwynwyd yn 2015, mae'r heddlu'n asesu a ragwelir y bydd ple euog: os felly, rhestrir yr achos mewn llys 'GAP'. Os rhagwelir ple dieuog, rhestrir yr achos mewn llys 'NGAP'. Fel arfer ni fydd yr amddiffyniad yn ymwneud â'r penderfyniad hwn gan yr heddlu.
- 5.18 Yn y gwrandawriad cyntaf yn y Llys Ynadon, boed yn llys GAP neu'n llys NGAP, gofynnir i'r diffynnydd a yw'n bwriadu pledio'n euog neu'n ddieuog. Os bydd yn nodi ei fod yn bwriadu pledio'n euog, yna o dan y Canllawiau Dedfrydu⁹² bydd

⁸⁸ Un enghraifft ddiweddar yw'r Cynllun Gweithredu RASSO Cenedlaethol ar y Cyd (2021) rhwng yr Heddlu a'r CPS i wella'r dulliau o ymchwilio ac erlyn mewn achosion o drais a throseddau rhywiol difrifol. <https://www.cps.gov.uk/publication/police-cps-joint-national-rasso-rape-and-serious-sexual-offences-action-plan-2021>

⁸⁹ [National Case Progression Commitment: College of Policing, National Police Chiefs' Council and Crown Prosecution Service, March 2021 | The Crown Prosecution Service \(cps.gov.uk\)](#)

⁹⁰ Mae [Bil yr Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a'r Llysoedd](#) sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd yn darparu bod achosion sy'n dditiadwy yn unig, h.y. y rheini y gellir eu profi yn Llys y Goron yn unig, yn gallu mynd ymlaen yn uniongyrchol i Lys y Goron heb eu "hanfon" yno gan y Llys Ynadon. <https://bills.parliament.uk/bills/2839>

⁹¹ Mae tua 13,200 o ynadon lleyg a 400 o farnwyr rhanbarth yng Nghymru a Lloegr, a thua 156 o Lysoedd Ynadon, y nifer wedi gostwng o 320 yn 2010.

⁹² [Reduction in Sentence for a Guilty Plea Guideline - January 2017 \(sentencingcouncil.org.uk\)](#)

hawl ganddo i gael disgownt o hyd at un rhan o dair oddi ar ei ddedfryd, am ei fod wedi pledio'n euog ar yr achlysur cyntaf. Os yw'n drosedd ddiannod, neu'n drosedd neillog, gallai'r Llys fynd yn ei flaen i ddedfrydu y diwrnod hwnnw neu ohirio'r mater er mwyn cael adroddiadau. Os bydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog, yna pennir dyddiad arall ar gyfer cynnal y treial yn y Llys Ynadon.

- 5.19 Os yw'n drosedd dditiadwy yn unig, neu'n drosedd neillog lle mae'r diffynnydd yn nodi y bydd yn pledio'n ddieuog ac yn dewis treial o flaen rheithgor yn Llys y Goron, yna bydd y mater yn mynd i Lys y Goron. Unwaith eto, ar gyfer trosedd dditiadwy yn unig, er mwyn bod yn sicr o gael y credyd mwyaf am bledio'n euog, disgwylir i'r diffynnydd nodi ei fwriad i bledio'n euog i'r Llys Ynadon os yw'r achos i gael ei wrando yn Llys y Goron.⁹³
- 5.20 Os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog yn y Llys Ynadon, neu'n cael euogfarn, am drosedd neillog, gall yr ynadon draddodi'r diffynnydd i'w ddedfrydu i Lys y Goron os ydynt o'r farn bod eu pwerau dedfrydu – hyd at chwe mis yn y carchar am un drosedd a hyd at 12 mis i gyd – yn annigonol. Gellir apelio i Lys y Goron yn erbyn euogfarn neu ddedfryd gan y Llys Ynadon. Cynhelir apêl o'r fath drwy ailwrandawriad.

Cymorth Cyfreithiol yn y Llys Ynadon

- 5.21 Gall diffynnydd gael cymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth yn y Llys Ynadon (a) os yw'n gymwys ar sail ariannol a (b) os bodlonir y prawf "buddiannau cyfiawnder". Rhaid i gyfreithiwr y diffynnydd wneud cais i'r LAA am Orchymyn Cynrychiolaeth, gan roi manylion am y modd sydd gan y diffynnydd a digon o fanylion am yr amgylchiadau i fodloni'r prawf buddiannau cyfiawnder.
- 5.22 Os yw'r diffynnydd yn derbyn budd-daliadau, neu os yw'r troseddwr yn iau na 18 mlwydd oed, bydd yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol yn awtomatig. Mae oddeutu 45% o'r ceisiadau'n cael eu "pasbortio" i gael cymorth cyfreithiol am fod y diffynnydd yn derbyn Credyd Cynhwysol. Mewn achosion eraill, os yw incwm blynyddol gros y diffynnydd yn £22,325 neu'n fwy, ni fydd yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol. Os yw incwm blynyddol y diffynnydd rhwng £12,475 a £22,325, yna didynnir gwahanol lwfansau, er enghraifft am rent neu daliadau morgais, y dreth gyngor, a lwfans cost byw, i gyfrifo incwm gwario net y diffynnydd. Os bydd incwm gwario blynyddol y diffynnydd, ar ôl ei gyfrifo fel hyn, yn llai na £3,398, yna bydd yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol. Fel y nodwyd eisoes, nid yw'r terfynau hyn wedi'u diwygio ers blynyddoedd lawer, ond maent yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.⁹⁴

⁹³ [Reduction in Sentence for a Guilty Plea Guideline - January 2017 \(sentencingcouncil.org.uk\)](https://www.sentencingcouncil.org.uk/reduction-in-sentence-for-a-guilty-plea-guideline-january-2017)

⁹⁴ Cyhoeddwyd Adolygiad o'r Prawf Modd Cymorth Cyfreithiol yn Chwefror 2019. Bydd yr adolygiad yn ystyried meysydd fel y trothwyon incwm a chyfalaf ar gyfer hawlio cymorth cyfreithiol sifil a throeddol, pasbortio ar sail budd-daliadau, meysydd cymorth cyfreithiol lle nad oes prawf modd, mathau o incwm a chyfalaf a ddiystyrir wrth asesu cymhwysterau ariannol a'r system gyfraniadau. Bwriedir cwblhau'r adolygiad erbyn diwedd 2021, wedi iddo gael ei lesteirio gan y pandemig COVID-19.

- 5.23 Gan fod cymorth cyfreithiol yn cael ei ganiatáu bron bob tro yn Llys y Goron, er bod cyfraniad i'w wneud, awgrymwyd i'r Adolygiad fod rhai diffynyddion sydd heb fod yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol yn y Llys Ynadon yn dewis cael treial yn Llys y Goron am na fyddent yn gallu fforddio cynrychiolaeth gyfreithiol fel arall.
- 5.24 Yn y Llys Ynadon, bydd y CPS yn cael ei gynrychioli fel arfer gan erlynydd mewnol, neu gan fargyfreithiwr neu asiant arall. Bydd diffynyddion yn cael eu cynrychioli fel arfer gan gyfreithiwr neu weithredwr cyfreithiol siartredig sydd â hawl i ymddangos yn y Llys Ynadon, neu gan fargyfreithiwr iau. Os bydd y cyfreithiwr yn cyfarwyddo bargyfreithiwr, yna telir y bargyfreithiwr gan y cyfreithiwr yn hytrach na'r LAA.
- 5.25 Yn 2019/20 cafwyd tua 257,000 o hawliadau mewn perthynas â chymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth yn y Llys Ynadon, ar gost o tua £110 miliwn.

Cynllun Cyfreithiwr ar Ddyletswydd yn y Llys Ynadon

- 5.26 Bydd nifer mawr o ddiffynyddion yn cyrraedd y Llys Ynadon heb gynrychiolaeth. Gellir cael nifer o resymau am hyn, er enghraifft o ganlyniad i wrthod cyngor cyfreithiol yng ngorsaf yr heddlu, colli cysylltiad â chyfreithiwr a oedd wedi rhoi cyngor yng ngorsaf yr heddlu, o ganlyniad i gyfnod hir o RUI efallai, am nad ydynt yn deall y broses, neu am eu bod yn credu nad oes arnynt angen cynhorthwy cyfreithiol. Fodd bynnag, o dan gynllun cyfreithiwr ar ddyletswydd y Llys Ynadon, mae cyfreithiwr ar ddyletswydd yn y Llys i roi cyngor a chynhorthwy yn ddi-dâl, yn cynnwys cynhorthwy drwy eirioli, i ddiffynyddion sydd heb gynrychiolaeth, er bod hynny ar rybudd byr iawn.
- 5.27 Yn 2019/20 cafwyd oddeutu 63,500 o hawliadau mewn perthynas â chynllun cyfreithiwr ar ddyletswydd y Llys Ynadon, ar gost o tua £19 miliwn.

Llys Ieuentid

- 5.28 Heblaw am droseddau difrifol iawn, bydd troseddau gan blant rhwng 10 a 17 oed yn cael eu rhoi ar brawf yn y Llys Ieuentid, hyd yn oed os yw'r drosedd yn un dditiadwy. Profir achosion yn y Llys Ieuentid gan dri ynad neu gan farnwr rhanbarth. Mae cymorth cyfreithiol ar gael i unrhyw un o dan 18 oed heb brawf modd, ond bydd y gydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar ffioedd y Llys Ynadon hyd yn oed os yw'r drosedd yn y cyhuddiad yn un dditiadwy. Mae'r weithdrefn yn y Llys Ieuentid yn llai ffurfiol, ac nid yw'r achosion yn agored i'r cyhoedd. Gweler ymhellach Bennod 11 isod.

Llys y Goron

- 5.29 Mae Llys y Goron yn rhoi prawf ar droseddau ditiadwy yn unig a throseddau neilllog lle mae'r diffynnydd wedi dewis cael treial yn Llys y Goron. Mae'r treial yn un o flaen barnwr Llys y Goron a rheithgor. Mae Llys y Goron yn delio hefyd ag achosion a draddodwyd ar gyfer dedfrydu o'r Llys Ynadon ac apelau o'r Llys

Ynadon i Llys y Goron, a'r olaf yn cael eu gwrando gan farnwr Llys y Goron yn eistedd gyda dau ynad.⁹⁵

Y camau yn Llys y Goron

- 5.30 Pan fydd yr achos yn cyrraedd Llys y Goron o'r Llys Ynadon, cynhelir PTPH 28 diwrnod ar ôl ei anfon fel arfer. Cyn cynnal y PTPH, dylai'r CPS fod wedi cyflwyno'r prif ddeunyddiau y mae'r erlyniad yn dibynnu arnynt, yn cynnwys digon o dystiolaeth i alluogi'r Llys i reoli'r achos yn effeithiol.⁹⁶ Dywedwyd wrth yr Adolygiad nad yw hyn yn digwydd bob amser.
- 5.31 Fel arfer, cofnodir ple euog neu ble dieuog yn y PTPH. Os pledir yn euog, gall y barnwr fynd yn ei flaen i ddedfrydu. Os pledir yn ddieuog, dylai'r barnwr roi cyfarwyddiadau pellach. Ar ôl hynny, dylai'r weithdrefn barhau fesul cam. Yn gyntaf, dylai'r CPS gyflwyno'r rhan fwyaf o dystiolaeth yr erlyniad o fewn 50 diwrnod (achosion rhai sydd yn y ddalfa) neu 70 diwrnod fel arall (Cam 1). Yna 28 diwrnod ar ôl Cam 1 dylai'r amddiffyniad gyflwyno'r Datganiad Amddiffyn yn amlinellu natur yr amddiffyniad, y ffeithiau y dibynnir arnynt a gwahanol faterion eraill (Cam 2). Wedyn dylai'r erlyniad ymateb i'r datganiad amddiffyn (Cam 3) a dylai'r amddiffyniad wneud unrhyw geisiadau olaf (Cam 4): ar y pwynt hwn, dylai'r achos fod yn barod ar gyfer treial. Yma eto, dywedwyd wrth yr Adolygiad nad yw'r amseriadau hyn yn cael eu parchu bob amser, a bod yr arfer o ran datgelu yn amhrydlon weithiau. Mae'n ymddangos bod angen cynnal sawl PTPH mewn rhai achosion. Nid oes bron dim sancsiynau ar gael i'r Llys mewn gwirionedd os na fydd y partïon yn glynu wrth yr amserlen.

Cymorth Cyfreithiol yn Llys y Goron

- 5.32 Mae'r rhan fwyaf o'r diffynnyddion yn Llys y Goron yn cael cymorth cyfreithiol. Heblaw am apelau o'r Llys Ynadon yn erbyn euogfarn neu ddedfryd, tybir bod yr holl achosion yn Llys y Goron yn bodloni'r prawf buddiannau cyfiawnder i ddibenion cymorth cyfreithiol. O ran y prawf modd, os yw incwm gwario'r diffynnydd (h.y. incwm gros llai didyniadau am rent, cost byw etc) yn fwy na £37,500, ni fydd yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol, ac os yw incwm gwario'r diffynnydd rhwng £3,398 a £37,500, gofynnir iddo dalu cyfraniad o 90% o'i incwm gwario am gyfnod o chwe mis ar y mwyaf. Os caiff ei ryddfarnu, dychwelir y cyfraniadau hyn i'r diffynnydd. Os ceir y diffynnydd yn euog a bod ganddo gyfalaf o fwy na £30,000, gellir gofyn iddo dalu cyfraniad ychwanegol i gwrdd â'i holl gostau amddiffyn. Mae oddeutu 9% o ddiffynnyddion yn Llys y Goron yn talu cyfraniadau ar sail incwm, a 3% yn talu cyfraniadau ar sail eu cyfalaf. Mae tua 7% o ddiffynnyddion yn talu'n breifat am gynrychiolaeth. Os cânt eu rhyddfarnu, gellir dyfarnu costau i ddiffynnyddion sy'n talu'n breifat ond ar gyfraddau cymorth cyfreithiol yn unig.⁹⁷

⁹⁵ Mae tua 84 o ganolfannau Llys y Goron. Gwrandewir rhai treialon gan farnwr Uchel Lys ar gylchdaith. Mae barnwyr rhan-amser, sef Cwnsleriaid y Frenhines fel arfer yn eistedd fel Cofiadur, yn profi achosion yn Llys y Goron hefyd.

⁹⁶ Plea and Trial Preparation Hearings – Notes for Guidance, 2015, tudalen 1.

⁹⁷ Gweler Atodlen 7 i LASPO. Mae'r mater hwn y tu allan i gwmpas yr Adolygiad.

- 5.33 Yn 2019/20 cafwyd tua 89,000 o achosion cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron, ac roedd y gwariant ar gymorth cyfreithiol oddeutu £564 miliwn. Gwnaed tua 82,200 o hawliadau o dan yr LGFS, yn dod i gyfanswm o tua £358 miliwn, a 82,500 o hawliadau o dan yr AGFS, yn dod i gyfanswm o £207 miliwn.

Elfennau Eraill y System

Apelau

- 5.34 Mae cymorth cyfreithiol ar gael mewn apelau o Lys y Goron i'r Llys Apêl yn yr Adran Droseddol, yn erbyn dedfryd neu euogfarn. Mae cymorth cyfreithiol ar gael hefyd ar gyfer achosion o flaen y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol (CCRC), lle mae personau sy'n teimlo eu bod wedi cael cam o ganlyniad i gamweinyddu cyfiawnder yn gallu gwneud cais am adolygu eu hachos ar ôl troi at bob math arall o apêl.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

- 5.35 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r brif adran lywodraeth sy'n gyfrifol am y system cyfiawnder troseddol. Mae cyfeiriad strategol yr heddlu a'i brif gyllid yn gyfrifoldeb i'r Swyddfa Gartref. Mae'r CPS yn cael ei arwain gan y DPP ac mae'n atebol i'r Twrnai Cyffredinol. Cyfanswm gwariant y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2019/20 oedd £10.5 biliwn.⁹⁸ Yr eitem fwyaf yw HMPPS (£5.3 biliwn), sy'n gyfrifol am wasanaethau carchar a phrawf. Mae GLITEM (£2 biliwn) yn gyfrifol am lysoedd trosedd, llysoedd sifil a thribiwnlysoedd. Mae GLITEM yn gyfrifol hefyd am y systemau digidol perthnasol, yn cynnwys y Llwyfan Cyffredin, sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd i greu gwell cysylltiad rhwng cyfranogwyr ym mhob rhan o'r SCT. Cost weinyddol yr LAA, sy'n gweinyddu cymorth cyfreithiol sifil a chymorth cyfreithiol troseddol, oedd £95 miliwn yn 2019/20.

Bwrdd Cyfiawnder Troseddol

- 5.36 Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yn cael ei gadeirio gan yr Arglwydd Ganghellor, sef y Dirprwy Brif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar hyn o bryd, ac fe'i mynychir gan uwch arweinwyr o bob rhan o'r SCT sy'n gyfrifol am gynrychioli eu hasiantaethau eu hunain. Er bod Cadeirydd Cyngor y Bar ac arweinydd Cymdeithas y Cyfreithwyr ar Gyfiawnder yn cael eu gwahodd i'w gyfarfodydd, nid yw'r amddiffyniad wedi'i gynrychioli'n ffurfiol ar y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol.
- 5.37 Mae model y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yn cael ei ddilyn mewn nifer o ardaloedd lleol ledled Cymru a Lloegr. Fel arfer bydd Byrddau Cyfiawnder Troseddol lleol wedi'u trefnu ar sail ardaloedd heddlu a'u cadeirydd mewn llawer achos yw'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu neu Brif Gwnstabl lleol. Yng Nghymru ceir y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru hefyd, sy'n dod â'r byrddau lleol ynghyd o bob rhan o Gymru. Mae rhai Byrddau Cyfiawnder

⁹⁸ Mae gwariant gros wedi'i seilio ar Adroddiadau Blynyddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar gyfer 2019/20

Troseddol lleol yn cynnwys cynrychiolwyr eiriolwyr amddiffyn, ond mae nifer mawr sydd heb eu cynnwys. Roedd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Swydd Hants ac Ynys Wyth wedi cyflwyno sylwadau buddiol i'r Adolygiad.

Y Rheoleiddwyr

- 5.38 Mae nifer o reoleiddwyr perthnasol yn gyfrifol am eu priod broffesiynau; y BSB, yr SRA a CILEX. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol (LSB) yn goruchwyllo'r rheoleiddwyr hyn yn ogystal â Chyngor y Bar a Chymdeithas y Cyfreithwyr.

Y Cyflenwyr

Cyfreithwyr

- 5.39 Prif gyswllt y cleient ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol yw'r cyfreithiwr.⁹⁹ A siarad yn ffurfiol, o dan LASPO mae dyletswydd statudol yr Arglwydd Ganghellor i gyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol yn cael ei chyflawni ar ei ran gan Gyfarwyddwr Gwaith Achosion Cymorth Cyfreithiol (y Cyfarwyddwr) sydd hefyd yn Brif Weithredwr yr LAA. Pan roddir Gorchymyn Cynrychiolaeth i ffyrn cymorth cyfreithiol troseddol yn ei awdurdodi i gyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol i gleient, fe gyflenwir y gwasanaethau hynny ar ran y Cyfarwyddwr i gyflawni dyletswydd statudol yr Arglwydd Ganghellor.¹⁰⁰ Wrth gyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol mewn cyfraith ac mewn ffaith, cyflawnir swyddogaeth gyhoeddus.
- 5.40 Yn 2019/20 gwnaeth yr LAA daliadau i 1220 o ffyrniau ac, o'r rhain, roedd tua 26% yn Llundain. Mae'r wybodaeth yn Atodiad K yn dangos mai trosiant cymharol fach sydd gan nifer o ffyrniau mewn cymorth cyfreithiol troseddol a bod trosiant o lai na £0.6 miliwn gan oddeutu 50% ohonynt. Mae eraill yn ffyrniau canolig eu maint gyda throsiant rhwng £0.6 miliwn a £10 miliwn. Mae nifer bach o ffyrniau sydd â throsiant mewn cymorth cyfreithiol troseddol o fwy na £10 miliwn.
- 5.41 O ran rhywedd, mae cyfreithwyr sy'n gweithio mewn ffyrniau sy'n gwneud o leiaf rywfaent o waith cymorth cyfreithiol troseddol wedi'u rhannu'n weddol gyfartal rhwng dynion a menywod. Yn gyffredinol, mae mwy o fenywod nag o ddynion hyd at 45 oed yn fras, ond wedyn mae'r cydbwysedd o ran rhywedd yn newid, gan ddod yn 60:40 dynion/ menywod ar ôl 45 oed, a'r gyfran o fenywod yn gostwng yn fwy wedyn. O ran cyfreithwyr ar ddyletswydd, roedd y cydbwysedd oddeutu 65% yn ddynion a 35% yn fenywod yn 2019. Gyda golwg ar ethnigrwydd, yn gyffredinol cyfreithwyr o gefndir BAME yw tua 20% o'r holl

⁹⁹ Er y gall hwn fod yn gyfreithiwr penodol, fe allai'r cyswllt cyntaf yng ngorsaf yr heddlu fod yn gynrychiolydd achrededig ar ran y cyfreithiwr: gweler Pennod 8 isod. Ar wahanol gamau yn y broses, bydd y cleient yn dod i gysylltiad â gweithredwyr cyfreithiol siartredig, gweithwyr cyswllt, gweithwyr paragyfreithiol ac eraill yn ffyrn y cyfreithiwr sy'n gweithio ar yr achos. Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y term "cyfreithiwr" i gwmpasu pawb yn y ffyrn penodol y rhoddwyd y Gorchymyn Cynrychiolaeth iddo.

¹⁰⁰ Gweler [Specification to the Standard Crime Contract 2017](#) adran 4.

gyfreithwyr sy'n gweithio i ffyrniau sy'n gwneud rhywfaint o waith cymorth cyfreithiol troseddol, a'r grŵp mwyaf yw rhai o ethnigrwydd Asiaidd.

Aelodau CILEX

- 5.42 Mae aelodau CILEX yn ymgymhwyso'n Weithredwyr Cyfreithiol Siartredig drwy gyfres o gyrsiau hyfforddi sy'n ymwneud yn benodol â'r maes cyfreithiol y maent yn dymuno ymarfer ynddo, yn wahanol i arholiadau proffesiynol cyfreithwyr neu fargyfreithwyr sy'n cynnwys pynciau o lawer math. Yn ôl CILEX, mae'r ffordd i ymgymhwyso drwy CILEX yn ddull dichonol amgen sy'n wahanol i'r dull mwy "llafurus" a fabwysiadwyd gan y proffesiynau hyn ac sy'n arbennig o addas i'r rheini sydd heb y manteision cymdeithasol neu ariannol sydd gan lawer o'r rheini sy'n ymgymhwyso'n gyfreithwyr neu'n fargyfreithwyr. Mae CILEX yn cyfeirio at natur amrywiol iawn ei aelodaeth mewn perthynas â rhywedd, ethnigrwydd ac oed.
- 5.43 Gall aelodau CILEX ddod yn bartneriaid mewn ffyrniau cyfreithwyr, fel sydd wedi digwydd, a gweithio mewn ffyrniau cyfreithwyr ar bob lefel, yn cynnwys rolau rheoli uwch. Mae CILEX wedi amcangyfrif bod oddeutu 1250 o aelodau CILEX yn gweithio mewn ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol, er bod y nifer hwn wedi gostwng wrth i yrfaedd mewn cymorth cyfreithiol troseddol ddod yn llai dichonol.
- 5.44 Mae'r aelodau hynny sy'n dangos yr holl gymwyseddau angenrheidiol i CILEX yn cael hawl i ymddangos yn y Llys Ynadon a'r Llys Ieuencid, ac mewn rhai apelau o'r Llys Ynadon, mewn ceisiadau am fechnïaeth ac i draddodi ar gyfer dedfrydu yn Llys y Goron.
- 5.45 Bydd aelodau CILEX yn gweithredu fel cynrychiolwyr achrededig yng ngorsaf yr heddlu ond ni allant weithredu'n ffurfiol fel cyfreithwyr ar ddyletswydd os na fyddant wedi'u hachredu o dan Gynllun Achredu Cyfreitha Troseddol (CLAS) Cymdeithas y Cyfreithwyr. Trafodir y mater hwn ym Mhennod 8.

Y Contract Trosedd Safonol (SCC)

- 5.46 Caiff yr SCC ei dendro bob tair blynedd gyda'r dewis i'w ymestyn am ddau gyfnod ychwanegol o un flwyddyn, ac mae hawl gan bob endid sy'n cwrdd â'i ofynion i gael contract.¹⁰¹ Y contract presennol yw SCC 2017, sy'n dod i ben ym Medi 2022. Dechreuodd y broses aildendro yn Hydref 2021, ond rhagwelir y bydd contract 2022 ar gyfer un flwyddyn, gyda'r posibilrwydd o'i ymestyn, er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau a all ddeillio o'r Adolygiad hwn.¹⁰² Ar hyn o bryd, nid yw ffyrm newydd yn gallu ymuno â'r farchnad rhwng tendrau. Neilltuir Rheolwr Contract i bob ffyrm sy'n gwneud contract â'r LAA a hwn fydd y prif bwynt cyswllt.

¹⁰¹ Yn dechnegol, cyfnod y contract yw tair blynedd, gyda dewis i'w ymestyn ddwywaith am 1 flwyddyn ar y tro.

¹⁰² LAA, *Headline Intentions for Crime Services from 1 October 2022*, cyhoeddwyd 16 Mehefin 2021. [Microsoft Word - Headline Intentions for Crime services from October 2022.doc](https://publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/102444/microsoft-word-headline-intentions-for-crime-services-from-october-2022.doc) (publishing.service.gov.uk)

Ansawdd a Gwasanaeth

- 5.47 Mewn perthynas ag ansawdd a gwasanaeth, mae'n ofynnol bod deiliaid y contract:
- Yn dal un ai Marc Ansawdd Arbenigol (SQM) yr LAA neu Lexcel Practice Cymdeithas y Cyfreithwyr
 - Yn cynnal o leiaf un swyddfa yng Nghymru a Lloegr
 - Yn cwrdd â'r Gofynion am Oruchwyliwr: ar gyfer achosion troseddol, rhaid i'r ffym fod ag o leiaf un Goruchwyliwr amser llawn cymwysedig am bob pedwar Enillydd Ffioedd Dynodedig neu Weithiwr Achos. Rhaid i'r Goruchwyliwr fod wedi ymgymhwyso o dan y CLAS, bod yn bresennol ar nifer gofynnol o achlysuron yng ngorsaf yr heddlu a'r Llys Ynadon, a gweithio o un o swyddfeydd y ffym
 - Yn enwi'r holl Enillwyr Ffioedd Dynodedig, yn cynnwys Cynrychiolwyr Achrededig Gorsaf yr Heddlu ac, yn achos yr olaf, sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion eu hachrediad
- 5.48 Mae gofyniad hefyd yn yr SCC fod system TG gan y ffym sy'n cyrraedd safonau gofynnol, yn cynnwys y gallu i gysylltu â'r Llwyfan Cyffredin, a'i fod yn cadw cofnodion priodol. Yn ogystal â hyn, mae'r SCC yn pennu gwahanol Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs), yn cynnwys osgoi gostyngiad o fwy na 15% yn y costau cydnabyddiaeth ariannol a hawlir dros gyfnod treigl o dri mis.
- 5.49 Rheolir ansawdd ar sail system Adolygu gan Gymheiriaid a ddyfeisiwyd yn wreiddiol gan y Sefydliad Uwchefrydiau Cyfreithiol ac sydd mewn grym er 2015. Bydd yr Adolygu gan Gymheiriaid yn digwydd unwaith bob tair blynedd fel arfer ac mae'n cael ei gyflawni ar ran yr LAA gan ymarferwyr profiadol sydd wedi'u hyfforddi yn y broses. Gellir rhoi sgôr i ddarparwyr ar sail y raddfa hon: 1 Rhagoriaeth, 2 Cymhwysedd a Mwy, 3 Cymhwysedd ar y Trothwy, 4 Llai na Chymwys a 5 Methiant o ran Perfformiad. Os bydd darparwyr yn cael sgôr o 4 neu 5, byddant yn cael cyfnod penodol i roi pethau mewn trefn.
- 5.50 Yn ogystal â hyn, mae'r LAA yn cynnal archwiliadau rheolaidd. Gall y rhain fod yn ymweliad blynyddol yn unig gan y rheolwr contract, neu'n ymchwiliad mwy manwl. Gall yr archwiliad gynnwys y cyfrif elw a cholled; datganiadau llif arian parod; cymhwystra'r cleientiaid i gael cymorth cyfreithiol a'r diwydrwydd a gyflawnwyd; a'r hawliadau a wnaed a'r dystiolaeth i'w hategu. Os oes achos pryder, gellir cynnal archwiliad penodol mwy manwl.
- 5.51 Gwelir bod y strwythur uchod yn gymharol "feichus" o ran cydymffurfio â'r rheoliadau: mae hyn yn achos pryder a godwyd mewn tystiolaeth i'r Adolygiad.
- 5.52 Mae rhwymedigaethau contractiol pellach yn yr SCC yn cynnwys:
- Sicrhau bod is-contractwyr neu asiantau yn cael eu goruchwyllo'n briodol

- Bod yr holl anfonebau a geir gan gontractwyr neu asiantau o'r fath i gael eu talu o fewn 30 o ddiwrnodau
- Na fydd y ffyrm na neb ar ei ran yn marchnata'r cyflenwad o wasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol drwy ymweliadau neu alwadau na ofynnwyd amdanynt, ac na roddir unrhyw anogaeth ar ffurf arian neu roddion eraill i gleient neu gleient dichonol
- Na fydd y ffyrm na neb ar ei ran yn talu neu'n derbyn unrhyw ffi atgyfeirio neu daliad tebyg am atgyfeirio neu gyflwyno (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) unrhyw gleient neu gleient dichonol
- Wrth gyfarwyddo Cwnsler neu eiriolwr mewnol, ymgynghori â'r cleient am y dewis, a hysbysu'r cleient am brofiad ac addasrwydd yr eiriolwr a ddewiswyd, ac a yw eiriolwr arall ar gael (neu beidio) a chadw cofnod o gyngor o'r fath.¹⁰³

Y Cynllun Cyfreithiwr ar Ddyletswydd

- 5.53 Er bod rhai darparwyr yn dewis cymryd gwaith gan eu cleientiaid eu hunain yn unig, mae oddeutu 95% o ffyrmiau cyfreithwyr trosedd yn cymryd rhan yn y cynllun Cyfreithiwr ar Ddyletswydd.
- 5.54 Mae'r LAA yn rhannu Cymru a Lloegr yn ardaloedd, gyda chynllun Cyfreithiwr ar Ddyletswydd ar wahân ar gyfer pob ardal. Gellir cael newid yn y ffiniau rhwng cynlluniau o bryd i'w gilydd am resymau gweithredol. Lleoliad daearyddol (h.y. cod post) swyddfa neu swyddfeydd y ffyrm fydd yn pennu i ba gynllun neu gynlluniau y bydd yn perthyn. Mae'r cynlluniau'n cynnwys gwaith ar ddyletswydd yng ngorsaf yr heddlu ac yn y Llys Ynadon.
- 5.55 Dyrennir slotiau Dyletswydd i'r ffyrmiau sy'n gwneud cais i ymuno â'r Cynllun(iau) yn eu hardal(oedd), ar sail gyfrannol yn ôl nifer y Cyfreithwyr ar Ddyletswydd sydd ym mhob ffyrm ar adeg tendro.¹⁰⁴ Mae'r LAA yn cyhoeddi rota sy'n dangos y slotiau a ddyrannwyd i'r ffyrmiau cysylltiedig. Nid oes terfyn ar nifer y slotiau y gall ffyrm ei gael. Rhaid i Gyfreithwyr ar Ddyletswydd gwblhau 14 awr o waith amddiffyn troseddol bob wythnos. Cafwyd cynnig i ddiwygio'r gofyniad hwn yn 2022 i ganiatáu gweithio mwy hyblyg gan y rheini sy'n gweithio'n rhan-amser a'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu a chyfrifoldebau eraill.¹⁰⁵ O dan yr SCC, mae gofyn i'r cyfreithiwr gyrraedd gorsaf yr heddlu o fewn 45 munud ar ôl cael galwad ffôn.

Bargyfreithwyr

- 5.56 Yn 2019/20 roedd oddeutu 3680 o fargyfreithwyr yn gwneud rhywfaint o waith cymorth cyfreithiol troseddol ac, o'r rhain, roedd 2690 wedi datgan eu bod yn

¹⁰³ Contract Trosedd Safonol, Cymal 7.3

¹⁰⁴ Neilltuir nifer bach o slotiau ar gyfer y PDS yn y pedair ardal lle mae'r PDS yn gweithredu.

¹⁰⁵ Dywedodd yr LAA wrth yr Adolygiad mai pwrpas y gofyniad hwn oedd sicrhau na fyddai cyfreithwyr nad ydynt yn ymarfer, ac nad ydynt hyd yn oed yn byw yn y DU o bosibl, yn cael eu cynnwys wrth gyfrifo'r dyraniadau ar gyfer Cyfreithwyr ar Ddyletswydd.

ymarfer yn amser llawn. Mae tua 56% o fargyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol wedi'u lleoli yn Llundain. Y cydbwysedd cyffredinol o ran rhywedd bargyfreithwyr sy'n gwneud gwaith cyfraith trosedd yn 2019/20 oedd 69/30¹⁰⁶ dynion/menywod, ond yn y blynyddoedd cyntaf o ymarfer y cydbwysedd yw 50:50. O ran ethnigrwydd, mae tua 80% o fargyfreithwyr sy'n gwneud gwaith cyfraith trosedd yn wyn. Yn 2019/2020 Cwnsleriaid y Frenhines oedd tua 13% o'r bargyfreithwyr sy'n gwneud gwaith cyfraith trosedd, a'r gweddill yn fargyfreithwyr iau.¹⁰⁷

- 5.57 Mae bargyfreithwyr yn hunangyflogedig, ond maent yn gweithredu o siambrau ac felly'n rhannu eu swyddfa, TG, costau staff a gorbenion eraill ag aelodau siambrau. Ceir rhai siambrau sydd â 100 neu fwy o aelodau. Caiff bargyfreithwyr eu cyfarwyddo gan eu gwahanol gyfreithwyr, ond mae'r ffordd o ddyrannu gwaith yn dibynnu hefyd ar y clerod yn y siambrau sy'n gyfrifol am ymateb i geisiadau gan gyfreithwyr am gwnsleriaid, a geir yn aml yn hwyr yn y dydd. Rhaid i'r clerod sicrhau bod eu bargyfreithwyr bob amser yn y llys cywir ar yr amser cywir y diwrnod wedyn. Nid yw hon yn dasg hawdd gan fod rhestrau llysoedd yn aml yn newid yn hwyr yn y dydd.

¹⁰⁶ Nid oedd gwybodaeth ar gael am rywedd ar gyfer 1% o'r bargyfreithwyr hyn.

¹⁰⁷ Gelwir bargyfreithiwr yn fargyfreithiwr iau os nad yw'n Gwnsler y Frenhines, heb ystyried hynafedd.

PENNOD CHWECH: CYNALIADWYEDD FFYRMIAU CYMORTH CYFREITHIOL TROSEDDOL

Y Dull Cyffredinol o Weithredu

- 6.1 Ar un lefel gallai'r cwestiwn ynghylch a yw system yn "gynaliadwy" fod yn un sy'n gofyn a fydd y system yn gallu parhau hyd y gellir rhag-weld gan ddarparu dim mwy na'r gwasanaeth lleiaf posibl rywfodd neu'i gilydd. Yn fy marn i, mae'r cwestiwn ynghylch cynaliadwyedd yn ymwneud â llawer mwy na hynny.
- 6.2 Y mater cyntaf yw'r budd cyhoeddus sydd mewn system cyfiawnder troseddol sy'n gweithio'n briodol. Darperir cyngor a chynhorthwy yng ngorsaf yr heddlu nid yn unig er budd diffynnydd penodol, er mor hanfodol yw hynny, ond i sicrhau bod y gweithdrefnau PACE yn cael eu dilyn yn briodol, gan osgoi camweinyddu cyfiawnder, a chynnal ymddiriedaeth yn yr heddlu. Mae'r un peth yn wir ar yr holl gamau diweddarach yn yr achos: nid yw'n fater o amddiffyn unigolyn penodol yn unig, ond cynnal egwyddorion y drefn briodol sy'n sail i'r system cyfiawnder troseddol gyfan. Nid fydd system yn cyflawni hynny os nad yw ond yn crafu byw.
- 6.3 Mewn system gynaliadwy mae angen darparu llwybr gyrfa sy'n galluogi rhai newydd i ymuno, darparu'r hyfforddiant sydd ei angen, a sicrhau bod pob lefel o brofiad ar gael i ddelio â nifer o wahanol droseddau, o gam-drin domestig i lofruddiaeth, o yfed a gyrru i dreisio, o dwyll ariannol cymhleth i derfysgaeth. Mae hwn yn waith anodd o safbwynt corfforol, deallusol ac emosiynol, yn delio bob dydd â thrawma, yn amrywio o gam-drin plant i droseddu â chyllyll, gweithio mewn dalfeydd, yn aml yng nghelloedd y llys neu mewn carchardai. Gall cyfreithiwr ar ddyletswydd dreulio'r rhan fwyaf o'r nos yng ngorsaf yr heddlu a'r rhan fwyaf o'r diwrnod wedyn yn y Llys. Mae'r cleientiaid hefyd yn gofyn llawer, byddant yn aml yn ifanc ac o gefndiroedd anodd, yn methu â'u mynegi eu hunain, yn ddrwgdybus ac wedi profi trawma eu hunain, llawer ohonynt ag anawsterau dysgu, yn dod o wahanol gefndiroedd diwylliannol, ac yn aml yn byw bywyd di-drefn. Ond mae'n bosibl y bydd eu holl gyfleoedd bywyd yn dibynnu ar ansawdd y cyngor a'r gynrychiolaeth a gânt gan eu cyfreithiwr ar drobwynt tyngedfennol yn eu bywydau.
- 6.4 Nid yw gyrfa yn y cyd-destun hwn yn un addas i'r gwangalon. Galwedigaeth yw gwaith cymorth cyfreithiol troseddol yn y bôn, a gwasanaeth cyhoeddus, lle mae'r rheini sy'n datblygu gyrfa yn gorfod mynd heb yr enillion mwy sydd ar gael yn y sector preifat. Ond os na fydd y rheini sydd â'r gallu a'r awydd i ymgymryd â'r gwaith hwn yn gallu gobeithio hyd yn oed am gydabyddiaeth ariannol resymol, bydd y cyflenwad o dalentau newydd yn sicr o ddiffygio. Bydd y rheini sydd â digon o ddiddordeb a delfrydiaeth i ddyfalbarhau, gan obeithio am y gorau, yn gweld ar ôl ychydig fod rhaid rhoi blaenoriaeth i'r angen i gael deupen y llinyn ynghyd, a hynny hefyd oherwydd y ddyled y bydd nifer mawr ohonynt yn ei hysgwyddo ar ôl bod yn y brifysgol ac ysgol y gyfraith.

- 6.5 Nid mater o gydnabyddiaeth ariannol yn unig yw hwn, er bod honno'n agwedd bwysig iawn: mae hefyd yn fater o gynnal morâl. Teimlad a fynegwyd yn aml wrthyf mewn cyfarfodydd bord gron yng Nghymru ac yn Lloegr oedd “does neb yn poeni” a “does dim dyfodol i gymorth cyfreithiol troseddol”.
- 6.6 Ceir effaith ar forâl hefyd oherwydd y rhwystredigaethau sy'n codi wrth ddelio â gweddill y SCT, sydd o dan bwysau mawr iawn ei hun. Mewn sylwadau nodweddiadol yn y dystiolaeth a gafwyd, cyfeiriwyd at dreulio amser yn mynd ar ôl yr heddlu, cyfathrebiadau â'r CPS a oedd heb eu hateb, cyflwyno dogfennau'n hwyr, Llysoedd sydd heb y gallu i ateb negeseuon e-bost, ac achosion a restrwyd a oedd heb eu cynnal. Mae RUI wedi rhoi pwysau ychwanegol ar ysgwyddau darparwyr cyfreithwyr, gan greu'r angen i gadw ffeiliau'n agored pan nad oes dim yn digwydd na dim cydnabyddiaeth ariannol ar gael. O ran y cyfreithwyr, dywedwyd yn aml fod y baich gweinyddol o gwrdd â gofynion yr LAA yn cyfrannu'n helaeth at y rhwystredigaethau cynyddol.
- 6.7 Mae Dr Thornton o Brifysgol Nottingham Trent wedi ysgrifennu am y cyfweiliadau strwythuredig a gynhaliodd gyda chyfreithwyr a bargyfreithwyr. Mae'n dod i'r casgliad bod yr hyn y mae'n ei weld yn argyfwng morâl yn ganlyniad yn bennaf oll i orfod gwneud gwaith anodd lle mae'r cyfyngiadau ar ffioedd yn ei gwneud yn anodd iawn buddsoddi'r amser sydd ei angen i ddarparu gwasanaeth priodol. Ym marn Dr Thornton, mae'r proffesiwn, fel rydym ni'n ei adnabod, yn anghynaliadwy.
- 6.8 Fel rwyf i'n ei weld, y prif gwestiynau i'r Adolygiad yw:
- Ar y lefelau cyllido presennol, a yw cyfreithwyr yn gallu buddsoddi'n ddigonol mewn cyflogau ac amodau gweithio i ddenu a chadw ymgeiswyr da sydd â'r gallu a'r awydd i wneud gwaith cymorth cyfreithiol troseddol?
 - A yw perchnogion ffyrniau cyfreithwyr yn gallu gwneud elw digonol o'u buddsoddiad i'w gwneud yn barod i fentro buddsoddi mewn gwaith cymorth cyfreithiol troseddol?
- 6.9 Mae'r cwestiynau hyn yn galw hefyd am roi sylw i rai ffyn mesur cymharol, oherwydd y ffaith bod dewisiadau eraill ar gael sy'n talu'n well yw'r hyn sydd dros amser yn amddifadu gwaith cymorth cyfreithiol troseddol o'r bobl y mae eu hangen.
- 6.10 Agweddau sydd hefyd yn hanfodol i gynaliadwyedd yw cydraddoldeb ac amrywiaeth. Yn hanesyddol, mae gwaith cymorth cyfreithiol troseddol wedi cynnig cyfleoedd gyrfa pwysig i'r rheini o gefndiroedd llai breintiedig, fel y mae'n gwneud o hyd, ac mae'n cyfrannu'n helaeth at amrywiaeth gymdeithasol ac ethnig yn y proffesiwn cyfreithiol ac mewn cymdeithas. Pan yw ffioedd yn isel, caiff hynny effaith niweidiol anghymesur ar ffyrniau llai sydd yn aml yn cynnwys mwy o bobl o gefndir lleiafrifol ethnig. Yn bwysicach na hynny o bosibl, oherwydd effaith amgylchiadau mae cyfran gymharol fawr o ddiffynyddion yn dod o gefndiroedd lleiafrifol neu lai breintiedig. Ceir gwell ymddiriedaeth a

chyfathrebu o fewn y SCT os yw darparwyr cymorth cyfreithiol yn adlewyrchu'r cydbwysedd cymdeithasol ac ethnig mewn cymdeithas gyfan.

- 6.11 Ni ellir gwahanu'r cwestiwn ynghylch a yw lefel bresennol gyffredinol y cyllid yn ddigon i gynnal ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol oddi wrth y cwestiwn ynghylch sut mae'r cynlluniau ffioedd yn gweithredu. Rwyf yn trafod hynny ym Mhennod 7 a ddylai gael ei darllen gyda'r bennod hon.

Y Ddadi a Gyflwynwyd i'r Adolygiad

- 6.12 Roedd bron pob un o'r rheini a roddodd dystiolaeth i'r Adolygiad o safbwynt ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol wedi dadlau, yn sgil y ffaith na chafwyd cynnydd mewn tâl ers y 1990au a'r toriadau mewn ffioedd yn 2014, fod proffesiwn y cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol yn y fath gyflwr enbyd fel bod ei dranc yn anochel, yn eithaf buan yn ôl pob tebyg, o ganlyniad hefyd i effaith y pandemig. Mae'r sector yn sefyll ar ymyl y dibyn ("standing on a cliff edge")¹⁰⁸ neu ar fin distryw ("on the brink");¹⁰⁹ ni all ffyrniau gynnig yr un cyflogau â'r CPS sydd yn denu eu staff, nid yw'r cyflogau y gallant eu cynnig yn ddigon i gynnal y cyflenwad o newydd-ddyfodiaid, mae'r proffesiwn yn heneiddio, mewn llawer rhan o'r wlad ni ellir staffio'r cynlluniau cyfreithiwr ar ddyletswydd yn briodol, a phan fydd y cohort presennol o gyfreithwyr hŷn yn gadael y llwyfan ni fydd neb i gymryd eu lle. Pe byddai'r Adolygiad yn dod i'r casgliad nad oedd angen dim neu nemor ddim cynnydd mewn cyllid yna, pan fydd yr LAA yn gofyn am dendrau ar gyfer yr SCC newydd, byddai nifer mawr o ffyrniau'n rhoi'r gorau i fasnachu. Yn ôl Cymdeithas y Cyfreithwyr, mae senario "where the justice system can no longer function because there simply will not be enough criminal lawyers to provide access to justice",¹¹⁰ yn dod yn fwyfwy agos.

- 6.13 Cyflwynir y dadleuon hyn yn fanwl yn y dystiolaeth a atodwyd ac fe'u hategwyd gan ragor o ymatebion ar-lein a gafodd yr Adolygiad, mewn nifer mawr o gyfarfodydd, cyfarfodydd bord gron, ac o nifer o ffynonellau eraill a oedd yn cynnwys mewnbyn gwerthfawr gan academyddion.

Dadansoddi'r Dystiolaeth

- 6.14 Dadansoddwyd y dystiolaeth o dan bedwar prif bwnc: (1) Y gostyngiad yn niferoedd y darparwyr (2) Effaith y lefelau ffioedd presennol a thoriadau yn y gorffennol (3) Recriwtio a hyfforddi a (4) Proffidioldeb a Sefydlogrwydd Ariannol. Tynnir y llinynnau hyn ynghyd wedyn i gyrraedd (5) Casgliad am Gynaliadwyedd.

(1) Y Gostyngiad yn Niferoedd y Darparwyr

Ffyrniau

¹⁰⁸ [Ymateb Cymdeithas y Cyfreithwyr i'r Adolygiad](#), paragraff 13.

¹⁰⁹ [Ymateb Cymdeithas Cyfreithwyr Llysoedd Trosedd Llundain i'r Adolygiad](#), paragraff 2.

¹¹⁰ [Ymateb Cymdeithas y Cyfreithwyr i'r Adolygiad](#), paragraff 3.

- 6.15 Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr yn datgan bod 1861 o ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol yn 2010. Yn 2019, roedd 1271; ym Mehefin 2020, roedd 1147; ac yn Ebrill 2021, roedd 1090.¹¹¹
- 6.16 Mae'n anodd bod yn fanwl ynghylch union niferoedd y ffyrniau, gan nad yw'r ffigurau sydd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr yn cyfateb yn hollol i'r rheini sydd gan yr LAA. Gan gymryd y saith mlynedd diwethaf, mae'r ffigurau a gyhoeddwyd gan yr LAA yn dangos bod 1510 o ffyrniau'n gwneud rhywfaint o waith cymorth cyfreithiol troseddol yn 2014/15, a 1140 ym Mawrth 2021. Fodd bynnag, roedd y ffigur o 1090 yn Ebrill 2021 wedi'i roi mewn ymateb i Gwestiwn Seneddol ar 12 Ebrill 2021. Ar y sail honno cafwyd gostyngiad o tua 28% yn nifer y ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol yn y saith mlynedd diwethaf.
- 6.17 Ochr yn ochr â hyn, cafwyd gostyngiad hefyd yn nifer y swyddfeydd o tua 20% dros yr un cyfnod,¹¹² gan gofio mai'r swyddfa yw'r prif bwynt mynediad i'r diffynnydd cymorth cyfreithiol at ei gynrychiolydd cyfreithiol. Cafwyd gostyngiad sylweddol mewn rhai ardaloedd, yn enwedig yng Nghymru.
- 6.18 I ryw raddau, mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu'r gostyngiad mewn gwariant ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol sydd eisoes wedi'i grybwyll ym Mhennod 1.¹¹³ Dywedwyd wrthyf fod nifer o ffyrniau mwy wedi gadael y farchnad tua 2015/16, yn dilyn y toriadau yn 2014, ac un duedd neilltuol yw bod ffyrniau sy'n ymarfer mewn nifer o feysydd yn cau eu hadrannau cyfraith trosedd. Mewn ffyrniau llai, wrth i bartneriaid hŷn ymddeol, nid oes neb i barhau â'r busnes yn aml.
- 6.19 Ar y llaw arall, mae'n debygol iawn yn awr y bydd y galw'n cynyddu, a dyna un agwedd bwysig sy'n ategu fy nghasgliadau isod.

Cyfreithwyr a chyfreithwyr ar ddyletswydd

- 6.20 Yn 2014/15 roedd 133,370 o gyfreithwyr yn dal tystysgrifau ymarfer ac, o'r rhain, roedd 14,790 yn gweithio i ffyrn Cymorth Cyfreithiol Troseddol (CCT).¹¹⁴ Yn 2018/19 roedd 145,530 o gyfreithwyr yn dal tystysgrifau ymarfer ac, o'r rhain, roedd 11,760 yn gweithio i ffyrn CCT. Mewn geiriau eraill, tra oedd gweddill y proffesiwn yn ehangu, mae'r sector cymorth cyfreithiol troseddol wedi crebachu. Yn 2019/20, roedd 149,920 yn dal tystysgrif ymarfer. Er nad yw'r data am gyfreithwyr sy'n gweithio i ffyrniau CCT ond yn mynd hyd at 2018/19, mae'n debygol bod nifer y cyfreithwyr sy'n gweithio i ffyrniau CCT hefyd wedi gostwng yn 2019/20 o ystyried y gostyngiad yn nifer y ffyrniau CCT yn 2019/20 a hefyd y gostyngiad yn nifer y cyfreithwyr ar ddyletswydd yn 2019.

¹¹¹ [Ymateb Cymdeithas y Cyfreithwyr i'r Adolygiad](#), paragraff 19.

¹¹² *Legal Aid Statistics, Criminal Legal aid statistics England and Wales completions by provider and area data to March 2021*

¹¹³ Gweler paragraff 1.19 uchod

¹¹⁴ Gellir diffinio ffyrn Cymorth Cyfreithiol Troseddol (CCT) drwy ddweud ei fod yn ffyrn cyfreithwyr sy'n dal Contract Trosedd Safonol cyfredol gyda'r LAA ac yn cwblhau o leiaf rywffaint o waith cymorth cyfreithiol troseddol.

- 6.21 Mae tua hanner y ffyrniau CCT yn ymgymryd â busnes mewn meysydd cyfreithiol eraill, felly mae'n bosibl nad yw cyfreithiwr sy'n gweithio i ffyrn CCT yn gweithio ym maes cymorth cyfreithiol troseddol o reidrwydd. Yn y cyd-destun hwn, nid cyfanswm nifer y cyfreithwyr mewn ffyrniau CCT yw'r ffon fesur allweddol (gan ei bod yn bosibl bod llawer ohonynt yn gwneud gwaith arall) ond nifer y cyfreithwyr ar ddyletswydd. Nifer y cyfreithwyr ar ddyletswydd oedd tua 4,360 ym Mai 2021.
- 6.22 Yn aml, bydd rôl y cyfreithiwr ar ddyletswydd yn cynnwys oriau anghymdeithasol, ac oherwydd hynny neu resymau eraill, y cydbwysedd rhywedd rhwng dynion a menywod ymysg cyfreithwyr ar ddyletswydd yw tua 65/35. Mewn nifer o ardaloedd, yn cynnwys cytreffi fel Llundain, bydd amser teithio sylweddol, a gynhwysir yn ffi sefydlog gorsaf yr heddlu, yn elfen hefyd.
- 6.23 Yn ôl "map gwres" Cymdeithas y Cyfreithwyr,¹¹⁵ mewn 32 o gynlluniau cyfreithiwr ar ddyletswydd o blith cyfanswm o 212 ceir saith neu lai o gyfreithwyr ar ddyletswydd ar hyn o bryd, gan gofio mai saith cyfreithiwr a phob un yn darparu ar gyfer 24 awr yw'r lleiaf sydd ei angen i gynnal gwasanaeth bob awr o'r wythnos. Bydd o leiaf un cynllun arall, Sir Benfro, yn yr un sefyllfa cyn hir. Mae saith cynllun lle mae tri neu lai o gyfreithwyr ar ddyletswydd. Mae'r manylion yn Atodiad B i gyflwyniad Cymdeithas y Cyfreithwyr.
- 6.24 Mae proffil oed cyfreithwyr ar ddyletswydd yn heneiddio fwyfwy. Yn 2019, roedd 62% o gyfreithwyr ar ddyletswydd yn 45 oed neu'n hŷn, ac mae'r oed cyfartalog wedi codi un flwyddyn ym mhob un o'r blynyddoedd rhwng 2017 a 2019, o 47 i 49. Fel y nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr yn ei hymateb i'r Adolygiad:
- "Some areas were particularly badly affected in 2018; we anticipate that the situation will have got worse since then:*
- *In Dorset, Somerset, Wiltshire, Worcestershire, West Wales, Mid Wales, over 60 per cent of the solicitors are aged over 50.*
 - *In Norfolk, Suffolk, Cornwall and Worcestershire there are 0 criminal law solicitors aged under 35, with only 1 in West Wales and Mid Wales, and only 2 in Devon.*
 - *In a significant number of regions less than 10 per cent of solicitors in this field are under 35."*
- 6.25 Yn Ne-orllewin Lloegr, er enghraifft, mae 76% o gyfreithwyr ar ddyletswydd yn hŷn na 45 oed, o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 62%. Mae'r Adolygiad yn deall bod y cyflenwad yn Llundain yn gymharol dda ar hyn o bryd, ond mae Cymdeithas Cyfreithwyr Llysoedd Trosedd Llundain (LCCSA) yn nodi bod 59% o gyfreithwyr ar ddyletswydd, hyd yn oed yn Llundain, yn hŷn na 45 oed, dim ond ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- 6.26 Hyd yn hyn, deliwyd â'r sefyllfa drwy gael help llaw gan gyfreithwyr o ardaloedd cyfagos lle'r oedd modd a thrwy wneud mwy o ddefnydd, fel y mae'n

¹¹⁵ [Criminal duty solicitors in England and Wales \(carto.com\)](https://carto.com)

ymddangos, o gynrychiolwyr achrededig yr oedd eu cyfanswm wedi codi o tua 2640 yn Ionawr 2019 i 2990 yn Chwefror 2021. Yn fy marn i, nid yw'r naill na'r llall o'r rhain yn atebion tymor hir dichonol.¹¹⁶

- 6.27 Yn ogystal â hyn, bydd y cynnydd disgwylledig yn y galw am bresenoldeb yng ngorsaf yr heddlu o ganlyniad i recriwtio rhagor o swyddogion heddlu yn arwain at fwy o alwadau am gyfreithwyr ar ddyletswydd. Yn fy marn i, mae'n annhebygol y gellir ateb y galw hwn heb ddarparu cyllid ychwanegol i adfywio'r sector.

(2) Yr Effaith o Beidio â Chynyddu Ffioedd am Nifer o Flynyddoedd ac o Doriadau

- 6.28 Mae tair prif ffrwd o gyllid cyhoeddus ar gyfer incwm sylfaenol ffyrn cyfreithwyr, sef ffioedd Gorsaf yr Heddlu, ffioedd y Llys Ynadon, a ffioedd Llys y Goron o'r LGFS.
- 6.29 Gan adael o'r neilltu yr effaith ystumiol o PPE o dan yr LGFS,¹¹⁷ gellir cymharu lefelau'r gwahanol ffioedd sy'n daladwy o dan y cynlluniau fel y maent yn 2021, a'r lefel a bennwyd pan gawsant eu cynyddu ddiwethaf, neu eu cyflwyno gyntaf, fel y gallai fod.
- 6.30 Yn y Llys Ynadon roedd y ffioedd safonol wedi'u cynyddu ddiwethaf ar 1 Ebrill 1996 ond cawsant eu lleihau 8.75% yn 2014. Mae ffioedd Gorsaf yr Heddlu ar eu ffurf bresennol er 2008, ond maent wedi'u seilio ar y cyfraddau yr awr a oedd yn bod bryd hynny ac a oedd heb gynyddu ers rhai blynyddoedd. Gostyngwyd ffioedd gorsaf yr heddlu 8.75% hefyd yn 2014. Mewn un neu ddau o achosion lle mae dilyniant hanesyddol, gellir olrhain ffioedd yr LGFS yn ôl i 1996 neu 2008. Mae'r cymariaethau canlynol yn cynnwys y gostyngiad mewn ffioedd o 8.75% yn 2014.

Cymariaethau dros amser

- 6.31 Gyda golwg ar ffioedd sefydlog Gorsaf yr Heddlu, a chymryd ychydig o enghreifftiau o 2008, y rhain yn fras oedd £144 ar gyfer Hartlepool, £195 ar gyfer Manceinion a £237 ar gyfer Croydon. Y ffioedd cyfatebol yn 2021, yn y drefn honno, yw £131 ar gyfer Hartlepool, £178 ar gyfer Manceinion a £216 ar gyfer Croydon. Mewn termau real mae ffioedd sefydlog Gorsaf yr Heddlu yn 2021 oddeutu un rhan o dair yn llai nag yr oeddent yn 2008, a hefyd yn 8.75% yn llai yn nhermau arian parod.
- 6.32 Yn y Llys Ynadon, ym 1996 talwyd am waith paratoi ar gyfradd o £47.25 yr awr yn Llundain, ac yn 2021 telir amdano ar gyfradd o £45.35 yr awr; talwyd am eiriolaeth gan uwch gyfreithiwr yn Llundain ar gyfradd o £64.50 yr awr ym 1996

¹¹⁶ Gweler Pennod 8 isod

¹¹⁷ Ceir yr effaith ystumiol hon am fod rhai achosion yn creu ffi fawr oherwydd nifer mawr y tudalennau. Gweler Pennod 12 isod.

a thelir amdani ar gyfradd o £58.86 yr awr yn 2021. Mewn termau real, mae'r cyfraddau hyn ychydig yn is na 50 y cant yn llai nag yr oeddent 25 mlynedd yn ôl.

- 6.33 O dan yr LGFS, y ffi sylfaenol yn Llys y Goron am achos Categori C (trais llai difrifol) oedd £801 yn 2008 ac mae'n £739 yn 2021. Y ffi sylfaenol am achos Categori D (troseddau rhywiol) oedd £1529 yn 2008 ac mae'n £1394 yn 2021. Mae hynny'n ostyngiad o 8.75% yn nhermau arian parod ac yn ostyngiad o tua un rhan o dair mewn termau real er 2008.
- 6.34 Prin bod llawer o enghreifftiau eraill o waith a ariennir gan y cyhoedd lle y telir llai nag a wnaed yn 2008, neu yn wir ym 1996, fel y gallai fod. Mae'n wir bod pryder ar ddiwedd y 1990au ac ymhell i'r 2000au, ar ran Llywodraethau Ceidwadol, Llafur a'r Glymblaid ynghylch cost cymorth cyfreithiol troseddol, ac un gwendid posibl yn y gymhariaeth â 1996 yw a yw'r llinell sylfaen honno yn fan cychwyn rhesymol os oedd y ffioedd bryd hynny eisoes yn "rhy uchel". Fodd bynnag, mae'n anodd cymhwyso'r ddadl honno at linell sylfaen 2008. Hyd yn oed yn 2006, roedd Adolygiad Carter wedi datgan "legal aid firms consistently report they are at the edge of profitability" er bod "legal aid firms are amongst the most efficient of legal firms particularly those that are crime only firms".¹¹⁸
- 6.35 Er 2008 mae ffioedd wedi gostwng un rhan o dair mewn termau real, sy'n hynod ar ei ben ei hun, ac o'u cymharu â 1996, o tua 40-45%. Hyd yn oed os cymerir 2014 yn llinell sylfaen, cafwyd gostyngiad gwirioneddol mewn termau real o tua 15% dros y saith mlynedd diwethaf.

Cyfraddau dangosol y CPS

- 6.36 Dull ychwanegol o groesgyfeirio yw'r atodlen a gyhoeddwyd gan y CPS o'r costau y byddai'n eu ceisio fel arfer yn erbyn diffnyddion a gafodd euogfarn os yw'r CPS yn llwyddo. Yn ei ganllaw¹¹⁹ sy'n dyddio o 2009, mae'r CPS yn nodi mai'r gyfradd gyfartalog yr awr wrth geisio costau yw £69 yr awr am gyfreithiwr CPS, a £51 yr awr am weithiwr paragyfreithiol. Mewn gwrthgyferbyniad â'r cyfraddau hynny, y ffi sy'n daladwy i'r cyfreithiwr amddiffyn am waith paratoi yn y Llys Ynadon yw £45.35, a'r ffi am waith paratoi arbennig i uwch gyfreithiwr amddiffyn yn Llys y Goron yn Llundain yw £50.87, sy'n llai yn y ddau achos na'r ffi y mae'r CPS yn ei hystyried yn briodol ar gyfer gweithiwr paragyfreithiol.
- 6.37 I fynd â'r pwynt ymhellach, er enghraifft, am draddodi ar gyfer dedfrydu byddai'r CPS yn ceisio costau yn yr amrediad £340-£510 ac, am dreial yn y Llys Ynadon am drosedd neillog, ceisiai £770-1150. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, am draddodi ar gyfer dedfrydu, y ffi sefydlog i gyfreithwyr amddiffyn yw £232.98, a'r ffi am dreial yn y Llys Ynadon yw £345 – £779.

¹¹⁸ Legal Aid, *A market-based approach to reform*, Lord Carter's Review of Legal Aid Procurement, P42. [\[ARCHIVED CONTENT\] \(nationalarchives.gov.uk\)](https://nationalarchives.gov.uk)

¹¹⁹ [Costs - Annex 1 | The Crown Prosecution Service \(cps.gov.uk\)](https://cps.gov.uk)

6.38 Mae'r enghreifftiau hyn, sy'n dangos bod y cyfraddau i gyfreithwyr amddiffyn tua 30-55% yn is na'r rheini a welir yn rhesymol gan y CPS, yn tanlinellu eto i ba raddau y mae'r cyfraddau a ganiateir ar gyfer cyfreithwyr amddiffyn wedi disgyn yn is na lefel resymol. Mae'r cyfraddau hyn yn dangos hefyd y diffyg cydbwysedd sydd wedi datblygu rhwng adnoddau'r erlyniad ac adnoddau'r amddiffyniad, gan danseilio egwyddor cydraddoldeb arfau yn ddifrifol.

Y canlyniadau i ostyngiad a diffyg twf mewn ffioedd

6.39 Mae cyfraddau tâl sydd oddeutu un rhan o dair yn llai mewn termau real nag yr oeddent 13 blynedd yn ôl, ynghyd â chyfnod hir o ddiffyg twf mewn tâl, wedi arwain at dri chanlyniad cyffredinol:

- Mae'r ymdrech i geisio talu cyflogau ac alldaliadau eraill yn 2021 allan o incwm a bennwyd drwy gyfeirio at 2008 yn sicr o ddiffygio a gwaethygu o flwyddyn i flwyddyn a bydd yn arwain yn anochel at sefyllfa lle bydd darparwyr yn rhoi'r gorau iddi os na wneir dim yn ei gylch
- Wrth ystyried yr opsiynau sydd ar gael iddynt, mae cyfreithwyr iau neu rai sydd newydd ymgymhwyso yn gweld marchnad sydd heb ddyfodol iddi i bob golwg ac yn chwilio am ddewisiadau eraill
- Mae perchnogion neu ddarpar berchnogion ffyrniau yn gweld marchnad lle mae'r elw'n cael ei wasgu o flwyddyn i flwyddyn ac felly maent yn llai parod i fuddsoddi, neu wynebu'r risgiau sy'n sicr o godi mewn partneriaeth mewn ffyrn cymorth cyfreithiol troseddol.

6.40 Ar sail y dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad, mae pob un o'r canlyniadau rhagweladwy hyn wedi digwydd.

(3) Anawsterau o ran Hyfforddiant, Recriwtio a Chadw

Mae'r Broblem yn Dechrau yn y Brifysgol

6.41 Mae'r rhan fwyaf o'r cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr yn ymuno â'r proffesiwn drwy ennill gradd. Os byddant yn astudio'r gyfraith, gallant fynd ymlaen yn uniongyrchol i sefyll yr arholiadau proffesiynol ac, os nad ydynt wedi astudio'r gyfraith, byddant yn gwneud y Diploma yn y Gyfraith i Raddedigion (GDL) yn gyntaf cyn dechrau eu hastudiaethau proffesiynol. Heb ystyried y ddyled arferol sydd gan fyfyrwyr, mae'r cymwysterau proffesiynol ychwanegol hyn yn rhai drud i'w hennill. Mae Cwrs Ymarfer Cyfreithiol (LPC) y cyfreithwyr wedi'i ddisodli gan yr Arholiad Ymgymhwyso Cyfreithwyr (SQE), arholiad llai drud sy'n mynd law yn llaw â phrofiad gwaith ar gyfer ymgymhwyso, ond bydd y diwygiad hwn yn cymryd cryn amser i ddwyn ffrwyth.

6.42 Yn ôl y dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad, mae nifer mawr o fyfyrwyr prifysgol yn ddelfrydgar, ac yn barod ar y dechrau i ystyried y posibilrwydd o yrfa ym maes cymorth cyfreithiol troseddol. Fodd bynnag, erbyn eu blwyddyn derfynol bydd nifer yn dod i'r casgliad bod y sector wedi'i danariannu, ac nad yw'n werth yr ymdrech. Er enghraifft, mewn arolwg gan Young Legal Aid Lawyers (YLAL)

yn 2019, dywedodd y mwyafrif na fyddent yn mynd i faes cymorth cyfreithiol troseddol oherwydd y gydnabyddiaeth ariannol wael. Roedd arolwg ar-lein gan Brifysgol Durham yn 2018 wedi dod i gasgliadau tebyg. Yn eu tystiolaeth, gwnaed pwyntiau tebyg gan Dr Thornton o Brifysgol Nottingham Trent a Dr Welch o Brifysgol Sussex. Dywedwyd wrth yr Adolygiad fod darlith gyrfaedd ar waith amddiffyn troseddol ym Mhrifysgol Birmingham a fyddai'n denu niferoedd da o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf, ond mai nifer bach iawn o fyfyrwyr y drydedd flwyddyn a fyddai'n dod iddi. Mae academyddion blaenllaw ym Mhrifysgol Caerdydd wedi sôn yn gyhoeddus am yr un pryderon, ac wedi egluro'r cyfyng-gyngor moesegol y mae academyddion yn ei wynebu wrth gynghori eu myfyrwyr ar yrfa ym maes cymorth cyfreithiol troseddol:

“either they encourage their students to enter the profession with few opportunities for social mobility and progression, or they advise against, in which case “without new blood” the profession is most certainly going to perish in 10-15 years’ time if not less.”¹²⁰

- 6.43 Cynhaliwyd arolwg ar-lein o fyfyrwyr gan yr Adolygiad ym Mai 2021. Cafwyd 587 o atebion: gweler Atodiad G. Y prif gasgliad o'r arolwg hwn yw bod mwy na hanner yr ymatebwyr wedi dweud nad oeddent am weithio ym maes cymorth cyfreithiol troseddol oherwydd lefel isel y tâl (e.e. “Having heard from those in the profession who have said it is a ‘dying profession’ very hard work for little pay”) tra oedd eraill wedi cyfeirio at yr amodau gwaith anodd (e.e. “Low pay for a gruelling, emotionally draining job”). Yn ateb i'r cwestiwn “Beth yw'ch barn am gyfraith trosedd fel gyrfa?” roedd yr ymateb mwyaf cyffredin yn adlewyrchu'r broblem o ran tâl, e.e. “It is something I would like to do however I am concerned that the pay is extremely poor, and this may affect my chances of providing for my family and getting on the property ladder”.

Diffyg Cyfleoedd Hyfforddi

- 6.44 Y llwybr arferol ar gyfer ymgymhwyso'n gyfreithiwr yw drwy gontract hyfforddi. Mewn gwaith preifat, bydd llawer o ffyrniau'n cynnig contractau hyfforddi ac yn wir yn talu costau ymgymhwyso'r rheini sy'n cael contract hyfforddi. Ym maes cymorth cyfreithiol troseddol, mae contractau hyfforddi yn brin iawn. Os nad yw sector mewn lle i gynnig hyfforddeiaethau, ni ellir ei ystyried yn gynaliadwy.
- 6.45 Yn 2017, cafodd yr SRA mai dim ond 3% o hyfforddeion a oedd yn gweithio ym maes cymorth cyfreithiol troseddol. Mae'r Adolygiad wedi'i chael yn anodd dod o hyd i ffigur pendant am nifer yr hyfforddeion sy'n gwneud gwaith cymorth cyfreithiol troseddol, gan ei bod yn bosibl bod hyfforddeion sy'n hyfforddi gyda ffyrn sy'n gwneud rhywfaint o waith cyfraith trosedd yn rhai sy'n gweithio mewn rhannau eraill o'r busnes. Er hynny, gan gymryd y ffigurau am 2018/19 o'r Casgliad Data, gellir nodi bod tua 80% o ffyrniau sy'n gwneud rhywfaint o waith cymorth cyfreithiol troseddol yn rhai sydd heb hyfforddeion o gwbl (Tabl 3.2).

¹²⁰ Nicola Harris, Roxanna Dehaghani a Daniel Newman (2021) Vulnerability, the future of the criminal defence profession, and the implications for teaching and learning, *The Law Teacher*, 55:1, 57-67, DOI: <https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/03069400.2021.1872872>

Os cymerir y ffigurau am 2016/17, gwelir mai dim ond 70 o hyfforddeion a oedd mewn ffyrmau sy'n gwneud gwaith cyfraith trosedd yn bennaf (Tabl 3.7 wedi'i ddarllen gyda Tabl 3.5). Cyfanswm yr hyfforddeion yn y cohort y flwyddyn honno oedd 5720 ac, o'r rhain, roedd 4570 yn hyfforddi mewn ffyrmau a barwyd yn y Casgliad Data (Tabl 3.1), sy'n golygu bod ffyrmau sy'n gwneud gwaith cymorth cyfreithiol troseddol gan mwyaf yn gyfrifol am oddeutu 1.5% o hyfforddeion. Yn yr un modd, o gyfanswm yr hyfforddeion yn y cohort yn 2014/15, roedd tua 1% o'r hyfforddeion hynny wedi mynd yn eu blaen i weithio mewn ffyrmau sy'n gwneud gwaith cyfraith trosedd yn bennaf (Tabl 3.13 a 3.15 wedi'u darllen gyda Thabl 3.1).

- 6.46 Nid oes rheswm dros gredu bod y sefyllfa wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Cadw

- 6.47 Y dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad yw ei bod yn ddigon posibl ar y dechrau y bydd cyfreithwyr ifanc egniol yn derbyn gwaith amddiffyn cyfreithiol a'i holl rwystredigaethau, ond bod nifer mawr ohonynt erbyn cyrraedd eu 20au neu 30au cynnar yn sylweddoli y bydd yn anodd cael dyfodol tymor hir ynddo.¹²¹ Cadarnheir hynny gan y dystiolaeth uchod am yr heneiddio yn y proffesiwn a'r gostyngiad yn nifer y cyfreithwyr ar ddyletswydd, sef y garreg sylfaen i gymorth cyfreithiol troseddol.
- 6.48 Roedd Cymdeithas y Cyfreithwyr wedi darparu arolwg i'r Adolygiad a gynhaliwyd yn 2020 gan Douglas Scott Recruitment Consultants sy'n dangos bod cyflogau cyfreithwyr trosedd yn is nag ar gyfer mathau eraill o waith cyfreithiol ym mhob rhanbarth yn Lloegr. Yn gyffredinol, yn y pedwar rhanbarth a astudiwyd (Llundain, Gogledd, Canolbarth a De Lloegr) mae'n ymddangos yn yr arolwg hwnnw bod cyflogau "isel" oddeutu £25,000 y flwyddyn, bod cyflogau "canolig" oddeutu £35,000 y flwyddyn a bod cyflogau "uchel" yn yr amrediad £50- £65,000 y flwyddyn. Yn ogystal â hynny, nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr fod y cyflog wrth ddechrau mewn ffyrmau amddiffyn troseddol yn £16 -£18,000 y tu allan i Lundain, yn agos i'r isafswm cyflog statudol, ac yn £20- £25,000 yn Llundain. Byddai cyfreithiwr ar ddyletswydd â thair i bum mlynedd o brofiad ar ôl ymgymhwyso (PQE) yn gallu disgwyl ennill £26-£30,000 y flwyddyn y tu allan i Lundain a £33-35,000 y flwyddyn yn Llundain. Yn ôl Cymdeithas y Cyfreithwyr, mae'n annhebygol y byddai cyfreithiwr trosedd profiadol yn gallu disgwyl ennill mwy na £50,000 y flwyddyn.
- 6.49 Mae'r dystiolaeth a roddwyd i'r Adolygiad yn yr Arolwg Ariannol a ddisgrifir isod yn weddol gyson â'r ffigurau hyn: gweler Atodiad J. O'r 100 o ffyrmau a gymerodd ran yn yr arolwg, yr atebion mwyaf cyffredin ynghylch cyflogau oedd: Ymgynghorwyr Llawrydd £30-£40,000; Cyfreithwyr £30-£40,000; Gweithredwyr

¹²¹ Dr Thornton o Brifysgol Nottingham Trent, Tystiolaeth i'r Adolygiad.

Cyfreithiol Siartredig £20-30,000; Gweithwyr Paragyfreithiol £20-£30,000; Hyfforddeion £20-£30,000.¹²²

- 6.50 Ceir mwy o wybodaeth gefndir yn yr arolwg o wybodaeth a gyhoeddwyd am wahanol gyflogau yn y sector cyhoeddus yn Atodiad I. Mae'n anodd gwneud cymariaethau buddiol rhwng gwahanol fathau o alwedigaethau a gall nifer o ffactorau effeithio ar swm y cyflog net. Ystyriaeth hollbwysig yw bod y cyflogau sector cyhoeddus hefyd yn cynnwys pensiwn (y bydd y cyflogai'n gorfod cyfrannu iddo wrth gwrs) a buddion yn y gwaith sydd yn aml yn gymharol hael ac sy'n annhebygol o fod ar gael gan ffyrn cymorth cyfreithiol troseddol uwchlaw'r gofynion statudol. Er hynny, mae Atodiad I yn ategu'r farn bod tâl cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol ar bob lefel, boed yn gyflogau wrth ddechrau, yn dâl ar ganol gyrfa neu'n dâl i staff hŷn, yn is at ei gilydd na'r lefelau a geir mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus gan y rheini y gellid eu hystyried yn fras yn grŵp cymheiriaid, gan ystyried hefyd gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil neu gynlluniau cyfatebol.
- 6.51 Un gymhariaeth neilltuol o bwysig o ran tâl yw'r un uniongyrchol rhwng y rheini sy'n erlyn a'r rheini sy'n amddiffyn. Roedd ymatebwyr i'r Adolygiad yn aml yn dadlau nad oedd lefelau presennol y gydnabyddiaeth ariannol o dan gymorth cyfreithiol yn caniatáu i ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol gynnig lefelau cyflog sy'n cyfateb i rai'r CPS, y dywedwyd bod cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol wedi gadael i fynd ato yn lluoedd oherwydd "the pay is better, the work-life balance more manageable and the support far superior".¹²³ Gwnaed y pwynt hwn wrthyf yn anecdotaidd ym mron pob un o'r cyfarfodydd bord gron, yn aml ar y sail bod y CPS yn gallu fforddio talu cyflogau a oedd yn £10,000 neu hyd yn oed yn £15,000 yn fwy na'r hyn y gallai ffyrn cymorth cyfreithiol troseddol ei dalu. Mae dwy enghraifft a ddyfynnwyd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr yn nodweddiadol o'r broblem: (a) dywedodd cyfreithiwr profiadol a oedd wedi ymgymhwyso er 18 mlynedd "As people left to do other things, they were not replaced, and there were less and less of us left...I did not have a pay rise for 11 years...having now moved to the CPS, I have a better sense of job security...the pay is also better...and the pension scheme is also a bonus" (b) yn ddiweddar roedd ffyrn yn Swydd Efrog wedi colli dau gyfreithiwr a oedd yn ennill ffioedd a oedd wedi mynd at y CPS, un a chanddo 2 flynedd o PQE yn ennill £30,000 y flwyddyn, a'r llall yn un a chanddo 10 mlynedd o PQE yn ennill £38,000 y flwyddyn. Bellach mae'r cyfreithiwr a chanddo 2 flynedd o PQE yn ennill £48,000, a'r cyfreithiwr a chanddo 10 mlynedd o PQE yn ennill £52,000, y ddau'n Uwch Erlynwyr y Goron gyda'r CPS.
- 6.52 Roedd gwybodaeth a gafwyd gan y CPS yn dangos, ar gyfer 2020-21, fod Erlynwyr y Goron yn gweithio i'r CPS yn ennill rhwng £38,000 a £40,000 ar

¹²² Fel y dangoswyd uchod, nid yw'r Adolygiad wedi gallu canfod nifer mawr o hyfforddeion yn gweithio ym maes cymorth cyfreithiol troseddol

¹²³ Cymdeithas Cyfreithwyr Llysoedd Trosedd Llundain (LCCSA) Ymateb i Gais am Dystiolaeth yr Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol, paragraff 4.

gyfartaledd ac Uwch Erlynydd y Goron yn ennill rhwng £51,000 a £55,000 ar gyfartaledd. Yn ôl y dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad, mae cyflogau'r rhan fwyaf o gyfreithwyr yn yr amrediad £30-£40,000,¹²⁴ er bod cyfreithiwr ar ddyletswydd yn gallu ennill rhywfaint yn fwy. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys cynllun pensiwn sy'n cyfateb i un y CPS. Yng Nghyfweliadau'r Astudiaethau Achos, dywedwyd lawer gwaith fod colli staff i'r CPS yn broblem fawr. Mae'r sefyllfa hon, ynghyd â'r pwyntiau eraill a wnaed uchod, yn cynnig her sylweddol o ran cadw cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol ac yn effeithio'n bennaf ar y cyfreithwyr profiadol nad yw'r sector yn gallu fforddio eu colli.

(4) Proffidioldeb a Sefydlogrwydd Ariannol

- 6.53 Rhaid bod yn ofalus wrth ymdrin â'r cwestiwn o broffidioldeb a sefydlogrwydd ariannol ffyrmau cymorth cyfreithiol troseddol, gan fod rhaid dibynnu ar wybodaeth a gafwyd gan sampl ohonynt; ceir gwahaniaethau rhwng systemau cyfrifyddu'r ffyrmau; mae eu strwythurau mewnol yn amrywio (e.e. mae'n bosibl mai dim ond nifer bach o bartneriaid ecwiti sydd mewn ffym a nifer mawr o bartneriaid cyflogedig, neu fel arall); gall rhai partneriaid ecwiti dynnu cyflog tra na fydd eraill; ac os mai dim ond un rhan o'r busnes yw gwaith cymorth cyfreithiol troseddol, rhaid dyrannu'r gorbenion.
- 6.54 Hyd yn oed os yw ffym yn "broffidiol" o un safbwynt, nid yw'n dilyn bod y sefyllfa'n foddhaol: er enghraifft, os mai'r unig ffordd i sicrhau "proffidioldeb" yw gweithio oriau rhy hir neu ddarparu gwasanaeth neu ansawdd diddrwg-didda, neu oherwydd nodweddion rhyfedd yn y cynlluniau ffioedd, fel y taliadau a wneir o dan yr LGFS mewn achosion lle mae nifer mawr o PPE, sef yr enghraifft fwyaf amlwg.

Adroddiad Otterburn

- 6.55 Yn Chwefror 2014, cynhyrchwyd adroddiad gan Otterburn Legal Consulting (Otterburn) a oedd yn dangos bod ffyrmau cyfraith trosedd yn ennill elw net o 5% ar gyfartaledd.
- 6.56 Dull Otterburn o fesur proffidioldeb oedd cymryd incwm pob ffym, tynnu cyflogau'r cyflogeion a gorbenion (rhenti swyddfeydd, yswiriant etc) ac wedyn dyrannu cost ar ffurf lwfans tybiannol am log ar gyfalaf partneriaid a chyflog tybiannol i bartneriaid ecwiti. Roedd yr olaf wedi'i seilio ar gyflog canolrifol yr

¹²⁴ Gan edrych ar hyn o safbwynt y cyflogwr, gwelir y bydd angen i enillydd ffioedd wneud bil am luoswm o'i gyflog i gynnwys Yswiriant Gwladol, pensiwn statudol, cyfraniad at orbenion a rhywfaint o elw i'r busnes. Po uchaf y cyflog, mwyaf y bydd angen i'r enillydd ffioedd ei godi. Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr yn credu bod lluosydd o dri yn briodol. Mae'n ymddangos i'r Adolygiad mai lluosydd rhwng dau a thri fyddai'r lleiaf y gellid ei godi. Ar y sail honno, os yw enillydd ffioedd yn cael tâl o £40,000, bydd angen iddo godi tua £100,000 y flwyddyn mewn ffioedd. Y newidyn arall yw'r oriau y codir tâl amdanynt. Un amcangyfrif posibl yw 1200 o oriau y flwyddyn ond mae llawer o oriau o waith mewn ffym cymorth cyfreithiol troseddol na ellir codi tâl amdanynt. Er enghraifft, os codir ffioedd ar gyfradd gyfartalog o £50 yr awr o dan y cynlluniau, yna byddai 1200 o oriau y flwyddyn yn cynhyrchu £60,000; gellir gweld felly pam y mae cyflogau'n isel mewn nifer o ffyrmau cymorth cyfreithiol troseddol. I bob pwrpas, mae'r cynlluniau ffioedd yn capio'r cyflogau y gellir eu cynnig gan aros yn ariannol hyfyw.

enillydd ffioedd uchaf ei dâl ynghyd â 15% i gwrdd â chostau cyflogaeth. Roedd Otterburn wedi defnyddio £52,000 yn ffigur bras ar gyfer cyflog tybiannol partner ecwiti er mwyn cyfrifo'r elw. Drwy hynny, gellir cymharu gwahanol strwythurau mewn ffyrmau, boed y rhain yn unig ymarferwyr neu'n Bartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (LLPs). Ar y sail hon, pennodd Otterburn mai'r elw canolrifol mewn ffyrmau cymorth cyfreithiol troseddol oedd 5%, a bod ffyrmau mwy yn llai proffidiol at ei gilydd na ffyrmau llai. Yn ôl y cyfrifiad gan Otterburn, byddai hynny'n rhoi "elw" o £23,000 i bartner ecwiti canolrifol a byddai hyn, ynghyd â chyflog tybiannol o £52,000, yn rhoi incwm o £75,000 mewn egwyddor, yn amrywio yn ôl maint y ffym. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cyfateb o reidrwydd i "gyflog net" gan fod y rhan fwyaf o ffyrmau'n cael eu cyllido drwy drefniant gorddrafft banc ynghyd ag elw a gedwir, felly gall rhan o'r elw tybiannol gael ei chadw yn y busnes i gyllido anghenion y ffym.

Cymharu ag Adroddiad Otterburn

6.57 Roedd yr Arolwg Ariannol a gynhaliwyd gan yr Adolygiad, y ceir manylion amdano yn Atodiad J, wedi ceisio cael gwybodaeth debyg i'r hyn sydd yn Adroddiad Otterburn. Anfonwyd holiadur i 400 o ffyrmau a ddewiswyd ar hap, a chafwyd ymateb gan 100 o'r rhain (cyfradd cyfranogi o 25%),¹²⁵ a chafwyd sgysiau dilynol lle'r oedd angen. Cafwyd ymatebion gan gymysgedd eang o ffyrmau, rhai bach, canolig a mawr. Gan fabwysiadu rhagdybiaethau tebyg i rai Otterburn, roedd ei ganfyddiadau'n gyson â chyflog tybiannol o £52,000 ac, wrth wneud yr un lwfans ar gyfer llog ar gyfalaf, roedd Arolwg Ariannol yr Adolygiad wedi cael bod yr elw cyfartalog yn 2018/19 a 2019/20 rhwng 0% a 5%. Mae'r sefyllfa fel a ganlyn (yn cynnwys 2020/21 hefyd lle mae'r ffigurau wedi'u hystumio gan y pandemig a'r data yn llai dibynadwy – mae rhagor o fanylion yn Atodiad J):

Tabl 3.1: Elw Net CCT yn ôl graddau'r arbenigo mewn CCT

	Gwaith Cyfraith Trosedd yn bennaf (trosiant CCT o 80%+)			Rhywfaint o waith Cyfraith Trosedd (trosiant CCT o <80%)		
	2018-19	2019-20	2020-21	2018-19	2019-20	2020-21
Cyfartaledd (%)	0 i 5	0 i 5	-10 i -5	5 i 10	5 i 10	-15 i -10
Chwarterel isaf (%)	-10 i -5	-10 i -5	-25 i -20	-5 i 0	-5 i 0	-15 i -10
Chwarterel uchaf (%)	15 i 20	10 i 15	5 i 10	15 i 20	20 i 25	15 i 20

6.58 Drwy wneud yr un cyfrifiad tybiannol ag sydd yn Adroddiad Otterburn, byddai'r ffigur cyfartalog yn rhoi elw tybiannol ar gyfalaf ecwiti o tua £17,000 a byddai hyn, ynghyd â'r cyflog priodol o £52,000, yn rhoi incwm tybiannol o

¹²⁵ Roedd arolwg Otterburn wedi'i seilio ar 157 o ffyrmau, a oedd yn cyfateb i gyfradd cyfranogi o 10%. Otterburn Legal Consulting, *Transforming Legal Aid: Next Steps, A Report for The Law Society of England and Wales and the Ministry of Justice*, 2014. <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid-next-steps/results/otterburn-legal-consulting-a-report-for-the-law-society-and-moj.pdf>

£69,000. Felly, wrth gymharu tebyg â'i debyg i'r graddau mwyaf posibl, mae'r wybodaeth sydd ar gael yn dangos gostyngiad mewn proffidoldeb o tua 8% yn nhermau arian parod, a mwy na 20% mewn termau real ers cyhoeddi Adroddiad Otterburn yn 2014.

Cymharu ag Arolwg Rheolaeth y Gyfraith Cymdeithas y Cyfreithwyr

6.59 Os cymharir y canlyniadau hyn â'r gymhariaeth gyfatebol a wnaed yn Arolwg Rheolaeth y Gyfraith Cymdeithas y Cyfreithwyr yn 2020, yr elw cyfatebol a nodwyd ar gyfer y sector cyfreithiol cyfan oedd 9.4 % yn 2018, ac 8.8% yn 2019, tra oedd ffyrniau â throsiant o lai na £2 miliwn (y rhai tebycaf o ran maint i ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol) wedi gwneud elw o 12%. Mae hynny'n cymharu ag elw cyfartalog o 0% i 5% ar gyfer ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol yn y blynyddoedd hynny. Mae'n ymddangos bod ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol yn bell ar ôl gweddill y sector.

Ffigurau elw heb eu haddasu

6.60 Gan droi oddi wrth ffigurau a addaswyd at rai heb eu haddasu, mae'r elw heb ei addasu ar gyfer pob partner ecwiti neu gyfarwyddwr â chyfranddaliadau ar gyfer 2018/19, 2019/20 a 2020/21 ar sail yr Arolwg Ariannol wedi'u dangos yma:

Tabl 3.2: Elw CCT am bob Partner Ecwiti neu Gyfarwyddwr â Rhanddaliadau mewn ffyrniau

	Ffyrniau sy'n gwneud gwaith Cyfraith Trosedd yn bennaf (trosiant CCT o 80%+)		
	2018-19	2019-20	2020-21
Cyfartaledd (£)	60 mil i 65 mil	55 mil i 60 mil	30 mil i 35 mil
Chwartel isaf (£)	20 mil i 25 mil	25 mil i 30 mil	10 mil i 15 mil
Chwartel uchaf (£)	85 mil i 90 mil	70 mil i 75 mil	50 mil i 55 mil

6.61 Mae'n anodd trosi'r ffigurau hyn sydd heb eu haddasu i roi "cyflog net" ar gyfer partneriaid neu gyfranddalwyr, gan ei bod yn bosibl y bydd angen cadw elw i gyllido'r busnes. Mewn achosion eraill, yn ogystal â'r elw ar ecwiti, gallai'r partner gael ei dalu'n rhannol drwy roi cyflog. Fodd bynnag, yn Arolwg Ariannol yr Adolygiad, roedd yr elfen cyflog a gofnodwyd amlaf yn llai nag £20,000, ac roedd rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu mai'r cyflog mwyaf cyffredin oedd £12,500 (yn cyfateb i'r lwfans di-dreth).

6.62 Ar y sail hon, mae'n ymddangos yn rhesymol cymryd bod partner ecwiti mewn ffyrn cymorth cyfreithiol troseddol yn 2019/20 yn ennill swm nad oedd yn fwy na thua £60,000 y flwyddyn, i ddarparu incwm personol, i gyllido unrhyw fuddsoddi ychwanegol ac i gael elw digonol ar gyfalaf i gyfiawnhau wynebu'r risgiau sydd ynglŷn â bod yn berchen ar fusnes. Ategir hyn gan farn Cymdeithas y Cyfreithwyr fod y rhan fwyaf o ffyrniau cymorth cyfreithiol

troseiddol yn debygol o fod yn y chwarter isaf a ddangoswyd yn ei Arolwg Meincnodi yn 2020 lle mae'r elw cyfartalog (heb ei addasu) am bob partner ecwiti yn £54,000. Er ei bod yn wir y byddai'r chwarter uchaf o bartneriaid mewn ffyrmau sy'n arbenigo mewn cyfraith trosedd yn gallu ennill mwy na hynny mewn blwyddyn arferol (£70-75,000 yn 2019/20), mae'r ffigur yn is na hynny mewn nifer o ffyrmau eraill (y chwarter isaf yn y flwyddyn honno oedd £25-30,000).

- 6.63 Gan fod y cyflogau cyfartalog mewn ffyrmau cymorth cyfreithiol troseddol yn is na'r rheini yn y CPS, fel y dangoswyd uchod, a bod yr elw o waith cymorth cyfreithiol troseddol yn is o lawer nag yng ngweddill y sector, mae'n annhebygol yn fy marn i y bydd yr elw sydd ar gael i ddeiliaid ecwiti yn galluogi'r sector hwn i fod yn gynaliadwy am gyfnod hir eto, heb sôn am hybu unrhyw fuddsoddi ychwanegol.

Sefydlogrwydd Ariannol

- 6.64 Mater sydd yr un mor bwysig â phroffidioldeb cyffredinol yw sefydlogrwydd ariannol. Y risg bennaf i sefydlogrwydd ariannol yw'r lefel isel o elw a drafodwyd eisoes. Ond mae'r dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad yn dangos bod risg ychwanegol, sef y ddibyniaeth a welir mewn nifer o ffyrmau ar achosion lle mae nifer mawr o PPE o dan yr LGFS. Y dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad mewn cyfarfodydd a chyfarfodydd bord gron, yn yr Astudiaethau Achos ac yn yr Arolwg Ariannol yw bod gwaith yng Ngorsaf yr Heddlu a'r Llys Ynadon a gwaith arferol yn Llys y Goron yn brin ei elw neu'n gwneud colled, a bod y gallu i wneud elw derbyniol yn aml yn dibynnu ar sicrhau nifer o achosion bob blwyddyn lle mae nifer mawr o PPE o dan yr LGFS. Mae'r referniw o'r achosion hynny'n sybsideiddio gwaith arall ac yn galluogi'r ffyrm i wneud elw cyffredinol.
- 6.65 Trafodir yr agwedd hon ar yr LGFS yn fwy manwl ym Mhennod 12. Yn y cyd-destun hwn, nid yw'n foddhaol os yw'r elw y mae ffyrmau'n ei wneud yn dibynnu i raddau helaeth ar un ffrwd incwm ansicr, mewn amgylchiadau lle nad yw'r hyn a welid fel arfer yn waith "bara menyn" i ffyrm cymorth cyfreithiol troseddol yn gwneud fawr mwy na chwrdd â'r costau neu'n gwneud colled. Mae'n wir bod modd delio â hyn i ryw raddau drwy ddiwygio'r cynlluniau, fel rwyf yn argymhell ym Mhennod 12 isod ond, er hynny, mae'r dystiolaeth uchod yn dangos bod cyfyngiad mor fawr ar lefel gyffredinol y proffidioldeb yn y sector fel ei bod yn anodd gweld sut y gellir cynnal y sector a'i adfywio heb gynnydd sylweddol yn y cyllid drwyddo draw.
- 6.66 Drwy'r Astudiaethau Achos, roedd ffyrmau hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith nad oedd benthyciadau busnes ar gael i ffyrmau cymorth cyfreithiol troseddol, gan fod banciau'n amharod i fuddsoddi am fod dyfodol y ffyrmau'n ansicr. Yn ystod y pandemig, yr unig fenthyciadau a oedd ar gael oedd benthyciadau adfer y Llywodraeth ac roedd y rhain ar gael yn eang. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ffyrmau godi cyfalaf i'w fuddsoddi yn eu ffyrmau, er enghraifft, i uwchraddio TG.

Sut mae'r sector wedi llwyddo i oroesi hyd yma?

6.67 Un cwestiwn amlwg i'w ofyn yw, os yw pethau cyn waethed, sut mae'r sector wedi goroesi hyd yma, ac onid oes rhai darparwyr sy'n gwneud bywoliaeth weddol o leiaf? Mae'r dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad yn dangos bod y pwysau a ddisgrifiwyd uchod yn tueddu i wthio ffyrniau at y strategaethau canlynol:

- (i) Gwneud y mymryn lleiaf. Felly, yng ngorsaf yr heddlu, lle y ceir yr un tâl am achos syml o ddwyn mewn siop ag a geir am lofruddiaeth, mae'n fwy proffidiol cymryd nifer o'r math cyntaf na threulio oriau lawer neu hyd yn oed ddiwrnodau ar yr olaf. Yn y Llys Ynadon, gall fod yn broffidiol ceisio delio â hanner dwsin o achosion y diwrnod ar garlam ond mater arall yw a fydd digon o amser i baratoi a darparu cyngor ystyriol i ddiffynyddion. Un thema gyson yn y dystiolaeth a gafwyd gan y rheini sy'n gweithio yn ffyrniau cyfreithwyr oedd eu bod yn aml yn teimlo bod pwysau arnynt i wneud y lleiaf posibl, tra byddai er y budd mwyaf i'r cleient os oedd mwy o amser yn cael ei dreulio ar yr achos.
- (ii) Osgoi achosion sy'n cymryd amser lle mae'r ffi yn fach iawn.
- (iii) Dibynnu ar nifer bach o achosion lle mae nifer mawr o dudalennau o dan yr LGFS er mwyn gwneud iawn am golledion ar waith arall.
- (iv) Rhoi gwaith ar contract allanol, er enghraifft i gynrychiolwyr achrededig yng ngorsaf yr heddlu, defnyddio ymgynghorwyr allanol (i osgoi costau cyflogaeth) ac, yn Llundain o leiaf, gyfarwyddo bargyfreithwyr iau yn y Llys Ynadon ar gyfraddau isel iawn.
- (v) Gweithio oriau hirach. Yn ôl y dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad, gweithio oriau hir a/neu drwy'r penwythnosau yw'r ffordd bennaf i oroesi mewn ffyrn cymorth cyfreithiol troseddol. Mae'n ymddangos nad yw'n anarferol i gyfreithiwr ar ddyletswydd weithio 30 o oriau mewn cyfnod o 48 awr. Soniwyd am wythnos waith o 60 awr mewn cyfarfodydd bord gron.
- (vi) Talu cyflogau llai a derbyn ansawdd is.

6.68 Ni ellir dweud y byddai'r un o'r strategaethau uchod yn sicrhau gwasanaeth cymorth cyfreithiol troseddol a fydd yn dderbyniol o safbwynt rhai dan amheuaeth, diffynyddion neu, yn wir, dioddefwyr, neu fudd y cyhoedd. Yr agwedd gadarnhaol yw bod ffyrniau hefyd wedi dod yn fwy effeithlon, bod y system wedi'i digideiddio i raddau helaeth, a bod gorbenion wedi'u lleihau i'r graddau mwyaf posibl. Ond, yn y bôn, mae'r system wedi goroesi hyd yn hyn oherwydd ymroddiad y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ynddi ar hyn o bryd. Nid yw hynny'n debygol o barhau'n hir eto.

A fydd y cynnydd disgwyledig yn y galw yn lleddfu'r pwysau?

6.69 Un cwestiwn dilys pellach yw a fyddai'r cynnydd disgwyledig yn y galw dros y blynyddoedd nesaf, ar ôl cyfnod o ostyngiad yn y galw, yn lleddfu'r pwysau hyn. Mae'n wir bod ychydig o dystiolaeth arwynebol yn dangos bod rhywfaint o gapasiti sbâr ond, yn gyffredinol, mae blynyddoedd lawer wedi mynd heibio

ers pan oedd y sector hwn yn gallu fforddio cadw capasiti sbâr. Ar ben hynny, mae'r gwasanaeth hanfodol a ddarperir gan y sector yn digwydd ar sail "un i un" felly ychydig iawn o le sydd i arbedion maint: mae ar bob cleient ychwanegol angen mwy o gapasiti, nid llai. O ganlyniad i hyn, er mwyn ymdopi â galw cynyddol bydd angen i ffyrniau un ai (a) cyflogi mwy o bobl, neu (b) gweithio oriau hirach byth, (c) treulio llai byth o amser ar bob achos, neu (d) gwrthod y gwaith. Yng ngolwg yr anawsterau sydd wedi'u nodi eisoes uchod, yn cynnwys y gostyngiad cyson yn nifer y cyfreithwyr ar ddyletswydd, ni fydd (a) yn bosibl heb gyllid ychwanegol; mae (b) yn annhebygol o fod yn bosibl, hyd yn oed os bydd darparwyr yn barod i gynyddu'r llwyth gwaith; ac mae (c) a (d) yn groes i fudd y cyhoedd, yn anad dim am eu bod yn arwain at gynydd yn nifer yr achosion sydd heb eu paratoi'n ddigonol ac yn nifer y diffynyddion sydd heb gynrychiolaeth.

Casgliad am Gynaliadwyedd Ffyrniau Cymorth Cyfreithiol Troseddol

- 6.70 Nid yw ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol yn gallu denu digon o waed newydd, am fod lefelau'r ffioedd yn cyfyngu ar faint y cyflogau y gellir eu cynnig, na chadw ymarferwyr profiadol am fod y CPS yn cynnig cyflogau mwy. Torrwyd lefelau ffioedd, ac ni fu cynnydd ers blyneddau lawer. Mewn termau real mae ffioedd wedi lleihau tua un rhan o dair er 2008, ac mae nifer o ffioedd wedi aros yr un fath ers 25 mlynedd. Mae'r elw wedi lleihau hefyd, i lefel sy'n is o lawer na hynny mewn meysydd ymarfer cyfreithiol eraill ac mae'n annhebygol ar hyn o bryd o hybu buddsoddi newydd yn y sector neu wneud iawn i berchnogion am y risgiau y maent yn eu hwynebu.¹²⁶
- 6.71 Mae'r sefyllfa hon wedi arwain hefyd at ddiffyg cydbwysedd sylweddol rhwng yr adnoddau sydd ar gael i'r amddiffyniad o'i gymharu â'r erlyniad, gan danseilio egwyddor cydraddoldeb arfau. Mae Dehaghani a Newman¹²⁷ wedi dadlau bod marweidd-dra'r sector cymorth cyfreithiol troseddol nid yn unig wedi gwanhau ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol ond yn yr un modd wedi cryfhau'r erlyniad. Mae hyn yn ei dro yn sgiwio'r cydbwysedd o fewn y SCT yn gyffredinol.
- 6.72 Rwyf yn argymhell felly y dylid cynyddu'n sylweddol y gydnabyddiaeth ariannol i ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol o dan y Rheoliadau cyn gynted ag y gellir.
- 6.73 Fodd bynnag, bydd yn hanfodol bod cynnydd yn y gydnabyddiaeth ariannol i ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol yn mynd law yn llaw â moderneiddio'r

¹²⁶ Nid wyf wedi diystyru'r cyllid ychwanegol ar gyfer yr LGFS a gytunwyd yn 2020 o dan y mesurau carlam y cyfeiriwyd atynt ym Mhennod 4 uchod, yn ymwneud yn bennaf ag ystyried deunydd nas defnyddiwyd. Mae'n ymddangos mai ychydig o effaith a gafodd y diwygiad hwnnw hyd yn hyn, boed hynny oherwydd y pandemig neu fel arall, ac os diwygir yr LGFS fel yr wyf yn awgrymu ym Mhennod 12, rwyf yn rhag-weld y bydd ystyriaeth i ddeunydd nas defnyddiwyd yn cael ei chymathu â'r strwythurau ffioedd newydd fel y mae'r CLSA yn awgrymu yn ei ymateb i'r Cais am Dystiolaeth.

¹²⁷ Dehaghani a Newman, *Written Evidence to Justice Committee Inquiry The Future of Legal Aid*, 2021 <https://committees.parliament.uk/writtenevidence/12878/html/>

cynlluniau. Mae'r Bennod nesaf yn ymdrin â'r mater hwnnw, yn ogystal â lefel gyffredinol y cyllid sydd ei angen.

PENNOD SAITH: FFYRMIAU CYMORTH CYFREITHIOL TROSEDDOL: CAMAU I'W CYMRD

- 7.1 Y casgliad a nodwyd ym Mhennod 6 uchod yw nad yw'r gwasanaeth a ddarperir gan gyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol yn gynaliadwy ar ei ffurf bresennol. Y cwestiwn nesaf yw: beth yw'r ffordd orau ymlaen? Mae'r cwestiwn hwnnw yn ei dro yn rhannu'n gwestiynau pellach:
- a) Beth yw'r opsiynau wrth fynd ymlaen, ar hyn o bryd ac yn y tymor hwy?
 - b) Os mai'r opsiwn gorau ar hyn o bryd (fel rwyf yn credu) yw cadw'r strwythur presennol, beth yw'r ffordd orau i ddelio â chynaliadwyedd a beth fydd cost hynny?
 - c) Os cedwir y cynlluniau ffioedd (fel rwyf yn argymhell) beth yw'r ffordd orau i strwythuro'r cynlluniau hynny?
 - d) Beth yw'r ffordd orau i ddefnyddio cyllid ychwanegol, yng nghyd-destun y SCT gyfan ac er budd diffynyddion, dioddefwyr a'r trethdalwr?

Yr Opsiynau Presennol

- 7.2 Er mwyn hwyluso'r dadansoddi, rwyf yn dechrau ar y pwynt lle mae'r dinesydd yn dod i'r broses cyfiawnder troseddol gyntaf. Beth yw'r ffordd orau i ddarparu'r gwasanaeth cymorth cyfreithiol troseddol o'r dechrau, sef i'r cleient sydd wedi'i arestio neu'n cael ei alw am gyfweliad gwirfoddol, neu'n cyrraedd y Llys Ynadon heb gynrychiolaeth? Yn nhermau nifer yr hawliadau a drafodir gan yr LAA, mae 80% yn ymwneud â'r camau yng ngorsaf yr heddlu a'r Llys Ynadon. Os bydd camau cyntaf y broses yn cael eu trafod yn briodol, yna mae'r camau diweddarach yn y broses yn debygol o weithio'n well, er budd i ddiffynyddion, dioddefwyr a'r cyhoedd.
- 7.3 Ers gweithredu PACE ym 1984, y mecanwaith ar gyfer darparu'r cyngor a chynhorthwy hwnnw yw defnyddio cyfreithwyr preifat, wedi'u trefnu ar sail rota 24/7 o dan gynllun y cyfreithiwr ar ddyletswydd, a'r system honno wedi'i hategu gan gynllun cyfreithiwr ar ddyletswydd y Llys Ynadon.
- 7.4 Gellir meddwl am ffyrdd eraill i ddarparu'r gwasanaeth hwn: gellid cael gwasanaeth a ariennir gan y cyhoedd wedi'i ddarparu gan gyfreithwyr a gyflogir gan y Wladwriaeth, neu system lle mae darparwyr preifat yn cael tâl a masnachfaint gan y Wladwriaeth i ddarparu'r gwasanaeth, un ai ar sail swm contractio cyffredinol neu am gyfnod contractiol, neu fesul eitem o waith, neu gymysgedd o'r ddau.¹²⁸ Os oedd y mater yn mynd yn bellach na gorsaf yr

¹²⁸ Gellir meddwl am amrywiadau eraill: roedd Comisiwn Thomas ar Gyfiawnder yng Nghymru ym mharagraff 3.86 yn awgrymu system o ddarparwyr preifat yn gweithredu fel amddiffynwyr cyhoeddus a benodir gan y llysoedd, fel a geir yn rhai o'r gwledydd Nordig. Nid oedd amserlen yr Adolygiad yn caniatáu astudiaeth fanwl o awdurdodaethau eraill. Yn gyffredinol, mae'r systemau mwy chwylsol mewn awdurdodaethau cyfraith sifil yn rhy wahanol, yn fy marn i, i ganiatáu cymariaethau defnyddiol.

heddlu, gallai'r diffynnydd gael ei gynrychioli un ai gan gyfreithiwr a gyflogir gan y Llywodraeth, neu gan ddarparwr preifat yn dal masnachfaint y Wladwriaeth, yn ôl y system a ddewisid. O dan y system bresennol, mae darparwyr preifat yn cael eu talu gan y Wladwriaeth fesul eitem o waith, ond nid oes "masnachfaint" sy'n golygu cyfyngu nifer y darparwyr neu ddyfarnu'r contractau sydd ar gael ar sail tendro cystadleuol. Cafwyd ymgais i gyflwyno system o'r fath rhwng 2011 a 2015 ond nid aeth yn ei blaen, fel yr eglurwyd ym Mhennod 4, a hynny am resymau da yn fy marn i.

- 7.5 Gan gymryd yr opsiwn cyntaf o sefydlu gwasanaeth amddiffyn cyhoeddus i'w ddarparu gan gyflogaion cyhoeddus yn cymryd drosodd gan ddarparwyr preifat gan mwyaf, sef yr hyn fyddai'n cyfateb i'r CPS i bob pwrpas ond ar ochr yr amddiffyn, byddai canlyniadau mawr i'r opsiwn hwnnw o safbwynt cyfansoddiadol, ymarferol a chost na fyddai modd eu hystyried yn ddigonol yn yr Adolygiad hwn, gan gofio hefyd am yr amserlen sydd gennyf, hyd yn oed os oedd yr opsiwn hwnnw o fewn cylch gorchwyl yr Adolygiad. Nid oedd yr un ymateb i'r Cais am Dystiolaeth na'r un parti cysylltiedig wedi dadlau o blaid ateb o'r fath, nac wedi awgrymu ehangu'r PDS presennol sydd ar raddfa fach ar hyn o bryd. Er hynny, mae hwn yn opsiwn dichonol.
- 7.6 O safbwynt personol, byddai gennyf amheuan mawr ynghylch opsiwn o'r fath, gan ei fod yn golygu bod y Wladwriaeth yn ymgymryd â "dwyr ochr" yr achos, oherwydd y traddodiad gwrthwynebol cryf yn y SCT, ac o ran gallu'r Wladwriaeth i wneud yn well na'r sector preifat ar sail cost ac effeithlonrwydd. Er hynny, pe bawn o'r farn bod y system bresennol mor ddiffygiol yn ei hanfod fel y dylid ystyried rhyw fath o wladoli ar yr amddiffyniad, byddwn wedi dweud hynny.
- 7.7 Fodd bynnag, nid felly rwyf yn ei weld. Yn fy marn i, mae'r system bresennol ar gyfer cyngor a chynorthwy yng ngorsaf yr heddlu a chynrychiolaeth yn y Llys Ynadon a Llys y Goron yn un dda o ran cysyniad ond yn dioddef oherwydd tanariannu difrifol. Er hynny, rwyf yn gweld bod cryn gyfle i ailwampio a gwella'r cynlluniau a'r trefniadau fel yr eglurir ym Mhenodau 8 i 15.
- 7.8 Yn fy marn i, mae'n well dyfalbarhau am y tro â gwella'r system bresennol yn hytrach na rhoi cynnig ar newid sylfaenol.
- 7.9 Nid oedd yr un ymateb i'r Adolygiad wedi argymhell rhoi cynnig eto ar fodel tendro cystadleuol o'r math y rhoddwyd y gorau iddo rai blynyddoedd yn ôl, ac nid wyf yn credu y byddai model o'r fath yn gwneud synnwyr yn awr. Nid gormodedd o ddarparwyr yw'r broblem ar ochr y cyfreithwyr, ond y ffaith bod rhy ychydig yn dod i broffesiwn a welir fel un sydd heb fawr o ddyfodol iddo o'i gymharu â gyrfaedd eraill. Nid yw'r glir bod unrhyw fodel parod a fyddai'n darparu'n well ar gyfer gwahanol anghenion y sector ar gost resymol i'r

Yn Awstralia a Seland Newydd ceir cymysgedd o gyfreithwyr amddiffyn cyhoeddus a chyfreithwyr preifat yn darparu cymorth cyfreithiol troseddol ond, unwaith eto, mae'r amgylchiadau hanesyddol a daearyddol yn wahanol. Fodd bynnag, cyfeiraf ym Mhennod 15 at rai modelau newydd sy'n datblygu yn yr Unol Daleithiau (lle mae'r systemau wedi'u seilio'n bennaf ar gysyniad yr amddiffynnydd cyhoeddus).

trethdalwr. Mae'r gwasanaeth sylfaenol wedi'i seilio o reidrwydd ar berthynas un-i-un sydd wedi'i theilwra yn ôl anghenion y cleient penodol, sydd ag ymddiriedaeth bersonol wrth ei wraidd, ac mae gan wahanol gymunedau eu gwahanol anghenion. Mae ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol mewn sefyllfa fregus eisoes ac, yn fy marn i, byddai gorfodi rhyw fath o ad-drefnu "o'r brig i lawr" gan Lywodraeth yn gam gwrthgynhyrchol.

7.10 Ond beth am y tymor hwy? Hyd yn oed os derbynnir fy argymhellion, ni ellir cymryd yn ganiataol y bydd y sector preifat yn gallu darparu'r gwasanaeth sydd ei angen yng ngorsaf yr heddlu a'r Llys Ynadon ym mhob rhan o'r wlad am gyfnod amhenodol, neu ddelio â heriau penodol i wahanol fathau o droseddwyd neu wahanol fathau o waith. Rwyf yn trafod rhai o'r modelau ac opsiynau posibl ar gyfer y dyfodol ym Mhennod 15 isod.

7.11 Yn fy marn i, yr opsiwn gorau ar hyn o bryd ar gyfer delio â mater cynaliadwyedd cymorth cyfreithiol troseddol yw darparu cyllid priodol ar gyfer y system bresennol, a diwygio'r cynlluniau ffioedd fel y nodir isod.

Lefel Gyffredinol y Cyllido sydd ei Angen

7.12 Y cwestiwn nesaf yw pa lefel gyffredinol o gyllido sy'n debygol o fod ei hangen i gynnal y system bresennol. Fel y gwelwyd uchod, gofynnwyd i'r Adolygiad ystyried cynlluniau ffioedd sy'n hybu:

"sustainability of the market, including recruitment, retention, and career progression within the professions and a diverse workforce"

7.13 O ran y cysyniad, nid yw'r cwestiwn yn un syml. Yn gyntaf, cyn paratoi'r Casgliad Data a chasglu tystiolaeth gan yr Adolygiad, ychydig o ddata dibynadwy a oedd ar gael am enillion ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol, neu yn wir am faterion recriwtio, cadw, camu ymlaen mewn gyrfa neu amrywiaeth, er bod Cymdeithas y Cyfreithwyr wedi rhoi rhybuddion priodol ers rhai blyneddau am y canlyniadau i ddarparu ffioedd isel am gymorth cyfreithiol troseddol. Mae tanariannu strwythurol yn y SCT gyfan wedi cyfrannu'n helaeth at yr anawsterau.

7.14 O ran y prisiau penodol o dan y gwahanol gynlluniau, ychydig iawn o ddata sydd ar gael am yr amser a dreulir ar achosion penodol, gan fod y defnydd o ffioedd sefydlog yn golygu nad yw'r amser a dreuliwyd wedi cael ei gofnodi mewn ffordd ddibynadwy, neu heb ei gofnodi o gwbl. Yn yr un modd, un o effeithiau'r procsi PPE yw nad oes perthynas o reidrwydd rhwng y ffi a godir a'r gwaith a wnaed mewn gwirionedd, ac ychydig iawn o ddata dibynadwy sydd ar gael.

7.15 Mae hefyd yn anodd pennu'n haniaethol beth yw'r pris "iawn" am eitem waith benodol, neu gyfradd yr awr "gywir". Mae'n bosibl bod rhyw berthynas rhwng ffioedd cynllun y Llys Ynadon a chyfraddau'r farchnad pan gawsant eu pennu gyntaf 25 mlynedd yn ôl, a'u lleihau'n ddiweddarach yn 2014, ond amhosibl bellach yw pennu beth yn union oedd y berthynas honno. Mae'n ymddangos

bod ffioedd gorsaf yr heddlu wedi'u pennu drwy gyfeirio at gyfraddau yr awr lleol fel yr oeddent tua 15 mlynedd yn ôl (sy'n egluro'r gwahanol gyfraddau ar gyfer gwahanol orsafoedd heddlu), a'u lleihau hefyd yn 2014, ond nid yw hynny'n fawr o gymorth ychwaith. Yn yr LGFS ceir ffioedd sylfaenol ac atodlenni cymhleth ar gyfer pennu torbwyntiau PPE a gwahanol ffioedd cynyddraddol fesul tudalen, ond os oedd cysylltiadau unwaith rhwng y rhain ac amcangyfrifon o amser a chost, nid yw'n glir bellach beth oedd y rheini, ac mae'r procsi PPE wedi colli cysylltiad fwyfwy â'r gwaith gwirioneddol a wneir.

7.16 Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr wedi awgrymu bod ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol tua un rhan o dair bellach yn ôl pob tebyg o gyfraddau'r farchnad breifat ond mae eraill wedi dweud wrth yr Adolygiad fod y cyfraddau'n llai o lawer na hynny. Unwaith eto, cwestiwn anodd yw pennu beth ddylai'r berthynas fod rhwng cyfraddau preifat a rhai cyhoeddus. Beth bynnag, mae'r gwahanol gynlluniau ffioedd wedi'u cydblethu: mewn achos penodol, byddai'r ffym cyfreithwyr mewn gorsaf heddlu yn gallu ennill ffi hefyd (er y gallai ddigwydd fel arall) os bydd yr achos hwnnw'n arwain at achos yn y Llys Ynadon, a ffi yn Llys y Goron o bosibl o dan yr LGFS.

7.17 Wrth asesu cynaliadwyedd, y peth gorau yn fy marn i yw meddwl yn nhermau'r incwm cyfan sydd ei angen i gynnal y busnes a rhoi elw ar ôl buddsoddi. Yr hyn sy'n ymddangos yn allweddol i mi yw gallu'r sector cymorth cyfreithiol troseddol i ddenu a chadw darparwyr sy'n ddigonol o ran eu nifer, eu hansawdd a'u profiad i ddarparu'r gwasanaeth sydd ei angen, o fewn system sy'n ariannol hyfyw, ac yn gallu cynnig llwybr gyrfa y gellir ei gymharu â rhai tebyg. Yn wir, hon yw'r egwyddor sylfaenol ers y dechrau. Fel y dywedodd y Comisiwn Brenhinol ym 1993:

"the fee levels must be "[capable of] attracting sufficient numbers of competent solicitors, properly trained, to perform this important work".¹²⁹

7.18 Mae'n ymddangos i mi mai un ffon fesur berthnasol, ac un sy'n achosi anhawster mawr ar hyn o bryd i ddarparwyr preifat, yw cyllid sy'n ddigonol i alluogi darparwyr cymorth cyfreithiol troseddol i gynnig cyflogau sydd ar yr un lefel yn fras â rhai'r CPS. Rwyf yn sylweddoli bod "pecyn" y CPS yn cynnwys mwy na'r cyflog yn unig, gan fod pensiwn a hawliau eraill. Ar y llaw arall, mae nifer mawr sydd am ba reswm bynnag yn dymuno aros yn y sector preifat. Mewn sefyllfa lle mae rhywun yn gorfod trafod y mater ar lefel gyffredinol, mae'n ymddangos i mi fod lefelau cyflog y CPS yn un cymharydd rhesymol o leiaf yn yr amgylchiadau hyn.

7.19 Unwaith eto, rwyf yn rhoi pwys arbennig ar gydraddoldeb arfau, sydd yn y cydestun hwn yn golygu na ddylai adnoddau'r Wladwriaeth roi mantais amhriodol i'r erlyniad dros yr amddiffyniad. Mae wedi dod i'r sefyllfa honno erbyn hyn, gan fod tuedd i gyfreithwyr y CPS gael eu talu'n well na mwyafrif y cyfreithwyr

¹²⁹ Mynegodd yr Arglwydd Mackay o Clashfern yr un farn (gweler Pennod 4 uchod)

cymorth cyfreithiol troseddol. Rwyf yn argymhell bod y diffyg cydbwysedd hwnnw'n cael ei unioni cyn gynted â phosibl.

- 7.20 Mae cyfrifiadau gan ddadansoddwyr yn nhîm yr Adolygiad yn dangos bod angen swm o £100 miliwn y flwyddyn o leiaf i alluogi darparwyr cymorth cyfreithiol troseddol i gynnig cyflogau mwy cystadleuol a sicrhau mwy o chwarae teg rhwng yr erlyniad a'r amddiffyniad. Mae hyn wedi'i seilio ar fodelu dangosol a gyflawnwyd i asesu, yn gyffredinol, o faint y byddai'n rhaid cynyddu ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol fel bod cyflogau gros cyfreithwyr a phartneriaid ecwiti/cyfarwyddwyr â rhanddaliadau sy'n gweithio mewn ffyrmyau CCT yn gallu dod yn weddol gyfwerth â'r rheini yn y CPS. Ar gyfer yr olaf, mae hyn wedi'i seilio ar gyflog tybiannol ynghyd ag elw. Roedd yr ymarfer hwn yn dangos y byddai cynnydd o tua £100 miliwn y flwyddyn yn gallu arwain at sefyllfa lle'r oedd cyflogau gros cyfreithwyr yn weddol debyg i'r rheini yn y CPS.¹³⁰ Mae hyn yn cyfateb yn fras i gynnydd o 15% ar ben gwariant 2019/20 ynghyd â'r cynnydd a fodelwyd o ganlyniad i'r eitemau carlam. Gellid dosbarthu'r cynnydd hwn mewn cyllid mewn sawl ffordd i sicrhau'r canlyniadau arfaethedig. Er nad yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gallu rhagnodi sut y caiff refeniw ei ddosbarthu o fewn ffyrmyau, rwyf yn credu y dylai'r cynnydd roi gallu sylweddol i ffyrmyau i wella cyflogau a buddsoddi yn y dyfodol.
- 7.21 Mae'r modelu dangosol hwn wedi'i seilio ar ddadansoddiad dangosol lefel uchel ac nid yw'n amcangyfrif manwl. Nid yw'n bosibl mapio lefelau cyflog yn union rhwng y CPS a ffyrmyau CCT am mai ychydig o ddata sydd ar gael ac nad yw'r rolau yn y CPS ac mewn ffyrmyau cyfreithwyr yn cyfateb yn union. Dwy ragdybiaeth allweddol sy'n sail i'r dadansoddiad hwn yw (i) bod y rhaniad rhwng costau cysylltiedig â chyflogeion ac elw partneriaid neu gyfarwyddwyr â chyfranddaliadau yn aros yr un fath, a (ii) bod costau eraill sydd heb gysylltiad â chyflogeion yn aros fel y maent mewn termau enwol. Byddai'r rhagdybiaeth olaf hon, os yw'n gywir, yn golygu y byddai'r cynnydd o 15% mewn incwm o ffioedd yn gallu arwain at gynnydd mwy yng nghyflogau gros cyfreithwyr. Mae rhestr o ragdybiaethau a chafeatau mewn nodyn yn Atodiad J.
- 7.22 Gan gymryd 2019/20 yn llinell sylfaen, ynghyd â'r effaith a fodelwyd o'r mesurau carlam, byddai hynny'n golygu cynnydd ychwanegol cyffredinol mewn cyllid o tua 15% ar ochr y cyfreithiwr. I groeswrio hyn, mae cyfrifiadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dangos y byddai'n costio oddeutu £61 miliwn y flwyddyn i wrthdroi'r gostyngiad mewn ffioedd o 8.75% sy'n dyddio o 2014, y cafodd y trethdalwr fudd sylweddol ohono yn y cyfamser. Ond yn fy marn i, ni fyddai gwrthdroi'r toriad ar dâl yn 2014 yn ddigon i sicrhau cynaliadwyedd ar ei ben ei hun, o ystyried y costau a'r pwysau eraill sydd wedi codi ers torri ffioedd bron 8 mlynedd yn ôl.
- 7.23 Rwyf yn pwysleisio na fyddai'r isafswm o tua £100 miliwn y flwyddyn yn sicr o roi'r ochr amddiffyn troseddol ar yr un gwastad yn union â'r CPS. Mae'r sector

¹³⁰ Nid yw hyn yn cynnwys cydnabyddiaeth ariannol o dan yr AGFS sy'n cael ei thrafod ym Mhennod 13 isod.

preifat yn gorfod mentro a buddsoddi. Ar y sail honno, byddai'n deg i rywun ddadlau o blaid swm mwy na'r isafswm rwyf yn ei argymell. At hynny, nid yw'n sicr y bydd y swm a awgrymwyd gennyf yn ddigon. Nid wyf yn gweld y swm o £100 miliwn yn fwy na man cychwyn isaf, i'w ddal dan sylw wrth fynd ymlaen.

7.24 Fel y nodwyd uchod yn y Cyflwyniad, nid oes lle i oedi wrth weithredu'r argymhelliad hwn yn fy marn i, yn enwedig o ystyried y cynnydd disgwyledig yn y galw a phwysau'r ôl-groniad.

Strwythur y Cynlluniau

7.25 Ar y sail bod camau'n cael eu cymryd i ddarparu cyllid ychwanegol, bydd yn hollbwysig bod strwythur y cynlluniau ffioedd yn effeithlon a'u bod yn rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr. Pan gyhoeddwyd yr Adolygiad, gofynnwyd iddo ystyried diwygio'r cynlluniau ffioedd i sicrhau ymysg pethau eraill eu bod fel a ganlyn:

- *“fairly reflect, and pay for, work done.*
- *...*
- *are simple and place proportionate administrative burdens on providers, the Legal Aid Agency (LAA), and other government departments and agencies”*

7.26 Nid yw'n hawdd cysoni'r amcanion hyn. Mae “talw am waith a wnaed” yn golygu y dylid cofnodi'r amser a dreuliwyd ar y gwaith hwnnw, y bydd mecanwaith i benderfynu bod y gwaith wedi'i wneud mewn gwirionedd, a bod yr hawliad amdano'n rhesymol. Mae hynny'n tynnu'n groes i'r amcan y dylai'r cynlluniau ffioedd fod yn “syml” a hawdd eu gweinyddu. Un o fanteision y cynlluniau ffioedd presennol yw bod modd gwneud a chymeradwyo hawliadau am symiau sefydlog a hawdd eu canfod heb roi gormod o faich gweinyddol ar y darparwr neu'r LAA, a heb arfer barn oddrychol o ran yr hyn sy'n rhesymol. Pa un a yw lefel y ffi sefydlog yn gywir neu beidio, mae o leiaf yn swm hysbys. Ni chafwyd unrhyw ymatebion i'r Adolygiad a oedd yn argymell dychwelyd i system wedi'i seilio'n llwyr ar gyfraddau yr awr.

7.27 Ar y llaw arall, mae'n bosibl na fydd system seiliedig ar ffioedd sefydlog, fel y rheini sy'n gymwys i orsaf yr heddlu, yn cwmpasu'r gwaith a wnaed mewn achosion penodol. Mae wedi'i ddweud, yn deg yn fy marn i, fod systemau ffioedd sefydlog at ei gilydd yn rhoi cymhelliad i wneud cyn lleied o waith â phosibl ar achosion unigol, yn ogystal ag ymgymryd â chynifer o achosion syml â phosibl, gan osgoi achosion mwy anodd a llafurus.

7.28 Mae cynllun y Llys Ynadon yn ymateb i rai o'r ystyriaethau uchod, gan ei fod wedi'i seilio ar ffioedd is, uwch ac ansafonol. Felly, er enghraifft, fel yr eglurir yn fwy manwl yn Atodiad M, ac wrth ddefnyddio ffigurau crwn, y ffi safonol is am achos neillog lle y pledir yn euog mewn ardal sydd heb ei dynodi¹³¹ yw £195, terfyn uchaf y ffi safonol is yw £272, y ffi safonol uwch yw £412, a therfyn uchaf

¹³¹ h.y. achos Categori 1A, lle y caniateir amser teithio ac aros.

y ffi safonol uwch yw £472. Penderfynir a yw'r gwahanol derfynau hyn wedi'u cyrraedd ar sail yr amser a gofnodwyd ar y gyfradd yr awr a bennwyd, a nifer y llythyrau/galwadau ffôn a wnaed. Hynny yw, mae cynllun y Llys Ynadon yn gymysgedd o gyfraddau yr awr a ffioedd lled-sefydlog. Y ddamcaniaeth sylfaenol – ac rwyf yn pwysleisio mai damcaniaeth yw hon – yw bod nifer o achosion y gellir eu cwblhau am y ffi safonol is o £195 neu lai na hynny: os yw'r gwaith a wnaed yn dod i lai na £195, mae'r ffi safonol yn daladwy er hynny. Ar y llaw arall, ni thelir am waith a wnaed sy'n dod i fwy na'r ffi safonol is o £195 nes cyrraedd terfyn uchaf y ffi safonol is o £272 ac, ar ôl hynny bydd y ffi safonol uwch o £412 yn dod yn daladwy, pa un a oedd yr amser a dreuliwyd/y gweithgarwch wedi cyrraedd £412 neu beidio. Wedyn bydd y ffi yn aros ar £412, nes bydd yr amser a dreuliwyd/gweithgarwch yn cyrraedd £472, ac yna os bydd yr amser a dreuliwyd/gweithgarwch yn fwy na hynny, gellir hawlio'r ffi ansafonol.

- 7.29 Yn fy marn i, mae cynllun y Llys Ynadon yn gyfaddawd ymarferol rhwng cyfraddau yr awr a hwylustod gweinyddu ac yn caniatáu hyblygrwydd ar gyfer achosion mwy llafurus drwy ddefnyddio mecanweithiau'r ffi safonol uwch a'r ffi ansafonol. Gellid ystyried y mecanwaith hwn yn un lle mae rhywun yn ennill cymaint ag y mae'n ei golli rhwng y gwahanol gyfraddau ond, yn fy marn i, mae'n sicrhau mwy o lawer o gydbwysedd na chynllun gorsaf yr heddlu neu'r LGFS fel y maent ar hyn o bryd.
- 7.30 Yn ôl y ffigurau sydd ar gael i'r Adolygiad, o'r hawliadau a wnaed o dan gynllun ffioedd y Llys Ynadon, mae tua 80% o'r hawliadau dros y pum mlynedd diwethaf wedi bod am y ffi safonol is. Mae hynny'n awgrymu ei bod yn wir bod cynllun y Llys Ynadon yn arwain at hwylustod wrth weinyddu mewn nifer mawr o achosion, a'i fod yn darparu ar gyfer achosion lle mae angen gwaith ychwanegol.
- 7.31 Felly rwyf yn argymhell y dylai egwyddorion cynllun y Llys Ynadon gael eu cymhwyso at gynllun gorsaf yr heddlu ac at yr LGFS, fel y trafodir yn fwy manwl ym Mhenodau 8 a 12 isod, er mwyn cael dull cyson o weithredu rhwng pob un o'r prif gynlluniau sy'n effeithio ar ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol.

I Ble y Byddai'n Well Cyfeirio Cyllid Ychwanegol?

- 7.32 Hyd yn oed o gymryd y bydd y cynlluniau ffioedd yn cael eu hailstrwythuro yn ôl yr argymhelliad uchod, mae cwestiwn pellach yn aros ynghylch ble y byddai'n well cyfeirio cyllid o fewn y SCT, er budd y SCT, rhai dan amheuaeth, diffynyddion, dioddefwyr a'r trethdalwr.
- 7.33 Yn fy marn i, mae'n bwysig bod pob un o'r tri phrif gam yn y broses sy'n cynnwys ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol, sef gwaith gorsaf yr heddlu, gwaith y Llys Ynadon a gwaith Llys y Goron, yn gynaliadwy ar eu pen eu hunain, hynny yw, heb fod yn ddibynnol ar sybsideiddio gormodol gan ffrydiau gwaith eraill. Er nad oes modd rhagnodi dull gweithredu o'r fath, yn fy marn i, os bydd un rhan o'r busnes yn gwneud gormod o golled neu, i'r gwrthwyneb, yn rhy broffidiol, mae perygl i hynny ystumio'r gwasanaeth a/neu'r cyngor a roddir i'r

cleient, pa mor gydwbybodol bynnag y bydd y cyfreithiwr. Hyd y bo modd, dylai pob cynllun ffioedd “sefyll ar ei draed ei hun” er mwyn osgoi sefyllfa lle byddai elw neu golled fasnachol yn gallu effeithio, yn isymwbybodol hyd yn oed, ar y cyngor a roddir i'r cleient.

- 7.34 Roedd Syr Brian Leveson wedi rhoi pwyslais priodol ar gael pethau'n iawn y tro cyntaf, ar berchen ar achosion, ar ymgysylltu cynnar, ac ar baratoi priodol. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, credaf y bydd yn well cyfeirio'r cyllid ychwanegol at y camau cyntaf yn y SCT, hynny yw, rhoi pwyslais ar “ben blaen” y system gan adlewyrchu'n well y tâl a wneir am y gwaith a wnaed mewn gwirionedd. Ymhen amser, dylai hyn leddfu'r pwysau cyffredinol ar y SCT, yn enwedig ar Lys y Goron. Yn benodol, rwyf yn ei weld yn hanfodol cael gwell ymgysylltu ar gam gorsaf yr heddlu, a chyllid i'r amddiffyniad am ymgysylltu drwy gydol y cyfnod cyn y gwrandawriad cyntaf yn y Llys Ynadon, er mwyn sicrhau bod cymorth cyfreithiol troseddol yn gweithio'n well, fel y trafodir ym Mhenodau 8 a 9.
- 7.35 Yn olaf, rwyf yn rhoi pwys mawr ar helpu i sicrhau parhad ffyrniau llai, sydd yn aml yn rhai ar y stryd fawr, y bydd llawer ohonynt yn y chwartel isaf o ran enillion, ond sy'n chwarae rhan hanfodol yn eu cymunedau, yng Nghymru ac yn Lloegr, gan roi cymorth yn aml i gleientiaid o gefndiroedd lleiafrifol ethnig i gael mynediad at gyfiawnder.

PENNOD WYTH: CYNLLUN GORSAF YR HEDDLU

- 8.1 Roedd y rhan fwyaf o'r cyflwyniadau i'r Adolygiad ynghylch cynllun gorsaf yr heddlu yn ymwneud â strwythur a lefel y ffioedd. Fodd bynnag, mae nifer o bartïon, yn cynnwys Dr Vicky Kemp, sydd hefyd yn aelod o Banel yr Adolygiad, wedi tynnu sylw at nifer o faterion eraill. Byddaf yn ymdrin yn gyntaf â strwythur cynllun gorsaf yr heddlu, ac wedyn â'r materion pellach sy'n codi.

Strwythur Cynllun Gorsaf yr Heddlu

- 8.2 Os bydd rhywun dan amheuaeth yn cael ei arestio neu os gofynnir iddo ddod am gyfweliad gwirfoddol, rhaid ei hysbysu am ei hawl i ymgynghori â chyfreithiwr, un ai'r cyfreithiwr ar ddyletswydd neu gyfreithiwr o'i ddewis.¹³²
- 8.3 Yn benodol, ac yn amodol ar eithriadau sy'n amherthnasol yma, mae Cod C, paragraff 6 PACE yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid hysbysu pawb a gedwir y gallant ymgynghori a chyfathrebu'n breifat ar unrhyw adeg â chyfreithiwr, boed wyneb yn wyneb, drwy ysgrifennu neu siarad dros y ffôn, a bod cyngor cyfreithiol annibynnol ar gael yn ddi-dâl.¹³³ Pryd bynnag y gofynnir am gyngor cyfreithiol, rhaid i swyddog y ddalfa weithredu'n ddi-oed i sicrhau darparu cyngor o'r fath. Os oes hawl gan yr un a gedwir i siarad â chyfreithiwr wyneb yn wyneb ond ei fod yn gwrthod gwneud, dylai'r swyddog dynnu sylw at y ffaith bod yr hawl yn cynnwys yr hawl i siarad â chyfreithiwr dros y ffôn. Os bydd yr un a gedwir yn parhau i ildio'r hawl hon, dylai'r swyddog ofyn pam mae'n gwneud hynny a dylid cofnodi unrhyw resymau yng nghofnod y ddalfa neu yng nghofnod y cyfweliad fel y bo'n briodol.¹³⁴ Rhaid atgoffa rhai a gedwir am yr hawl i gael cyngor cyfreithiol ar wahanol gamau yn y broses.
- 8.4 Yn achos rhywun sy'n ifanc neu'n agored i niwed, dylai oedolyn priodol ystyried a oes angen cael cyngor cyfreithiol gan gyfreithiwr. Mae hawl gan yr oedolyn priodol i ofyn am gael cyfreithiwr yn bresennol os byddai hyn er y budd pennaf i'r un a gedwir.
- 8.5 Ni ellir gorfodi rhywun i weld cyfreithiwr os nad yw'n dymuno gwneud hynny.¹³⁵ Ni ellir cyf-weld neu barhau i gyf-weld un a gedwir sydd am gael cyngor cyfreithiol nes iddo gael cyngor cyfreithiol o'r fath.¹³⁶
- 8.6 Os bydd un dan amheuaeth yng ngorsaf yr heddlu yn gofyn am gyfreithiwr, rhaid i'r heddlu drosglwyddo'r cais i Ganolfan Alwadau'r Cyfreithwyr Amddiffyn (DSCC) sef canolfan alwadau sy'n cael ei rhedeg ar ran yr LAA gan gcontractwr allanol, ble mae'n rhaid cyfeirio'r holl alwadau o orsaf yr heddlu. Gwneir hyn

¹³² Awgrymwyd i'r Adolygiad fod yr heddlu weithiau'n dweud hyn wrth yr un dan amheuaeth mewn ffordd a allai awgrymu y byddai enwebu cyfreithiwr o'i ddewis yn golygu talu, er bod cyngor a chynhorthwy yng ngorsaf yr heddlu yn ddi-dâl pa un a ddarperir y rhain gan gyfreithiwr ar ddyletswydd neu gyfreithiwr o'i ddewis.

¹³³ Cod C, paragraff 6.1

¹³⁴ Cod C, paragraff 6.5

¹³⁵ Cod C, paragraff 6.5A

¹³⁶ Cod C, paragraff 6.6

hyd yn oed os bydd yr un dan amheuaeth yn gofyn am gyfreithiwr a enwir (ei gyfreithiwr ei hun) yn hytrach na'r cyfreithiwr ar ddyletswydd. Mae'r Adolygiad wedi cael nifer mawr o gwynion am y DSCC ac am yr oedi a'r anhapiau y dwywedir eu bod yn digwydd.

- 8.7 Pan fydd y cyfreithiwr ar ddyletswydd yn cael yr alwad gan y DSCC, mae'r cyfreithiwr o dan ddyletswydd contractiol i allu dod i orsaf yr heddlu o fewn 45 munud. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae hawl gan yr un dan amheuaeth i siarad dros y ffôn â'r cyfreithiwr. Fel arfer bydd y cyfreithiwr yn ymbresenoli cyn cyfweiliad yr heddlu, er ei bod yn bosibl na fydd y cyfweiliad yn digwydd am rai oriau ar ôl arestio. Nid yw'n glir i ba raddau y mae cyngor yn cael ei roi dros y ffôn hefyd yn y cyfamser.
- 8.8 Bydd y ffi a gaiff y cyfreithiwr yn cael ei phennu ar wahân ar gyfer pob gorsaf heddlu a bydd yn aros yr un fath pa mor hir bynnag y bydd yn bresennol, neu yn wir pa un a fydd yn ymbresenoli mwy nag unwaith neu ar gyfer cyfweiliadau dilynol. Pennwyd y ffioedd yn 2008 ond cawsant i gyd eu lleihau 8.75% yn 2014 ac nid ydynt wedi'u hadolygu ers hynny. Ceir yr hyn a elwir yn "ffi dianc" sydd wedi'i bwriadu ar gyfer achosion mwy cymhleth, ond mae hon dair gwaith gymaint â'r ffi sefydlog, a dim ond mewn nifer bach iawn o achosion y caiff ei hawlio mewn gwirionedd. Hyd yn oed os yw'r ffi dianc yn daladwy, ni thelir am amser y cyfreithiwr ond o'r pwynt y mae'r ffi dianc yn dod yn daladwy. Mae amser teithio ac aros wedi'i gynnwys yn y ffi sefydlog, er y gellir hawlio am alldaliadau teithio. Er y gellir gofyn am bresenoldeb yng ngorsaf yr heddlu ar unrhyw adeg o'r dydd a'r nos drwy'r wythnos, nid oes lwfans am fod "ar alwad".
- 8.9 Er enghraifft, mae'r CLSA wedi nodi mai'r ffi sefydlog ar gyfer Caerlŷr yw £177.94 ac mai trothwy'r ffi dianc yw £552.15. Cyfradd yr awr y ffi dianc yw £47.45 yr awr. Fodd bynnag, ar y gyfradd honno byddai angen i gyfreithiwr wneud mwy nag 11½ awr o waith cyn iddo gyrraedd trothwy'r ffi dianc. Pe byddai'r cyfreithiwr wedi gwneud 11 awr o waith, ac felly heb fod yn gymwys i gael y ffi dianc, byddai'r un ffi sefydlog o £177.94 yn cael ei thalu iddo am 11 awr o waith ag y byddai'n cael ei thalu iddo am wneud dim ond 30 munud o waith. Yr unig waith y telir amdano ar ben y ffi sefydlog am bresenoldeb yw gwaith a wnaed sy'n uwch na throthwy'r ffi dianc. Felly, yn yr enghraifft hon, pe byddai'r cyfreithiwr yn gwneud 13 awr o waith i gyd, byddai'r ffi sefydlog o £177.94 yn cael ei thalu iddo ynghyd â ffi am 90 munud ychwanegol o waith ar £47.45 yr awr (£71.17). Dyma gyfanswm o £249.11 am 13 awr sy'n cyfateb i gyfradd yr awr o £19.16 yr awr. Nid yw hyn yn ymddangos i mi yn ffordd synhwyrol o dalu am waith pwysig.
- 8.10 Y broblem sylfaenol ynglŷn â'r strwythur hwn yw nad yw'n gwahaniaethu rhwng achosion syml a'r rheini sy'n fwy anodd neu ddifrifol. Telir am achos syml o ddwyn mewn siop ar yr un gyfradd â llofruddiaeth, fel nad oes cymhelliad i'r cyfreithiwr roi mwy o amser at yr achosion difrifol. Yn wir, mae'n bosibl bod hyn yn cymell y cyfreithiwr i wneud cynifer o achosion syml â phosibl yn yr amser sydd ar gael ac osgoi'r achosion mwy anodd.

- 8.11 Gellid dweud y byddai modd i daliadau rhy isel o'r fath gael eu gwrthbwysu'n rhannol gan y posibilrwydd bod yr amser a roddir at achos mwy difrifol yng ngorsaf yr heddlu yn cael ei gydbwysu wedyn drwy dreulio llai o amser ar achosion symlach eraill neu fod ffioedd yn cael eu talu wedyn yn y Llys Ynadon neu Lys y Goron. Yn fy marn i, nid yw hynny'n ffordd gynaliadwy o weithredu bellach. Dylid talu'n briodol am waith a wnaed, ac ni ddylai'r gydnabyddiaeth ariannol ddibynnu'n ormodol ar y gobaith – a dim ond gobaith yw hyn – y gellir gwneud iawn am hyn mewn achosion eraill yn ddiweddarach. Fel arall, mae perygl y bydd y gobaith o wneud iawn am y “golled” yng ngorsaf yr heddlu drwy waith ychwanegol wedyn yn dylanwadu ar y cyngor a roddir i'r cleient. Mae gwaith yng ngorsaf yr heddlu, sydd heb ei werthfawrogi ddigon o bosibl ers amser hir, yn rhy bwysig i'w ystyried yn “nwydd ar golled”. Dylid talu'n briodol am yr amser a dreulir pan ddarperir y gwasanaeth.
- 8.12 Er y bydd yn amrywio rhwng lleoliadau trefol a gwledig, gall gwaith gorsaf yr heddlu fod yn gymhleth iawn hefyd, gan gymryd oriau neu ddiwrnodau lawer: gall y drosedd dan sylw amrywio o achos syml o ddwyn mewn sip i gyhuddiad o lofruddio, o gynllwyn cymhleth ynghylch cyffuriau i achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus, o droseddau rhyw yn ymwneud â phlant i weithredoedd terfysgol. Mae'n ddigon posibl y bydd y cleient yn oedolyn agored i niwed sydd â phroblemau cyffuriau neu iechyd meddwl, neu'n blentyn dan amheuaeth sy'n iau na 18 oed, neu o gefndir diwylliannol gwahanol iawn, ac yn brin ei afael ar Saesneg o bosibl. Bydd nifer mawr o gleientiaid sydd â hanes o chwalfa deuluol, anawsterau priodasol neu broblemau addysgol, ffordd anhrefnus o fyw ac, yn eithaf posibl, patrwm o euogfarnau neu ddatrysiadau y tu allan i'r llys yn y gorffennol. Bydd nifer mawr ohonynt yn derbyn budd-daliadau a heb allu dod o hyd i gyflogaeth. Ar wahân i wybodaeth gyfreithiol, bydd angen nifer o sgiliau eraill ar y cyfreithiwr, fel gwybodaeth am dechnegau rheoli dichter, triniaethau am gamddefnyddio cyffuriau a mathau eraill o ddibyniaeth, a sut i ddelio â phobl ifanc, a rhoi dim ond ychydig o enghreifftiau.
- 8.13 Nid yn unig y mae hwn yn waith anodd a llawn straen; bydd y cyfweiliad cyntaf â'r heddlu yn aml yn dyngedfennol o ran penderfynu holl gwrs yr achos wedyn. Gall cyngor da wneud gwahaniaeth mawr, o safbwynt yr un dan amheuaeth neu o safbwynt yr heddlu, i'r canlyniad yn y pen draw. Yn ogystal â hyn, mae sylwadau a gyflwynir o ran pa gyhuddiad a fyddai orau, os bydd un, y posibilrwydd o ddatrys y tu allan i'r llys, yn cynnwys cyngor i'r cleient ynghylch derbyn rhybuddiad neu beidio, neu unrhyw amodau ar fechniaeth, yn gallu bod yn bwysig hefyd. Yn fy marn i, mae “ei gael yn iawn y tro cyntaf” yn gymwys i'r un graddau i'r amddiffyniad ag y mae i'r heddlu. Rwyf hefyd yn credu bod cynrychiolaeth briodol yng ngorsaf yr heddlu yn gyson â'r thema gyffredinol o hyrwyddo ymgysylltu cynnar: gweler Pennod 9 isod.
- 8.14 Felly rwyf yn argymhell y dylid diwygio strwythur cynllun gorsaf yr heddlu fel y bydd yn debyg i gynllun y Llys Ynadon gyda ffioedd safonol is, ffioedd safonol uwch a ffioedd ansafonol ar gyfer achosion eithriadol.

- 8.15 Mae un enghraifft ar gael eisoes o'r ffordd y byddai dull o'r fath yn gallu gweithio yn y tabl ffioedd dianc, prin eu defnydd, sydd ym mharagraff 2(3) o Atodlen 4 i'r Rheoliadau, sy'n gwahaniaethu rhwng y cyfreithiwr a enwir a'r cyfreithiwr ar ddyletswydd; rhwng oriau anghymdeithasol a dim oriau o'r fath; rhwng trosedd ddifrifol a throseddau eraill; ac yn caniatáu hawlio am amser teithio ac aros. Fodd bynnag, byddai angen cyflwyno pwysoliad ychwanegol i adlewyrchu hynafedd y cyfreithiwr cysylltiedig, fel y bydd cyfreithwyr profiadol yn cael cydnabyddiaeth ariannol am ddelio ag achosion difrifol.¹³⁷
- 8.16 Er y bydd angen rhagor o wybodaeth a modelu, pe byddai'r ffi safonol is yn cael ei gosod mewn ffordd sy'n debygol, ar sail ddangosol, o gwmpasu 70% - 80% o nifer yr achosion, er enghraifft, fel y gwneir yn y Llys Ynadon, byddai hynny'n cyfyngu'r gost weinyddol ychwanegol. Byddwn yn disgwyl gweld y ffi safonol uwch yn cael ei thalu am yr achosion mwy difrifol fel arfer, gan adael y ffi ansafonol ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol, anodd neu lafurus. Yn y sefyllfa olaf, rwyf yn tynnu sylw at fy argymhelliad ym Mhennod 15 y dylai'r LAA fabwysiadu dull llai cyfyngol wrth ddelio â hawliadau'n gyffredinol.
- 8.17 Mae'n ymddangos yn afreolaidd bod ffioedd gwahanol ar gyfer gwahanol orsafoedd heddlu, er enghraifft bod y ffi yn Blackpool yn £126.58, ond yn Blackburn, lai nag awr i fwrdd, ei bod yn £177.94. Y ffi yn Brighton a Hove yw £183.41, ond o fewn cwmpas 20 milltir mae'r ffi yn Eastbourne yn £173.18, yn £228.32 yn Crawley, ond yn Worthing yn £164.25, ac yn y blaen. Rwyf yn argymhell dileu'r gwahaniaethau hyn a bod trefniadau tebyg i gynllun y Llys Ynadon yn cael eu mabwysiadu yn lle hynny.
- 8.18 Rwyf yn argymhell y dylai'r cynnydd cyffredinol yn ffioedd cyfreithwyr gael ei bwysoli'n briodol tuag at gam gorsaf yr heddlu, fel y bydd yr olaf yn cael ei gyllido'n briodol heb fod angen dibynnu ar sybsideiddio o gamau diweddarach ym mhroses y SCT.
- 8.19 Fodd bynnag, rwyf yn pwysleisio y dylid ategu'r argymhellion hyn, os cânt eu gweithredu, drwy gymryd y camau pellach sydd wedi'u hamlinellu yn yr adran nesaf, a'u goruchwyllo'n rhagweithiol gan y Bwrdd Cynghorol neu drefniadau cyfatebol.

Materion Ychwanegol sy'n Effeithio ar Waith yng Ngorsaf yr Heddlu

- 8.20 Bwriad yr argymhellion sydd wedi'u hamlinellu uchod yw rhagfynegi newid ffocws mawr tuag at "ben blaen" y SCT, gan ragdybio, os bydd y system yn dilyn gweithdrefnau cywir ac y bydd rhai dan amheuaeth yn cael cyngor da a chyfrifol yn gynnar, y ceir manteision pwysig – ac arbedion ar gostau – yn ddiweddarach.

¹³⁷ Derbynnir yr egwyddor hon, er enghraifft, o dan yr LGFS mewn perthynas â gwaith paratoi arbennig, ystyried deunydd nas defnyddiwyd ac achosion atafaelu: gweler paragraffau 20, 20A, 26 a 27 yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau.

8.21 Fodd bynnag, ni all yr Adolygiad fod yn fodlon, ar sail y dystiolaeth, fod cynllun Gorsaf yr Heddlu yn gweithio'n ddigon da ar hyn o bryd.¹³⁸ Felly, yn ogystal â'r uchod, rwyf yn argymhell y dylai'r Bwrdd Cyngorol gael cylch gwaith sy'n cynnwys adolygu a goruchwyllo gweithrediadau cynllun Gorsaf yr Heddlu at y dyfodol, gyda'r bwriad o fonitro gweithrediad y diwygiadau arfaethedig ac, yn benodol, gymryd camau mewn perthynas â'r materion sy'n dilyn.

Diffyg Data

8.22 Yn gyntaf, er bod cynllun gorsaf yr heddlu yn costio tua £125 miliwn ac yn cael oddeutu 0.6 miliwn o hawliadau bob blwyddyn, mae'n ymddangos mai ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am beth yn union sy'n digwydd yng ngorsaf yr heddlu. Ar wahân i'r ymchwil gan Dr Kemp ac eraill, ychydig o wybodaeth a gyhoeddwyd am ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, a yw hawliau rhai dan amheuaeth yn cael eu diogelu ac i ba raddau mae hyn yn digwydd mewn gwirionedd ac, o safbwynt y trethdalwr, i ba raddau y darperir y gwasanaeth mewn modd modern a chosteffeithiol. Nid oes data ar gael am yr amser a dreulir fel arfer ar wahanol fathau o achosion, am ba wahaniaethau a geir, os o gwbl, yn y patrymau rhwng gwahanol orsafoedd heddlu mewn gwahanol rannau o'r wlad, ac mae'n ymddangos nad oes system reolaidd ar gyfer darparu adborth, ar lefel leol neu genedlaethol, i alluogi'r cyfranogwyr, boed yr heddlu, rhai dan amheuaeth neu gyfreithwyr amddiffyn, i leisio pryderon neu awgrymu gwelliannau.

Lefel Isel y Nifer sy'n Derbyn Cyngor yng Ngorsaf yr Heddlu

8.23 Mae Dr Kemp wedi awgrymu ei bod yn debygol mai dim ond tua 56% o rai dan amheuaeth a arestiwyd sy'n gofyn am gyngor cyfreithiol di-dâl.¹³⁹ Oherwydd yr angen am gofnodi'r wybodaeth hon yng nghofnodion y ddalfa, dylid gallu cael ffigur mwy cywir drwy gynnal rhagor o ymchwil. Mae'n destun pryder nad yw lefel y nifer sy'n derbyn cyngor cyfreithiol yn uwch na hyn, o ystyried y sefyllfa ddifrifol a wynebwr gan rai dan amheuaeth.

8.24 Mae'r esboniadau anecdotaidd a roddwyd i'r Adolygiad am y rhesymau dros lefel isel y nifer sy'n derbyn cyngor yn cynnwys: ofn bod gofyn am gyngor cyfreithiol yn awgrymu euogrwydd; bod aros i gyfreithiwr gyrraedd yn gallu golygu aros yn hirach yn y ddalfa; diffyg ymddiriedaeth mewn cyfreithiwr a delir gan y Wladwriaeth, yn enwedig ymysg rhai dan amheuaeth ifanc o gefndir lleiafrifol ethnig; methu â deall y dewis a gynigiwyd; ac yn achos plant neu eraill dan amheuaeth sy'n agored i niwed, bod heb fawr o ddealltwriaeth yn aml o'r hyn sy'n digwydd neu'r ffordd orau i ymateb. Er bod hawl gan blentyn neu berson agored i niwed i gael oedolyn priodol (rhiant yn aml) yn bresennol,

¹³⁸ Gweler hefyd ddogfen ganllaw *Peer Review* (Chwefror 2021) yr LAA sy'n nodi pryder ynghylch y defnydd amhriodol o weithwyr achos amhrofiadol mewn achosion difrifol yng ngorsaf yr heddlu. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/966765/Crime_Guide_Quality_February_2021_2_.pdf

¹³⁹ Kemp, V, tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Senedd (ffigurau ar gyfer 2017): <https://committees.parliament.uk/writtenevidence/12784/pdf/>.

mae'n bosibl na fydd yr oedolyn priodol yn deall yn iawn beth sydd er y budd pennaf i'r un dan amheuaeth ychwaith.

- 8.25 Mae'r Adolygiad wedi cael ar ddeall hefyd gan Dr Kemp mai ychydig o wybodaeth sydd ar gael am nifer y cyfweliadau gwirfoddol a gynhelir gan yr heddlu ac i ba raddau mae cyfweleion gwirfoddol yn cael cyngor cyfreithiol ymlaen llaw.
- 8.26 Credaf y byddai'n bwysig i'r Bwrdd Cyngorol gydweithio â'r heddlu a chynrychiolwyr yr amddiffyniad i fynd at wraidd y rhesymau dros lefel isel y nifer sy'n derbyn cyngor. Os yw'r heddlu o'r farn bod ymgysylltu cynnar yn arbennig o bwysig, fel y mae cynrychiolwyr yr heddlu wedi dweud wrth yr Adolygiad, yna byddwn yn meddwl ei bod er budd yr heddlu a rhai dan amheuaeth hefyd i hyrwyddo'r gallu i gael cyngor cyfreithiol mor gynnar â phosibl, a gwella lefel y nifer sy'n derbyn cyngor yng ngorsaf yr heddlu. Byddai hynny'n gyson hefyd â'r Ymrwymiad Cenedlaethol ar Hwyluso Achosion y cyfeiriwyd ato uchod.¹⁴⁰
- 8.27 Mae Dr Kemp yn gwneud y pwynt pellach bod yr hawl i gael cyngor cyfreithiol yn cynnwys yr hawl i siarad â chyfreithiwr dros y ffôn. Os bydd rhywun dan amheuaeth yn gwrthod cael cyngor cyfreithiol, yna o dan God C PACE mae'n ofynnol i swyddog y ddalfa hysbysu'r un dan amheuaeth am ei hawl i siarad â chyfreithiwr dros y ffôn cyn penderfynu'n derfynol, a chofnodi'r rhesymau os gwrthodir cael cyngor cyfreithiol wedyn. Nid oes gwybodaeth ynghylch y graddau y dilynir y weithdrefn hon mewn gwirionedd ac, yn ôl yr ymchwil gan Dr Kemp, byddai nifer mawr o'r rhai dan amheuaeth wedi derbyn y cynnig os oeddent yn gwybod am y posibilrwydd o ymgynghori dros y ffôn.
- 8.28 Yn ôl Dr Kemp, mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd nad yw cyfreithwyr yn ffonio fel arfer, a'i bod yn well ganddynt aros tan gyfweliad yr heddlu ac, os bydd cyfreithiwr yn ffonio, y gellir wynebu anawsterau wrth fynd drwodd at y ddalfa neu siarad â'r cleient. Mae problem hefyd o ran sicrhau cyfrinachedd yr alwad ffôn. Mae'n ymddangos i mi fod cyswllt cynnar a diogel dros y ffôn â chyfreithiwr yn debygol o fod yn arbennig o bwysig i nifer mawr o rai dan amheuaeth, hyd yn oed os yw'r cyfreithiwr yn ymbresenoli'n ddiweddarach, er enghraifft am fod cyfweliad yr heddlu wedi'i ohirio am resymau gweithredol.
- 8.29 Cwestiwn ar wahân yn achos rhai ifanc neu agored i niwed sydd dan amheuaeth yw a ddylai'r system gael ei haddasu i ddilyn gweithdrefn "optio allan" yn hytrach nag "optio i mewn", h.y. cysylltu'n awtomatig â chyfreithiwr oni bai fod yr un dan amheuaeth yn gwrthod yn bendant. Rwyf yn deall bod y newid hwn i gael ei dreialu mewn rhai ardaloedd ac rwyf yn croesawu'r datblygiad hwnnw. Byddwn yn gobeithio bod modd i gynllun treialu o'r fath fynd law yn llaw â datblygu dulliau ychwanegol o hysbysu rhai dan amheuaeth am eu hawliau – mae Dr Kemp wedi cyfeirio at ddatblygu ap neu ddefnyddio llechen neu sgrin gan yr un dan amheuaeth yng ngorsaf yr heddlu. Mae angen mesurau o'r fath

¹⁴⁰ Gweler Pennod 5

hefyd i helpu i feithrin ymddiriedaeth rhwng yr un dan amheuaeth a'r cynghorwr, mater y mae Mr Lammy wedi tynnu sylw ato.

- 8.30 Oherwydd y problemau o ddelio â rhai ifanc neu agored i niwed sydd dan amheuaeth, mae'n ymddangos i mi y dylid cynnwys hyfforddiant penodol ar ddelio â'r rhain yng ngorsaf yr heddlu, a rhyw fath o achrediad maes o law, yn y cymwysterau ar gyfer gwneud gwaith yng ngorsaf yr heddlu. Dylai hyn ymestyn i ddelio â materion niwroamrywiol.¹⁴¹

Anawsterau â'r DSCC

- 8.31 Mae'r Adolygiad wedi cael nifer o gwynion am gam nesaf y broses, sef am aneffeithlonrwydd y DSCC, yn cynnwys oedi wrth gysylltu â'r cyfreithiwr perthnasol, cysylltu â'r cyfreithiwr anghywir, ac anhawster pan ofynnir am gysylltu â chyfreithiwr yr un dan amheuaeth. Os oes sail i'r cwynion hyn, yna nid yw'r sefyllfa hon yn dderbyniol. Er bod yr egwyddor sylfaenol o gael rota gwrthrychol yn ddealladwy, yn anad dim er mwyn osgoi ffafriaeth neu neidio'r ciw, mae'r Adolygiad yn gobeithio ac yn disgwyl y ceir hyd i atebion i broblemau o ran yr DSCC ar fyrder.

Y rheol 14 awr

- 8.32 Cafodd yr Adolygiad lawer o sylwadau am y "rheol 14 awr", gofyniad gan yr LAA fod cyfreithwyr ar ddyletswydd yn ymgymryd â 14 awr o waith amddiffyn troseddol bob wythnos. Nid yw hyn yn cynnwys goruchwyliaeth. Y brif feirniadaeth yw bod y rheol hon yn ei gwneud yn anodd i'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu fod yn gyfreithwyr ar ddyletswydd, yn enwedig menywod a gweithwyr rhan-amser. Gallai arwain hefyd at ddefnydd aneffeithlon o adnoddau. Rwyf yn deall bod addasiad i'r rheol 14 awr wedi'i gyflwyno. Er hynny, rwyf yn argymhell y dylai'r LAA ailedrych ar y mater hwn yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad.

Defnyddio Cynrychiolwyr Achrededig

- 8.33 Y mater nesaf nad oes ond gwybodaeth fras ar gael amdano yw pwy yn union sy'n ymbresenoli yng ngorsaf yr heddlu. Er mai'r cyfreithiwr ar ddyletswydd ei hun fydd yn bresennol mewn llawer achos, gellir cael ymbresenoli hefyd gan berson arall sydd yn y ffyrn cyfreithwyr, sydd wedi ymgymhwyso'n gynrychiolydd gorsaf heddlu achrededig o dan Gynllun Achredu Cynrychiolwyr Gorsaf Heddlu (PSRAS). Mae cynrychiolwyr achrededig yn cael eu cyflenwi hefyd i ffyrniau cyfreithwyr gan asiantaethau allanol.
- 8.34 Mae'r Adolygiad yn deall, ar sail ffigurau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer 2019, fod tua 4600 o gyfreithwyr ar ddyletswydd ar rota'r LAA a thua 2600 o gynrychiolwyr achrededig. Mae hyn yn awgrymu bod cyfran sylweddol – cymaint â 40 y cant o bosibl – o'r ymbresenoli yng ngorsaf yr heddlu yn cael ei gyflawni gan gynrychiolwyr achrededig. Mae'n debygol y bydd nifer o'r rhain

¹⁴¹ [Neurodiversity in the criminal justice system: a review of evidence \(justiceinspectorates.gov.uk\)](https://www.justiceinspectorates.gov.uk/neurodiversity-in-the-criminal-justice-system-a-review-of-evidence/)

wedi dod o ffyrn y cyfreithiwr ar ddyletswydd perthnasol, er enghraifft, cyfreithwyr, ymgynghorwyr, gweithredwyr cyfreithiol neu weithwyr paragyfreithiol nad ydynt yn cwrdd neu'n dewis cwrdd â holl ofynion yr LAA ar gyfer cyfreithwyr ar ddyletswydd ond sydd er hynny wedi ymgymhwyso'n gynrychiolwyr achrededig.¹⁴² O ran cydbwysedd y rhywiau, mae ffigurau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn awgrymu, lle mae'r gymhareb rhwng dynion a menywod sy'n gyfreithwyr ar ddyletswydd yn 65:35, fod y cydbwysedd o ran cynrychiolwyr achrededig oddeutu 50:50.¹⁴³

- 8.35 Yn 2019, roedd tua 1600 o gyfreithwyr ar ddyletswydd yn goruchwyllo o leiaf un cynrychiolydd achrededig, a'r gymhareb rhwng cynrychiolwyr achrededig a chyfreithwyr ar ddyletswydd sy'n goruchwyllo oedd 1:65:1. Ar yr olwg gyntaf, nid yw'r gymhareb honno'n ymddangos yn afresymol o safbwynt goruchwyllo effeithiol. Fodd bynnag, erbyn Chwefror 2021 roedd nifer y cynrychiolwyr achrededig wedi codi i bron 3000, a'r gymhareb rhwng cynrychiolwyr achrededig a goruchwylwyr oedd 1:72:1, lle'r oedd y cynnydd yn nifer y cynrychiolwyr achrededig hefyd yn adlewyrchu i ryw raddau y gostyngiad yn nifer y cyfreithwyr ar ddyletswydd.
- 8.36 Gan mai gorsaf yr heddlu yw'r prif ddalgylch ar gyfer cael cleientiaid newydd, mae'n ymddangos i mi y bydd er y budd pennaf i gyfreithwyr yn y rhan fwyaf o achosion eu bod yn ymbresenoli yng ngorsaf yr heddlu drwy eu ffyrn eu hunain, yn hytrach na defnyddio asiantaeth allanol, a gwnaed y pwynt hwnnw i'r Adolygiad mewn nifer o drafodaethau. Er hynny, mewn rhai amgylchiadau lle mae'r ffyrn yn brin o staff neu, er enghraifft, lle mae'r staff sydd ar gael yn cymryd rhan yn y llys, neu fod neb ar gael y tu allan i oriau arferol, gellir troi at asiant allanol. Deallir mai'r gost i ffyrn cyfreithwyr am gymryd ymlaen gynrychiolydd achrededig yw rhwng £70 a £100.
- 8.37 Ar y llaw arall, mae rhywfaint o dystiolaeth, sy'n galw am ymchwil bellach, o orddefnydd o gynrychiolwyr achrededig. Mae'r LAA wedi cofnodi un cyfreithiwr a oedd yn goruchwyllo 23 o gynrychiolwyr achrededig. Cafodd yr Adolygiad wybodaeth anecdotaidd am un achos lle'r oedd galwadau ffôn i'r cyfreithiwr yn cael eu dargyfeirio'n rheolaidd at gynrychiolydd achrededig fel nad oedd y cyfreithiwr ei hun byth yn dod i gysylltiad â'r cleient, er bod hyn wedi'i nodi a'i gywiro yn ôl pob golwg drwy adolygu gan gymheiriaid. Mewn achos arall, dywedodd y ffyrn wrth yr Adolygiad ei fod yn defnyddio cynrychiolwyr achrededig bron bob amser gan nad oedd modd cyfiawnhau defnyddio cyfreithiwr hŷn ar sail economaidd. Mae bron yn sicr bod lefel isel y ffioedd yng

¹⁴² Er enghraifft, oherwydd y gofyniad gan yr LAA fod cyfreithiwr ar ddyletswydd yn ymgymryd â 14 awr o waith amddiffyn troseddol bob wythnos, yn achos cyfreithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu neu'r rheini sy'n gweithio'n rhan-amser, gallai fod yn haws iddynt weithredu fel cynrychiolydd achrededig yn hytrach na chadw cymhwyster llawn y cyfreithiwr ar ddyletswydd.

¹⁴³ Awgrymwyd bod modd priodoli'r gwahaniaeth hwn i'r ffaith ei bod yn well gan gyfreithwyr benywaidd osgoi rhywfaint o'r ymrwymiad a ysgwyddir gan gyfreithwyr ar ddyletswydd, er enghraifft, bod ar gael yn ystod oriau anghymdeithasol. Mae hyn yn fater i'w ystyried ymhellach gan yr LAA.

ngorsaf yr heddlu wedi dylanwadu'n drwm hyd yma ar yr arferion hyn, os ydynt ac i'r graddau y maent yn bodoli.

- 8.38 Yn fy marn i, dylai'r Bwrdd Cynghorol a/neu'r LAA adolygu'r cydbwysedd priodol rhwng y defnydd o gyfreithwyr ar ddyletswydd a chynrychiolwyr achrededig. Er ei bod yn ddigon posibl y bydd cynrychiolydd achrededig cymwysedig â phrofiad priodol yn un a fydd yn addas mewn nifer o achosion, mae'n ofynnol o dan yr SCC fod y cynrychiolydd achrededig yn cael ei oruchwyllo'n briodol. Byddai gorddefnydd o gynrychiolwyr achrededig yn gallu gwanhau'r oruchwyliaeth honno, ac nid yw'n glir i mi sut y disgwylir i oruchwyliaeth weithio'n effeithiol os defnyddir asiantaethau allanol.
- 8.39 Un mater o'r fath i'w ystyried ymhellach yw effeithiolrwydd yr hyfforddiant ar gyfer cyfreithwyr a chynrychiolwyr achrededig, yn enwedig o ran delio â rhai ifanc neu agored i niwed (yn cynnwys rhai niwroamrywiol) sydd dan amheuaeth neu unigolion lleiafrifol ethnig. Rwyf yn argymhell bod y system PSRAS ar gyfer achredu, a'r gofynion am ddatblygiad proffesiynol parhaus, yn cael eu hadolygu a'u cryfhau o'r safbwynt hwnnw. Yng ngolwg pwysigrwydd y gwaith yng ngorsaf yr heddlu, dylai'r LAA ystyried, ar y cyd â'r proffesiynau, a ddylid cyflwyno system ar gyfer ailachredu ar ôl cyfnodau penodedig.
- 8.40 Yn ogystal â hyn, nid oedd yr un asiantaeth sy'n cyflenwi cynrychiolwyr achrededig i ffyrniau cyfreithwyr wedi ymateb i'r Cais am Dystiolaeth. Gallai rôl asiantaethau o'r fath fod yn fater i'w ystyried yn y dyfodol gan yr LAA a'r Bwrdd Cynghorol, yn enwedig o safbwynt goruchwyliaeth effeithiol.

Aelodau CILEX yn Gyfreithwyr ar Ddyletswydd

- 8.41 Nododd CILEX fod yr LAA yn gofyn am achredu o dan CLAS Cymdeithas y Cyfreithwyr er mwyn derbyn rhywun yn ffurfiol yn gyfreithiwr ar ddyletswydd. Mae hyn yn ei dro yn golygu bod gofyniad i'r person fod yn gynrychiolydd achrededig o dan PSRAS a bod wedi llwyddo o dan gynllun Cymhwyster Llysoedd Ynadon (MCQ) Cymdeithas y Cyfreithwyr. Mae CILEX yn dadlau bod ei Gymhwyster Eiriolaeth CILEX ei hun yn un y gellir ei gymharu â'r MCQ ac y dylai fod yn dderbyniol i'r LAA fel cymhwyster priodol i ymgymryd â rôl y cyfreithiwr ar ddyletswydd, un ai ar wahân neu drwy ei "basbortio" i CLAS. Fodd bynnag, ni chytunwyd ar hyn, er nad yw'n glir i mi beth sy'n ei rwystro. O ganlyniad i hyn, mae aelodau CILEX yn eu cael eu hunain yn y sefyllfa anarferol o gael bod yn bartneriaid mewn ffyrniau cyfreithwyr, ond heb gael bod yn gyfreithwyr ar ddyletswydd ffurfiol os nad ydynt wedi ennill y cymhwyster ychwanegol gan Gymdeithas y Cyfreithwyr. Un o'r goblygiadau neilltuol i hyn yw na fydd aelod o CILEX yn y sefyllfa hon yn gallu gweithredu fel goruchwilydd dros gynrychiolwyr achrededig eraill, gan fod rôl y goruchwilydd wedi'i chyfyngu i gyfreithwyr ar ddyletswydd. Mewn sefyllfa o'r fath, gallai fod angen i bartner sy'n aelod o CILEX gael ei "oruchwyllo" gan gyd-bartner. Ni fydd aelod o CILEX yn y sefyllfa hon yn gallu caei ei 'gyfrif' ychwaith wrth ddyrannu slotiau cyfreithwyr ar ddyletswydd.

8.42 Oherwydd yr anhawster wrth recriwtio cyfreithwyr ar ddyletswydd, yr angen i hybu amrywiaeth yn y proffesiwn a'r cyfraniad a wneir gan nifer mawr o gyfreithwyr CILEX, mae angen datrys y mater hwn. Rwyf yn argymhell bod yr LAA a Chymdeithas y Cyfreithwyr yn adolygu'r sefyllfa hon eto gyda CILEX. Os na ellir ei datrys, gellid meddwl y byddai'r Bwrdd Cyngorol mewn lle da i gynnig cyngor priodol.

Lleoli cyfreithwyr ar ddyletswydd mewn gorsafoedd heddlu?

8.43 Un newid pwysig yn nhrefniadaeth gorsafoedd heddlu yw cau nifer o orsafoedd bach a sefydlu gorsafoedd heddlu mwy o lawer, yn aml yn eithaf pell o ganol dinasoedd. Law yn llaw â'r duedd hon, cafwyd canoli cynyddol ar gyfleusterau dalfeydd, sydd yn aml yn gallu dal 40 a mwy o rai dan gadwad, yn lle'r nifer mawr o gelloedd mewn gorsafoedd heddlu llai.

8.44 Mae Dr Kemp wedi awgrymu i'r Adolygiad y byddai heddluoedd lleol, drwy gydweithio'n agos â'r gymuned amddiffyn, yn gallu penderfynu ar drefniant i hwyluso lleoli cyfreithiwr ar ddyletswydd yn barhaol mewn rhai o'r gorsafoedd heddlu mwy. Y fantais mewn trefniant o'r fath yw na fyddai angen i ringyll y ddalfa fynd drwy'r DSCC, na fyddai oedi cyn i'r cyfreithiwr gyrraedd gorsaf yr heddlu ac, yn bwysicaf oll efallai, ni fyddai dim neu nemor ddim oedi wrth drefnu bod cyngor cyfreithiol ar gael i'r un dan amheuaeth. Gan mai oedi yw un o'r prif resymau yn aml dros wrthod cyngor cyfreithiol gan un dan amheuaeth, gallai hyn fod yn gam mawr ymlaen mewn egwyddor wrth drefnu i gyngor cyfreithiol fod ar gael a hyrwyddo ymgysylltu cynnar. Rwyf yn argymhell y dylai trefniadau lleol gael eu treialu lle y bo modd, a bod cyfreithwyr ar ddyletswydd yn bresennol mewn rhai gorsafoedd heddlu y rhan fwyaf o'r dydd a'r nos.

Technoleg cyfathrebu o bell mewn gorsafoedd heddlu

8.45 Ar anterth y pandemig roedd lawer o'r cyngor a chynhorthwy mewn gorsafoedd heddlu yn cael ei ddarparu o bell o dan brotocol cyf-weld dros dro a gytunwyd rhwng y partïon perthnasol.¹⁴⁴ Deallir bod y sefyllfa wedi dychwelyd bellach i'r patrwm blaenorol gan mwyaf lle mae cyfreithwyr ar ddyletswydd a chynrychiolwyr achrededig yn bresennol yng ngorsaf yr heddlu.

8.46 Mae'r cwestiwn ynghylch darparu cymorth cyfreithiol o bell i rai dan gadwad yng ngorsaf yr heddlu yn fater o bwys i'r cyhoedd sydd y tu allan i gwmpas yr Adolygiad. Mae hon yn enghraifft glasurol, os caf ddweud, lle mae'r SCT yn ei chael yn anodd ffurfio polisi rhesymegol: mae gwahanol heddluoedd yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol, mae'r Swyddfa Gartref yn gorfod talu am y cyfarpar yn y pen draw, ond mae cyllido cyfreithiwr yr amddiffyniad, ac ansawdd y gwasanaeth, yn fater i'r LAA/y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rwyf yn

¹⁴⁴ <https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/coronavirus-interview-protocol-between-national-police-chiefs-council-crown>

gobeithio y gellir datblygu dull cydweithredol blaengar o drafod y mater hwn ar draws y SCT gyfan.

- 8.47 O ran cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol, cafwyd gwahaniaeth barn yn y dystiolaeth i'r Adolygiad, ond un farn oedd y byddai cynghori o bell yn ddigonol mewn rhai amgylchiadau, yn enwedig ar gyfer troseddau llai difrifol, ac y byddai hyn yn arbed amser ac yn lleihau oedi, yn enwedig mewn ardaloedd mwy anghysbell; awgrymwyd na ddylai fod yn fater i'r cyfreithiwr benderfynu a oedd angen iddo fod yn bresennol ei hun neu beidio.
- 8.48 O safbwynt cymorth cyfreithiol troseddol, mae mesurau sy'n arbed amser a chostau ac yn lleihau oedi yn haeddu sylw. Yn fy marn i, mae cyswllt cynnar dros y ffôn rhwng y cyfreithiwr amddiffyn a'r un dan amheuaeth yn beth dymunol iawn, a dylai ddigwydd yn rheolaidd lle bynnag y bo modd. Pe byddai technoleg ar gael mewn gorsafoedd heddlu i gyflawni hynny'n weledol, byddai hynny hefyd yn gam mawr ymlaen.
- 8.49 Fodd bynnag, fy marn ar hyn o bryd yw bod cyfweiliad yr heddlu yn fater gwahanol. Mae hwnnw'n bwynt pwysig iawn yng nghwrs yr achos ac ni fyddwn i o blaid cefnu ar yr egwyddor o gael presenoldeb gan y cyfreithiwr amddiffyn ei hun yn y cyfweiliad, oni bai fod rhesymau cryf iawn i'r gwrthwyneb. Ar lawer ystyr, prif bwrpas fy nghynnig i ailgyllido ac ailstrwythuro cynllun gorsaf yr heddlu yw gwneud y broses yng ngorsaf yr heddlu yn fwy ystyrlon a defnyddiol o safbwynt y ddwy ochr. Yn fy marn i, hwylusir hynny gan bresenoldeb ffisegol y cyfreithiwr amddiffyn, yn hytrach na'i bresenoldeb rhithiol. Mae hynny'n arbennig o wir yn achos personau ifanc neu agored i niwed, rhai dan amheuaeth am y tro cyntaf, a'r rheini a gyhuddir o droseddau difrifol.
- 8.50 Y tu ôl i'r drafodaeth hon, fodd bynnag, y mae cwestiwn mwy sylfaenol byth yn codi ei ben, sef i ba raddau y dylid parhau â dalgylchoedd y cynllun cyfreithiwr ar ddyletswydd, sy'n seiliedig ar god post y swyddfa berthnasol, heb eu haddasu yng ngolwg y cynnydd mewn technoleg cyfathrebu o bell. Yn wir, mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud hefyd â gofyn i ba raddau y bydd gofyniad yr LAA am gael "swyddfa" ffisegol mewn lleoliad penodol yn parhau i wneud synnwyr mewn byd ar-lein. Fy marn i, a fynegwyd uchod, yw y dylai presenoldeb ffisegol ar gyfer cyfweiliad yr heddlu fod yn norm, heblaw mewn amgylchiadau arbennig, ac ar y sail honno rwyf yn gweld synnwyr mewn parhau i seilio rotâu cyfreithwyr ar ddyletswydd ar ddalgylchoedd. Ond mae'r ffordd y bydd technoleg yn datblygu yn y dyfodol, ac a ddylai ffiniau dalgylchoedd fod yn fwy ystwyth i hwyluso gweithio o bell, yn faterion y dylai'r LAA a'r Bwrdd Cynghorol eu dal dan sylw.

Ymddiriedaeth yn y System ymysg Lleiafrifoedd Ethnig

- 8.51 Yn ei adroddiad, y cyfeiriwyd ato uchod, mae'r Gwir Anrhydeddus David Lammy AS yn gwneud sylwadau pwysig iawn am sefyllfa diffynyddion lleiafrifol ethnig yn y SCT, ac yn benodol am y diffyg ymddiriedaeth yn y system sy'n peri i rai diffynyddion lleiafrifol ethnig ifanc wrthod cyngor cyfreithiol yng ngorsaf yr heddlu. Ymysg pwyntiau eraill, mae'n codi'r posibilrwydd o roi rhywfaint o

ddewis i'r un dan amheuaeth o ran y cyfreithiwr a ddarperir, yn cynnwys y posibilrwydd o ofyn am rywun o gefndir diwylliannol neu ethnig tebyg, a mynediad cynharach at fargyfreithiwr.¹⁴⁵

- 8.52 Rwyf yn cytuno'n llwyr â Mr Lammy fod angen mynd i'r afael â'r materion y mae'n eu codi. Un o ddibenion y cyllid ychwanegol rwyf yn ei argymhell, a'r pwyslais sydd yn yr Adolygiad ar orsaf yr heddlu, yw hybu mwy o gyfranogi yng ngwaith gorsaf yr heddlu gan gyfreithwyr lleiafrifol ethnig, yn cynnwys cyfreithwyr sydd â chymhwyster CILEX. Yn ogystal â hyn, dylai gweithdrefnau'r cynllun cyfreithiwr ar ddyletswydd fod yn rhai sy'n cynnal yn hytrach na chyfarwyddo mewn perthynas â'r gwasanaeth sydd ei angen ar gleient penodol, ac os oes ffyrdd i gyfreithwyr amddiffyn gydweithio mewn ardaloedd lleol â chanolwyr cymunedol a'r heddlu i ddelio â'r pwyntiau y mae Mr Lammy yn eu codi, dylai'r broses honno gael ei hybu gan y system cymorth cyfreithiol troseddol. Mae'n debygol y bydd y cynlluniau treialu ar gyfer optio allan yn hytrach nag optio i mewn ar gyfer rhai ifanc dan amheuaeth yn gymorth i ddelio â'r problemau hyn.
- 8.53 Un awgrym pendant, a drafodir ymhellach ym Mhennod 15, yw y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ystyried darparu blociau grant i ffyrniau buddiannau cymunedol "nid er elw", wedi'u lleoli yn yr ardaloedd mwy difreintiedig, gyda chylch gwaith penodol ar gyfer datblygu arbenigedd i ddelio â diffynnyddion ifanc o gefndiroedd o bob math. Un o'r dibenion fyddai cynyddu'r cyflenwad o gyfreithwyr, yn enwedig rhai o gefndir lleiafrifol ethnig, sy'n barod i fuddsoddi i ddod o hyd i atebion i'r anawsterau y mae Mr Lammy yn cyfeirio atynt.
- 8.54 Rwyf eisoes wedi argymhell uchod y dylid cynnwys hyfforddiant arbennig ar ddelio ag unigolion lleiafrifol ethnig ifanc neu bersonau agored i niwed yng ngorsaf yr heddlu yng nghynllun gorsaf yr heddlu. Rwyf yn gobeithio y byddai'r mesurau hyn yn helpu i ddatrys rhai o'r problemau y mae Mr Lammy yn cyfeirio atynt.

Y Cyfweiliad Dim Sylw

- 8.55 Yn olaf, mae cynrychiolwyr yr heddlu, wrth ymgysylltu â'r Adolygiad, wedi mynegi rhwystredigaeth ynghylch cyfweiliadau lle mae cyfreithwyr amddiffyn yn cynghori rhai dan amheuaeth i ddweud "dim sylw" gan ei bod yn ymddangos i'r heddlu y gallai fod er y budd pennaf i'r un dan amheuaeth fod yn fwy parod i siarad. O safbwynt yr heddlu, mae hyn yn ddealladwy. Ar y llaw arall, mae'r hawl i aros yn ddistaw yn hawl sylfaenol i'r diffynnydd ac os yw er y budd pennaf i'r cleient ei fod yn arfer yr hawl hon, mae'n ddyletswydd ar y cyfreithiwr amddiffyn ei gynghori i wneud hynny.
- 8.56 Fodd bynnag, mae'r cwestiwn o ran a yw cyngor o'r fath er y budd pennaf i'r cleient mewn achos penodol yn fater gwahanol oherwydd y posibilrwydd, er

¹⁴⁵ Gall bargyfreithiwr weithredu fel cynrychiolydd yng ngorsaf yr heddlu. Dylid hefyd ystyried y posibilrwydd o gynnwys bargyfreithiwr yng nghan gorsaf yr heddlu yn y broses. Gweler hefyd Bennod 9 isod ar ymgysylltu cynnar.

enghraifft, o wneud sylw anffafriol gan farnwr ynghylch esboniadau hwyr, neu hepgor y posibilrwydd o liniaru. Mae'r syniad y gellir troi gwaith gorsaf yr heddlu yn fecanwaith lle y rhoddir cyngor yn ddieithriad i ddweud "dim sylw", heb ystyriaeth o gwbl i'r ffeithiau neu amgylchiadau penodol y cleient yn groes, yn fy marn i, i ddyletswydd broffesiynol y cynrychiolydd i roi ystyriaeth fanwl i'r hyn sydd er y budd pennaf i'r cleient ym mhob achos penodol. Dylai cyfreithiwr neu gynrychiolydd achrededig cyfrifol fod yn ymwybodol iawn o'r manteision ac anfanteision o roi cyngor i ddweud "dim sylw" a phwyso a mesur yr ystyriaethau priodol yn ôl anghenion y cleient dan sylw. Pe gwelid mewn adolygiad gan gymheiriaid fod cyfreithiwr neu gynrychiolydd achrededig yn ymddangos ei fod yn gweithredu'n ddifeddwl wrth gynghori'r cleient, yna byddai hynny'n destun pryder. Rwyf yn gobeithio y byddai ailstrwythuro'r cynllun ffioedd fel rwyf wedi awgrymu yn helpu i ddileu unrhyw ddull difeddwl o weithredu, er ei bod yn glir bob amser fod hawl ddiamod gan y cleient i aros yn ddistaw.

PENNOD NAW: YMGYSYLLTU CYNNAR

- 9.1 Y cam nesaf yn y broses ar ôl gorsaf yr heddlu yw'r cyfnod hyd at y gwrandawriad cyntaf yn y Llys Ynadon. Ar hyn o bryd, pa un a yw'r un dan amheuaeth wedi'i gyhuddo neu beidio, mae'r cyfnod hwn yn "gyfnod marwaid" o safbwynt cymorth cyfreithiol troseddol. Ni cheir dim neu nemor ddim ymgysylltu rhwng yr amddiffyniad a'r heddlu, ac nid oes cyllid effeithiol ar gael ar gyfer y cyfnod hwn.¹⁴⁶ O dan y system RUI, gellir cael cyfnod hir pan nad oes dim neu nemor ddim yn cael ei glywed am yr achos nes cael gofyniad drwy'r post yn cynnwys y cyhuddiad a hysbysiad o ddyddiad y gwrandawriad cyntaf yn y Llys Ynadon. Hyd yn oed wedyn, ni chyflwynir y dystiolaeth i'r amddiffyniad. Mae'r Bennod hon yn argymhell gwella'r cyllid o dan gymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer y cyfnod rhwng gorsaf yr heddlu a'r Llys Ynadon.

Ymgysylltu Cyn Cyhuddo

- 9.2 Y mater cyntaf yw ymgysylltu cyn cyhuddo. Ar ddiwedd 2020, cyhoeddodd y Twrnai Cyffredinol ganllawiau diwygiedig a oedd â'r bwriad o gymhell datgelu cyn cyhuddo, ar sail cytundeb rhwng yr Heddlu a'r amddiffyniad. Un o'r sbardunau i hyn oedd yr anawsterau a oedd yn codi oherwydd maint y deunydd digidol, yn enwedig mewn achosion sy'n cynnwys honiadau am droseddau rhywiol, lle y gallai fod yn fater o gymryd gair y naill berson neu'r llall a lle y gallai'r gorchwyl o chwilio drwy lawrlwythiadau ffôn, cyfryngau cymdeithasol neu wybodaeth gefndir arall am dystiolaeth sy'n ategu'r cyhuddiad (neu beidio) fod yn un hynod anodd. Os cafwyd, er enghraifft, fod tystiolaeth gan y diffynnydd sy'n dangos ei fod yn ddieuog, byddai rhoi gwybod am hynny'n gynnar yn gallu arbed adnoddau ac arwain at ddatrasiad cynharach i'r diffynnydd a'r achwynydd.¹⁴⁷
- 9.3 Cafwyd cyhoeddiad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2021, yn dilyn ymgynghoriad, ei bod yn bwriadu cyflwyno uned waith newydd ar gyfer cyngor a chynhorthwy cymorth cyfreithiol mewn cysylltiad ag ymgysylltu cyn cyhuddo. Byddai hyn wedi'i seilio ar "hunan-grant" o gymorth cyfreithiol gan y cyfreithiwr, ac wedi'i gyfrifo ar y cyfraddau yr awr sy'n gymwys i'r ffi dianc o dan gynllun gorsaf yr heddlu hyd at derfyn o £273.75¹⁴⁸ (h.y. tua 6 awr o waith, sydd i'w ddal dan sylw).
- 9.4 Ym Mehefin 2021, roedd Cymdeithas y Cyfreithwyr, er yn gefnogol i'r cynnig at ei gilydd, wedi mynegi'r farn bod effeithiolrwydd ymgysylltu cyn cyhuddo yn dibynnu ar waith paratoi gan y cyfreithiwr, na fyddai cydnabyddiaeth ariannol ar ei gyfer o dan gynnig y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Heb waith paratoi, ni all y

¹⁴⁶ Er bod darpariaeth o dan Atodlen 4, paragraff 3(1) i'r Rheoliadau ar gyfer cyngor a chynhorthwy ar wahân hyd at derfyn o £273.75, mae'n ymddangos mai prin yw'r defnydd ohoni.

¹⁴⁷ Gweler yn gyffredinol [Atodiad B i Ganllawiau'r Twrnai Cyffredinol ar Ddatgelu](#), sydd mewn grym o 31 Rhagfyr 2020, sy'n amlinellu fframwaith datgelu ar gyfer ymgysylltu cynnar.

<https://www.gov.uk/government/publications/attorney-generals-guidelines-on-disclosure-2020>

¹⁴⁸ h.y. yr un terfyn uchaf â hwnnw ar gyfer cyngor a chynhorthwy ar wahân o dan Atodlen 4, paragraff 3(1) y cyfeirir ato uchod.

cyfreithiwr benderfynu a yw ymgysylltu cynnar er y budd pennaf i'r cleient neu beidio.

- 9.5 Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr wedi gwneud pwynt pwysig yn y cyswllt hwn yn fy marn i. Er mwyn i'r drafodaeth cyn cyhuddo fod yn un ystyrlon, mae angen i'r amddiffyniad wybod beth yw achos yr erlyniad, astudio'r dystiolaeth a chymryd cyfarwyddiadau cyn penderfynu a yw er y budd pennaf i'r cleient gymryd rhan. Os bydd y cleient yn gwrthod cymryd rhan am ba reswm bynnag, dyna ddiwedd y mater: ond rhaid i'r gwaith gael ei wneud ar y ddwy ochr cyn gallu penderfynu a yw ymgysylltu cynnar yn ddefnyddiol neu'n briodol.
- 9.6 Mae'n ymddangos i mi mai trefn briodol y camau i'w cymryd yw, yn gyntaf, fod yr heddlu yn darparu sylfaen dystiolaeth ddigonol i'r amddiffyniad fel y bydd yn deall yr achos y bwriedir ei gyflwyno. Wedyn bydd yr amddiffyniad yn cael cyllid ar gyfer archwilio'r dystiolaeth honno, cymryd cyfarwyddiadau gan y cleient, a phenderfynu a yw ymgysylltu'n briodol neu beidio. Ar y pwynt hwn, byddai perffaith hawl o hyd gan yr amddiffyniad i wrthod mynd yn bellach. Yn niffyg rheolau sylfaenol o'r math hwn, byddai'n rhy hawdd i ymgysylltu cynnar gael ei weld yn "ffordd i gyllido'r amddiffyniad i helpu'r heddlu".
- 9.7 Ar yr amod hwnnw, rwyf yn cefnogi cynnig y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ymgysylltu cyn cyhuddo. Rwyf yn gobeithio na fydd ymgysylltu o'r fath yn gyfyngedig i achosion lle mae llawer iawn o dystiolaeth ddigidol. Mae'n ymddangos i mi fod ymgysylltu cynnar yn debygol o fod yn fanteisiol mewn nifer mawr o achosion lle nad yw penderfyniad ar gyhuddo wedi'i wneud eto, a hynny o sawl safbwynt. Dylai'r ffioedd sydd wedi'u cynnig fod yn rhai sy'n gyson â'r cynnydd cyffredinol mewn ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol sydd wedi'i argymhell uchod.
- 9.8 Rwyf o'r farn y byddai'n well trin y gwaith hwn fel estyniad i gynllun gorsaf yr heddlu, yn hytrach na phennu ffi sefydlog gyda'r posibilrwydd o wneud cais am ychwanegiad, gyda ffioedd safonol is ac uwch y gellir eu harchwilio wedyn os bydd angen. Rwyf yn argymhell hyn.

Ymgysylltu Ar Ôl Cyhuddo

- 9.9 Yn ei Adroddiad yn 2015 y cyfeiriwyd ato eisoes, roedd Syr Brian Leveson wedi argymhell y canlynol, ymysg pethau eraill:

*"Case ownership – for each case, in the police, the CPS and the defence, **there must be one person who is (and who is identified to be) responsible** for the conduct of the case... (pwyslais wedi'i ychwanegu)*

*Duty of direct engagement– the identified representatives should engage **at the earliest opportunity and in advance of the first hearing**; what matters is early direct engagement, whether by telephone, email or otherwise."*¹⁴⁹(pwyslais wedi'i ychwanegu)

¹⁴⁹ Gweler hefyd y Rheolau Trefniadaeth Droseddol

- 9.10 Byddwn yn llwyr gefnogi'r argymhellion hyn, ond am un rheswm neu'i gilydd, yn cynnwys diffyg cyllid, mae'n ymddangos nad yw gweledigaeth Syr Brian wedi'i gwireddu'n llawn mewn ymarfer eto.
- 9.11 Yn gyntaf, er mwyn i'r amddiffyniad "ymgysylltu" â'r erlyniad, neu fel arall, rhaid cael person cyfrifol i ymgysylltu ag ef, a sail briodol ar gyfer gwneud hynny. Os yw ymgysylltu cynnar i ddigwydd, yna rhaid cael swyddog heddlu a/neu gyfreithiwr CPS cyfrifol sydd â'i fanylion cyswllt wedi'u darparu ac sydd wedi'i awdurdodi i drafod yr achos, ac fel arall ar ochr yr amddiffyniad. Fodd bynnag, yn ôl y dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad, mae'n ymddangos ei bod yn eithaf anodd sicrhau bod manylion cyswllt syml yn cael eu cyfnewid yn gynnar rhwng y partïon, boed dros y ffôn neu drwy'r e-bost, beth bynnag yw'r rheswm am hynny. Ar ochr yr heddlu, fodd bynnag, mae'r Ymrwymiad Cenedlaethol ar Hwyluso Achosion wedi rhoi pwys ar ymgysylltu cynnar â'r amddiffyniad.¹⁵⁰
- 9.12 Dywedwyd wrth yr Adolygiad ei bod yn aml yn anodd cael trafodaeth ar sail gwybodaeth â pherson cyfrifol yn y CPS tan yn hwyr iawn yn y broses, ac nad yw hyn yn bosibl bron byth cyn y gwrandawriad cyntaf yn y Llys Ynadon. Mae'n amlwg, os yw ymgysylltu cynnar i fod yn effeithiol ar ôl y cyhuddo, y dylai ddigwydd mewn da bryd cyn y gwrandawriad cyntaf yn y Llys Ynadon. Mae hynny'n golygu bod angen cyflwyno IDPC sydd wedi'i gwblhau i raddau helaeth ymhell o flaen llaw, yn unol â'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol, gyda manylion cyswllt y cyfreithiwr yn y CPS sy'n gyfrifol am yr achos ac sydd wedi'i awdurdodi i'w drafod â'r amddiffyniad.
- 9.13 Mae'n ddigon posibl na fydd y CPS yn gwybod, cyn i'r amddiffyniad ddod i gysylltiad, a yw'r diffynnydd yn cael ei gynrychioli ac, os felly, gan bwy, er y gall gwybodaeth o'r fath fod ar gael yng nghofnodion yr heddlu. Mae'r Adolygiad yn deall nad yw'r systemau cyfrifiadurol presennol yn caniatáu i'r amddiffyniad weld yr IDPC oni bai fod yr amddiffyniad wedi gofyn am fanylion gan y CPS ymlaen llaw, felly ceir sefyllfa weithiau lle mae'r CPS a'r Ynadon wedi cael yr IDPC, ond nid yr amddiffyniad.¹⁵¹ Ar ochr yr amddiffyniad, mae hefyd yn bosibl na fydd cymorth cyfreithiol wedi cyrraedd eto neu fod y cyfreithiwr wedi bod yn hwyr wrth gymryd y camau angenrheidiol. Ar y llaw arall, mae'n bosibl mai prosesau'r CPS/yr heddlu sy'n atal cyflwyno'r IDPC yn llawn nes bydd yn rhy hwyr yn y dydd i ymgysylltu'n effeithiol cyn y gwrandawriad cyntaf.
- 9.14 Nid wyf wedi dod i gasgliad ynghylch beth sy'n achosi oedi o'r fath, gan ei bod yn debygol iawn bod cyfuniad o amgylchiadau. Er hynny, beth bynnag yw'r achosion sylfaenol, y dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad yw bod nifer o achosion yn y gwrandawriad cyntaf yn y Llys Ynadon yn cael eu cymryd "ar garlam" a chynrychiolwyr yr amddiffyniad yn ceisio amgyffred ffeithiau a all fod yn eithaf cymhleth ac yn cymryd cyfarwyddiadau gan y cleient, o fewn cyfnod byr iawn, tra bydd y cleient, sydd heb weld y dystiolaeth o'r blaen ychwaith, o dan

¹⁵⁰ Yr Ymrwymiad Cenedlaethol ar Hwyluso Achosion [National Case Progression Commitment \(cps.gov.uk\)](https://www.cps.gov.uk/national-case-progression-commitment). Gweler Pennod 5 uchod

¹⁵¹ Rwyf yn deall y bydd y Llwyfan Cyffredin yn ceisio cywiro hyn.

bwysau i benderfynu ar ble yn y gwrandawriad cyntaf hwnnw er mwyn ennill y credyd mwyaf posibl. Anaml y caniateir gohirio, yn ôl yr hyn y mae'r Adolygiad yn ei ddeall.

- 9.15 O safbwynt cymorth cyfreithiol troseddol, defnydd aneffeithiol o gyllid cyhoeddus yw gwario arian y trethdalwr ar ymdopi ag anawsterau o'r math hwn ac mae'n sicr bod hawl gan y diffynnydd, boed euog neu ddieuog, i gael ei drin yn well gan y system. Yn fy marn i, byddai'n well gwario arian y trethdalwr ar ymgysylltu cynnar synhwyrol, cyn y gwrandawriad cyntaf, lle y gellir lleddfu'r pwysau hyn, yn benodol drwy hwyluso ffordd well, fwy ystyriol, o ddelio â'r gwrandawriad cyntaf yn y Llys Ynadon.¹⁵²
- 9.16 Hoffwn weld ymdrech o'r newydd gan yr heddlu, y CPS a'r amddiffyniad, i ymchwilio i ffyrdd o ddatgelu achos yr erlyniad yn llawn i'r amddiffyniad mewn modd amserol fel y gellir cyfnewid barn yn synhwyrol cyn dyddiad y gwrandawriad cyntaf. Yn fwyaf tebyg, cydgysylltu ar lefel leol mewn gwahanol ardaloedd fydd yn fwyaf effeithiol.
- 9.17 Yn fy marn i, er mwyn hwyluso cynnydd pellach, dylid darparu cyllid priodol i'r amddiffyniad i ymgysylltu'n effeithiol ar ôl y cyhuddo cyn y gwrandawriad cyntaf yn y Llys Ynadon. Felly, rwyf yn argymhell y dylid darparu cyllid ychwanegol drwy gymorth cyfreithiol troseddol i hyrwyddo ymgysylltu ar ôl y cyhuddo yn ogystal ag ymgysylltu cyn cyhuddo.
- 9.18 Yn achos ymgysylltu ar ôl cyhuddo, byddwn yn disgwyl i'r cyllid fod yn ddigon i ddarparu cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer trafodaeth sylweddol rhwng yr amddiffyniad a'r erlyniad cyn y gwrandawriad cyntaf yn y Llys Ynadon, yn cynnwys tâl am y gwaith paratoi sydd ei angen ar gyfer trafodaeth o'r fath, er enghraifft, unrhyw geisiadau rhesymol yn ymwneud â datgelu. Pe byddai hynny'n cael ei weithredu'n llawn, byddwn yn disgwyl gweld arbedion sylweddol ar amser a chostau yn ddiweddarach yn yr achos, yn yr un modd ag ymgysylltu cyn cyhuddo. Unwaith eto, byddwn yn rhag-weld bod modd talu am ymgysylltu o'r fath yn ôl egwyddorion cynllun y Llys Ynadon, ar yr un cyfraddau. Ni ellid dweud wedyn nad oedd ymgysylltu ar ôl y cyhuddo yn bosibl oherwydd diffyg cyllid i'r amddiffyniad.
- 9.19 Os derbynnir fy argymhellion ar ymgysylltu o'r fath, yna byddai'n bwysig bod yr heddlu a'r CPS yn ymateb, fel y byddent yn sicr o wneud. Er enghraifft, os yw'r diffynnydd wedi bod yn destun RUI, ac wedyn yn cael gofyniad drwy'r post (gwŷs), efallai y gellid cyflwyno'r dystiolaeth y dibynnir arni ar y cyd â'r gofyniad drwy'r post, gan roi manylion cyswllt y swyddog/cyfreithiwr CPS perthnasol hefyd.

Diffynyddion ifanc

¹⁵² Mae'r Ymrwymiad Cenedlaethol ar Hwyluso Achosion a grybwyllwyd uchod yn ategu'r safbwynt hwn

9.20 Rwyf yn gweld y mater o ymgysylltu cynnar yn bwysig iawn mewn perthynas â diffynyddion yn y Llys Ieuencid, a drafodir ym Mhennod 11.

Rôl y gwasanaeth prawf

9.21 Yn olaf, mae lle i'r gwasanaeth prawf chwarae rhan bwysig wrth baratoi Adroddiad Cyn Dedfrydu (PSR) cyn y gwrandawriad cyntaf yn y Llys Ynadon. Os byddai ymgysylltu cynnar yn arwain at ble yn y gwrandawriad cyntaf, byddai angen amser ar y gwasanaeth prawf i baratoi'r PSR. Dylid darparu hefyd yn yr amserlen ymgysylltu cynnar ar gyfer yr angen i'r amddiffyniad hysbysu a/neu gydgyssylltu â'r gwasanaeth prawf er mwyn iddo gael amser i baratoi'r PSR. Rwyf yn rhag-weld y byddai'r cydgysylltu â'r gwasanaeth prawf (ac yn wir â gwasanaethau cymdeithasol neu asiantaethau perthnasol eraill) cyn y gwrandawriad cyntaf (neu'r dedfrydu, os yw'n hwyrach) hefyd yn cael ei gyllido drwy gymorth cyfreithiol troseddol i raddau priodol.

PENNOD DEG: Y LLYS YNADON

Sylwadau Cyffredinol

- 10.1 Rwyf eisoes wedi nodi mai cynllun y Llys Ynadon, a ddisgrifir yn Atodiad M, yw'r model gorau sydd ar gael ar gyfer diwygio cynllun gorsaf yr heddlu a drafodwyd ym Mhennod 8. Byddaf yn gwneud yr un argymhelliad mewn perthynas â'r LGFS yn Llys y Goron a drafodir isod ym Mhennod 12. Felly nid wyf yn credu bod angen argymell newidiadau yn strwythur y cynllun sydd ar waith ar hyn o bryd yn y Llys Ynadon.
- 10.2 Fodd bynnag, mae'n dilyn o'm hargymhellion ym Mhenodau 6 a 7 uchod y dylid cael cynnydd sylweddol yn y cyfraddau ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol yn y Llys Ynadon. Dylai hynny yn ei dro roi'r gallu i wella ansawdd, a chael gwell canlyniadau, yn y Llys Ynadon.
- 10.3 Er hynny, fel y nodwyd eisoes ym Mhennod 9, mynegwyd pryder yn llawer o'r dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad am weithrediadau'r Llys Ynadon o ddydd i ddydd.
- 10.4 Er enghraifft, dywedodd yr LCCSA "too often defence lawyers are left waiting around at court for most of the day", roedd methiannau ar ran yr heddlu wrth gyflenwi tystiolaeth i'r CPS, ac ar ran y CPS wrth ddarparu tystiolaeth i'r amddiffyniad, sydd yn aml yn cael "50-page IDPC bundles the same day. The evidence cannot be fully absorbed or analysed and time with the defendant is short and rushed". Mae'r LCCSA yn dadlau, hyd yn oed yng nghyswllt achosion NGAP "too often the most important evidence is left out of the bundle". Roedd materion eraill a godwyd yn ymwneud ag anawsterau â rhestru, trefnu i gael cyfieithwyr, a chael ymateb i negeseuon e-bost a galwadau ffôn.
- 10.5 Rwyf yn tynnu sylw at dystiolaeth o'r fath – sy'n gyson â nifer o sylwadau eraill a gafodd yr Adolygiad – nid er mwyn beirniadu ond unwaith eto i annog yr amddiffyniad, y CPS a'r heddlu i ailgychwyn cyfathrebu amserol â'i gilydd, fel y gwneir cymaint â phosibl cyn y gwrandawriad cyntaf yn y Llys Ynadon, fel yr awgrymwyd ym Mhennod 9.
- 10.6 Er mwyn helpu staff Llys sydd dan bwysau mawr wrth geisio delio â thasgau amhosibl wrth restru, rwyf eto'n gobeithio y gall GLITEM chwarae ei ran, gyda rhagor o recriwtio a hyfforddi, fel y bydd yr holl gyfranogwyr yn y SCT, yn cynnwys yr amddiffyniad, yn gallu cyfathrebu'n well, yn enwedig ar lefel leol, wrth ddelio â'r materion hyn.
- 10.7 Pa faint bynnag yw'r pwysau, yn fy marn i mae hawl gan y diffynnydd i gael ei drin yn deg gan y SCT. O ran y cwestiwn penodol ynghylch pa ddisgownt y mae gan y diffynnydd hawl i'w gael wrth ei ddedfrydu, ac a fyddai wedi bod yn rhesymol disgwyl iddo bledio'n euog, neu nodi bwriad i wneud hynny, yn y Llys Ynadon, ac os felly i ba drosedd, byddwn yn gobeithio'n barchus y byddai'r Llys dedfrydu yn rhoi pob ystyriaeth i'r amodau caotig a geir yn aml a ddisgrifiwyd gan ymatebwyr i'r Adolygiad. Yn fy marn i, byddai'n destun gofid mawr pe

byddai'r tanariannu yn y SCT a'r anawsterau eraill sydd ganddi yn arwain yn anfwriadol neu'n anuniongyrchol at wanhau llinyn aur y gyfraith gyffredin, sef mai lle'r erlyniad yw profi ei achos.¹⁵³ Yn fy marn i o leiaf, mae hawl gan y diffynnydd i wybod y dystiolaeth y dibynnir arni a chael amser i ystyried cyn y gellir disgwyl yn rhesymol iddo benderfynu ar ble.

Bargyfreithwyr Iau yn y Llys Ynadon

- 10.8 Un testun pryder penodol i adran Bargyfreithwyr Ifanc y CBA, a elwir yn Bwyllgor y Bargyfreithwyr Ifanc (YBC) yw gwaith yn y Llys Ynadon. Yn Llundain, mae protocol a gytunwyd rhwng Cyngor y Bar, Cymdeithas y Cyfreithwyr a'r LCCSA¹⁵⁴ yn awgrymu ffi o £50 am ymddangosiadau cyntaf, yn cynnwys ceisiadau am fechnïaeth a dedfrydu; £75 am dreialon hanner diwrnod lle mae'r amser y gellir bilio amdano¹⁵⁵ yn llai na 3 awr; £100 am wrandawiadau heblaw treialon sy'n para mwy na thair awr; a £150 am dreialon diwrnod llawn sy'n para mwy na thair awr.
- 10.9 Yn ôl y YBC, nid yw'r ffioedd hyn yn adlewyrchu'r gwaith sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd ac fe'u telir yn hwyr yn aml a gallant fod yn ddyledus am nifer o flynyddoedd wedyn. Mae'r ymddangosiad cyntaf yn y Llys Ynadon yn golygu bod dan bwysau mawr o ganlyniad i effaith y canllawiau ar ddedfrydu, ond ar y funud olaf y ceir y cyfarwyddiadau gan amlaf. Treulir llawer o amser yn aros a disgwyl, gellir gweld wrth gwrdd â'r diffynnydd am y tro cyntaf yn y llys ei fod yn blentyn neu'n dyst agored i niwed, a rhaid llunio nodyn manwl wedyn. O'r ffioedd isel hyn, rhaid talu costau teithio a chostau siambrau, yn ogystal â chostau byw arferol.
- 10.10 Mae'r ffioedd hyn yn gymwys hefyd mewn achosion yn y Llys Ieuencid, er bod cymaint yn y fantol, a'r gwaith yn ymestynol ac yn galw am sgiliau mawr. Prif awgrymiadau'r YBC yw y dylid cynyddu ffioedd y Llys Ynadon, yn cynnwys y Llys Ieuencid, ac y dylid gallu bilio am y rhain i'r LAA yn uniongyrchol yn hytrach nag i'r cyfreithwyr.
- 10.11 Yn fy marn i, mae'r YBC yn gywir wrth ddweud bod y cyfraddau a awgrymir yn y Protocol uchod am waith yn y Llys Ynadon yn afresymol o isel am y gwaith sy'n gysylltiedig. Rwyf yn rhag-weld y bydd lle gan gyfreithwyr, o gael y cynnydd rwyf yn ei argymhell yn y cyfraddau a delir o dan gynllun y Llys Ynadon, i wella'n sylweddol ar y ffioedd y maent yn eu talu i fargyfreithwyr iau sy'n ymddangos yn y Llysoedd Ynadon. Yn ogystal â hyn, mae'r argymhellion rwyf yn eu gwneud ym Mhennod 11 isod wedi'u bwriadu i gynyddu ffioedd y Llys Ieuencid.
- 10.12 Yn yr un modd, bwriad y cynigion rwyf yn eu gwneud o ran ymgysylltu cynnar a drafodir uchod ym Mhennod 9, yw lleddfu'r pwysau munud olaf sy'n ymddangos

¹⁵³ [Woolmington v DPP | \[1935\] UKHL 1 | United Kingdom House of Lords | Judgment | Law | CaseMine](#)

¹⁵⁴ [2019-Magistrates-Court-Protocol-final.pdf \(barcouncilethics.co.uk\)](#)

¹⁵⁵ Yr amser y gellir bilio amdano yw amser yn y llys, ac nid yw'n cynnwys gwaith paratoi, teithio nac aros.

yn gyffredin mewn rhai agweddau ar waith y Llys Ynadon, mewn rhai ardaloedd o leiaf, lle mae hynny'n bosibl.

- 10.13 O ran y mater o dalu'n hwyr am waith neu ddim o gwbl, mae talu bargyfreithwyr iau a gyfarwyddwyd gan gyfreithwyr yn y Llys Ynadon yn gyfrifoldeb i'r cyfreithiwr cysylltiedig. Nid yw'n ymddangos bod cyfiawnhad dros dalu hwyr gan y cyfreithiwr i'r bargyfreithiwr, a llai byth dros beidio â thalu, yn groes i'r Contract Trosedd Safonol, yn enwedig Cymal 10.50.¹⁵⁶ Byddai hynny'n ymddangos yn arbennig o wir os derbynnir fy argymhellion ar gyfer cynyddu ffioedd y Llys Ynadon.
- 10.14 Rwyf yn argymhell, yn nifyg unrhyw esgus rhesymol neu amgylchiadau eithriadol, y dylai unrhyw oedi cyn talu o fwy na 90 diwrnod, gael ei ystyried gan yr LAA yn Doriad Sylfaenol ar y Contract Trosedd Safonol, ac y dylid darparu'n benodol ar gyfer hynny yn y fersiwn nesaf ohono. Yn yr un modd, dylai fod yn ofyniad yn y Contract Trosedd Safonol fod cyfreithwyr contractio sy'n darparu gwasanaethau a ariennir gan y cyhoedd yn cytuno i gydymffurfio â Chod Talu'n Brydlon Llywodraeth EM.
- 10.15 Awgrymwyd i'r Adolygiad fod rhai siambrau bargyfreithwyr yn caniatáu i'r aelodau iau fod mewn sefyllfa lle nad yw ffioedd wedi'u talu iddynt am waith a ariennir gan y cyhoedd, tra bydd aelodau eraill o'r un siambrau mewn rhai achosion yn parhau i dderbyn cyfarwyddiadau i bob golwg gan y cyfreithwyr cysylltiedig. Os oedd hynny'n digwydd, byddai cwestiwn yn codi o ran a oedd digon o ofal bugeiliol yn cael ei amlygu gan y siambrau tuag at yr aelodau iau.¹⁵⁷
- 10.16 Yn yr holl amgylchiadau hyn, nid wyf yn teimlo y gallaf argymhell cynllun statudol ar wahân ar gyfer eiriolwyr mewn perthynas â gwaith cymorth cyfreithiol troseddol yn y Llys Ynadon. I'r graddau y mae'r broblem yn bodoli, yr achos sylfaenol yn fy marn i yw torri telerau'r SCC gan y cyfreithwyr dan sylw, ac nid yw hynny'n rheswm da yn fy marn i dros ymyrryd yn statudol. Os bydd camweithredu o'r fath yn parhau yn y system yn y dyfodol, byddwn yn disgwyl i hynny gael ei ddangos drwy archwilio gan yr LAA, ac i gamau priodol gael eu cymryd o dan yr SCC.

Apelau i Lys y Goron

- 10.17 Mae'r hawl i apelio drwy gynnal ailwrandawriad yn arwain o'r Llys Ynadon i Lys y Goron yn erbyn euogfarn neu ddedfryd neu'r ddwy. Mae'n bosibl y bydd nifer o ddiffynnyddion a oedd heb fod yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol yn y Llys Ynadon ond a all fod yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol wrth apelio fel hyn lle mae rheolau cymhwysra Llys y Goron yn gymwys. Pa un a oedd y diffynnydd wedi cael cynrychiolaeth neu beidio, gall ofyn am gyngor cyfreithiol wrth apelio, efallai gan ffyrm gwahanol, ond mae hyn yn amodol ar derfyn uchaf o £273.75

¹⁵⁶ 10.50 ym Manyleb SCC 2017: [Crime Specification \(2017\) \(publishing.service.gov.uk\)](https://www.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/614447/crime-specification-2017.pdf)

¹⁵⁷ [Part 2: Code of Conduct \(barstandardsboard.org.uk\)](https://www.barstandardsboard.org.uk/part-2-code-of-conduct/)

o dan Reoliad 8(a) yn y Rheoliadau.¹⁵⁸ Ar gyfer yr apêl ei hun, mae ffioedd sefydlog i gyfreithyddion llys o dan baragraff 19 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau o £155.32 ar gyfer apelau yn erbyn dedfryd a £349.47 ar gyfer apelau yn erbyn euogfarn.

- 10.18 Yn ôl y dystiolaeth a gafwyd gan yr LCCSA ac eraill, mae'r gwaith hwn yn aneconomaidd, yn enwedig os gofynnir i'r ffyrm cyfreithwyr gymryd cleient newydd a dechrau o'r dechrau ar y gwaith. Mae'r LCCSA yn cyfeirio at achosion lle mae diffynyddion wedi'u gwrthod gan nifer o ffyrmiau ar sail cost. Os yw hyn yn gywir, mae'n destun pryder, gan ei bod yn bosibl y bydd nifer o ddifynyddion heb gael cymorth cyfreithiol, na chynrychiolaeth hyd yn oed, yn y Llys Ynadon. Er na fyddai neb am gymell apelau annheilwng, byddai'r anallu i gymryd cyngor ar apêl yn fwlch anffodus yn y system.
- 10.19 Yn unol â'm hargymhellion cyffredinol, rwyf yn rhag-weld cynnydd yn yr holl ffioedd i gyfreithwyr mewn perthynas ag apelio. Mewn perthynas â chyngor ar apêl, mae rhywfaint o gyfle eisoes i gynyddu'r terfyn uchaf. Fodd bynnag, byddai'n well gennyf weld strwythur o ffioedd safonol is ac uwch ar gyfer cyngor ar apêl, er mwyn darparu ar gyfer gwahanol amgylchiadau. Gallai'r strwythur ffioedd uwch fod yn gymwys mewn achosion penodol lle mae cwestiwn gwirioneddol yn codi ar yr olwg gyntaf ynghylch a oedd y Llys Ynadon wedi dod i'r penderfyniad cywir.
- 10.20 O ran ffioedd sefydlog i gyfreithyddion llys mewn perthynas â chynnal apêl yn Llys y Goron, rwyf yn argymhell cysoni'r rhain â'r diwygiadau rwyf yn eu hawgrymu ym Mhennod 12 isod, fel y bydd y strwythur ffioedd is ac uwch yn gymwys yn gyffredinol, er mwyn darparu ar gyfer y gwahanol amgylchiadau a all godi mewn gwahanol achosion.

Traddodi ar gyfer dedfrydu o'r Llys Ynadon

- 10.21 Ar gyfer cyfreithyddion llys, telir am draddodi ar gyfer dedfrydu o'r Llys Ynadon i Lys y Goron ar gyfradd sefydlog o £232.98. Mae'r CLSA yn dadlau bod y ffi hon yn is na'r ffioedd sylfaenol sy'n gymwys mewn nifer o achosion yn Llys y Goron, hyd yn oed am ble euog yn Llys y Goron. Gall y sefyllfa hon arwain at wrthdaro rhwng buddiant y cyfreithiwr yn y posibilrwydd o gael y ffi uwch yn Llys y Goron a buddiant y cleient, y gellir ei hyrwyddo orau drwy bledio mor gynnar â phosibl. Yn fy marn i, dylai'r ffi am ddelio â thraddodi ar gyfer dedfrydu yn Llys y Goron fod yn weddol gyson â ffioedd eraill yn Llys y Goron, er mwyn dileu'r broblem y mae'r CLSA wedi'i nodi.
- 10.22 Yn ogystal â hyn, wrth draddodi'r cleient ar gyfer ei ddedfrydu, bydd yn wynebu risg, gan fod yr Ynadon yn ystyried bod eu pwerau'n annigonol, er ei fod wedi pledio'n euog; yn ôl pob tebyg, bydd y cleient yn wynebu dedfryd hir o garchar. Gall rhywun feddwl am amgylchiadau lle byddai'r ymarfer dedfrydu yn Llys y Goron yn un cymhleth, lle mae adroddiadau meddygol neu seiciatrig er

¹⁵⁸ Gellir cynyddu'r terfyn hwn o dan delerau'r SCC.

enghraifft, ac yn fy marn i dylai'r cynllun ffioedd ddarparu ar gyfer achosion o'r fath.

- 10.23 Felly rwyf yn argymhell system o ffioedd safonol is ac uwch mewn achosion traddodi ar gyfer dedfrydu, i ddarparu ar gyfer yr achosion mwy anodd rwyf wedi'u disgrifio.
- 10.24 Mae'r CLSA yn gwneud pwynt ychwanegol gwahanol mewn perthynas â thraddodi ar gyfer dedfrydu. Os bydd cleient nad yw'n gymwys i gael cymorth cyfreithiol yn y Llys Ynadon yn pledio'n euog ac yn cael ei draddodi ar gyfer dedfrydu, bydd yn parhau i fod o dan reolau'r Llys Ynadon ar gymhwysra, ac felly ni fydd yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol ar gyfer y gwrandawriad dedfrydu yn Llys y Goron. Fodd bynnag, os bydd yn pledio'n ddieuog yn y Llys Ynadon ac yn cael ei anfon am dreial yn Llys y Goron, bydd yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol, ar yr amod ei fod yn gwneud cyfraniad o bosibl, er y gall golli credyd am beidio â phledio ar y cyfle cyntaf. Byddai'r anghysondeb hwn yn gallu cymhell mwy o gleientiaid i bledio'n ddieuog yn y Llys Ynadon, er ei fod yn rhoi'r diffynnydd yn y sefyllfa annheg o orfod dewis rhwng peidio â chael cynrychiolaeth yn Llys y Goron ac ennill y disgownt mwyaf am bledio'n euog ar y cyfle cyntaf.
- 10.25 Mae dadl y CLSA yn un gryf yn fy marn i, yn anad dim am fod apelau i Lys y Goron o'r Llys Ynadon yn erbyn euogfarn a dedfryd yn gymwys ar gyfer cymorth cyfreithiol yn ôl meini prawf Llys y Goron. Byddwn yn gwahodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ystyried rhoi diffynnydd a draddodwyd o'i anfodd i Lys y Goron ar gyfer dedfrydu yn yr un sefyllfa â diffynnydd sy'n dilyn apêl o'i wirfodd i Lys y Goron, sef y dylai rheolau Llys y Goron ar gyfer cymhwysra i gael cymorth cyfreithiol fod yn gymwys i bob achos a wrandewir yn Llys y Goron, yn cynnwys traddodi ar gyfer dedfrydu o'r Llys Ynadon.

PENNOD UN AR DDEG: Y LLYS IEUENCTID

- 11.1 Rwyf wedi cyfeirio eisoes ym Mhennod 8 at rai ifanc dan amheuaeth sydd yn nalfa'r heddlu, y pwyntiau a wnaed gan Mr David Lammy AS,¹⁵⁹ ac at y dull o weithredu sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer "optio allan" yn hytrach nag "optio i mewn" mewn perthynas â chynngor a chynhorthwy cyfreithiol yng ngorsaf yr heddlu, sydd wedi'u cefnogi gennyf. Mae'r adran hon yn ymdrin â cham nesaf y broses, sef y Llys Ieuencid.
- 11.2 Mae'r Llys Ieuencid yn Llys Ynadon arbenigol sydd ag awdurdodaeth i roi prawf ar achosion plant rhwng 10 a 17 oed, hyd yn oed os yw'r drosedd yn dditiadwy yn unig neu'n drosedd neilllog, heblaw am droseddau difrifol iawn.¹⁶⁰ Y rhagdybiaeth gyffredinol yw y dylai plant sefyll eu prawf yn y Llys Ieuencid lle bynnag y bo modd. Y ddedfryd fwyaf sydd ar gael yn y Llys Ieuencid yw rhoi Gorchymyn Cadw a Hyfforddi am ddwy flynedd. Mae troseddau a roddir ar brawf fel arfer yn y Llys Ieuencid yn cynnwys troseddu â chyllyll, dwyn, lladrad a bwrgeriaeth, a throseddau cyffuriau llai difrifol yn ogystal â throseddau rhywiol. Nid oes prawf modd ar gymorth cyfreithiol i rai dan 18 oed, ond rhoddir cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer yr achosion o dan gynllun y Llys Ynadon.
- 11.3 Rwyf yn tynnu sylw eto at rai o'r anawsterau sy'n dylanwadu ar weithrediad effeithiol y Llys Ieuencid, yn cynnwys oedi hir rhwng y drosedd a dod i'r llys, oedi ar ddiwrnod y gwrandawriad, cyflwyno dogfennau'n hwyr a phroblemau eraill a godwyd gan ymatebwyr i'r Adolygiad, y cyfeiriwyd atynt ym Mhenodau 9 a 10. Rwyf yn gobeithio y rhoddir sylw difrifol i'r materion hyn. Mae'r Bennod hon yn ymwneud â'r cwestiwn o gydnabyddiaeth ariannol am waith y Llys Ieuencid.
- 11.4 Roedd nifer mawr o ymatebwyr, yn cynnwys Cymdeithas y Cyfreithwyr, LCCSA, Cyngor y Bar, CBA, YBC, YLAL, Cymdeithas Ymarferwyr Ieuencid (YPA) a Transform Justice, yn ogystal ag academyddion ac unigolion eraill a ymatebodd, wedi dadlau bod gwaith y Llys Ieuencid yn neilltuo o anodd a phwysig, ond ei fod yn cael ei danbrizio'n ddifrifol a heb fod yn gynaliadwy ar lefelau'r ffioedd presennol. Mae'r gwaith hwn yn galw am wybodaeth arbenigol helaeth ar gyfer delio â phlant sy'n agored iawn i niwed, sydd yn aml ag anawsterau dysgu ac anhwylderau ymddygiad, a all fod yn ddioddefwyr eu hunain o ganlyniad i amddifadedd cymdeithasol neu deuluol neu hyd oed

¹⁵⁹ [Lammy review: final report - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/612222/Lammy_review_final_report.pdf)

¹⁶⁰ Adran 24(1) o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980, fel y'i diwygiwyd gan adran 91 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000, yn eithrio treial yn y Llys Ieuencid am rai troseddau penodedig fel llofruddiaeth a throseddau difrifol eraill. Yn ymarferol, mae llawer yn gallu dibynnu ar benderfynu a yw pwerau dedfrydu'r Llys Ieuencid o hyd at ddwy flynedd o gadw a hyfforddi yn debygol o fod yn ddigon: *R on the application of H, A, and O v Southampton Crown Court* [2004] EWHC 2912. *R (on the application of the DPP) v South Tyneside Youth Court* [2015] EWHC 1455 (Admin). Yn ogystal â hyn, mae'r pŵer sydd ar gael i draddodi ar gyfer dedfrydu ar ôl rhoi euogfarn (a. 3B o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 (fel y'i diwygiwyd gan adran 53 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015) yn galluogi Llysoedd Ieuencid i roi prawf ar achosion difrifol a thraddodi'r achos i Lys y Goron ar gyfer dedfrydu lle y gwelir wedyn fod y troseddu'n fwy difrifol nag a dybiwyd. Rwyf yn deall bod hyn wedi arwain at gadw mwy o achosion yn y Llys Ieuencid.

caethwasiaeth fodern. Mae meithrin ymddiriedaeth a chyd-ddealltwriaeth yn cymryd amser ac yn cynnig heriau. Er hynny, mae'r ffioedd ar lefelau sy'n golygu y gall achosion ieuenctid gael eu cymryd gan gyfreithwyr iau neu ddibrofiad, a fydd weithiau'n cael y papurau dim ond ychydig ymlaen llaw ac yn cael dim ond ychydig bach o gyfle i gwrdd â'r cleient, ceisio egluro beth sy'n digwydd ac ennyn ymddiriedaeth a dealltwriaeth y cleient.¹⁶¹ Dadleuir hefyd y dylid cael hyfforddiant arbenigol ar gyfer gwaith y Llys Ieuenctid a system achredu, o ystyried y dystiolaeth am ansawdd amrywiol yr eiriolaeth yn y Llys Ieuenctid.¹⁶²

- 11.5 Rwyf yn tynnu sylw hefyd at adroddiad diweddar gan y Sefydliad Ymchwil Polisi Troseddau a Chyfiawnder (ICPR) o'r enw "*Time to get it right: Enhancing problem-solving practice in the Youth Court*"¹⁶³ sydd ymysg pethau eraill yn argymhell bod y BSB a'r SRA yn pennu safonau achredu ar gyfer eiriolaeth ieuenctid, ac y dylid rhoi cydnabyddiaeth ariannol fwy o dan gymorth cyfreithiol i'r rheini sydd wedi cael eu hachredu. Mae adroddiad yr ICPR yn disgrifio'r nifer mawr o astudiaethau ac adroddiadau sydd wedi ystyried cyfiawnder ieuenctid dros y blynyddoedd, pwysigrwydd y dull "datrys problemau" yn y Llys Ieuenctid a chyfraniad y Timau Troseddau Ieuenctid (TTIau).
- 11.6 O safbwynt cymorth cyfreithiol troseddol, mae'n bwysig iawn yn fy marn i fod y Llys Ieuenctid yn cael blaenoriaeth wrth ddefnyddio adnoddau. Cafwyd ymdrech fawr i ddargyfeirio plant oddi wrth y system cyfiawnder troseddol; mae nifer achosion y Llysoedd Ieuenctid wedi gostwng tua 75% yn y 10 mlynedd diwethaf. Yr achosion sy'n weddill, felly, yw'r rhai mwyaf difrifol, ac mae'n ddigon posibl mai'r Llys Ieuenctid fydd y cyfle olaf i gadw cyfleoedd bywyd y plentyn. Mae'r gwaith yn arbenigol, yn galw'n fwy na dim am ennill ymddiriedaeth plant a chyfathrebu â nhw mewn lleoliad mor anodd. Mae'r CPS eisoes yn rhoi sylw neilltuol i erlyniadau yn y Llys Ieuenctid: rhaid iddynt gael eu hawdurdodi gan Arbenigwr Troseddau Ieuenctid sy'n Uwch Erlynydd y Goron ac wedi dilyn y Cwrs Hyfforddi Troseddwyd Ifanc.¹⁶⁴
- 11.7 Yn fy marn i, dylid cynyddu'r ffioedd sy'n daladwy am gymorth cyfreithiol troseddol yn y Llys Ieuenctid i adlewyrchu pwysigrwydd y gwaith hwn a difrifoldeb sefyllfa'r diffynnydd ifanc. Byddai'r rhan fwyaf o'r troseddau a brofir yn y Llys Ieuenctid yn cael eu profi yn Llys y Goron, oni bai am oed y diffynnydd, un ai fel trosedd dditiadwy yn unig neu fel trosedd neilllog lle byddai oedolyn wedi gallu dewis treial yn Llys y Goron. Ar fater cydnabyddiaeth ariannol, un dull posibl o weithredu fyddai sicrhau nad yw ffioedd y Llys

¹⁶¹ Rwyf eisoes wedi cyfeirio ym Mhennod 10 uchod at anawsterau penodol y sefyllfaoedd munud olaf yn y Llys Ieuenctid.

¹⁶² E.e. Bwrdd Safonau'r Bar *Youth Proceedings Advocacy Review* (2015) [yparfinalreportfinal.pdf](https://www.barstandardsboard.org.uk/wp-content/uploads/2015/06/yprfinalreportfinal.pdf) ([barstandardsboard.org.uk](https://www.barstandardsboard.org.uk))

¹⁶³ Sefydliad Ymchwil Polisi Troseddau a Chyfiawnder [time to get it right final.pdf](https://www.time-to-get-it-right.org.uk/time-to-get-it-right-final.pdf) ([justiceinnovation.org](https://www.justiceinnovation.org)) a gyhoeddwyd yn 2020 o dan nawdd Sefydliad Nuffield.

¹⁶⁴ Gweler yn gyffredinol [Youth Offenders | The Crown Prosecution Service \(cps.gov.uk\)](https://www.youth-offenders.org.uk)

leuenctid yn llai na'r ffioedd cyfatebol a fuasai'n daladwy yn Llys y Goron.¹⁶⁵ Ail ddull o weithredu fyddai dal at y sefyllfa bresennol lle mae gwaith y Llys leuenctid yn aros yn daladwy o dan gynllun y Llys Ynadon, ond caniatáu ffi fwy am waith y Llys leuenctid, gan gofio hefyd am y cynnydd cyffredinol yn ffioedd y Llys Ynadon sydd wedi'i argymhell gennyf. Byddai angen rhoi ystyriaeth bellach cyn penderfynu pa un o'r dulliau hyn fyddai orau i gyflawni'r nod o gynyddu ffioedd y Llys leuenctid, er mwyn osgoi anghysonderau yn anad dim. Fodd bynnag, mae'n ymddangos i mi y byddai cysoni gwaith y Llys leuenctid â'r ffioedd perthnasol yn Llys y Goron yn rhoi arwydd o'r newid mewn diwylliant sydd ei angen yn fy marn i, o ystyried cymhlethdod a difrifoldeb gwaith y Llys leuenctid. Byddai dull gweithredu o'r fath hefyd yn osgoi cymhlethu cynllun y Llys Ynadon.

- 11.8 Pa un bynnag, rwyf yn argymhell y dylai achosion yn y Llys leuenctid y byddid yn rhoi prawf arnynt yn Llys y Goron fel arall (h.y. yr holl droseddau heblaw rhai diannod), heblaw mewn amgylchiadau eithriadol, fod yn gymwys am dystysgrif ar gyfer cynghori, ac y dylid diwygio paragraff 16 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Penderfyniadau gan Lys a Dewis Cynrychiolydd) 2013¹⁶⁶ yn unol â hynny os oes angen.
- 11.9 Fodd bynnag, yn fy marn i, nid yw cynyddu'r gydnabyddiaeth ariannol yn y Llys leuenctid yn ddigon ar ei ben ei hun, a gallai fod yn wrthgynhyrchol mewn gwirionedd, heb sicrhau bod y ffioedd hynny'n daladwy i'r rheini a gafodd yr hyfforddiant a'r profiad angenrheidiol i ymgymryd â'r gwaith hwn. Fel rwyf yn deall, mae'r BSB wedi cyhoeddi safonau ar Gymwyseddau Achosion leuenctid¹⁶⁷ ac mae'n ofynnol bod bargyfreithwyr sy'n gwneud gwaith y Llys leuenctid yn hunanddatgan eu bod yn cwrdd â'r cymwyseddau hynny.¹⁶⁸ Penderfynodd yr SRA yn 2020 na fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr y Llys leuenctid gael hawliau i ymddangos mewn llysoedd uwch, ond mae'n bwriadu cydweithio â chyfreithwyr i gael sicrwydd a dealltwriaeth o'r ffordd y maent yn cadw eu cymhwysedd.¹⁶⁹ Er hynny, mae adroddiad yr ICPR yn awgrymu nad yw'r eiriolaeth yn y Llys leuenctid wedi cyrraedd safon gyson uwch eto. Er y bydd cyfreithwyr sydd wedi cael profiad rheolaidd o'r gwaith hwn yn rhai cymwys gan mwyaf, mewn agweddau eraill mae ymchwil yr ICPR yn awgrymu y gall ansawdd yr eiriolaeth fod yn anghyson.
- 11.10 Felly rwyf yn argymhell bod y BSB a'r SRA yn cydweithio â Chyngor y Bar a Chymdeithas y Cyfreithwyr, a'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid fel y bo'n briodol, i ddatblygu cynllun hyfforddi ac achredu ar gyfer gwaith y Llys leuenctid.¹⁷⁰ Rwyf yn deall bod y CPS eisoes yn darparu hyfforddiant yng ngwaith y Llys

¹⁶⁵ Mewn egwyddor, hon fyddai ffi'r LGFS/AGFS, er nad yw cyfreithwyr sy'n gwneud gwaith y Llys leuenctid yn cael hawliau i ymddangos mewn llysoedd uwch.

¹⁶⁶ 2013 rhif 614

¹⁶⁷ [bsbyouthcompetencies2017forwebsite.pdf \(barstandardsboard.org.uk\)](https://www.barstandardsboard.org.uk/bsbyouthcompetencies2017forwebsite.pdf)

¹⁶⁸ [Registration of Youth Court work \(barstandardsboard.org.uk\)](https://www.barstandardsboard.org.uk/Registration-of-Youth-Court-work)

¹⁶⁹ [SRA | Ensuring high standards in solicitor advocacy | Solicitors Regulation Authority](https://www.sra.org.uk/ensuring-high-standards-in-solicitor-advocacy)

¹⁷⁰ Rwyf yn deall bod Coleg Eiriolaeth Ysbytyau'r Brawdlys yn datblygu rhaglen hyfforddi a bod hyfforddiant ar gael eisoes gan y Ganolfan Gyfreithiol Cyfiawnder leuenctid.

leuenctid. Cynllun arall y gellid ei gymharu â hyn yw Achrediad Cyfraith Plant Cymdeithas y Cyfreithwyr mewn achosion sifil.¹⁷¹ Unwaith y bydd cynllun achredu ar waith ar gyfer gwaith y Llys leuenctid, dylai'r cyfraddau uwch rwyf yn eu hawgrymu ar gyfer gwaith y Llys leuenctid fod ar gael dim ond i'r rheini sydd wedi ennill yr achrediad angenrheidiol. Gellid rhagdybio y bydd mecanwaith ar gyfer pasbortio ymarferwyr profiadol presennol, ond byddai hynny'n fater i'r BSB a'r SRA. Gellid hwyluso'r dull hwn o weithredu hefyd drwy gynorthwyo sefydliadau nid er elw a'u tebyg sy'n bwriadu arbenigo mewn gwaith gyda diffynyddion ifanc, fel a drafodir ym Mhennod 15.¹⁷²

11.11 Byddwn yn gobeithio y byddai hyfforddi ac achredu o'r fath yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r heriau penodol a wynebir gan ddiffynyddion lleiafrifol ethnig ifanc sydd wedi'u nodi yn Adroddiad Lammy,¹⁷³ ac y byddai ennill achrediad yn fodd hefyd i gynyddu'r cyflenwad o gyfreithwyr lleiafrifol ethnig sy'n gweithio yn y Llys leuenctid.

11.12 Fodd bynnag, byddai'r nod o ganolbwyntio ar waith y Llys leuenctid a chodi safonau yn gallu cael ei danseilio o hyd gan agweddau eraill y tu allan i gwmpas cymorth cyfreithiol. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno dogfennau'r erlyniad yn hwyr, dychwelyd briffiau'n hwyr, paratoi annigonol gan yr amddiffyniad, a threfniadaeth a rhestru yn y llys, a alwyd gan un sylwebydd ar y Llys leuenctid a ddyfynnwyd yn adroddiad yr ICPR yn "structural mayhem". Rwyf yn mynegi'r gobaith y bydd yr holl gyfranogwyr, wrth gydweithio hefyd â'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid, yn gallu cydgysylltu i roi'r flaenoriaeth briodol i'r Llys leuenctid.

¹⁷¹ Rwyf yn deall bod hyn yn codi o dan wahanol drefniadau achredu ar yr ochr sifil, ac mai'r mecanwaith yw'r Contract Sifil Safonol rhwng yr LAA a ffyrm y darparwr. Byddai angen ystyried ymhellach beth fyddai'r mecanwaith ar gyfer y Llys leuenctid.

¹⁷² Sylwer fy mod hefyd yn argymhell hyfforddiant penodol ar gyfer delio â rhai ifanc dan amheuaeth mewn perthynas â chynllun gorsaf yr heddlu, fel a drafodwyd ym Mhennod 8 uchod. Gellid cyfuno hyn â hyfforddiant y Llys leuenctid.

¹⁷³ Gweler Pennod 4 uchod

PENNOD DEUDDEG: YR LGFS A MATERION CYSYLLTIEDIG

Strwythur yr LGFS

- 12.1 Pwrpas yr LGFS yw talu am baratoi achosion gan gyfreithwyr yn Llys y Goron. Yr LGFS yw'r eitem fwyaf un o wariant ar gymorth cyfreithiol troseddol, sef oddeutu £358 miliwn yn 2019/20.
- 12.2 Mae mecanwaith yr LGFS wedi'i egluro'n fanwl yn Atodiad M a dim ond crynodeb byr rwyf yn ei roi yma. Mae'r cyfrifiadau'n gymhleth dros ben, ond y pwynt pwysicaf yw mai'r prif ffactor sy'n pennu ffi'r cyfreithyddion llys yw'r PPE, pa faint bynnag o waith a wnaed ar yr achos mewn gwirionedd.
- 12.3 Gan gymryd treialon yn gyntaf, mae'r LGFS yn diffinio ffi sylfaenol yn gyntaf am nifer o wahanol droseddau penodedig mewn un ar ddeg o Ddosbarthiadau. Felly, er enghraifft, y ffi sylfaenol am dreial mewn achos llofruddiaeth (Dosbarth A) yw £1467.58. Mewn achosion anonestrwydd sy'n ymwneud â mwy na £100,000 (Dosbarth K), y ffi sylfaenol yw £1031.82, ond am fwrghleriaeth (Dosbarth E), er enghraifft, y ffi sylfaenol yw £352.72.
- 12.4 Os yw nifer y PPE yn fach, yn is na'r hyn a elwir yn dorbwynt PPE, caiff ffi sylfaenol y cyfreithyddion llys ei haddasu yn ôl procsi hyd y treial, a fydd yn gymwys lle bydd y treial yn para'n hirach na dau ddiwrnod. Felly, mewn treial dau ddiwrnod o hyd mewn achos Dosbarth A lle mae nifer y PPE yn is na'r torbwynt perthnasol ar gyfer PPE (80 tudalen), ni wneir addasiad yn ôl hyd y treial. Fodd bynnag, os bydd treial chwe diwrnod o hyd a bod nifer y PPE yn is na'r torbwynt ar gyfer treial o'r hyd hwnnw (186 tudalen), pennir procsi hyd y treial ar £1,761.17. Byddai'r swm hwnnw ar ben y ffi sylfaenol o £1,467.58 yn gwneud cyfanswm o £3,228.75. Mae'r torbwyntiau ar gyfer PPE yn amrywio yn ôl y drosedd a hyd y treial.
- 12.5 Os bydd nifer y PPE yn fwy na'r torbwynt PPE a ddiffiniwyd fel hyn, yna defnyddir dull gwahanol. Yn gyntaf, bydd "ffi gychwynnol" sy'n cynyddu yn ôl nifer y PPE. Yn fras, mae hon yr un fath â'r "ffi sylfaenol" sydd newydd ei disgrifio nes bydd y PPE yn cyrraedd lefel benodol, er enghraifft mewn achos Dosbarth A hyd at 249 o dudalennau, mewn achos Dosbarth E hyd at 69 o dudalennau. Ar ôl hynny, bydd y ffi gychwynnol yn cynyddu yn ôl nifer y PPE. Er enghraifft, mewn achos Dosbarth A lle mae 2000 o dudalennau o PPE, y ffi gychwynnol yw £22,295.42, o'i chymharu â'r ffi sylfaenol o £1,467.58 lle mae nifer y PPE yn is na'r torbwynt.
- 12.6 Yn ogystal â'r ffi gychwynnol, mae ffi gynyddraddol fesul tudalen sy'n amrywio yn ôl nifer y tudalennau. Er enghraifft, ar gyfer achos Dosbarth A lle mae rhwng 80 a 209 o dudalennau o PPE, mae ffi gynyddraddol y dudalen o £16.58 am y tudalennau ar ôl yr 80 cyntaf. Ar gyfer achos Dosbarth A lle mae mwy na 2000 o dudalennau, y ffi gynyddraddol y dudalen yw £8.42 am y tudalennau ar ôl 2000.

12.7 Mae dulliau tebyg yn gymwys ar gyfer treialon chwâl a phleon euog, er bod y cyfraddau'n is, ac yn is o lawer na chyfraddau treial ar gyfer pleon euog. Mae'r LGFS yn cynhyrchu canlyniadau gwahanol iawn yn ôl a gynhelir treial (h.y. y rheithwyr yn tyngu llw) hyd yn oed os bydd y diffynnydd yn newid i bledio'n euog ychydig wedyn. Mae'r tîm sy'n cynorthwyo'r Adolygiad wedi darparu'r cyfrifiad enghreifftiol ganlynol i mi, lle cymerir achos am dwyll yn Nosbarth B lle mae 5000 o dudalennau:

- Byddai ple euog yn arwain at gyfrifo ffi gychwynnol o £8,640.11, ynghyd â ffi gynyddraddol am bob tudalen o £1.06 wedi'i lluosio â nifer y tudalennau ar ben 4600 (400), gan wneud cyfanswm o £9,064.11.

- Byddai ple mewn treial chwâl (h.y. lle mae'r diffynnydd wedi pledio'n ddieuog yn wreiddiol, ond wedi newid i bledio'n euog cyn gweinyddu llw y rheithwyr) yn arwain at gyfrifo ffi gychwynnol o £13,646.46, ynghyd â ffi gynyddraddol am bob tudalen o £2.05 wedi'i lluosio â nifer y tudalennau ar ben 4600 (400), gan wneud cyfanswm o £14,466.46.

- Byddai ple mewn treial (hyd yn oed os bydd y diffynnydd yn newid i bledio'n euog ychydig cyn gweinyddu llw y rheithwyr) yn arwain at gyfrifo ffi gychwynnol o £39,525.82. Byddai ffi gynyddraddol am bob tudalen o £7.09 yn cael ei thalu am unrhyw dudalennau ar ben 5000.

12.8 Mae'n anodd iawn gweld sut y gellir cyfiawnhau'r gwahaniaethau hyn. Nid yw'r LGFS yn rhoi cymhelliad i bledio'n euog yn gynnar; yn wir, mae cymhelliad sylfaenol i'r cyfreithiwr llys ymatal rhag cynghori o blaid pledio'n euog yn gynnar.

Y Gwendid Sylfaenol

12.9 Mae'n ddealladwy bod teimlad, ar y pryd, y byddai system yr LGFS yn hawdd ei gweinyddu, ac y byddai nifer y PPE yn brocsi rhesymol am y gwaith. Yn groes i hynny, yr hyn sydd wedi datblygu yw'r hyn y mae'r CLSA yn ei alw yn "a perverse system of incentives and inefficiencies which do nothing to assist either supplier firms or the criminal justice system as a whole". Yn fy marn i, gwendid sylfaenol yr LGFS yw ei bod wedi'i seilio i raddau helaeth ar nifer y tudalennau a gyflwynwyd, nid ar y gwaith a wnaed neu hyd yn oed a oedd y tudalennau wedi'u darllen neu beidio. Nid yw hyn yn cymell darparwyr i wneud y gwaith y maent i fod i'w wneud mewn gwirionedd ond yn hytrach yn cymell ffyrniau i geisio cael achosion lle mae swm mawr o ddeunydd yn cael ei gyflwyno, ac wedyn arafu'r canlyniad nes bydd y treial yn dechrau.

12.10 Ar ben hynny, nid yw procsi'r PPE yn adlewyrchu o reidrwydd y gwaith y mae'n rhaid i'r amddiffyniad ei wneud mewn gwirionedd, o ran cael cyfarwyddiadau a datganiadau tyst, cyfarwyddo arbenigwyr ac ystyried eu hadroddiadau, cydgysylltu â'r cwnsler, ac ystyried dogfennau'r amddiffyniad, er nad yw nifer tudalennau'r dogfennau hynny'n gael ei gynnwys wrth gyfrif y tudalennau.

Costau Uchel am Achosion ar sail Nifer y PPE

- 12.11 Mae'r gwendid sylfaenol hwn yn yr LGFS yn arwain at ganlyniadau ariannol. Fel y gwelir yn Atodiad C, mae nifer bach o achosion yn gyfrifol am gyfran fawr o wariant yr LGFS. Felly, allan o 14,010 o hawliadau am dreialon o dan yr LGFS yn 2019/20 roedd oddeutu 1,510 o hawliadau am fwy na £80,000 yr un, ac o'r rhain roedd tua 730 am fwy na £100,000. Cyfanswm y gwariant ar hawliadau o fwy na £80,000 yr un oedd £154 miliwn. Mae tua 58% o wariant yr LGFS ar dreialon yn mynd at oddeutu 11% o'r treialon. Er mwyn cymharu, mae achos o fwrghleriaeth (Dosbarth E) yn costio £1,900 ar gyfartaledd o dan yr LGFS ac mae trosedd anonestrwydd sy'n ymwneud â llai na £30,000 (Dosbarth F) yn costio £3,100 ar gyfartaledd.
- 12.12 Gwelir hefyd yn Atodiad C fod gwahaniaeth mawr, mewn achosion lle mae nifer mawr o PPE, rhwng ffi'r cyfreithyddion llys o dan yr LGFS a ffi'r bargyfreithwyr o dan yr AGFS, er mai'r olaf sy'n bennaf cyfrifol am ddadlau'r achos: gweler Ffigurau 7 ac 8 yn Atodiad C.
- 12.13 Mae hyn wedi'i adlewyrchu hefyd mewn costau cynyddol. Er bod gostyngiad yng nghyfanswm nifer yr hawliadau o dan yr LGFS, o 101,400 yn 2016/17 i 82,220 yn 2019/20, roedd y gwariant blyneddol ar yr LGFS wedi cynyddu, o £337 miliwn yn 2016/17 i £358 miliwn yn 2019/20.

Costau Adnoddau am Benderfynu "Beth yw'r PPE?"

- 12.14 Mae'r CLSA yn nodi ymhellach fod cyfreithwyr yn treulio llawer o amser yn dadlau â'r LAA am beth sy'n cyfrif yn PPE, yn hytrach na thrafod a oedd yr amser a dreuliwyd ar yr achos yn rhesymol neu beidio. Mae'r dadleuon yn cynnwys beth sydd i'w gyfrif yn dudalen; a oedd y dudalen wedi'i chyflwyno; a yw'r dudalen yn dyblygu tudalen arall; a oedd y deunydd yn berthnasol i'r amddiffyniad; ac a yw'r deunydd wedi'i "gyflwyno'n electronig" neu'n "ddeunydd electronig".
- 12.15 Fel rwyf yn deall hyn, os cyflwynir arddangosyn dogfennol neu ddarluniadol "ar ffurf electronig" ac nad yw erioed wedi bodoli ar ffurf papur, yna bydd y gydnabyddiaeth ariannol am y gwaith yn llai ffafriol, ar y gyfradd yr awr am waith paratoi arbennig o dan baragraff 20 o Atodlen 2, oni bai fod yr LAA yn credu ei bod yn briodol cynnwys yr arddangosyn yn y PPE. Mae'r cwestiwn ynghylch a yw'n briodol cynnwys deunydd electronig o'r fath (e.e. lawrlwythiad ar ffôn) yn y PPE ac i ba raddau, yn hytrach na'i ystyried o dan bennawd gwaith paratoi arbennig, yn un y cafwyd llawer o ddadlau amdano ac mae'n ymddangos bod hyn yn dibynnu ar benderfynu a yw'r deunydd electronig "yn ganolog i'r achos" ac ar wahanol ffactorau eraill, a drafodir yn faith yn Atodiad D i ddogfen *Crown Court Fee Guidance* yr LAA.¹⁷⁴ Mae'r canllawiau hynny'n cynnwys 15 o dudalennau o eglurhad ynghylch pa bryd y gellir neu na ellir

¹⁷⁴ Canllawiau'r LAA ar ffioedd Llys y Goron:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/947606/CCFG - Version 1.12 - October 2020.pdf

hawlio am PPE, ac yn cyfeirio at oddeutu 30 o benderfyniadau gan wahanol Farnwyr Costau.

- 12.16 Felly mae hawlio am PPE yn bell o fod yn ymarfer gwrthrychol a syml fel y rhagwelwyd yn wreiddiol yn 2008. Nid yw system sy'n galw am dynnu sylw staff yr amddiffyniad a'r LAA oddi wrth ystyried a oedd gwaith y cyfreithydd llys wedi'i wneud yn rhesymol ac at benderfynu beth yw am beth nad yw'n PPE, yn un nad yw'n gwneud defnydd da o adnoddau cyhoeddus.

Canlyniadau Anffodus

- 12.17 Yn ogystal â hyn, mae'r LGFS wedi arwain at nifer o ganlyniadau anffodus eraill, er bod rhaid dweud er tegwch fod lefel isel ffioedd eraill wedi rhoi pwysau ar rai ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol i gymryd achosion lle mae nifer uchel o PPE er mwyn sybsideiddio gwaith arall sy'n amhroffidiol, fel yr eglurwyd ym Mhennod 6.
- 12.18 Cafodd yr Adolygiad sylwadau anecdotaidd am achosion lle'r oedd ceisiadau wedi'u gwneud i'r Llys am drosglwyddo tystysgrif cymorth cyfreithiol er mwyn cael y refferiw o dan yr LGFS, ac achosion lle'r oedd cymorth cyfreithiol y cleient wedi dod i ben a'r cleient wedi ailymgeisio am gymorth cyfreithiol wedyn ar ôl cyfarwyddo ffyrn arall ar gyfer yr un cymhelliad; ceisiadau am ragor o ddatgelu a wnaed i bob golwg i gynyddu nifer yr PPE; a chleient yn newid i bledio'n euog yn fuan ar ôl dechrau'r treial, gan arwain at dalu ffi fwy o lawer o dan yr LGFS nag a fuasai'n daladwy pe byddai wedi pledio'n euog yn gynharach. Mae'n bwysig bod cynlluniau ffioedd yn lleihau'r posibilrwydd o wrthdaro rhwng yr hyn sydd er y budd pennaf i'r cleient a buddiannau'r darparwr, ond nid yw'r LGFS wedi gwneud hyn.
- 12.19 Awgrymwyd hefyd fod y pwyslais ar PPE o dan yr LGFS wedi effeithio'n anfwriadol ar benderfyniadau'r CPS ynghylch datgelu. Mae'r LCCSA yn awgrymu, er enghraifft, fod arddangosion yn cael eu cyflwyno'n anffurfiol weithiau heb y llythyr eglurhaol gofynnol, sy'n golygu na ellir eu cyfrif yn PPE. Pa un a oes sail i'r awgrymiadau hyn neu beidio, maent yn amlygu'r posibilrwydd bod yr LGFS yn arwain at gamystumio a symbyliadau anghywir.
- 12.20 Yn olaf, roedd bargyfreithwyr, wrth gyflwyno tystiolaeth i'r Adolygiad, wedi mynegi'r farn nad oedd yr LGFS yn rhoi cymhelliad i'r cyfreithwyr wneud y gwaith paratoi, er eu bod yn derbyn yn gyffredinol fod ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol mewn sefyllfa ariannol anodd, a bod y bargyfreithwyr o ganlyniad i hyn yn gorfod gwneud mwy o waith a oedd heb ei rag-weld o dan yr AGFS. Ymysg y materion a nodwyd yr oedd peidio â chael proflenni tystiolaeth, na'r datganiad amddiffyn drafft, nac unrhyw waith paratoi gwirioneddol ar gyfer yr achos, a pheidio â chael cymorth yn y Llys. Mewn rhai achosion lle'r oedd nifer mawr o PPE, roedd ffyrn y cyfreithwyr yn cael tâl mwy o lawer na'r bargyfreithiwr er mai hwnnw, fe deimlwyd, oedd yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith.

Ffioedd Eraill yn Rhy Isel

12.21 Mewn cyferbyniad â hyn, roedd nifer o gyfreithwyr a ymatebodd i'r Adolygiad wedi beirniadu ffioedd eraill Llys y Goron gan ddweud eu bod yn rhy isel mewn achosion lle nad oedd nifer mawr o dudalennau. Mynegwyd pryder yn benodol ynghylch lefel y ffi sylfaenol, yn enwedig ar gyfer Dosbarthiadau E i I, lle mae ffi sylfaenol o tua £355. Yn yr un modd, dywedwyd bod ffioedd eraill, fel y rheini sy'n gymwys mewn achosion atafaelu o dan POCA, yn rhy isel. Mae rhai o'r cyfraddau hyn yn dyddio'n ôl i'r 1990au, a'r unig newid a wnaed yn y cyfraddau ers Adolygiad Carter yn 2006 oedd y toriad o 8.75% yn 2014.

Y Diwygio ar yr LGFS a Argymhellir

- 12.22 Yn fy marn i, mae'r orddibyniaeth ar PPE o dan yr LGFS wedi achosi cymhellion croes sydd wedi'u crynhoi uchod. Mae'n arwain at ffioedd sy'n rhy uchel mewn rhai achosion ac yn rhy isel mewn achosion eraill. Gyda'i gilydd, mae hyn yn cyfrannu at gostau cynyddol yr LGFS.
- 12.23 Mae'r CLSA yn dadlau y dylid cael cynllun tebyg i gynllun y Llys Ynadon yn lle'r LGFS. Cefnogir yr ateb hwnnw hefyd gan yr LCCSA a Chymdeithas y Cyfreithwyr, er bod yr olaf wedi cyfeirio hefyd yn ei thystiolaeth at bapur a gyflwynwyd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2016 sydd wedi'i seilio ar 'unedau tystiolaeth yr erlyniad'.
- 12.24 Rwyf eisoes wedi argymhell cyflwyno egwyddorion cynllun y Llys Ynadon ar gyfer gwaith gorsaf yr heddlu.¹⁷⁵ Fel yr eglurwyd uchod, mae'r cynllun hwnnw'n cydbwysu cymhellion i'r cyfreithwyr wneud y gwaith, hwylustod gweinyddu, a mecanwaith ymarferol ar gyfer rheoli'r costau i'r trethdalwr. Am y rhesymau hyn, rwyf yn argymhell disodli'r LGFS ar ei ffurf bresennol gan gynllun wedi'i seilio ar ffioedd safonol is, ffioedd safonol uwch ac, mewn achosion eithriadol, ffioedd ansafonol, mewn modd tebyg i gynllun y Llys Ynadon. Ar yr un pryd, dylai'r ffioedd i gyfreithyddion llys fod yn ddigon i sicrhau bod gwaith Llys y Goron yn broffidiol, am y rhesymau a roddwyd ym Mhenodau 6 a 7.
- 12.25 Byddai angen i'r ffyn mesur gael eu diffinio'n ofalus o dan y trefniadau newydd hyn er mwyn osgoi sefyllfa lle'r oedd y problemau uchod yn codi ar ffurf wahanol. Nid pwrpas y diwygiad hwn yw osgoi talu'r ffioedd yn briodol mewn achosion cymhleth yn Llys y Goron lle mae'r gwaith a wnaed yn angenrheidiol ac wedi'i gyflawni'n briodol. Fel yr wyf yn ei weld, byddai achosion o'r fath yn ennill y ffi safonol uwch ac, os yw'n briodol, y ffi ansafonol. Nod y diwygiad yw cysoni'r ffioedd â'r gwaith a wnaed mewn gwirionedd, yn hytrach na dim ond talu yn ôl y ffigur procsi a geir drwy'r mecanwaith cyfrif tudalennau. Rwyf yn tynnu sylw eto at fy argymhelliad ym Mhennod 15 y dylai'r LAA fabwysiadu ymagwedd lai cyfyngol at hawliadau'n gyffredinol.
- 12.26 Nid yw'n fwriad gennyf beri bod gwaith Llys y Goron yn amhroffidiol o safbwynt y cyfreithwyr. I'r gwrthwyneb: o gael y cymhellion cywir, dylai'r gwaith hwn fod yn gynaliadwy ar ei ben ei hun.

¹⁷⁵ Gweler Pennod 8 uchod

- 12.27 A rhoi enghraifft a nodwyd gan yr LCCSA, o dan gynllun y Llys Ynadon, mae'r ffi safonol uwch sy'n daladwy am ble euog yn uwch na'r ffi safonol is am dreial a ymleddir ac, yn wir, gellir cael ffi ansafonol am ble euog os oedd y gwaith wedi cyfiawnhau hynny. Rwyf yn awgrymu dull tebyg o weithredu yn Llys y Goron. Tra bo'r tâl a wneir yn awtomatig am ble euog o dan yr LGFS presennol yn is o lawer na'r hyn a gâi ei dalu os oedd yr achos wedi'i ymladd, mae'r cynllun rwyf yn ei argymhell yn un a ddylai adael lle i dalu cydnabyddiaeth ariannol briodol am bleon euog mwy cymhleth – yn galw, er enghraifft, am archwilio nifer mawr o ddogfennau, am adroddiadau gan arbenigwyr, a negodi â'r CPS – yn lle arwain at ostwng y ffi'n awtomatig fel y gwneir ar hyn o bryd. Byddai hynny'n hwyluso datrys achosion yn gynnar. Yn yr un modd, mae cynllun y Llys Ynadon yn talu am dreial sydd wedi'i baratoi'n llawn ond yn arwain at ble euog ar y diwrnod, ar yr un gyfradd â threial a ymleddir. Ni ddylai'r ffi ddibynnu ar y ffaith bod ple wedi'i gofnodi cyn neu ar ôl gweinyddu llw'r rheithwyr, ond ar y gwaith a wnaed.
- 12.28 O dan gynllun newydd, mae'n debyg y byddai cyfle i leihau nifer y dosbarthiadau trosedd sydd wedi'u pennu ar hyn o bryd o'r 11 presennol, gan fod ffioedd sylfaenol tebyg iawn yn cael eu talu eisoes am bedwar dosbarth o'r troseddau mwyaf difrifol (A, B, J a K), fel y gwneir yn achos y dosbarthiadau sy'n weddill sy'n cwmpasu troseddau llai difrifol. Rwyf yn rhag-weld na fyddai angen ffioedd ar wahân wedyn am waith paratoi arbennig ac ystyried deunydd nas defnyddiwyd o dan y trefniadau newydd hyn, fel y mae'r CLSA yn awgrymu yn ei hymateb i'r Cais am Dystiolaeth.
- 12.29 Byddwn yn ei weld yn bwysig cynnwys cyfraddau priodol yn y strwythur newydd ar gyfer cyfreithwyr hŷn a phrofiadol er mwyn iddynt ymgymryd â'r gwaith mwy anodd, gan ddilyn enghreifftiau'r ffioedd presennol am waith paratoi arbennig, ystyried deunydd nas defnyddiwyd, achosion atafaelu, ac achosion VHCC.¹⁷⁶
- 12.30 Lle mae amser cyfreithyddion llys yn Llys y Goron yn cael ei dreulio'n briodol yn ymgysylltu â'r erlyniad gyda'r bwriad o gael datrysiad cynnar, byddwn yn disgwyl i'r amser hwnnw gael ei gyfrif wrth bennu lefel y ffi sy'n gymwys, yn unol â'r thema gyffredinol yn yr Adolygiad hwn ar gyfer hyrwyddo ymgysylltu rhwng partïon.
- 12.31 Er mwyn bod yn glir, rwyf yn rhag-weld y byddai'r system o ffioedd is, uwch ac ansafonol yn gymwys i ffioedd cyfreithyddion llys mewn apelau o'r Llys Ynadon, ac i achosion traddodi ar gyfer dedfrydu, fel y nodwyd eisoes ym Mhennod 10.
- 12.32 Yn olaf, byddwn yn rhag-weld, yn yr un modd â chynllun y Llys Ynadon, y byddai'r ffioedd safonol is ac uwch yn cael eu gosod ar lefel a fydd yn cynnwys y rhan fwyaf o'r hawliadau i'r LGFS o ran nifer, gan leihau'r costau gweinyddu a'r angen am arfarnu goddrychol. Mae'r cynnig gan y CLSA y byddai hawliadau o'r fath am ffioedd safonol is ac uwch yn cael eu hasesu yn y broses archwilio,

¹⁷⁶ Os gweithredir y diwygiadau hyn, nid yw'n glir i ba raddau y byddai'r angen yn parhau am drefniadau ar wahân ar gyfer ffioedd cyfreithwyr mewn achosion VHCC, ond rwyf yn gadael y pwynt hwnnw'n agored.

fel y gwneir yng nghynllun y Llys Ynadon, yn hytrach na'u harfarnu fesul un pan gyflwynir nhw, yn ymddangos yn un synhwyrol i mi.

Achosion Atafaelu

- 12.33 Mae'r CLSA yn dadlau bod y gwaith hwn yn gymhleth a bod lefelau presennol y ffioedd yn gwbl annigonol. Mae'r CLSA yn cyfeirio at adroddiad diweddar gan Gomisiwn y Gyfraith¹⁷⁷ gan nodi bod tua £2 biliwn yn ddyledus mewn gorchmynion atafaelu sydd heb eu gorfodi, nad yw'r broses yn gweithio'n dda, yn cynnwys ymgysylltu cynnar. Roedd Comisiwn y Gyfraith hefyd wedi tynnu sylw'r Adolygiad at farn gan ddarparwyr i'r perwyl bod ffioedd am waith atafaelu yn rhy isel.¹⁷⁸
- 12.34 Mae hyn yn ymddangos yn enghraifft glasurol o sefyllfa lle y dylai cyfraddau cymorth cyfreithiol fod yn rhai sy'n ategu amcanion polisi cyhoeddus ehangach. Mae'n debygol bod manteision pendant i'w cael o ddarparu cyllid priodol ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol mewn achosion atafaelu gyda'r bwriad o hwyluso gwell prosesau ar gyfer adennill arian sy'n ddyledus mewn ffordd briodol. Rwyf yn argymhell cynyddu'r cyfraddau ar gyfer achosion atafaelu ac, wrth bennu'r cyfraddau, y dylid ystyried y pwyntiau a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith.

Eithriad y Ffi Sefydlog

- 12.35 O dan Ran 3 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau mae ffi sefydlog o £330.33 yn daladwy yn Llys y Goron os yw diffynnydd wedi dewis treial yn Llys y Goron ac wedyn yn pledio'n euog, os oedd y Llys Ynadon wedi penderfynu cyn hynny fod yr achos yn addas ar gyfer treial diannod. Mae'n debyg mai bwriad yr eithriad hwn, a gyflwynwyd yn 2016, yw cymell y cyfreithydd llys i beidio â chynghori cleient i ddewis treial.
- 12.36 Bydd y cyfyngiad hwn yn dod yn ddiangen o dan y diwygiadau rwyf yn eu cynnig. Pa un bynnag, nid oes cyfiawnhad dros y cyfyngiad hwn mewn egwyddor yn fy marn i. Mae hawl gan y cleient i ddewis treial, hyd yn oed os yw'r ynadon yn teimlo y dylid delio â'r achos yn ddiannod, ac mae nifer o resymau dilys dros arfer yr hawl honno. Ni fydd y dewis o dreial yn cael ei wneud o ganlyniad i gyngor y cyfreithiwr yn unig o reidrwydd, a hyd yn oed os bydd, mae'n ddigon posibl mai hwnnw oedd y cyngor priodol ar y pryd. Mae'n ymddangos nad yw'r rheol hon yn darparu o gwbl ar gyfer digwyddiadau dilynol fel datgelu pellach, neu'r cleient yn pledio'n euog i gyhuddiad llai yn ddiweddarach, neu'r hyn a allai fod yn waith cymhleth ar faterion dedfrydu. Os ac i'r graddau y mae'r rheol hon wedi'i bwriadu i ddylanwadu ar gyngor y cyfreithiwr i'r cleient, mae hyn yn codi cwestiynau cyfansoddiadol hefyd. Felly rwyf yn argymhell diddymu'r ddarpariaeth hon.

¹⁷⁷ [Confiscation under Part 2 of the Proceeds of Crime Act 2002 | Law Commission](#)

¹⁷⁸ Roedd Comisiwn y Gyfraith hefyd wedi codi'r cwestiwn o ba un a ddylid caniatáu i ddiffynnyddion sydd fel arfer yn gyfoethog gael defnyddio arian a atafaelwyd i dalu o'r blaen am gynrychiolaeth gyfreithiol, pwynt sydd y tu allan i gwmpas yr Adolygiad hwn.

Casgliadau ar yr Argymhellion ar gyfer yr LGFS

- 12.37 Dylid ad-drefnu'r LGFS fel y bydd yn debyg i gynllun y Llys Ynadon. Dylai lefel gyffredinol y ffioedd fod yn ddigon i roi cydnabyddiaeth ariannol briodol am waith Llys y Goron. Dylid cynyddu'r hyn sydd yn ffioedd sylfaenol ar hyn o bryd yn unol â hyn. Dylid addasu ffioedd i'w gwneud yn uwch yn ôl yr angen, yn cynnwys mewn perthynas ag achosion atafaelu, er mwyn sicrhau bod gwaith Llys y Goron yn broffidiol. Dylid diddymu Rhan 3 o Atodlen 2 i'r rheoliadau.

Perthynas yr LGFS â'r AGFS

- 12.38 Gallai ymddangos yn afreolaidd bod yr AGFS a'r LGFS yn bodoli ochr yn ochr, gyda mecanweithiau sy'n eithaf gwahanol, a'r ddau'n delio â'r un cleient yn yr un achos. Y rheswm hanesyddol dros fodolaeth y ddau gynllun yw'r rhaniad rhwng cyfreithwyr a bargyfreithwyr. Yn fy marn i, mae'r rhesymau sylfaenol dros gadw cnewyllyn o eiriolwyr trosedd profiadol sy'n arbenigo mewn eiriolaeth yn rhai dilys, ac fe'u trafodir yn fwy manwl ym Mhennod 13 isod. Nid wyf yn argymhell sefydlu cynllun sengl ar gyfer gwaith Llys y Goron yn yr Adolygiad hwn, a byddai cam mor fawr â hynny'n galw am waith llawer mwy manwl nag y gellir ei gyflawni yn yr Adolygiad hwn.
- 12.39 Er hynny, rhaid i'r ddau gynllun ategu ei gilydd ac ni ddylent fod yn rhwystr i'w gilydd. Un agwedd bwysig ar fy argymhellion ar yr LGFS yw sicrhau bod y gwaith paratoi a ragwelir gan yr LGFS yn cael ei wneud gan y cyfreithiwr, ac nid ei adael i'w wneud heb dâl gan y bargyfreithiwr o dan yr AGFS. O dan fy argymhellion i, os na wnaed y gwaith gan y cyfreithydd llys i gyfiawnhau'r ffi a hawlir o dan yr LGFS, yna ni fydd y ffi a hawlir gan y cyfreithydd llys yn ddyledus.
- 12.40 Ar y llaw arall, os ceir gwaith cyn y treial, sy'n debygol iawn o dan amodau modern, a hwnnw'n cael ei wneud yn briodol gan yr eiriolwr sydd i gyflwyno'r achos, dylid talu am hwnnw o dan yr AGFS. Mae'n ddigon posibl y byddai'n synhwyrol mewn nifer o achosion i'r cyfreithydd llys a'r bargyfreithiwr gytuno pwy oedd i wneud beth, gan y byddai hynny'n ei gwneud yn glir beth oedd i'w dalu o dan yr LGFS a beth oedd i'w dalu o dan yr AGFS. Ni ddylid rhwystro gwaith tîm effeithlon rhwng y cyfreithydd llys a'r eiriolwr ar sail llinellau terfyn a allai fod wedi'u gosod rywdro pan ddyfeisiwyd y ddau gynllun ffioedd hyn yn wreiddiol.

Cyfreithwyr eiriolwyr

- 12.41 Yn olaf, un man lle y ceir gorgyffwrdd uniongyrchol rhwng y ddau gynllun yw sefyllfa cyfreithwyr eiriolwyr, y telir am eu heiriolaeth o dan yr AGFS, tra telir am waith paratoi ffyrn y cyfreithiwr (sef yr un person o bosibl) o dan yr LGFS. Derbynnir bod y gwahaniaeth hwn yn eithaf amhendant gan nad yw'r gwahaniaeth rhwng gwaith paratoi ac eiriolaeth yn gwbl glir, yn enwedig o ystyried y cynnydd mewn eiriolaeth ysgrifenedig.

- 12.42 Rwyf yn sicr yn derbyn bod cyfreithwyr eiriolwyr yn cyflawni gwaith gwerthfawr yng Nghymru ac yn Lloegr, nid yn unig yn Llys y Goron ond yn y Llys Ynadon ac mewn tribiwnlysoedd eraill hefyd. Bydd y dilyniant a gaiff y cleient o gael yr un cyfreithiwr drwy gydol proses y llys yn beth pwysig mewn nifer o achosion. Mae'r cynnydd mewn ffioedd rwyf yn ei argymhell o dan yr AGFS ym Mhennod 13 isod yn gymwys hefyd i gyfreithwyr eiriolwyr.
- 12.43 Er hynny, yn y dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad, mynegwyd rhywfaint o anesmwythyd am y posibilrwydd o gael gwrthdaro buddiannau pan oedd ffyrm y cyfreithiwr yn dod i benderfynu rhwng defnyddio ei eiriolwr mewnol a chyfarwyddo bargyfreithiwr. Yn y cyswllt hwn, o dan yr SCC rhaid i'r cyfreithiwr gynghori'r cleient ynghylch y dewis o eiriolwr.¹⁷⁹ Nid wyf yn amau nad yw'r dewis yn cael ei gyflwyno'n briodol i'r cleient yn y rhan fwyaf o lawer o achosion, ac nad yw'r cyfreithiwr yn cael ei roi mewn sefyllfa sy'n amhriodol i'w arbenigedd am resymau masnachol amherthnasol. Byddwn yn rhybuddio bod y rhwymedigaeth sydd yn yr SCC wedi'i chynnwys i ddiogelu'r cleient. Mae'n bwysig na fydd unrhyw ddrwgdybiaeth ynghylch y dewis o eiriolwr gan y cleient, a bod cofnodion priodol yn cael eu cadw.

¹⁷⁹ [Contract Trosedd Safonol \(SCC\) 2017 Cymalau 7.3 a 7.5:](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1029948/Specification_-_version_10_current_version_effective_from_1_November_2021_.pdf)
[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1029948/Specification - version 10 current version effective from 1 November 2021 .pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1029948/Specification_-_version_10_current_version_effective_from_1_November_2021_.pdf)

PENNOD TRI AR DDEG: YR AGFS A'R BAR TROSEDDOL

- 13.1 Byddaf yn trafod y materion sy'n effeithio ar y Bar Troseddol mewn pedwar cam: disgrifiad byr o'r AGFS; y ddadl a gyflwynwyd i'r Adolygiad; y brif dystiolaeth; a'm dadansoddiad ac argymhellion.

Disgrifiad Byr o'r AGFS

- 13.2 Mae'r AGFS (a ddisgrifir yn fwy manwl yn Atodiad M) wedi'i seilio ar system o ffioedd sefydlog, sef ffi'r briff am y drosedd dan sylw, wedi'i hategu gan ffi ar gyfradd ddyddiol sefydlog os ceir treial. Bydd ffi'r briff yn dibynnu ar y "band" y mae'r drosedd yn perthyn iddo, ac mae'r nifer mawr o wahanol fandiau'n ganlyniad i ymdrechion dealladwy i gysylltu ffi'r briff â difrifoldeb tybiedig y drosedd. Nid yw'n ymddangos bod data ar gael i ddangos sut roedd y ffioedd briff penodol yn cael eu cyfrifo'n hanesyddol, neu ym mha ffordd, os o gwbl, mae'r gwahanol ffioedd am wahanol droseddau'n gysylltiedig. Roedd y diwygiadau yn 2018 wedi lleihau'r defnydd o PPE fel procsi ar gyfer pennu'r ffi, heblaw mewn achosion twyll a chyffuriau yn bennaf. Un o anawsterau cynhenid y dull hwn o weithredu yw, os bydd un ffi'n cael ei haddasu, yna bydd rhyw ffi arall yn ymddangos yn anghyson. Mae bron yn amhosibl osgoi anghysonderau.
- 13.3 Am resymau hanesyddol, mae'r AGFS wedi'i gymhwyso at y cysyniad o dreial ac, o ganlyniad i hyn, telir yn well o lawer am dreial nag am ble euog, ar sail y rhagdybiaeth, mae'n debyg, y bydd yr olaf yn galw am lawer llai o waith.¹⁸⁰ Am mai'r treial yw'r cysyniad sylfaenol yn hanesyddol, yr eiriolwr sy'n gwneud y treial a gaiff ei dalu; os yw eiriolwr arall wedi paratoi'r achos ond yn gorfod dychwelyd y briff, ni fydd yn cael ei dalu fel arfer, a dim ond mewn amgylchiadau prin y caniateir hawliad am waith paratoi a wastraffwyd ar sail nifer yr oriau a dreuliwyd ar y gwaith. O dan yr AGFS, dim ond ar ôl penderfynu'r achos drwy ble neu dreial y gwneir y taliad. Yn enwedig yn amgylchiadau presennol yr ôl-groniad, pan restrir achosion flwyddyn neu fwy i'r dyfodol, gall hynny olygu aros yn hir am daliad.
- 13.4 Un mecanwaith o dan yr AGFS sy'n gallu caniatáu ychwanegu at ffioedd briff mewn achosion cymhleth iawn, yn debyg yn fras i'r ffi dianc yng nghynllun gorsaf yr heddlu, yw'r hawliad am waith paratoi arbennig. Mae'r ddarpariaeth sy'n rheoli gwaith paratoi arbennig wedi'i geirio'n gyfyng iawn. Y cysyniad sylfaenol yw bod ffi'r briff wedi'i bwriadu i dalu am yr holl waith paratoi ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn. Mecanwaith 'dianc' arall yw'r ffi am ystyried deunydd nas defnyddiwyd a gyflwynwyd yn 2020. Mae hwn yn swm penodedig i dalu am y tair awr gyntaf, a ffi ar gyfradd yr awr wedyn ar y gyfradd am waith paratoi arbennig.

¹⁸⁰ Ple euog yn y cyswllt hwn yw ple a gofnodir ar y cyfle cyntaf sydd ar gael, sef y PTPH fel arfer. Treial chwâl yw un lle mae'r ple dieuog cychwynnol yn cael ei newid yn ble euog ar ôl y PTPH. Ers y diwygiadau yn 2020, telir yr un fath am dreialon chwâl a threialon (1 diwrnod).

- 13.5 Yn ogystal â hyn, mae ffioedd sefydlog penodol o dan yr AGFS am eitemau gwaith penodol ar gyfradd yr awr, fel ymddangosiad safonol ("crybwylliad" fel arfer), gwahanol wrandawiadau rhagarweiniol am dystiolaeth, y PTPH, gwrandawiadau dedfrydu, apelau i Lys y Goron o'r Llys Ynadon ac achosion traddodi ar gyfer dedfrydu. Nid yw'r rhain yn amrywio yn ôl a yw'r mater yn gymhleth neu beidio, ac maent yn ymwneud yn y bôn â'r cysyniad o "wrandawriad".

Y Ddadi a Gyflwynwyd i'r Adolygiad

Cyngor y Bar

- 13.6 Mae Cyngor y Bar yn gwneud pum prif bwynt: (i) bod cadw bargyfreithwyr profiadol yn broblem fawr (ii) bod poblogaeth y bargyfreithwyr sy'n ymarfer yn amser llawn yn heneiddio (iii) bod y gydnabyddiaeth ariannol i fargyfreithwyr iau yn annigonol ac anghynaliadwy (iv) mae'n amcangyfrif bod elw bargyfreithwyr wedi gostwng er 2015/16, o 5% yn achos bargyfreithwyr iau, a 8.8% yn achos y rheini sydd â phrofiad o lai na 13 blynedd (v) bod dosbarthiad incwm anghyfartal rhwng dynion a menywod, a rhwng grwpiau ethnig, a bod ymarferwyr gwyn yn ennill mwy na grwpiau eraill, a menywod du yn ennill y lleiaf un.
- 13.7 Yn ôl Cyngor y Bar, ar ôl blynyddoedd hir o danariannu, o'r braidd bod y Bar troseddol yn gynaliadwy erbyn hyn: mae ymarferwyr iau, yn enwedig y rheini o gefndiroedd llai breintiedig, yn ei chael yn anodd ennill bywoliaeth yn eu dwy neu dair blynedd cyntaf. Mae'r rhan fwyaf ohonynt mewn dyled sylweddol yn sgil eu haddysg. Er bod incymau nodweddiadol bargyfreithwyr iau yn codi yn ystod y blynyddoedd cyntaf, bydd y cynnydd yn arafu ar ôl tua 8 mlynedd, ac yn aros yn wastad wedyn o flwyddyn 12 ymlaen. Mae'r Bar yn gweld nifer mawr yn ymadael yng nghanol y proffesiwn, yn enwedig ymarferwyr benywaidd. Mae oriau gweithio'n cynyddu, ac mae cyfran sylweddol o'r gwaith yn cael ei wneud yn ddi-dâl. Mae bargyfreithwyr sy'n gwneud gwaith troseddol yn ennill llai na'u cymheiriaid mewn meysydd eraill, a bargyfreithwyr sy'n arbenigo mewn gwaith troseddol sy'n ennill y lleiaf un.
- 13.8 Yn ôl Cyngor y Bar, mae angen diwygio'r cynlluniau ffioedd ar fyrder, ac maent wedi methu ag addasu i'r galwadau gwahanol y mae eiriolwyr trosedd yn eu hwynebu. Mae Cyngor y Bar yn pryderu'n neilltuoel am y rheini o gefndiroedd llai breintiedig, yn cynnwys lleiafrifoedd ethnig, a'r nifer mawr o fenywod sy'n gadael y Bar troseddol oherwydd cyfraddau tâl isel.

Cymdeithas y Bar Troseddol (CBA)

- 13.9 Mae'r CBA yn dadlau bod taer angen cynyddu'r cyllid sydd ar gael neu, fel arall, parheir i golli bargyfreithwyr talentog; nid yw gyrfa wrth y Bar troseddol yn ddichonadwy bellach, yn enwedig ar gyfer y rheini sydd mewn dyled ar ôl eu haddysg, menywod a'r rheini o gefndir lleiafrifol ethnig. Bellach nid yw'r AGFS yn adlewyrchu'r ffaith bod rhaid gwneud llawer o'r gwaith y tu allan i'r Llys.

- 13.10 Mae'r CBA yn nodi nad yw cyfraddau yr awr am waith paratoi arbennig wedi codi bron dim er 1997. Mae'r CBA yn cyfeirio at wahanol benderfyniadau barnwrol ar gostau, at gyfraddau canllaw ar gyfer asesu diannod mewn gwaith sifil preifat a'r cyfraddau am waith paratoi eithriadol yng Ngogledd Iwerddon, at wahanol gymariaethau ag Eiriolwyr y Goron yn y CPS, at y cyfraddau a delir i arbenigwyr o dan Atodlen 5 i'r Rheoliadau, at gyfraddau yr awr a delir gan awdurdodau cyhoeddus eraill am waith cyfraith trosedd, ac at y cyfraddau a delir i grefftwyr fel plymwyr.
- 13.11 Mae'r CBA yn awgrymu y dylid diffinio ffi'r briff fel un sy'n cynnwys darllen y papurau, cyngor ar dystiolaeth/arbenigwyr, y cynghoriad cyntaf a diwrnod cyntaf y treial: dylid talu am yr holl waith ysgrifenedig ychwanegol drwy daliadau ategol, a delir un ai ar gyfradd yr awr addas neu gymysgedd o ffi sefydlog i dalu am swm sylfaenol o waith o hyd at 3 awr, er enghraifft, a chyfraddau yr awr ar ôl hynny. Nid oes cydnabyddiaeth ariannol ddigonol am achosion lle mae nifer mawr o PPE. Nid yw ffioedd am waith paratoi arbennig yn datrys y broblem am fod y trothwyon yn rhy uchel, yr eithriadau'n rhy gyfyng, a'r ffioedd yn rhy isel.
- 13.12 Mae'r CBA yn dadlau o blaid rhagdybio y bydd yr holl wrandawiadau yng nghwrs yr achos heblaw'r PTPH yn cael eu gwrandao o bell, gan elwa o'r profiad yn ystod y pandemig, ac y gellir gwneud gorchmynion Llys llai anghyffredin drwy brosesau cysylltu o bell ac ar-lein. Dylid ailfeddwl am y PTPH, fel y bydd yn digwydd yn ddiweddarach yn y broses pan fydd y proflenni tystiolaeth a'r datganiad amddiffyn wedi'u cyflwyno a'u paratoi.
- 13.13 Mae'r CBA hefyd yn beirniadu'r rhestrau rhybudd yn hallt gan ddweud eu bod yn "blight on the criminal justice system". Dylid talu'n briodol am baratoi achosion rhestr rybudd sydd am ryw reswm neu'i gilydd yn cael eu gwrandao pan nad yw'r bargyfreithiwr a baratodd yr achos bellach ar gael.
- 13.14 Mewn cyflwyniad ychwanegol, gwnaeth y CBA gynigion mwy manwl ar gyfer diwygio'r AGFS, yn cynnwys cynyddu ffioedd am y PTPH, a ffioedd uwch am rai achosion mwy difrifol a chymhleth. Roedd Cadeirydd y CBA wedi tynnu fy sylw'n benodol at ei bryderon ynghylch (i) tynnu cyfleusterau CVP yn ôl mewn rhai canolfannau Llys y Goron gan fod hyn yn arwain at wastraff o ran teithio ac amser, ac yn galed iawn ar y rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu; a (ii) yr effaith niweidiol o benderfyniadau rhestru, yn benodol, meddai, tynnu treialon oddi ar y rhestr ar y funud olaf heb ddim neu nemor ddim ymgynghori.

Pwyllgor Bargyfreithwyr Ifanc Cymdeithas y Bar Troseddol (YBC)

- 13.15 Mae'r YBC yn awgrymu bod angen cynyddu ffioedd yn sylweddol i sicrhau parhad y Bar troseddol annibynnol ac yn cyfeirio at "swell of anger at the most junior end of the profession". Y teimlad cyffredinol yw bod bargyfreithwyr ifanc wedi cael "eu cymryd yn ganiataol" a bod disgwyl iddynt wneud mwy a mwy heb dâl. Mae'r YBC yn dadlau bod bargyfreithwyr ifanc yn parhau i ymadael, a thynnodd sylw at hanes wyth sydd wedi ymadael yn ddiweddar o'r Bar

troseddol, y cwbl ond un yn fenywod. Mae nifer mawr o ddynion a menywod ifanc yn credu na ellir gweithio wrth y Bar troseddol o safbwynt bywyd teuluol.

- 13.16 Y prif destun pryder i'r YBC yw'r Llys Ynadon a'r Llys Ieuencid, sydd eisoes wedi'u trafod ym Mhenodau 10 ac 11 uchod. O ran yr AGFS, mae'r YBC yn tynnu sylw at broblemau'r system rhestr rybudd, sydd yn aml yn golygu bod bargyfreithwyr iau yn drafftio datganiad amddiffyn, er enghraifft, ac wedyn yn peidio â chael eu talu. Yn aml bydd hawliadau i'r LAA yn cael eu "bwrw'n ôl" ac mae'n anodd delio â'r llif arian parod os oes rhaid aros am dâl tan ar ôl diwedd y treial.

Ymatebwyr Eraill

- 13.17 Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion gan unigolion i'r Adolygiad wedi tynnu sylw at y tanariannu yn yr AGFS a'r anhawster wrth gadw eiriolwyr. Er bod pobl ifanc a thalentog yn ymgeisio am ddisgybleddau troseddol, byddent yn troi oddi wrth gyfraith trosedd fel arfer ar ôl ychydig o flynyddoedd. Un patrwm cyffredin oedd troi at gyfraith teulu neu gyfraith rheoleiddio neu at waith y tu allan i'r proffesiwn annibynnol. Roedd y rhan fwyaf o siambrau wedi nodi bod llai o fargyfreithwyr yn gwneud gwaith trosedd nag yr oedd ychydig o flynyddoedd yn ôl. Yn achos y rheini a oedd yn dal ati, y darlun cyffredinol a bortreadwyd oedd un lle'r oedd pwysau cyson, ac ymddangosiadau yn y Llys yn cael eu dilyn gan oriau gwaith hir gyda'r nos a thrwy'r penwythnosau.
- 13.18 Roedd y pwyntiau pellach a godwyd yn cynnwys: (i) bod y ffioedd a gaiff cyfreithwyr mewn achosion lle mae nifer mawr o dudalennau yn anghymesur dros ben o'u cymharu â ffioedd bargyfreithwyr; (ii) bod bargyfreithwyr yn gwneud mwy o waith nag a ragwelwyd gan strwythur yr AGFS; (iii) bod trefniadau rhestru yn aml yn golygu na thelir am waith sydd eisoes wedi'i baratoi; (iv) bod achosion sy'n addas i fargyfreithwyr iau, yn enwedig pleon euog, yn cael eu cymryd gan gyfreithwyr eiriolwyr, a'r penderfyniad briffio heb ei seilio o reidrwydd ar ansawdd;¹⁸¹ (v) bod y ffioedd ar gyfer bargyfreithwyr canolig a hŷn yn rhy isel; (vi) bod tuedd i fargyfreithwyr hŷn gymryd achosion a oedd yn is na'u hynafedd, gan gyfyngu ar y nifer a oedd ar gael wedyn i fargyfreithwyr iau; (vii) bod bargyfreithwyr sy'n gweithio i sicrhau ple euog yn waeth eu byd na phe byddai'r achos wedi mynd i dreial; (viii) bod ffioedd yn arbennig o isel mewn achosion traddodi ar gyfer dedfrydu, achosion POCA, ac achosion a wneir fel arfer gan fargyfreithwyr iau fel bwrghleriaeth, tra oedd achosion llofruddiaeth yn yr eithaf arall wedi bod ar eu colled yn niwygiad yr AGFS yn 2018.
- 13.19 Ynghylch materion amrywiaeth, dywedodd ymatebwyr ei bod yn anodd iawn i'r rheini â chyfrifoldebau gofalu ystyried gyrfar wrth y Bar; bod y strwythur ffioedd yn ffafrio proffesiwn nad yw'n gynrychiadol o'r gymdeithas y mae'n ei

¹⁸¹ Un pwynt ychwanegol a wnaed yn y cyswllt hwn oedd bod "straw junior" mewnol yn cael ei gyfarwyddo weithiau yn rôl bargyfreithiwr iau i'w arwain gan Gwnsler y Frenhines.

gwasanaethu o safbwynt diwylliannol a chymdeithasol; bod gyrfa wrth y Bar yn arbennig o anodd i'r rheini o gefndir lleiafrifol ethnig, gan gofio hefyd am gostau uchel y GDL a Chwrs Hyfforddi Proffesiynol y Bar, a'r anhawster wrth geisio dal ati yn y blynyddoedd cynnar ar incwm isel.

- 13.20 Ynghylch technoleg cysylltu o bell, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan unigolion yn ffafrio gwrandawiadau o bell mewn achosion a oedd yn ymwneud â mesurau gweinyddol neu lle nad oedd angen i'r diffynnydd fod yn bresennol, gan bwysleisio'r manteision i'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu a'r gallu i osgoi gwastraffu amser a chostau teithio.

Y Brif Dystiolaeth

- 13.21 Gan dynnu ar y gwahanol ffynonellau sydd ar gael, mae'r adran hon yn ystyried y dystiolaeth mewn perthynas ag (i) tueddiadau ym meintiau gwaith yr AGFS (ii) tueddiadau yn niferoedd y bargyfreithwyr trosedd (iii) incwm bargyfreithwyr trosedd cyn talu treuliau yn 2019/20 (iv) incwm bargyfreithwyr trosedd ar ôl talu treuliau yn 2019/20 a (v) incymau bargyfreithwyr trosedd o'u cymharu â'r Bar yn gyffredinol.

- 13.22 Derbynnir bod yr adran hon yn eithaf manwl, ond mae'r llinynnau'n cael eu tynnu ynghyd yn y dadansoddiad sy'n dechrau yn 13.51 isod, y gallai rhai fod am ei ddarllen gyntaf.

(i) Tueddiadau ym meintiau gwaith yr AGFS 2015/16 i 2019/20

- 13.23 Rhwng 2015/16 a 2019/20 (yr ail yw'r flwyddyn olaf cyn i'r ffigurau gael eu hystumio gan y pandemig) roedd meintiau gwaith o dan yr AGFS wedi lleihau'n sylweddol. Roedd cyfanswm y biliau wedi gostwng o 110,950 yn 2015/16 i 82,450 yn 2019/20 (-26%). Dros yr un cyfnod, roedd biliau am dreialon wedi gostwng o 23,180 i 16,170 (-30%), am dreialon chwâl o 25,010 i 20,000 (-20%) ac am bleon euog o 41,240 i 22,920 (-46%). Cafwyd y gostyngiadau hyn am fod llai o achosion wedi cyrraedd Llys y Goron ac, yn rhan olaf y cyfnod, am fod cyfyngiadau ar ddiwrnodau eistedd.¹⁸²

- 13.24 Roedd y gostyngiad ym maint y gwaith yn y cyfnod rhwng 2015/16 a 2019/20 wedi cael effaith sylweddol ar y farchnad. Felly roedd cyfanswm cost yr AGFS wedi gostwng o £227 miliwn yn 2015/16 i £208 miliwn yn 2019/20, sef tua 8%. Ar yr un pryd, fodd bynnag, mae costau treialon o dan yr AGFS wedi cynyddu, o gost gyfartalog o £6,250 yn 2016/17 i £9,235 fesul treial yn 2019/20, cynnydd o tua 48%, gan adlewyrchu o bosibl y newid yng nghymysgedd yr achosion.

- 13.25 Mewn cyferbyniad â hyn, y costau cyfartalog am dreial chwâl oedd tua £1,700 yn 2015/16 ac ar lefel debyg yn 2019/20. Mae'r costau cyfartalog am ble euog wedi aros o fewn yr amrediad £800- £900 dros y cyfnod. Mae'r ffigurau hyn yn golygu bod gostyngiad mewn termau real ar gyfer pleon euog a threialon chwâl,

¹⁸² Nid yw'r ffigurau a ddarparwyd yn cynnwys biliau a gyflwynwyd o dan gynlluniau cydnabyddiaeth ariannol etifeddol o'r cyfnod cyn 2005

er bod y ffioedd am dreialon chwâl wedi'u talu ar yr un gyfradd â threialon ers cyflwyno'r mesurau carlam yn 2020.

- 13.26 Y ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer cyfnod y pandemig yw'r rheini ar gyfer 2020/2021 a thri mis cyntaf 2021/22. Roedd gweithgarwch o dan yr AGFS wedi gostwng yn sylweddol yn 2020/21, am resymau amlwg. Yn gyffredinol, gwariant yr AGFS ar gyfer Ch1 2021/22 oedd £46 miliwn o'i gymharu â ffigur cyfartalog am bob chwarter o £52 miliwn yn 2019/20. Mae'r ffigurau ar gyfer Ch1 2021/22 yn dangos y nifer uchaf o dreialon y chwarter ers Ch3 2017/18. O ran treialon chwâl, mae rhywfaint o dystiolaeth bod ffioedd uwch yn cael eu talu; y ffi gyfartalog o dan yr AGFS am dreial chwâl oedd £1,784 yn 2020/21 a £2,030 yn Ch1 2021/22. Gall hyn adlewyrchu'r mesurau carlam a gytunwyd yn 2020. Y ffioedd am bleon euog oedd £875 yr achos yn 2020/21, yn debyg ar y cyfan i flynyddoedd diweddar.
- 13.27 I gwblhau'r darlun, roedd y gyfran o gyfanswm costau yr AGFS ar gyfer cyfreithwyr eiriolwyr wedi gostwng o 22% yn 2015/16 i 13% yn 2019/20 neu, yn nhermau arian parod, o tua £51 miliwn i £28 miliwn. Er hynny, roedd cyfreithwyr eiriolwyr yn gyfrifol am ychydig mwy na 30% o'r pleon euog a cheisiadau eraill heb ymwneud â threial a wrandawyd yn Llys y Goron.

(ii) Tueddiadau yn niferoedd bargyfreithwyr trosedd

- 13.28 Nid gwaith syml yw canfod tueddiadau yn niferoedd y bargyfreithwyr sy'n ymarfer mewn gwaith cyfraith trosedd a ariennir gan y cyhoedd, sy'n cynnwys yr amddiffyniad a'r erlyniad. Yn y Casgliad Data, y ceir crynodeb o'i ganlyniadau yn Atodiad K, defnyddiwyd tri mesur i ganfod nifer y bargyfreithwyr hunangyflogedig yng Nghymru a Lloegr a gafodd dâl am gwblhau gwaith trosedd a ariennir gan y cyhoedd dros y cyfnod:
- "Unrhyw Drosedd" (AC) yw'r bargyfreithwyr hynny a wnaeth unrhyw waith trosedd cyhoeddus mewn blwyddyn benodol. Mae hyn yn cynnwys nifer na wnaethant ond ychydig o waith, felly rhaid bod yn ofalus. Gallai bargyfreithiwr wneud dau achos trosedd mewn un flwyddyn, a dim un y flwyddyn wedyn, ond gallai fod yn gamarweiniol casglu bod y proffesiwn wedi "colli" ymarferwr cyfraith trosedd ymroddedig.
 - Ymarfer Llawn Goblygedig (IFP), amcangyfrif dangosol o nifer yr arbenigwyr trosedd rhwng 2015-16 a 2019-20. Y diffiniad o'r rhain yw bargyfreithwyr sydd â'u hincwm o waith trosedd yn 80% o leiaf o ben isaf y band lle'r oeddent wedi cofnodi eu hincwm ar gyfer Cyngor y Bar mewn blwyddyn benodol. Er enghraifft, os bydd bargyfreithiwr yn cofnodi incwm gros yn y band £30,000-£60,000 y flwyddyn, rhaid i'w incwm o ffioedd trosedd cyhoeddus fod yn £24,000 o leiaf (80% o £30,000). Mae hwn hefyd yn fesur bras, yn gyntaf am y gall gynnwys bargyfreithwyr sy'n ymarfer mewn cyfraith trosedd yn rhannol yn unig (fel yn yr enghraifft hon) ac yn ail am y gall fod yn eithaf amrywiol, yn ôl "cymysgedd" ac amseriad incwm y bargyfreithiwr. Er enghraifft, os oedd incwm y bargyfreithiwr mewn blwyddyn ddilynol yn y band £60,000 i £90,000, a'i incwm o waith trosedd wedi cynyddu i £40,000, byddai bellach y tu allan i'r Grŵp IFP

(gan fod £40,000 yn llai na 80% o £60,000). Felly, yma eto, mae angen bod yn ofalus ynghylch y mesur hwn.

- Hunanddatgan Ymarfer Llawn (SFP); mae hon yn is-set i'r grŵp AC, yn cynnwys bargyfreithwyr sydd wedi datgan i Gyngor y Bar fod o leiaf 80% o'u hincwm gros o ffioedd yn y flwyddyn berthnasol wedi dod o waith trosedd. Mae'n debyg mai hwn yw'r mwyaf dibynadwy o'r tri mesur ac, er ei fod yn cynnwys llai o fargyfreithwyr nag sydd yn y grŵp AC, mae'n cynrychioli tua 90% o reffeniw'r grŵp AC. Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau ar gyfer y grŵp hwn ond ar gael ar gyfer 2018/19 a 2019/20.¹⁸³

13.29 Ar sail y ffigurau sydd ar gael, rhwng 2015/16 a 2019/20 roedd y nifer yn y grŵp AC wedi gostwng tua 6% (o 3,930 i 3,680) a'r nifer yn y grŵp IFP wedi gostwng oddeutu 9% (o 2,490 i 2,270).¹⁸⁴ Yn y grŵp SFP, roedd y nifer wedi gostwng rhwng 2018/19 a 2019/20 o 2,780 i 2,690, oddeutu 3%. Mae hyn wedi digwydd yng nghyd-destun gostyngiad cyffredinol yn nifer yr hawliadau o dan yr AGFS rhwng 2015/16 a 2019/20 o tua 26%.¹⁸⁵ Yn fy marn i, mae'r ffigurau hyn yn awgrymu i ryw raddau fod y gostyngiad cyffredinol yn nifer y bargyfreithwyr yn llai o'i gymharu â'r gostyngiad ym maint y gwaith.

13.30 Fodd bynnag, wrth edrych yn fanylach ar ffigurau'r grŵp AC am fargyfreithwyr iau, mae'n ymddangos bod gostyngiadau rhwng 2015/16 a 2019/20 yn nifer yr ymarferwyr yn y band 8-12 mlynedd o ymarfer (o 530 i 280, -47%), yn y band 13-17 flynedd (o 580 i 480, -17%), ac yn y band 18-22 flynedd (o 500 i 450, -10%). Ar y llaw arall, roedd y niferoedd wedi codi'n gyson yn y band 23+ blynedd (o 850 i 960, +13%).

13.31 Roedd nifer y bargyfreithwyr iau yn y grŵp AC yn y band 0 i 7 mlynedd hefyd wedi codi'n gyson yn yr un cyfnod o 950 yn 2015/16 i 1100 yn 2019/20 (+16%), er gwaethaf y gostyngiad cyffredinol ym maint y gwaith dros yr un cyfnod. Yn ôl Cyngor y Bar, mae'r galw am ddisgybleddau cyfraith trosedd wedi parhau'n fwy na'r nifer sydd ar gael yn ôl cymhareb o tua 10:1.

13.32 Mewn perthynas â Chwnsleriaid y Frenhines yn benodol, mae'r ffigurau am y grŵp AC yn dangos gostyngiad rhwng 2015/16 a 2019/20 o 520 i 400, tua -24%, a gostyngiad arbennig o fawr yn nifer Cwnsleriaid y Frenhines yn yr amrediad ymarfer 18-22 flynedd (o 140 i 40, gostyngiad o 67%). Nifer

¹⁸³ Sylwer ei bod yn bosibl hefyd fod y rhai ym mhob un o'r tri grŵp wedi cael reffeniw o waith trosedd y talwyd amdano'n breifat, er nad yw hyn wedi'i gofnodi yn unrhyw un o'r tablau data y cyfeirir atynt yn y testun.

¹⁸⁴ Mae'r gostyngiad yn nifer y bargyfreithwyr yn y grŵp IFP rhwng 2015/16 a 2019/20 wedi'i leddfu gan gynydd yn y ffigur yn ystod 2015/16. Pe byddid yn dechrau cymharu yn 2016/17, byddai'r gostyngiad yn 11%. Sylwer bod angen gofal wrth ddehongli pob un o'r ffigurau perthnasol. Er enghraifft, yn achos bargyfreithwyr AC, mae data gwaelodol y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dangos bod 796 o fargyfreithwyr ifanc a oedd yn gweithio yn 2016/17 nad oeddent yn gweithio yn 2019/20. Fodd bynnag, roedd 676 o fargyfreithwyr ifanc a oedd yn gweithio yn 2019/20 nad oeddent wedi gweithio yn 2016/17. Yn yr enghraifft hon, y gostyngiad net yw 120, tua 4%.

¹⁸⁵ Yn yr un cyfnod, roedd nifer yr hawliadau yn y Llys Ynadon hefyd wedi gostwng o 352,000 i 257,000, sef tua 27%, a hynny'n sicr o fod wedi effeithio ar y bargyfreithwyr iau hynny sy'n gwneud gwaith y Llys Ynadon a'r Llys Ieuencid.

Cwnsleriaid y Frenhines yn y grŵp SFP oedd 340 yn 2019/20. Mae'r ffigurau am y grŵp IFP yn dangos gostyngiad yn nifer Cwnsleriaid y Frenhines o 266 yn 2015/16 i 207 yn 2019/20, gostyngiad o 22%.¹⁸⁶

- 13.33 Un ffynhonnell data ychwanegol yw'r wybodaeth a ddarperir i Gyngor y Bar gan fargyfreithwyr sy'n adnewyddu eu tystysgrifau awdurdodiad i ymarfer. Mae hon yn dangos ar gyfer 2018/19 fod 5,110 o fargyfreithwyr a nododd eu bod yn gwneud gwaith trosedd ac, o'r rhain, roedd 2,670 wedi nodi eu bod yn arbenigwyr ar gyfraith trosedd – hynny yw, wedi datgan eu bod yn gweithio (neu'n bwriadu gweithio) ar faterion troseddol yn unig.¹⁸⁷ Yn 2019/20 roedd 5060 wedi datgan eu bod yn fargyfreithwyr trosedd ac, o'r rhain, roedd 2600 wedi nodi eu bod yn arbenigwyr ar gyfraith trosedd. Gostyngodd y nifer olaf hwn i 2440 yn 2020/21, er bod y nifer a oedd wedi datgan eu bod yn gwneud cymysgedd o waith trosedd a gwaith arall wedi codi o 2460 i 2580, gan wneud cyfanswm o 5020 o fargyfreithwyr a oedd wedi datgan eu bod yn fargyfreithwyr trosedd. Nid yw'r ffigurau ar gyfer 2021/22 (h.y. ar ôl anterth y pandemig) yn gyflawn eto ond, hyd yn hyn, mae 2420 o fargyfreithwyr a ddatganodd eu bod yn arbenigwyr ar gyfraith trosedd, a 2500 a ddatganodd fod eu hymarfer yn gymysg gan gynnwys trosedd, wedi adnewyddu eu tystysgrifau.
- 13.34 Mae'r ffigurau hyn, sy'n dibynnu ar fesur hunanddatgan y derbynnir ei fod braidd yn llac, yn awgrymu ar hyn o bryd fod y pandemig wedi cael llai o effaith gyffredinol nag a ofnwyd o'r blaen.
- 13.35 Mae'n bwysig cofio, o ystyried y gostyngiad sylweddol ym maint y gwaith rhwng 2015/16 a 2019/20, fod y gweithlu yn sicr o grebachu. A siarad yn gyffredinol, mae'n ymddangos nad yw'r niferoedd cyfan wedi gostwng cymaint ag y byddai rhywun yn ei ddisgwyl, o ystyried bod gostyngiad o 26% yn nifer yr achosion o dan yr AGFS¹⁸⁸, a gostyngiad o tua 8% yng ngwariant yr AGFS yn gyffredinol. Mae'r niferoedd sy'n ymuno â'r proffesiwn yn y band 0 i 7 mlynedd yn parhau i godi'n araf, ac mae nifer y ceisiadau am ddisgybleddau yn fwy o lawer na'r nifer o leoedd sydd ar gael.
- 13.36 Fodd bynnag, gan edrych ar y dystiolaeth yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod gostyngiad sylweddol wedi bod yn nifer y bargyfreithwyr trosedd yn y grŵp 8 i 22 flynedd o ymarfer. Mae'r rhan hyn o'r grŵp hwn yn cynnwys gostyngiad sylweddol yn nifer Cwnsleriaid y Frenhines, sydd i bob golwg ar y camau cynnar yn eu gyrfa fel Cwnsleriaid y Frenhines. Mae'n wir nad yw'r bargyfreithwyr hyn wedi'u "colli am byth" o reidwydd gan y Bar troseddol, gan

¹⁸⁶ Os edrychir ar ddata gwaelodol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, mae'n ymddangos bod 125 o Gwnsleriaid y Frenhines a oedd yn y grŵp IFP yn 2015/16 heb fod yn y grŵp hwnnw yn 2019/20. Fodd bynnag, roedd 66 o Gwnsleriaid y Frenhines nad oeddent yn bresennol yn y grŵp IFP yn 2015/16 yn bresennol yn 2019/20, gan roi gostyngiad net o 59, sef gostyngiad o 22%.

¹⁸⁷ Mae'r rhain yn debyg hefyd ond, oherwydd rhyw fymrwyl yn y diffiniad, nid ydynt yn hollol yr un fath â bargyfreithwyr SFP. Er mwyn cymharu, nifer yr "arbenigwyr ar gyfraith trosedd" o dan Gyngor y Bar ar gyfer 2018/19 a 2019/20 oedd 2670 a 2600, tra oedd y ffigurau am fargyfreithwyr SFP ar gyfer y blynyddoedd hynny yn 2460 a 2330 yn y drefn honno.

¹⁸⁸ Roedd nifer yr achosion mewn Llysoedd Ynadon wedi gostwng hefyd, a byddai hyn wedi gallu effeithio ar fargyfreithwyr iau hefyd.

ei bod yn bosibl eu bod mewn ymarfer annibynnol o hyd wrth y Bar. Fodd bynnag, am ba resymau bynnag, mae'r Bar troseddol wedi colli nifer sylweddol o aelodau talentog a phrofiadol dros y blynyddoedd diwethaf yn yr hyn y byddwn yn ei ystyried yn brif "bwerdy" y proffesiwn.

- 13.37 Mae'n ymddangos mai un o nodweddion y gostyngiad yw bod bargyfreithwyr benywaidd yn gadael ymarfer annibynnol. Fel y trafodir yn fwy manwl isod, yn ôl Cyngor y Bar mae'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ar y pwynt mynediad i'r proffesiwn wedi bod yn weddol gyfartal am flynyddoedd lawer. Fel y mae Tabl 32 yn Atodiad K yn dangos, lle'r oedd cydbwysedd y rhywiau rhwng dynion a menywod yn 2019/20 ar 0-2 flynedd ar ôl eu galw i'r Bar yn 47:53, erbyn 8-12 mlynedd ar ôl eu galw mae'r cydbwysedd wedi troi'n 65:34. Ar ôl hynny, mae cyfran y menywod yn gostwng yn gyffredinol nes bydd y cydbwysedd ar 23 i 27 mlynedd yn 75:25. Mae Cyngor y Bar, y CBA a'r YBC i gyd yn tynnu sylw at y duedd i fenywod adael y Bar. Codwyd y mater hwn gyda mi hefyd mewn cyfarfodydd Cylchdaith, lle y nodwyd yn arbennig yr anhawster o gyfuno gwaith y Bar troseddol a bywyd teuluol, o gofio hefyd am y ffioedd isel. Mae'n bosibl bod y patrwm hwn yn ymwneud hefyd â materion ethnigrwydd, fel y trafodir ymhellach isod.

(iii) Incymau bargyfreithwyr trosedd o ffioedd cyn talu treuliau yn 2019/20

- 13.38 Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth am incymau yn y Casgliad Data wedi'i seilio ar incymau bargyfreithwyr o ffioedd cyn didynnu treuliau. Fodd bynnag, mae bargyfreithwyr hunangyflogedig yn talu treuliau, a rhaid cofio hynny wrth ystyried y data isod am ffioedd cyn talu treuliau. Mae'r data canlynol wedi'u seilio ar y grŵp bargyfreithwyr SFP sydd wedi'i ddangos yn y Casgliad Data.
- 13.39 Mae incwm bargyfreithwyr o ffioedd gwaith trosedd cyhoeddus (cyn talu treuliau) am fargyfreithwyr SFP, yn ôl blynyddoedd o ymarfer, wedi'i ddangos yn Nhabl 13.1:

Tabl 13.1: Dosbarthiad incymau bargyfreithwyr SFP o ffioedd (cyn talu treuliau) yn 2019-20, yn ôl blynyddoedd o ymarfer

Blynyddoedd o ymarfer	Nifer y bargyfreithwyr	Chwartel isaf, £	Canolrif, £	Chwartel uchaf, £
0 i 2	220	11,600	25,100	42,700
3 i 7	350	43,700	65,000	88,300
8 i 12	200	56,300	81,600	109,000
13 i 17	380	61,100	85,600	111,900
18 i 22	400	60,200	88,800	115,400
23 i 27	420	67,000	97,400	130,000
28+	700	54,500	83,800	118,900
Y Cyfan	2,690	49,300	79,800	110,600

- 13.40 Pwynt pwysig i'w nodi yw'r amrywiadau mawr yn yr incwm o ffioedd a enillwyd gan fargyfreithwyr trosedd, yn enwedig ymysg bargyfreithwyr iau. Gan edrych yn fwy penodol ar y patrwm incwm cyn talu treuliau drwy gydol gyrfa ar gyfer yr holl fargyfreithwyr SFP, mae'r data uchod ar gyfer 2019-20 yn awgrymu bod ymarfer am 0-2 flynedd yn rhoi incwm canolrifol o £25,100; bod ymarfer am 3-7 mlynedd yn rhoi incwm canolrifol o £65,000; ac 8-12 mlynedd yn rhoi incwm canolrifol o £81,600. Mae'r incwm yn aros yn weddol wastad wedyn rhwng £80,000 a £90,000 o 13 blynedd i 22 flynedd, gan godi i £97,400 rhwng 23 a 27 mlynedd, ac yn gostwng eto wedyn.
- 13.41 At y darlun hwn, dylid ychwanegu dosbarthiad incymau bargyfreithwyr o ffioedd gwaith trosedd cyhoeddus (cyn talu treuliau) yn 2019/20 yn ôl rhywedd ac yn ôl ethnigrwydd, sydd wedi'u dangos yn Nhablau 13.2 a 13.3 isod.

Tabl 13.2: Dosbarthiad incymau bargyfreithwyr SFP o ffioedd (cyn talu treuliau) yn 2019-20, yn ôl rhywedd

Rhywedd	Nifer y bargyfreithwyr	Chwartel isaf, £	Canolrif, £	Chwartel uchaf, £
Gwrywaidd	1,860	56,400	86,300	117,100
Benywaidd	810	35,100	64,500	94,000
Dewis peidio â dweud/ dim gwybodaeth	20	42,400	82,000	107,400
Y Cyfan	2,690	49,300	79,800	110,600

Tabl 13.3: Dosbarthiad incymau bargyfreithwyr SFP o ffioedd (cyn talu treuliau) yn 2019-20, yn ôl ethnigrwydd

Ethnigrwydd	Nifer y bargyfreithwyr	Chwartel isaf, £	Canolrif, £	Chwartel uchaf, £
Gwyn	2,180	50,400	80,600	110,900
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	140	37,000	76,300	103,800
Grwpiau cymysg neu amlethnig	70	41,600	69,000	97,700
Du, Affricanaidd, Caribiaidd, neu Ddu Prydeinig	70	28,600	61,000	102,400
Grŵp ethnig arall	30	42,700	73,700	107,200
Dewis peidio â dweud/ dim gwybodaeth	190	57,600	84,300	115,900
Y Cyfan	2,690	49,300	79,800	110,600

13.42 Mae'r tablau hyn yn dangos bod bargyfreithwyr benywaidd yn ennill llai ar y cyfan na bargyfreithwyr gwrywaidd o waith trosedd cyhoeddus, ac mae hyn yn wir hefyd am fargyfreithwyr BAME, o'u cymharu â bargyfreithwyr gwyn. Rwyf yn ystyried hyn yn fwy manwl isod.

(iv) Incymau bargyfreithwyr trosedd o ffioedd gwaith trosedd cyhoeddus ar ôl talu treuliau yn 2019/20

13.43 Yn fy marn i, ni ellir cael darlun cywir drwy ddibynnu ar ffigurau am incymau o ffioedd trosedd cyhoeddus cyn talu treuliau, gan fod rhaid i fargyfreithwyr ysgwyddo treuliau eu practis, yn cynnwys rhent a gorbenion y siambrau, costau TG, costau teithio, yswiriant indemnio, cyfrifyddu, costau tystysgrif ymarfer a chydymffurfio, tanysgrifiadau proffesiynol a chostau eraill. Ar sail y wybodaeth sydd ar gael, mae'r treuliau hyn fel arfer yn dod i 20-30% o'r incwm gros o ffioedd am dreuliau (o'r holl ffynonellau) er ei bod yn anodd gwirio'r ffigur hwn yn fanwl: gweler yn gyffredinol Atodiad L.

13.44 Mae Tabl 13.4 yn dangos yr incymau canolrifol o ffioedd (cyn ac ar ôl talu treuliau) ar gyfer bargyfreithwyr trosedd am wneud gwaith cyfraith trosedd cyhoeddus yn ôl blynyddoedd o ymarfer. Mae Tablau 13.5 a 13.6 yn dangos yr un wybodaeth yn ôl rhywedd ac ethnigrwydd. Mae'r incwm ar ôl talu treuliau wedi'i ddangos ar sail yr amrediadau tebygol:

Tabl 13.4: Incymau canolrifol bargyfreithwyr SFP o ffioedd gwaith trosedd cyhoeddus (cyn ac ar ôl talu treuliau) yn ôl blynyddoedd o ymarfer yn 2019/20

Blynyddoedd o ymarfer	Incwm canolrifol o ffioedd cyn talu treuliau	Amrediad tebygol yr incwm o ffioedd ar ôl talu treuliau
0	12,800	9,000 i 10,300
1	23,700	16,600 i 19,000
2	42,900	30,000 i 34,300
3 i 7	65,000	45,500 i 52,000
8 i 12	81,600	57,100 i 65,300
13 i 17	85,600	59,900 i 68,500
18 i 22	88,800	62,200 i 71,000
23 i 27	97,400	68,200 i 78,000
28+	83,800	58,700 i 67,100
Y Cyfan	79,800	55,900 i 63,900

- 13.45 Mae'r incwm canolrifol o ffioedd gwaith trosedd cyhoeddus cyn talu treuliau yn ogystal ag amrediadau tebygol yr incwm o ffioedd gwaith trosedd cyhoeddus ar ôl talu treuliau wedi'u dangos yn ôl rhywedd yn Nhabl 13.5, ar gyfer 2019/20.

Tabl 13.5: Incymau canolrifol bargyfreithwyr SFP o ffioedd gwaith trosedd cyhoeddus (cyn ac ar ôl talu treuliau) yn ôl rhywedd yn 2019/20

Blynyddoedd o ymarfer	Incwm canolrifol dynion o ffioedd cyn talu treuliau	Incwm canolrifol menywod o ffioedd cyn talu treuliau	Incwm tebygol dynion o ffioedd ar ôl talu treuliau	Incwm tebygol menywod o ffioedd ar ôl talu treuliau
0	17,900	10,900	12,500 i 14,300	7,600 i 8,700
1	26,900	15,300	18,800 i 21,500	10,700 i 12,300
2	42,900	43,700	30,000 i 34,300	30,600 i 35,000
3 i 7	71,100	59,000	49,800 i 56,900	41,300 i 47,200
8 i 12	89,000	68,600	62,300 i 71,200	48,100 i 54,900
13 i 17	93,400	75,500	65,400 i 74,700	52,900 i 60,400
18 i 22	93,500	75,400	65,500 i 74,800	52,800 i 60,300
23 i 27	101,200	79,000	70,900 i 81,000	55,300 i 63,200
28+	85,200	77,500	59,700 i 68,200	54,200 i 62,000
Y Cyfan	86,300	64,500	60,400 i 69,000	45,100 i 51,600

13.46 Mae Tabl 13.5 yn dangos yn gyffredinol, ar gyfer 2019-20, fod incwm canolrifol bargyfreithwyr gwrywaidd o ffioedd gwaith trosedd cyhoeddus yn 34% yn uwch nag ar gyfer bargyfreithwyr benywaidd, er bod y gwahaniaeth hwn yn amrywio yn ôl blynyddoedd o ymarfer. Mae'n drawiadol iawn bod bargyfreithwyr benywaidd â'r un hynafedd yn wastad yn ennill llai ar gyfartaledd na bargyfreithwyr gwrywaidd.

13.47 Mae'r incwm canolrifol o ffioedd cyhoeddus yn 2019/20 cyn ac ar ôl talu treuliau yn ôl ethnigrwydd wedi'i ddangos yn Nhabl 13.6:

Tabl 13.6: Incymau bargyfreithwyr SFP o ffioedd gwaith trosedd cyhoeddus (cyn ac ar ôl talu treuliau) yn ôl ethnigrwydd yn 2019/20

Blynyddoedd o ymarfer	Incwm canolrifol bargyfreithwyr Gwyn o ffioedd cyn talu treuliau	Incwm canolrifol bargyfreithwyr BAME o ffioedd cyn talu treuliau	Incwm tebygol bargyfreithwyr Gwyn o ffioedd ar ôl talu treuliau	Incwm tebygol bargyfreithwyr BAME o ffioedd ar ôl talu treuliau
0	12,700	16,200	8,900 i 10,100	11,300 i 12,900
1	24,200	14,300	16,900 i 19,400	10,000 i 11,400
2	45,900	27,200	32,200 i 36,700	19,100 i 21,800
3 i 7	66,900	54,000	46,800 i 53,500	37,800 i 43,200
8 i 12	81,600	75,600	57,100 i 65,300	52,900 i 60,500
13 i 17	85,900	79,600	60,100 i 68,700	55,700 i 63,700
18 i 22	89,400	86,300	62,600 i 71,500	60,400 i 69,000
23 i 27	98,600	82,800	69,100 i 78,900	58,000 i 66,300
28+	83,500	84,500	58,500 i 66,800	59,100 i 67,600
Y Cyfan	80,600	72,400	56,400 i 64,400	50,700 i 57,900

13.48 Mae Tabl 13.6 yn dangos bod bwlch sylweddol o blaid bargyfreithwyr gwyn ym mlynnyddoedd 1 a 2, sy'n parhau, er ei fod yn lleihau, tan flynyddoedd 18-22, pan fydd y bwlch bron â chau, gan gynyddu rywfaint ym mlynnyddoedd 23 i 27 ac aros yn weddol gyfartal ym mlynnyddoedd 28+. Yn gyffredinol, mae amrediad incwm bargyfreithwyr BAME o ffioedd gwaith trosedd cyhoeddus (ar ôl talu treuliau) oddeutu 10% yn is na'r incwm cyfatebol ymysg bargyfreithwyr gwyn, ond bydd y ffigur cyffredinol hwnnw'n cuddio gwahaniaethau rhwng gwahanol grwpiau ethnig a rhwng y rhywiau yn y grwpiau hynny. Yn fy marn i, dylid ystyried Tablau 13.5 a 13.6 gyda'i gilydd gan ei bod yn bosibl bod enillion isel bargyfreithwyr benywaidd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn cyfrannu at yr enillion canolrifol is ymysg bargyfreithwyr benywaidd yn gyffredinol.

(v) *Incymau bargyfreithwyr trosedd o ffioedd o'u cymharu â'r Bar cyfan*

- 13.49 Roedd Cyngor y Bar hefyd wedi cyflwyno ffigurau a gafwyd gan y Bar Mutual,¹⁸⁹ a oedd yn cynnwys incymau cyfartalog o ffioedd gwaith trosedd cyn talu treuliau wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant dros gyfnod o 20 mlynedd rhwng 2000 a 2020. Er ei bod yn anochel bod ffigurau'r Bar Mutual yn rhai bras, maent yn awgrymu mai enillion cyfartalog bargyfreithwyr gwrywaidd a benywaidd cyn talu treuliau yn 2020 mewn ymarfer cyfraith trosedd oedd £101,000 a £62,000 yn y drefn honno. Mae hynny'n cymharu ag enillion cyfartalog gan ddynion a menywod a gofnodwyd ar gyfer y Bar cyfan o £89,000 a £55,000 yn y drefn honno. Er mwyn cymharu, mewn gwaith cyfraith teulu (plant), lle mae mwy o fargyfreithwyr benywaidd na rhai gwrywaidd yn ôl cymhareb o 59:41, roedd yr incwm gros o ffioedd ar gyfer bargyfreithwyr gwrywaidd a bargyfreithwyr benywaidd fel ei gilydd oddeutu £80,000 yn 2020. Er hynny, yn 2020 mewn gwaith cyfraith teulu (arall) lle y ceir hefyd fwy o fargyfreithwyr benywaidd na rhai gwrywaidd, roedd y sefyllfa fel arall, a'r bargyfreithwyr benywaidd yn ennill £34,000 ar gyfartaledd a'r bargyfreithwyr gwrywaidd yn ennill tua £59,000. Mewn gwaith cyfraith cyflogaeth, gan gymryd enghraifft arall, yn 2020 roedd bargyfreithwyr gwrywaidd yn ennill £66,000 ar gyfartaledd a bargyfreithwyr benywaidd yn ennill £55,000. Er bod yr enillion cyfartalog yn uwch o lawer mewn rhai meysydd eraill fel cyfraith fasnachol, mae'n ymddangos bod ffigurau'r Bar Mutual, beth bynnag fo'u gwerth, yn awgrymu nad yw lefel enillion bargyfreithwyr trosedd yn anghyson â rhai'r Bar cyfan, neu â meysydd eraill fel cyfraith teulu neu gyfraith cyflogaeth. Ar y llaw arall, nid yw ffigurau'r Bar Mutual yn gwahaniaethu rhwng enillion ar sail hynafedd neu rhwng gwaith a ariennir yn gyhoeddus a gwaith preifat.
- 13.50 Fodd bynnag, yr hyn y mae ffigurau'r Bar Mutual yn ei ddangos yw bod enillion bargyfreithwyr trosedd yn 2000 wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant (h.y. yn nhermau heddiw) yn £107,000 ar gyfer bargyfreithwyr gwrywaidd ac yn £52,000 ar gyfer bargyfreithwyr benywaidd. Rhwng 2000 a 2005 roedd yr incymau hynny wedi cynyddu'n sylweddol, gan fod bargyfreithwyr gwrywaidd yn 2005 yn ennill £150,000 ar gyfartaledd a bargyfreithwyr benywaidd yn ennill £80,000, o'u cymharu â'r cyfartaledd ar gyfer y Bar bryd hynny o £67,000 a £41,000 yn y drefn honno. Yn dilyn pryderon Llywodraeth ar y pryd am gost gynyddol cymorth cyfreithiol, roedd Adolygiad Carter yn 2006 wedi mynd ati i gymedroli gwariant cyhoeddus ar gymorth cyfreithiol troseddol, fel y disgrifiwyd ym Mhennod 4. Roedd incymau cyfartalog ymarferwyr trosedd o ffioedd wedi gostwng yn sylweddol ar ôl 2005. Yn ôl ffigurau'r Bar Mutual, erbyn 2016 yr incymau cyfartalog o ffioedd i fargyfreithwyr trosedd oedd £105,000 i fargyfreithwyr gwrywaidd a £65,000 i fargyfreithwyr benywaidd, er eu bod yn uwch o hyd nag enillion cyfartalog y Bar cyfan, sef £82,000 a £48,000 yn y drefn honno. Er 2016, yn ôl ffigurau'r Bar Mutual, mae incymau gros bargyfreithwyr trosedd, ar ôl eu haddasu ar gyfer chwyddiant, wedi lleihau mewn termau real oddeutu 5% ar gyfer bargyfreithwyr benywaidd a 4% ar gyfer bargyfreithwyr gwrywaidd, er eu bod yn uwch na chyfartaledd y Bar o hyd.

¹⁸⁹ *Barrister earnings data by sex and practice area 20-year trends report, September 2021*. Yn ôl yr hyn y mae'r Adolygiad yn ei ddeall, mae'r ffigurau hyn wedi'u seilio ar amcangyfrifiadau o incwm cyfartalog a gyflwynwyd i'r Bar Mutual gan y bargyfreithwyr eu hunain i ddibenion yswiriant. D.S. ni wnaed didyniadau ar gyfer treuliau yn y set ddata hon.

Dadansoddiad

13.51 Y cwestiwn hanfodol i'w ofyn, yng ngoleuni'r uchod, yw a yw'r Bar troseddol yn gynaliadwy ar y lefelau tâl presennol. Os nad yw, a ddylid cynyddu ffioedd o dan yr AGFS ac, os felly, o faint ac ym mha ffordd? Mae angen ystyried y cwestiynau hyn o safbwynt y budd i'r cyhoedd. Yn gyntaf, byddaf yn ystyried y mater o gynydd cyffredinol mewn ffioedd ac yn troi wedyn at strwythur yr AGFS. Fel y trafodwyd eisoes mewn perthynas â ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol, y prif gwestiwn yw pa allu sydd gan y Bar troseddol i ddenu a chadw'r talent a'r profiad sydd eu hangen i gynnal y system cyfiawnder troseddol a hynny, yn anad dim, yng nghyd-destun y cynnydd disgwyledig yn y galw a'r ôl-groniad presennol.

Sylwadau Rhagarweiniol

13.52 Gallaf ddeall yn iawn y teimladau cryf a fynegir yn aml gan y Bar troseddol, ac a rennir gan eraill, ynghylch y tanariannu ac anawsterau cyffredinol yn y SCT, ac yn fwy na dim am effaith aruthrol y pandemig, yn arwain at forâl isel a theimlad cyffredinol nad oes neb yn gweld gwerth yn yr ymdrechion gan gyfreithwyr trosedd i gynnal buddiannau cyfiawnder.

13.53 Rwyf yn cofnodi fy marn y dylai'r Llywodraeth a'r cyhoedd weld gwerth mawr yng ngwaith cyfreithwyr trosedd yn gweithio ym maes cymorth cyfreithiol. Am y rhesymau y byddaf yn dod atynt yn y man, rwyf yn bwriadu argymhell cynnydd cyffredinol yng nghyfraddau'r AGFS, fel rwyf eisoes wedi'i argymhell yn wir yng nghyd-destun y cynlluniau ffioedd sy'n effeithio'n bennaf ar ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol.

13.54 Wedi dweud hynny, yn fy marn i ni ddylid diystyru dwy elfen sy'n agwedd bwysig ar yr anawsterau sy'n wynebu'r proffesiwn, sef y gostyngiad yn y galw hyd yn ddiweddar am waith trosedd; a materion yn ymwneud ag amrywiaeth sydd heb eu datrys.

Y gostyngiad yn y galw am waith trosedd

13.55 Fel y nodwyd uchod, yn y cyfnod rhwng 2015/16 a 2019/20, cafwyd gostyngiad cyffredinol o tua 26% mewn gwaith o dan yr AGFS, gyda 30% yn llai o dreialon, a 44% yn llai o bleon euog. Byddai'r agwedd honno, sydd heb gysylltiad â chyfraddau cymorth cyfreithiol troseddol, yn sicr o gael effaith ddifrifol ar unrhyw broffesiwn. Yn y rhan fwyaf o farchnadoedd arferol, byddai'r cyflenwad yn crebachu'n sydyn. Fodd bynnag, wrth edrych ar bob agwedd ar y data, ceir awgrym bod y gostyngiad yn y niferoedd cyffredinol gryn dipyn yn llai nag y gellid bod wedi'i ddisgwyl. Yn wir, roedd nifer y bargyfreithwyr â 0-7 mlynedd o ymarfer wedi codi 16% rhwng 2015-16 a 2019-20. Nid yw ffigurau'r Casgliad Data yn mynd yn bellach yn ôl na 2015/16, ond mae'n ddigon diddorol bod Syr Bill Jeffrey wedi nodi yn 2014 fod "many more advocates than there is work for them to do".¹⁹⁰ Ers hynny, mae meintiau'r gwaith wedi lleihau ymhellach.

¹⁹⁰ [Review of the provision of independent criminal advocacy \(publishing.service.gov.uk\)](https://www.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/784442/Review_of_the_provision_of_independent_criminal_advocacy.pdf), tudalen 48

- 13.56 Yn fy marn i, un broblem fawr a brofodd y Bar troseddol er 2015/16 ar y cynharaf a hyd yn ddiweddar, oedd lleihad cyffredinol yn y gwaith, yn enwedig ar ôl cyfyngu diwrnodau eistedd yn 2018/19. Er ei bod yn hollol ddealladwy y byddai proffesiwn yn y sefyllfa hon yn pwysu am ffioedd uwch i wneud iawn am ostyngiad cyffredinol mewn incwm, un o'r prif broblemau sylfaenol yn y gorffennol oedd diffyg cyfatebiaeth rhwng y cyflenwad a'r galw.
- 13.57 Yn y cyd-destun hwn, mae'n ymddangos i mi fod Syr Bill Jeffrey wedi rhoi ei fys ar bwynt pwysig wrth wneud y sylwadau hyn am siambrau bargyfreithwyr: ***"when the available work reduces, the devices available to managed businesses in the private and public sectors – and in particular the shedding of longer-established people to make way for new talent – are not available"*** (y pwyslais yn y gwreiddiol).¹⁹¹ Mae hynny, yn fy marn i, yn egluro'n rhannol o bosibl pam mae llai o waith wedi "treiglo i lawr" yn y blynyddoedd diwethaf oddi wrth fargyfreithwyr hŷn at fargyfreithwyr mwy ifanc, er bod nifer o siambrau da yn gwneud eu gorau glas yn hyn o beth.
- 13.58 Fodd bynnag, rydym mewn sefyllfa wahanol bellach, yn wyneb y cynnydd tebygol yn y galw dros y blynyddoedd nesaf, a'r ôl-groniad presennol yn y Llysoedd. Mae'r ffactorau olaf hyn yn hanfodol i'm dadansoddiad.

Oed, Rhywedd ac Ethnigrwydd

- 13.59 Yr ail agwedd gymhleth yw amrywiaeth. Un o'r prif ddadleuon a gyflwynir dros gynyddu cyfraddau cymorth cyfreithiol troseddol yw bod y Bar yn broffesiwn sy'n heneiddio, bod gormod o fenywod yn gadael gwaith cyfraith troseddol ar ôl ychydig o flynyddoedd, a bod y rheini o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn ei chael yn anodd dal ati, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar. Un cwestiwn i'w ofyn yw i ba raddau y gellir priodoli'r tueddiadau hyn i gyfraddau cymorth cyfreithiol troseddol neu eu datrys drwyddynt.
- 13.60 O ran yr heneiddio yn y proffesiwn, mewn Adroddiad diweddar gan Fwrdd Safonau'r Bar,¹⁹² daethpwyd i'r casgliad bod y Bar cyfan wedi heneiddio dros y 30 mlynedd diwethaf, a'r oed cyfartalog wedi codi o 38.5 blynedd yn 1990/91 i 46.5 blynedd yn 2019/20. Bellach mae 40% o fargyfreithwyr sy'n ymarfer yn hŷn na 50 oed, ac mae 15% yn hŷn na 60 oed erbyn hyn. Mae cyfran y rheini sy'n iau na 35 oed wedi lleihau dros yr un cyfnod o tua 40% i tua 18%. Mae Tabl 5.11 yn y Casgliad Data wedi'i gyflwyno ar sail braidd yn wahanol ond yn dangos, ar gyfer 2019/20, yn achos bargyfreithwyr SFP, fod tua 44% o'r Bar troseddol yn hŷn na 45 oed ac mai tua 13% oedd cyfran y rheini o dan 35 oed. Rwyf yn deall mai oed canolrifol bargyfreithwyr SFP oedd 47 yn 2019-20, a'u hoed cymedrig yn 46. Mae hyn yn awgrymu bod nodweddion y Bar troseddol yn debyg i rai'r Bar cyfan o ran heneiddio.

¹⁹¹ [Review of the provision of independent criminal advocacy \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk), ar dudalen 50.

¹⁹² [Trends-in-demographics-and-retention-at-the-Bar-1990-2020-Full-version.pdf \(barstandardsboard.org.uk\)](https://barstandardsboard.org.uk)

- 13.61 Mae'r ffaith nad yw'r heneiddio yn y proffesiwn yn unigryw i'r Bar troseddol yn awgrymu bod ffactorau eraill ar waith, yn hytrach na chyfraddau cymorth cyfreithiol troseddol yn unig.
- 13.62 O ran y menywod sy'n gadael y Bar troseddol, mae'r un Adroddiad gan Fwrdd Safonau'r Bar yn nodi bod cyfran y menywod sy'n gadael y Bar yn gyffredinol yn uwch nag y gellid ei ddisgwyl, ac mai'r prif reswm oedd yr anhawster o gyfuno gyrfa â chyfrifoldebau gofalu.¹⁹³ Dywedwyd wrthyf fod cyfuno cyfrifoldebau gofalu ag ymarfer cyfraith trosedd yn y Bar troseddol yn arbennig o anodd, yn rhannol oherwydd natur anrhagweladwy'r trefniadau rhestru, yr anhawster pan geir cyfarwyddiadau'n hwyr, a phwysau cyffredinol y gwaith. Yn y cyswllt hwn hefyd, mae'n debygol yn fy marn i mai un ffactor yn unig mewn cymysgedd cymhleth o ffactorau yw'r cyfraddau cymorth cyfreithiol troseddol eu hunain.
- 13.63 Gyda golwg ar enillion cymharol, mae'r data ar gyfer 2019-20 yn awgrymu bod bargyfreithwyr benywaidd yn ennill llai ar gyfartaledd na dynion sydd wedi ymarfer am yr un nifer o flynyddoedd, a bod bargyfreithwyr lleiafrifol ethnig hefyd yn ennill llai ar y cyfan na'r cymheiriaid gwyn sy'n cyfateb iddynt. Yma eto, mae Adroddiad gan Fwrdd Safonau'r Bar *Income at the Bar by Gender and Ethnicity* yn 2020¹⁹⁴ yn cadarnhau bod y sefyllfa hon yn bodoli yn y Bar cyfan. Yn ogystal â hyn, mae Adroddiad pwysig gan Gyngor y Bar *Race at the Bar A Snapshot*¹⁹⁵ a gyhoeddwyd ychydig cyn cwblhau'r Adolygiad hwn, wedi cadarnhau barn Cyngor y Bar bod bargyfreithwyr o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn wynebu rhwystrau systemig wrth ddatblygu a hyrwyddo gyrfa gynaliadwy a buddiol wrth y Bar.¹⁹⁶
- 13.64 Mae'r canfyddiadau olaf hyn yn wirioneddol ddifrifol ac yn peri pryder ond rwyf yn ei chael yn anodd gweld mai cyfraddau cymorth cyfreithiol troseddol yw'r achos sylfaenol i wahaniaethau sy'n effeithio ar y Bar cyfan i bob golwg. Rwyf yn derbyn y byddai cynnydd cyffredinol yng nghyfraddau cymorth cyfreithiol troseddol yn lleddfu'r pwysau sy'n codi o ganlyniad i'r gwahaniaethau hyn ond, yn fy marn i, ni fyddai'n delio â'r gwahaniaethau eu hunain. Mae'r olaf yn amlygu problem ddifrifol. Yn fy marn i, rhaid i Gyngor y Bar a Bwrdd Safonau'r Bar fynd at wraidd yr hyn sy'n digwydd ar fyrder a'i gywiro, fel y trafodir ymhellach ym Mhennod 15 isod.

Y Rhesymau o Blaid Cynyddu Cyllid i'r AGFS

- 13.65 Er hynny, yn fy marn i, fe ddylid cynyddu'r cyllid sydd ar gael i'r AGFS, ac rwyf yn dod at fy rhesymau dros ddod i'r casgliad hwnnw.

Y mesurau yn 2018 a 2020

- 13.66 Mae angen cofio'n gyntaf, fel y nodwyd ym Mhennod 4, fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2018 wedi cytuno â'r Bar, yng nghyd-destun bygythiad i

¹⁹³ Ibid. t.11

¹⁹⁴ [Income-at-the-Bar-by-Gender-and-Ethnicity-Final.pdf \(barstandardsboard.org.uk\)](https://www.barstandardsboard.org.uk/income-at-the-bar-by-gender-and-ethnicity-final.pdf)

¹⁹⁵ [Race-at-the-Bar-Report-2021.pdf \(barcouncil.org.uk\)](https://www.barcouncil.org.uk/race-at-the-bar-report-2021.pdf)

¹⁹⁶ Gweler y prif ganfyddiadau, tudalen 8.

weithredu gan darfu ar eraill, y byddai'n chwistrellu cyllid ychwanegol i'r AGFS a oedd wedi'i brisio ar y pryd ar gost flynyddol o £23 miliwn;¹⁹⁷ a'i bod wedi'i amcangyfrif yn Awst 2020 y byddai mabwysiadu'r mesurau carlam yn creu cynnydd o £19- 26 miliwn o'i gymharu â 2019/20.

- 13.67 Cyn bod yr holl newidiadau hyn wedi gallu dod drwy'r system, daeth y pandemig ar ein traws. Telir yn well yn awr nag o'r blaen am dreialon chwâl ond cafwyd llai na'r disgwyl o hawliadau am adolygu deunydd nas defnyddiwyd.¹⁹⁸ Yn yr amgylchiadau hyn, ac yn enwedig yng ngolwg y niwed sylweddol o ganlyniad i'r pandemig, a'r ystumio ar batrymau gwaith yn sgil hynny, nid yw'n glir ar hyn o bryd i ba raddau y bydd y mesurau yn 2018 a 2020 yn gallu effeithio yn y pen draw ar "gyflog net" bargyfreithwyr trosedd. Yn fy marn i, ni ellir dibynnu ar y mesurau yn 2018 neu 2020 i gynnig yr holl atebion i ddatrys sefyllfa'r Bar troseddol.

Incymau bargyfreithwyr trosedd o ffioedd ar ôl talu treuliau

- 13.68 Yn fy marn i, y canllaw gorau ar gyfer asesu incwm bargyfreithwyr o ffioedd am waith trosedd a ariennir gan y cyhoedd yw amrediadau tebygol yr incwm o ffioedd ar ôl talu treuliau a ddangosir yn Nhabl 13.4 uchod. Yn syml, ar gyfer bargyfreithwyr trosedd yn gyffredinol, ac wrth gymryd pwynt canol yr amrediad er hwylustod, mae'r ffigurau am 2019-20 yn awgrymu bod yr incymau o ffioedd (ar ôl talu treuliau) yn isel iawn ym mlynnyddoedd 1 a 2, a'u bod yn codi i tua £30,000 ar ôl 2 flynedd, sef ar gyfer bargyfreithwr sydd oddeutu 33 oed, gan fod y dystiolaeth yn dangos mai'r oed cyfartalog wrth ddechrau ymarfer bellach yw tua 30. Ar 3 i 7 mlynedd, h.y. hyd at y 30au hwyr, y ffigur cyfatebol yw tua £49,000; ar 8-12 mlynedd – h.y. ar ôl cyrraedd y 40au – mae oddeutu £60,000; ac wedyn mae'n aros ar lefel weddol gyson o tua £65,000 rhwng blynnyddoedd 13 i 27 (h.y. hyd at oddeutu 60 mlwydd oed); ac yn gostwng ar ôl hynny. Ar gyfer Cwnsler y Frenhines sy'n "cael sidan" ar ôl tua 20 mlynedd o ymarfer, y pwynt canol yw incwm cychwynnol o ffioedd o tua £95,000 (ar ôl talu treuliau), yn codi i tua £115,000 ac wedyn yn gostwng.
- 13.69 Yn fy marn i, nid yw incymau o'r maint hwn yn hael o'u cymharu ag enillion eraill yn y sector cyhoeddus yn y gwahanol grwpiau cymheiriaid sydd wedi'u disgrifio yn Atodiad I. Mae hynny'n arbennig o wir o gofio nad yw'r gydnabyddiaeth ariannol uchod yn cynnwys unrhyw fuddion o ran pensiwn, tâl salwch, absenoldeb mamolaeth, gwyliau â thâl neu fuddion eraill. Yn ogystal â hyn, ffactor pwysig i'w gofio yw'r ddyled sylweddol a fydd gan fargyfreithwyr mwy ifanc yn sgil eu haddysg.

¹⁹⁷ [Amending the Advocates' Graduated Fee Scheme - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/amending-the-advocates-graduated-fee-scheme)

¹⁹⁸ Yn ei Monday Message, dyddiedig 27 Medi, galwodd y CBA am hawlio'r ffi hon gan fwy o'i haelodau:

"A gentle reminder to make sure you claim the fixed fee for reading unused material (0-3 hours). It applies to all (non-guilty plea) cases in the Crown Court where the Representation Order was granted on or after 17.09.20. Fewer than half of advocates are currently claiming their entitlement even though no supporting information needs to be provided and you just have to tick three boxes. I know that we are all exhausted and the pace of listings means that we barely get time to catch our breath these days, but every little bit helps."

13.70 Os edrychir wedyn ar fargyfreithwyr benywaidd, mae Tabl 13.5 uchod yn dangos bod yr incwm a gaiff bargyfreithwyr benywaidd o ffioedd, wedi'r ddwy flynedd cyntaf, ar ôl ymarfer am nifer tebyg o flynyddoedd, yn llai na'r hyn a gaiff bargyfreithwyr gwrywaidd a'i fod, o ganlyniad, yn llai na'r ffigurau am incwm canolrifol o ffioedd y cyfeiriwyd atynt uchod. Mae'r un peth yn wir am fargyfreithwyr BAME, fel y mae Tabl 13.6 yn dangos, yn enwedig yn y blynyddoedd cyntaf o ymarfer. Nid oes gennyf le i amau barn Cyngor y Bar bod incwm menywod BAME, yn enwedig menywod du, ar waelod y raddfa. Er bod ffactorau heblaw'r cyfraddau cymorth cyfreithiol troseddol eu hunain yn effeithio ar y gwahaniaethau hyn o ran rhywedd ac ethnigrwydd, fel y trafodwyd uchod, mae'r ffaith yn aros bod rhan bwysig o'r gweithlu cymorth cyfreithiol troseddol yn cael tâl sydd hyd yn oed yn llai na'r cyfartaleddau canolrifol y cyfeiriwyd atynt yn Nhabl 13.4 uchod. Mae hynny'n anhawster arbennig yng nghyswllt cadw staff.

Cynaliadwyedd er budd y cyhoedd

13.71 Y cwestiwn i'w ofyn o safbwynt budd y cyhoedd yw a yw incymau o ffioedd ar y graddau hyn yn debygol o allu cynnal y Bar troseddol ym maes cymorth cyfreithiol o hyn ymlaen os na cheir cynnydd mewn cyllid. Yn y cyswllt hwnnw, y cwestiwn yw nid a oes "digon" o fargyfreithwyr i ateb y galw. Yr hyn sydd ei angen yw'r gallu i ddenu a chadw bargyfreithwyr o'r ansawdd sydd ei angen i wneud gwaith anodd ac ymestynnol, gan ysgwyddo cyfrifoldeb mawr iawn am gyfleoedd bywyd yr unigolyn a'r posibilrwydd o golli rhyddid. O ystyried y rôl ganolog sydd i'r system gyfiawnder mewn cymdeithas yn gyffredinol, rwyf o'r farn bod budd mawr i'r cyhoedd yn y gallu i ddenu'r rhai gorau a mwyaf disglair at waith cymorth cyfreithiol.

13.72 Fel y nodwyd ym Mhennod 1, camgymeriad yn fy marn i yw meddwl am gymorth cyfreithiol troseddol yn yr ystyr gyfyng o "gyllido'r amddiffyniad" yn unig. O ran yr eiriolwyr, mae cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol yn erlyn ac yn amddiffyn; mae'r CPS yn dibynnu i raddau mawr ar y gallu i recriwtio cyfreithwyr trosedd profiadol o blith cyfreithwyr ac eiriolwyr amddiffyn; mae'r un peth yn wir am nifer o awdurdodau cyhoeddus eraill; cyfreithwyr sy'n ymarfer yng nghyfraith trosedd yw'r brif ffynhonnell ar gyfer recriwtio barnwyr rhanbarth, cofiaduron, a barnwyr Llys y Goron, y bydd nifer os nad y rhan fwyaf ohonynt wedi ennill eu profiad drwy wneud gwaith cymorth cyfreithiol troseddol.

13.73 Mae'r SCT yn dibynnu yn ei thro ar fodolaeth cnewyllyn o eiriolwyr medrus a phrofiadol sy'n cael ei adnewyddu'n gyson i ddelio â'r achosion mwy cymhleth. Mae achosion o'r fath yn sicr o gynnwys y troseddau difrifol sy'n ymwneud â cholli bywyd, treisio, trais difrifol, twyll, cyffuriau ac yn y blaen. Ar ben hynny, ceir materion anodd fel y gallu i dderbyn tystiolaeth, sail y ple, dedfrydu, delio â diffynyddion ifanc neu agored i niwed, a nifer o faterion eraill, sydd ymhell o fod yn gyfyngedig i achosion difrifol iawn. Felly mae ar y system angen cronfa gynaliadwy o eiriolwyr ar bob lefel o brofiad sy'n gallu delio â phob math o achosion, gan symud ymlaen yn raddol at achosion trymach sy'n cymryd mwy o amser ac yn galw am sylw mawr i fanylion a llawer o waith paratoi.

- 13.74 Yn y rhan fwyaf o achosion o dan yr AGFS, bydd y canlyniadau i wallau yn ddifrifol iawn i'r diffynnydd. Ar wahân i'r ffaith ei fod yn ddrud iawn,¹⁹⁹ mae camweinyddu cyfiawnder yn tanseilio ymddiriedaeth yn y system gyfan. Rwyf yn credu'n bendant bod budd y cyhoedd yn cael ei wasanaethu drwy gynnal cnewyllyn iach o arbenigwyr trosedd annibynnol, sydd â'r gallu i erlyn ac amddiffyn ac a all fod yn ffynhonnell brofiad maes o law ar gyfer y farnwriaeth.
- 13.75 O'r safbwynt hwnnw, mae'n destun pryder mawr bod y Bar yn colli talent a phrofiad ar yr hyn a ddylai fod yn anterth gyrfa'r bargyfreithiwr, yn yr amrediad o 8-22 flynedd ac ychydig ar ôl hynny. Mae colli Cwnsleriaid y Frenhines yn yr amrediad 18-22 flynedd, fel y mae'n ymddangos sy'n digwydd, yn destun pryder i'r un graddau, gan ei bod yn ymddangos bod hyn yn ymwneud â Chwnsleriaid y Brenhines iau y byddai rhywun yn disgwyl iddynt fod yn brif gynhalwyr y proffesiwn at y dyfodol. Fel y nodwyd uchod, mae'n ymddangos bod yr hyn a ddylai fod yn "bwerdy" y proffesiwn yn arafu.
- 13.76 Mae'n wir y gall ffactorau eraill heblaw ffioedd fod yn dylanwadu ar y sefyllfa hon, yn cynnwys yr anhawster o gyfuno gyrfa wrth y Bar â bywyd teuluol, y gostyngiad ym maint y gwaith cyn y pandemig a'r anawsterau cyffredinol a achoswyd gan danariannu yn y SCT yn y blynyddoedd diwethaf. Er hynny, mae'r ymadawiad o'r "canol", fel y mae Cyngor y Bar yn ei alw, wedi'i achosi i raddau helaeth yn fy marn i gan y canfyddiad nad oes "fawr o ddyfodol" yng ngwaith cymorth cyfreithiol troseddol. Yn fy marn i, os yw'r SCT i weithredu ar ei ffurf bresennol, heb sôn am ffynnu, rhaid cywiro'r canfyddiad hwnnw.
- 13.77 Mae un ffactor ychwanegol sy'n troi'r fantol yn bendant yn fy marn i. Mewn amgylchiadau arferol, pe byddai rhywun yn cynyddu'r ffioedd mewn marchnad a oedd yn ddisymud neu'n dirywio, byddai'n wynebu'r risg o orgyflenwi, a fyddai'n wrthgynhyrchol. Nid honno yw'r sefyllfa sydd ohoni, fodd bynnag. Y sefyllfa bresennol yw bod y galw'n debygol o gynyddu hyd y gellir rhag-weld, yn sicr o'i gymharu â 2019/20, o ganlyniad i'r penderfyniad i recriwtio rhagor o swyddogion heddlu a ffactorau eraill. Yn ogystal â hyn, mae'r rheidrwydd i fynd i'r afael â'r ôl-groniad yn y Llysoedd. Er mwyn cwrdd â'r galw hwnnw, mae angen cyflenwad da o eiriolwyr trosedd. Pe na byddai cyllid ychwanegol ar gael i'r AGFS, y risg yw na fyddai digon o eiriolwyr trosedd i gwrdd â'r galw cynyddol. Gan ystyried y dystiolaeth yn ei chyfarwydd, nid wyf yn teimlo y gallaf argymhell bod yr Arglwydd Ganghellor yn wynebu'r risg honno.
- 13.78 Felly, rwyf yn argymhell cynnydd sylweddol yn y cyllid ar gyfer yr AGFS.

Gweithredu i Gynyddu Cyllid i'r AGFS

- 13.79 Sut y dylid gweithredu cynnydd o'r fath er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n briodol er budd y trethdalwr? Er mwyn ateb y cwestiynau hyn, byddaf yn dilyn yr egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u hegluro eisoes, sef talu am waith a wnaed; rhoi cymhelliad i wneud gwaith paratoi; a hyrwyddo

¹⁹⁹ Un enghraifft yw achos yr is-bostfeistri ar hyn o bryd, lle y dywedir mai'r digollediad y gellid ei dalu yw oddeutu £230 miliwn.

ymgysylltu cynharach yn y SCT. Byddaf yn dwyn mewn cof yn benodol y gŵyn gan Syr Robin Auld nad yw'r AGFS yn hyrwyddo gwaith paratoi effeithiol.²⁰⁰

Problemau strwythurol sydd angen eu datrys

- 13.80 Yn fy marn i, mae strwythur yr AGFS wedi mynd yn ddi-drefn. Yn gyntaf, mae "eiriolaeth" wedi newid dros y 25 mlynedd diwethaf ac mae mwy o bwyslais o lawer ar waith ysgrifenedig o flaen y treial: drafftio datganiadau amddiffyn, dadleuon fframwaith, nodiadau dedfrydu, golygu trawsgrifiadau, cyflwyno croesholi arfaethedig ymlaen llaw mewn rhai achosion, ac yn y blaen. Mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol y newid i reoli mwy manwl ar achosion yn Llys y Goron, sydd hefyd wedi ychwanegu at waith yr eiriolwr. Bellach nid yw strwythur taliadau'r AGFS, sydd wedi'i fwriadu ar gyfer cyflwyno'r treial ar lafar neu "wrandawriad" yn y ffordd draddodiadol, yn un sy'n adlewyrchu'r gwaith ysgrifenedig sydd ei angen yn awr i "wrando" achos neu gais.
- 13.81 Yn ogystal â hyn, mae materion fel y cynnydd mawr mewn deunydd o ffonau symudol, cyfryngau cymdeithasol a deunydd arall, delio â thystion sy'n blant neu'n bobl agored i niwed, problemau iechydd meddwl cynyddol ymysg diffynyddion, ymateb i ddull barnwrol mwy "agos-atoch", a delio â'r cynnydd mawr yn nifer y dogfennau, yn cynnwys materion datgelu ac adolygu deunydd nas defnyddiwyd, wedi ychwanegu'n sylweddol at gyfrifoldeb yr eiriolwr modern.
- 13.82 Ar ben hynny, fel y nodwyd eisoes ym Mhennod 12 uchod, nid yw strwythur taliadau'r LGFS wedi cymell cyfreithwyr i ymgymryd bob amser â'r gwaith paratoi ar gyfer treialon yn y ffordd a ragwelwyd yn y cynllun hwnnw. Er bod nifer mawr o gyfreithwyr yn gallu sicrhau bod achosion yn Llys y Goron yn cael eu paratoi'n briodol, ac yn gwneud hynny, mae'r dystiolaeth yn dangos bod mwy o waith paratoi wedi'i ysgwyddo gan y bargyfreithiwr – yn enwedig ond nid yn unig mewn achosion lle mae nifer mawr o PPE – a bod proflenni tystiolaeth heb eu darparu, er enghraifft, neu heb eu paratoi'n briodol. Y pwynt yw y dylid talu'n briodol am y gwaith, ac nad yw'r AGFS yn adlewyrchu hynny ar hyn o bryd.
- 13.83 Yn ogystal â hynny, fel y dadleuwyd drwy gydol yr adroddiad hwn, mae angen cynnwys "falf ollwng" ym mhob cynllun prisiau sefydlog i ddarparu ar gyfer yr achosion mwy cymhleth ac ymestynnol neu, fel arall, ni fydd y rhain yn cael eu gwneud yn briodol. Yn fy marn i, mae falf ollwng y tâl am waith paratoi arbennig o dan yr AGFS wedi'i ddiffinio'n rhy gyfyng i gyflawni'r rôl hon yn ddigonol. Yn yr un modd, mae'r cyfle i dalu am waith paratoi a "wastraffwyd" hefyd yn gyfyng iawn. Mae hyn, ynghyd â'r anawsterau o ran rhestru, ac yn enwedig system y rhestr rybudd, yn anghymhelliad i wneud gwaith paratoi.
- 13.84 Nid yw'r gwahanol ffioedd sefydlog yn darparu ychwaith ar gyfer yr achosion anarferol: un enghraifft bwysig o'r rhain yw achosion dedfrydu anodd a chymhleth.

²⁰⁰ Pennod 4 uchod

13.85 Yn olaf, mae'n ymddangos mai ychydig iawn yn yr AGFS sy'n ceisio cymell datrys yr achos cyn mynd i dreial. Gall y rhagdybiaeth y bydd y ffi a delir am ble euog yn y PTPH yn llai o lawer na'r ffi am dreial chwâl neu dreial fod yn un ddilys mewn achosion arferol, ond nid yw bob amser yn adlewyrchu'r gwaith a all fod yn angenrheidiol cyn treial i gael ple euog cynnar. Mae'n ddigon posibl y bydd y gwaith hwn yn galw am ystyriaeth fanwl i'r dystiolaeth, adroddiadau gan arbenigwyr meddygol, trafodaethau â'r erlyniad a chynghor gofalus ynghylch pa drosedd y gall fod yn briodol cofnodi ple ar ei chyfer. Nid yw'r ffi o £126 y diwrnod am y PTPH ei hun yn amrywio, er y gallai'r gwaith mewn rhai achosion fod yn ddim mwy na mater o dicio blychau a gohirio pellach i ddiwrnod arall, tra bydd y PTPH mewn achosion eraill yn gallu galw am ystyriaeth ddifrifol i'r materion gwirioneddol a dod â'r partïon ynghyd i roi ystyriaeth o ddifrif i ddatrys yr achos cyn y treial. Yn fy marn i, dylai'r AGFS roi cymhelliad i ddatrys achosion priodol cyn y treial.

Argymhellion penodol ar strwythur yr AGFS

- 13.86 Mewn egwyddor, gellid mabwysiadu'r system rwyf yn ei chynnig ar gyfer yr LGFS yn lle'r AGFS,²⁰¹ wedi'i seilio ar ffioedd safonol is, safonol uwch ac ansafonol, gan wahaniaethu rhwng troseddau difrifol, difrifol iawn a mwyaf difrifol. Er bod hynny'n atyniadol i ryw raddau o ran cysondeb, rwyf yn credu y byddai'n newid rhy fawr yn y dyfodol agos, er y gellid parhau i ddal sylw ar y posibilrwydd hwn.
- 13.87 Yr ail opsiwn fyddai gwneud dim ond cynyddu ffioedd briff yr AGFS yn gyffredinol, gan roi rhai diffiniadau pellach o beth yn union y mae'r ffi briff i dalu amdano, er mwyn adlewyrchu'r gwaith ychwanegol y cyfeiriwyd ato uchod. Gellid hefyd geisio targedu'r cynnydd mewn ffioedd at grwpiau penodol fel bargyfreithwyr iau, er enghraifft. Fodd bynnag, mae profiad blaenorol yn peri i mi fod braidd yn amheus o dargedu, er mor atyniadol yw'r syniad, oherwydd gallai hyn arwain yn syml at orgyflenwad o eiriolwyr yn gwneud y gwaith a "dargedwyd", boed y rheini'n gyfreithwyr eiriolwyr neu'n fargyfreithwyr hyn wedi'u denu gan y ffioedd uwch am wneud gwaith symlach.

Ffioedd briff

- 13.88 O'm rhan i, mae'n well gennyf drydydd opsiwn, sef gwella agweddau penodol ar yr AGFS, ynghyd â chynnydd cyffredinol mewn ffioedd. Mae'n ymddangos i mi fod ffi briff sefydlog ynghyd â "thâl dal ati" am bob diwrnod yn y llys yn egwyddor dda o safbwynt rheoli costau a hwyluso gweinyddu a dylid cynyddu'r rhain yn gyffredinol.
- 13.89 Yn hynny o beth, yr ystyriaeth gyntaf yw'r mecanwaith ar gyfer pennu'r ffi briff. Mewn Adolygiad fel hwn, ni allaf ddod i gasgliad ynghylch y berthynas y dylid ei chael rhwng ffioedd am wahanol droseddau, ond yr egwyddor sylfaenol, dybiwn i, fyddai difrifoldeb y drosedd, y cyfrifoldeb y mae'r eiriolwr yn ei ysgwyddo yn sgil hynny, a chymhlethdod ac anhawster yr achos. Er y gall nifer y PPE fod yn un ffactor sy'n dangos hyn, ac yn bwysig o hyd wrth bennu'r ffioedd o dan yr

²⁰¹ Gweler Pennod 12 uchod

AGFS mewn achosion twyll a chyffuriau, nid yw nifer y PPE yn ganllaw dibynadwy ar ei ben ei hun, yn fy marn i, i benderfynu difrifoldeb neu gymhlethdod, fel y trafodwyd eisoes mewn perthynas â'r LGFS.

13.90 O dan y strwythur presennol, mewn achos llofruddiaeth er enghraifft, sy'n cael ei gweld fel y drosedd fwyaf difrifol lle mae'r eiriolwr yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb mwyaf, gellir talu llai nag am achos cynllwyn cyffuriau, dim ond ar y sail bod nifer mwy o dudalennau yn yr achos olaf. Nid yw hynny'n ymddangos yn gydbwysedd da i mi. Enghreifftiau posibl pellach yw achos o dreisio, neu droseddau rhywiol yn ymwneud â phlant, lle byddai'r ffaith nad oedd nifer mawr o PPE yn golygu o bosibl y byddai llai o dâl am achosion o'r fath nag am achos twyll neu gyffuriau lle'r oedd nifer mwy o PPE. Unwaith eto, nid yw hynny'n ymddangos yn gydbwysedd da yn fy marn i, oherwydd natur anodd a sensitif achosion o'r fath.²⁰² Er bod manteision gweinyddol mewn cyfrif tudalennau yn unig, nid wyf yn gweld y dylai nifer y PPE gael ei weld yn awtomatig yn brif ffactor wrth bennu difrifoldeb neu gymhlethdod yr achos er mwyn gosod y ffi briff.²⁰³

13.91 Yng ngolwg yr uchod, rwyf yn argymhell y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder adolygu ymhellach y berthynas rhwng y gwahanol ffioedd briff a'i gilydd, er mwyn sicrhau o bosibl na fydd yr elfen PPE yn achosi ystumio annheg.

Dull newydd o drafod gwaith paratoi arbennig

13.92 Mae hynny'n dod â mi at y mater o sut i sicrhau bod tâl priodol yn cael ei wneud am waith ychwanegol mewn achosion penodol, mewn amgylchiadau lle y gellir dangos yn rhesymol fod y gwaith angenrheidiol yn fwy nag y byddai'n cael ei ystyried yn arferol o dan y ffi briff. Fel yr wyf yn ei weld, y ffordd i gyflawni'r amcan hwn yw mabwysiadu dull diwygiedig o drafod gwaith paratoi arbennig, sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd o dan baragraff 17 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau.

13.93 Fel cam cyntaf, rwyf yn argymhell diwygio paragraff 17(1)(a) o Atodlen 1 i'r Rheoliadau er mwyn mynegi'r egwyddor o dalu am waith paratoi ychwanegol a wnaed yn briodol mewn ffordd fwy cynhwysfawr. Er enghraifft, mae'r geiriau "a very unusual or novel point of law or factual issue" yn rhy gyfyng yn fy marn i. Dylai'r geiriau hyn fod yn enghreifftiol ac nid yn hollgynhwysol. Er enghraifft, mewn achos llofruddiaeth, os yw'n glir bod galw am waith ychwanegol yn ymwneud â nifer mawr o gynghoriadau, tystiolaeth fforensig ac yn y blaen, fel ei bod yn amlwg nad yw ffi briff y bargyfreithiwr iau yn adlewyrchu maint y gwaith, yna dylai fod yn bosibl hawlio'n ddidrafferth am waith paratoi ychwanegol. Yn yr un modd, ar gyfer ple euog sy'n galw am fwy o waith na'r arfer, yn cynnwys, er enghraifft, tystiolaeth feddygol, ymchwil helaeth a negodiadau manwl, dylai fod yn bosibl hawlio am waith paratoi ychwanegol.

²⁰² Yn achos plant yn benodol, mae croesholi a recordiwyd ymlaen llaw o dan Adran 28 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999, yn cynnig heriau neilltuol.

²⁰³ Awgrymwyd hefyd i'r Adolygiad ei bod yn bosibl bod y ffioedd uwch a delir mewn achosion twyll a chyffuriau lle mae nifer mawr o PPE, a wneir yn draddodiadol gan fargyfreithwyr gwrywaidd, yn cyfrannu at y gwahaniaethau incwm rhwng y rhywiol a nodwyd uchod. Byddai hynny'n fater i'w ystyried ymhellach gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

- 13.94 Yn yr un modd, ym mharagraff 17(1)(b) o Atodlen 1, rwyf yn meddwl o ddifrif tybed a yw'r niferoedd o PPE a nodwyd yno, yr ymddengys eu bod wedi'u pennu ar fympwy, yn ganllaw dibynadwy ar gyfer asesu maint y gwaith ychwanegol sydd ei angen mewn achos penodol.²⁰⁴ Beth bynnag, dylai'r niferoedd hynny, os cedwir nhw, fod yn rhai enghreifftiol ac nid yn rhai diffiniol. Rwyf yn sylweddoli bod niferoedd y PPE yn gyfleus o safbwynt gweinyddu ond mae'n fesur rhy fras, yn fy marn i, i adlewyrchu cymhlethdod y gwaith a wnaed, yn enwedig mewn achosion difrifol neu gymhleth lle mae nifer bach o PPE.
- 13.95 Yn lle'r mecanweithiau amrwd hyn, rwyf yn rhag-weld mai'r hyn sydd ei angen ym mharagraff 17(1)(b), fel y mae'r CBA yn awgrymu, yw rhestr enghreifftiol o "farcwyr cymhlethdod" a fyddai, os oeddent wedi'u bodloni, yn sail i hawliad am waith paratoi ychwanegol "in excess of the amount normally done for cases of the same type" a defnyddio geiriau presennol paragraff 17(1)(a). Byddai marcwyr cymhlethdod o'r fath yn gallu cynnwys ffeithiau anarferol, pwyntiau cyfreithiol sy'n galw am sylw penodol, nifer anarferol o uchel o dystion ar gyfer achos o'r math hwnnw, tystion a/neu ddiffynyddion agored i niwed, nifer mawr o bartion neu ffactorau eraill sy'n galw am waith paratoi arbennig. Bydd nifer y PPE, gan gymryd ei fod wedi'i ddarllen mewn gwirionedd, yn un ffactor o'r fath ond nid yn un diffiniol.
- 13.96 Bydd y dull hwn o weithredu'n galw am gofnodi oriau gwaith yn fanwl i ddangos y gwaith a wnaed o'r dechrau, ond byddwn yn meddwl yn y rhan fwyaf o achosion fod y ffaith bod y gwaith wedi'i wneud a'r oriau o waith wedi'u cofnodi'n ofalus yn arwain at y rhagdybiaeth bod y gwaith wedi'i wneud yn briodol.
- 13.97 Byddwn yn disgwyl i'r LAA²⁰⁵ ystyried yr hawliadau hyn mewn ffordd resymol. Rwyf yn tynnu sylw eto at fy argymhelliad y dylai'r LAA ymdrin mewn ffordd lai cyfyngol â hawliadau'n gyffredinol. Ar y llaw arall, byddai rhwymedigaeth ar ddarparwyr i gyflwyno hawliadau rhesymol yn unig a byddai pob hawl gan yr LAA i wrthod hawliadau a oedd yn torri'r rhwymedigaeth honno.
- 13.98 Yn ogystal â hyn, rwyf yn argymhell cynyddu'r cyfraddau yr awr am waith paratoi arbennig, sydd heb newid bron dim ers blynnyddoedd lawer. Y bwriad wrth wneud hyn yw cymell eiriolwyr profiadol i ymgymryd â'r achosion mwyaf difrifol a chymhleth. Mae'r un peth yn gymwys i'r ffioedd am ystyried deunydd nas defnyddiwyd.

Talu am waith paratoi a wastraffwyd

- 13.99 Ar fater cysylltiedig, yn fy marn i, nid yw'r system bresennol lle na fydd eiriolwr yn cael ei dalu fel arfer am waith paratoi a wnaed yn rhesymol wrth ddisgwyl treial nad yw'n digwydd heb fod bai ar yr eiriolwr, yn rhoi cymhelliad i baratoi'n briodol. Boed yn fwriadol neu beidio, mae hon yn enghraifft bosibl o "symud costau" o un rhan o'r SCT i un arall, a gall weithredu'n annheg. Yn fy marn i, dylid talu'n briodol am hawliadau am waith paratoi a wastraffwyd. Bydd hynny

²⁰⁴ Mae hynny'n arbennig o wir os oes anghydfod ynghylch a yw dogfennau "wedi'u cyflwyno ar ffurf electronig" neu a ydynt yn "ddeunydd electronig" fel y trafodwyd eisoes mewn perthynas â'r LGFS.

²⁰⁵ Ynghylch yr LAA, gweler hefyd Bennod 15 isod.

hefyd yn ategu egwyddorion perchnogaeth ar achosion a gwaith paratoi cynnar. Rwyf yn argymhell diwygio paragraff 18 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau drwy ddileu paragraff 18(2) ac ym mharagraff 18(3) amnewid y gair "eight" am "two" (dyweder), gyda'r bwriad y bydd tâl yn cael ei wneud fel arfer am waith paratoi a wastraffwyd o fwy na dwy awr.

Talu'n gynharach cyn y treial

- 13.100 Mae'n anarferol iawn y dyddiau hyn i fusnes aros am dâl am gyfnod hir ar ôl cwblhau'r gwaith, fel a wneir mae'n ymddangos o dan yr AGFS. Byddwn yn meddwl y dylid gallu hawlio am waith paratoi a wnaed yn briodol a gwrandawiadau a gyflawnwyd yng nghwrs yr achos, a chael tâl amdanynt o fewn 90 diwrnod (dyweder) ar y mwyaf. Rwyf yn deall bod trefniadau ar gyfer rhai taliadau interim eisoes wedi'u cyflwyno yn ystod y pandemig ac rwyf yn awgrymu y dylid gwneud trefniadau tebyg yn barhaol er mwyn lleddfu'r problemau llif arian parod a wynebir gan nifer mawr o eiriolwyr, yn enwedig rhai iau.

Y ffioedd PTPH

- 13.101 Er mwyn hyrwyddo gwell paratoi ar gyfer treialon, a pherchnogaeth ar achosion, rwyf yn argymhell adolygu'r ffi sefydlog o £126 y diwrnod ar gyfer y PTPH a bennwyd ym mharagraff 24 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau. Er mwyn rhoi cymhelliad ar gyfer gwell ymgysylltu a phenderfynu cyn mynd i dreial, rwyf yn argymhell ffi uwch am PTPH ar y sylwedd, neu wrandawriad rheoli achos ychwanegol, sy'n ymdrin yn fanwl â'r pynciau yn yr achos, a'r posibilrwydd o'i benderfynu. Unwaith eto, byddai hyn yn galw am ddiffinio pellach – a thystysgrif gan y barnwr o bosibl, ond rwyf yn hyderu bod y syniad sylfaenol yn glir.
- 13.102 Awgrymwyd i mi fod y PTPH mewn nifer mawr o achosion yn dod yn rhy gynnar yn y broses, ond mater i'r Farnwriaeth yw hwnnw. O safbwynt cymorth cyfreithiol troseddol, bwriad fy argymhelliad yw cefnogi a chymhell gwaith paratoi ar gyfer y gwrandawiadau mwy sylweddol cyn y treial sy'n ceisio diffinio'r pynciau yn yr achos ac edrych ar unrhyw bosibiliadau ar gyfer penderfynu cyn cynnal treial.

Apelio a thraddodi o'r Llys Ynadon

- 13.103 Yn unol â'r uchod, mae'r ffi(oedd) am apelau ac achosion traddodi ar gyfer dedfrydu i Lys y Goron o'r Llys Ynadon o dan baragraff 20 o Atodlen 1 eisoes yn darparu ar gyfer caniatáu ffioedd ychwanegol rhesymol gan y swyddog priodol. Rwyf yn argymhell bod y ddarpariaeth honno'n cynnwys yr holl geisiadau rhesymol am waith ychwanegol. O ran y ffi sefydlog am wrandawiadau dedfrydu a bennwyd ym mharagraff 24 o Atodlen 1, rwyf yn argymhell ffi uwch am wrandawiadau dedfrydu sy'n arbennig o gymhleth neu anodd.

Diwygio ffioedd eraill

- 13.104 Yn ogystal â hyn, ceir ffioedd sefydlog am wahanol "wrandawiadau" o dan baragraff 24 o Atodlen 1, yn cynnwys gwrandawiadau ar y gallu i dderbyn tystiolaeth, gwrandawiadau ar y rheolau sylfaenol, tynnu pleon yn ôl a gwahanol faterion eraill. Yn fy marn i, mae'n bwysig yn gyntaf fod y ffi dan sylw

yn adlewyrchu'r gwaith ysgrifenedig sy'n rhan hanfodol o'r rhan fwyaf o wrandawiadau y dyddiau hyn ac, yn ail, y dylid gallu hawlio ffi am waith paratoi arbennig ar gyfer materion cymhleth os yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny, mewn modd tebyg i'r hyn a drafodwyd uchod.

- 13.105 Fel y nodwyd eisoes mewn perthynas â'r LGFS, mynegwyd cryn bryder i'r Adolygiad, yn cynnwys gan Gomisiwn y Gyfraith, am yr anhawster wrth gael eiriolwyr i gynnal gwrandawiadau atafaelu ar y cyfraddau tâl a ddarperir o dan baragraff 14 o Atodlen 1. Rwyf yn argymhell cynyddu'r ffioedd am wrandawiadau atafaelu er mwyn cymhell ymarferwyr profiadol i ymgymryd â'r gwaith hwn sydd fel arfer yn gymhleth.
- 13.106 Rwyf hefyd yn argymhell diddymu ffi sefydlog Llys y Goron o dan yr AGFS mewn achos y tybir ei fod yn addas ar gyfer treial diannod, yn unol ag argymhelliad tebyg mewn perthynas â'r LGFS.
- 13.107 Fy mwriad cyffredinol yw sicrhau bod yr AGFS yn cael ei ddiweddarau a'i foderneiddio gan gadw rhwystrau a gwrthbwysau digonol i sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei wario'n briodol. Rwyf yn sicr y bydd y proffesiwn, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r LAA yn gallu cydweithio i benderfynu ar unrhyw ddiffiniadau sydd eu hangen i weithredu'r uchod mewn ffordd synhwyrol.

Gweithredu a chost

- 13.108 Fe'm cynghorwyd gan dîm yr Adolygiad y bydd angen rhagor o fodelu i bennu costau tebygol y diwygiadau penodol i'r AGFS sydd wedi'u hargymhell uchod. Rwyf yn rhag-weld y bydd modelu o'r fath yn rhoi'r gallu i benderfynu ar y rhaniad priodol rhwng cynnydd cyffredinol mewn ffioedd briff a'r newidiadau penodol rwyf yn eu hargymhell uchod. Rwyf yn pwysleisio y dylai'r cynnydd cyffredinol mewn ffioedd briff fynd law yn llaw â'r newidiadau rwyf wedi'u hargymhell, sydd â'r bwriad o droi'r AGFS oddi wrth ei ffocws presennol ar y "treial" ac at dalu'n briodol am y gwaith a wnaed, yn enwedig gwaith cyn treial, gan wneud y broses gyfan yn fwy effeithlon.
- 13.109 Mae hefyd yn hollbwysig mynd i'r afael ar frys â'r materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth y cyfeiriwyd atynt uchod, fel y trafodir ymhellach ym Mhennod 15, yn enwedig o ystyried bod arian y cyhoedd yn gysylltiedig.
- 13.110 Nid wyf yn gallu gwneud dadansoddiad manwl o gost a budd ar sail y wybodaeth sydd ar gael, yn bennaf am nad oes modd mesur y budd anniriaethol o gael SCT sy'n gweithredu'n well mewn termau ariannol, er bod y budd hwnnw'n fawr iawn. O ran y swm sy'n debygol o fod ei angen i gynnal y system bresennol a chyflwyno'r mesurau effeithlonrwydd hyn, rwyf yn rhag-weld mai mater i'w asesu fydd hwn. Ar sail gwariant yr AGFS yn 2019/20 ac effeithiau'r eitemau carlam a fodelwyd, rwyf yn amcangyfrif mai cynnydd canrannol tebyg i'r hyn rwyf yn ei argymhell ar gyfer ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol, sef gwariant blynyddol ychwanegol o 15%, neu tua £35 miliwn y flwyddyn yn nhermau arian parod, i aros yn barhaol, yw'r swm blynyddol lleiaf sydd ei angen i gynyddu gwariant yr AGFS. Rhoddir cyfran o'r swm hwn at y gydnabyddiaeth ariannol i gyfreithwyr eiriolwyr. Er hynny, byddwn yn ystyried

mai cynnydd yng ngwariant yr AGFS o'r maint hwn yw'r lleiaf sydd ei angen i gynnal y Bar troseddol o hyn ymlaen, er mwyn cadw bargyfreithwyr trosedd a dangos bod gwerth parhaol i yrfa ym maes cymorth cyfreithiol troseddol. Rwyf yn awgrymu y bydd angen modelu pellach i benderfynu sut i rannu'r swm hwnnw rhwng cynnydd cyffredinol mewn ffioedd briff a'r diwygiadau mwy penodol i wella effeithlonrwydd. O'm rhan i, byddwn yn awgrymu y dylid canolbwyntio'n bennaf ar yr arbedion effeithlonrwydd sy'n debygol o godi o ganlyniad i hybu perchnogaeth ar achosion, gwell gwaith paratoi a phenderfynu cyn treial.

PENNOD PEDWAR AR DDEG: GWARIANT ARALL AR GYMORTH CYFREITHIOL TROSEDDOL

- 14.1 Mae'r Bennod hon yn ymdrin yn fyr â phedwar maes arall mewn gwariant ar gymorth cyfreithiol troseddol: Apelau, Cyfraith Carchardai, VHCCs a ffioedd Arbenigwyr.

Apelau

- 14.2 Mae cyngor cychwynnol ar y posibilrwydd o apelio yn erbyn euogfarn neu ddedfryd o Lys y Goron i'r Llys Apêl²⁰⁶ yn dod o dan y ffioedd a delir i gyfreithyddion llys ac eiriolwyr o dan yr LGFS a'r AGFS yn y drefn honno. Os bydd y cyngor hwnnw'n negyddol, ni fydd ffi bellach yn daladwy. Os bydd y cyngor ar apelio'n gadarnhaol, yna bydd cymorth cyfreithiol ar gael yn y Llys Apêl ar y cyfraddau a bennwyd yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau, o dan baragraffau 7 (cyfreithyddion llys) a 9 (eiriolwyr). Fodd bynnag, mae'n ofynnol cael caniatâd i apelio, ac ni fydd cymorth cyfreithiol ar gael oni bai fod barnwr apêl sengl, neu lys llawn o dri barnwr apêl, yn rhoi caniatâd i apelio, yn erbyn euogfarn neu ddedfryd, neu yn erbyn y ddwy. Os bydd barnwr sengl yn gwrthod caniatâd, neu os bydd y lys llawn yn gwrthod caniatâd ar ôl gwneud cais o'r newydd, rwyf yn ddeall na fydd cymorth cyfreithiol ar gael. Mae cymorth cyfreithiol yn y Llys Apêl yn cael ei roi a'i weinyddu gan swyddfa'r Llys Apêl (CAO) o dan Gofrestrydd y Llys Apêl, yn hytrach na gan yr LAA.
- 14.3 Cost y cymorth cyfreithiol a weinyddwyd gan y Llys Apêl oedd tua £2.6 miliwn yn 2019/20, yn daladwy mewn perthynas ag oddeutu 2,600 o apelau.²⁰⁷
- 14.4 Os gwrthodir yr apêl i'r Llys Apêl, y cam olaf y gellir ei gymryd²⁰⁸ o dan gyfraith ddomestig yw troi at y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol (CCRC). Mae cymorth cyfreithiol ar gyfer ceisiadau i'r CCRC yn cael ei weinyddu gan yr LAA. Mae'r ffioedd wedi'u pennu o dan baragraff 8 o Atodlen 4 i'r Rheoliadau, hyd at uchafswm o £425.25. Mae'r LAA yn gallu cynyddu'r terfyn uchaf hwn.²⁰⁹ Cafodd yr LAA tua 159 o geisiadau o'r fath yn 2019/20, ar gost o ychydig mwy na £300,000.²¹⁰
- 14.5 Os bydd darpar apelydd, ar ddechrau'r broses uchod, cyn gwneud unrhyw apêl i'r Llys Apêl, yn gofyn am gyngor ar apêl gan gyfreithiwr gwahanol, bydd ffi am y cyngor hwnnw'n daladwy ar wahân hyd at uchafswm o £273.75 o dan baragraff 8 o Atodlen 4 i'r Rheoliadau: yma eto mae pŵer gan yr LAA i

²⁰⁶ Mae apelau o'r Llys Ynadon i Lys y Goron wedi'u trafod eisoes uchod.

²⁰⁷ Legal aid statistics quarterly: April to June 2021:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1021431/legal-aid-statistics-main-data-apr-jun-2021.csv

²⁰⁸ Anaml y ceir apelau i'r Goruchaf Lys ar bwyntiau cyfreithiol mewn achosion troseddol.

²⁰⁹ Mae'r darpariaethau cyffredinol ar derfynau uchaf wedi'u nodi ym mharagraffau 5.8 i 5.19 o Fanyleb y Contract Trosedd Safonol.

²¹⁰ Legal aid statistics quarterly: April to June 2021.:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1021431/legal-aid-statistics-main-data-apr-jun-2021.csv

gynyddu'r ffi hon. Rwyf eisoes wedi delio â hyn ym Mhennod 10 uchod ac ni fyddaf yn ailadrodd y sylwadau hynny yma.²¹¹

Y dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad

- 14.6 Roedd nifer o ymatebwyr i'r Adolygiad, yn cynnwys y CCRC, Cymdeithas Cyfreithwyr Apêl Troseddol (CALA), CLSA, LCCSA, YPA, YLAL, Cynghrair Howard ac eraill wedi mynegi pryderon am lefel isel y ffioedd am waith apeliadol yn y Llys Apêl.
- 14.7 Mae CALA ac eraill yn dadlau'n benodol, lle mae Gorchymyn Cynrychiolaeth wedi'i roi gan y Llys Apêl:
- (i) bod y gydnabyddiaeth ariannol a ganiateir i'r cyfreithydd llys yn fach iawn fel arfer, a chymorth cyfreithiol yn cael ei ddarparu i'r eiriolwr yn unig fel arfer;
 - (ii) os gwrthodir caniatâd i apelio, ac os adnewyddir y cais o flaen llys llawn, na thelir am y gwaith ar y cais o'r newydd oni bai fod yr apêl yn llwyddo;
 - (iii) os bydd y llys yn gwrandio dadleuon ar y rhinweddau ac yn gwrthod caniatâd, na wneir taliad, tra bydd yr eiriolwr yn gallu hawlio taliad os bydd y llys yn rhoi caniatâd ond er hynny'n gwrthod yr apêl;
 - (iv) bod ffioedd cyfreithyddion llys (lle y gellir eu caniatáu) yn isel iawn, a heb newid er 1996, heblaw am y gostyngiad o 8.75% yn 2014;
 - (v) o ganlyniad, nifer bach iawn o ffyrniau sy'n barod i ymgymryd â'r gwaith hwn;
 - (vi) bod ffioedd eiriolwyr am apelau yn isel iawn, hyd yn oed o'u cymharu â ffioedd am waith cymorth cyfreithiol troseddol arall;
 - (vii) nad yw strwythur ffioedd yr eiriolwyr yn gwahaniaethu rhwng achosion lle y gwneir yr apêl gan yr un eiriolwr ag a wnaeth y treial, ac achosion lle mae'r eiriolwr wedi'i gyfarwyddo o'r newydd a lle y gallai fod wedi gorfod treulio oriau lawer yn ymgyswrtio â'r achos;
 - (viii) os gofynnir am gyngor ynghylch y rhagolygon am apêl lle nad oedd y ffyrn wedi gwneud y treial, fod y ffioedd mor isel fel mai ychydig o ffyrniau a wnaiff gymryd y gwaith hwn;
 - (ix) bod ffioedd am geisiadau i'r CCRC yn is o lawer a bod llai a llai o ffyrniau'n barod i ymgymryd â'r gwaith hwn hefyd.

²¹¹ Er nad yw'n glir pa nifer o hawliadau o dan y ddarpariaeth hon sy'n ymwneud ag apelau o Lys y Goron i'r Llys Apêl, yn hytrach nag o'r Llys Ynadon i Lys y Goron, o ganlyniad i nam electronig yn y porth perthnasol, mae'n debygol bod hawliadau o dan baragraff 8(a) o Atodlen 4 yn ymwneud yn bennaf â'r Llys Ynadon lle mae'r achosion yn fwy niferus o lawer, ac mae'r tebygolrwydd na fydd diffynyddion yn cael cymorth cyfreithiol ar adeg eu heuogfarn yn fwy o lawer. Ond mae'r ystyriaethau rwyf wedi'u nodi ym Mhennod 10 uchod yn gymwys i'r un graddau i hawliadau yn dilyn euogfarn yn Llys y Goron.

- 14.8 Mae'r CCRC yn cyfeirio ymhellach at ostyngiad sylweddol yn nifer y ceiswyr sydd â chynrychiolaeth gyfreithiol, fel mai dim ond tua 10% o'r ceisiadau a gaiff sy'n rhai gan ddiffynyddion a gafodd gymorth cyfreithiol, o'i gymharu ag un rhan o dair yn 2008. O ganlyniad i hyn, mae'r rhan fwyaf o'r ceisiadau a gaiff wedi'u paratoi'n wael gan ddiffynyddion sydd heb gynrychiolaeth, ac mae rhai'n cael eu gwneud drwy gamgymeriad i'r CCRC yn hytrach na'r Llys Apêl. Mae gwaith y CCRC yn cael ei hwyluso'n fawr os bydd ceisiadau wedi'u paratoi'n briodol ac mae o'r farn bod lefel isel y ffioedd cymorth cyfreithiol yn arafu ei waith a bod risgiau o ran camweinyddu cyfiawnder. Mae'r CCRC yn cyfeirio at adroddiad gan Gomisiwn San Steffan ar Gamweinyddu Cyfiawnder yn Chwefror 2021 a oedd yn argymhell cynyddu ffioedd cymorth cyfreithiol am waith CCRC²¹² a hefyd at adroddiad gan Brifysgol Sussex²¹³ ym Mawrth 2021.

Cymorth cyfreithiol a weinyddir gan y Llys Apêl

- 14.9 Yn gyffredinol, nid oes gennyf reswm dros amau'r dystiolaeth mai ychydig o gyfreithwyr sydd ar ôl yn arbenigo mewn gwaith apêl yn y Llys Apêl, a bod y ffioedd am apelau yn isel. Er y gallaf ddeall yn iawn fod amharodrwydd i gyllido gwaith apêl yn ormodol, yn fy marn i mae dull rhy gyfyngol o ddelio â chymorth cyfreithiol ar gyfer apelau yn y Llys Apêl yn creu'r risg o fod yn wrthgynhyrchol os aiff yn rhy bell. Mewn system iach mae angen proses apelio effeithiol nid yn unig i wneud cyfiawnder mewn achos penodol, ond i gynnal safonau'n gyffredinol. Os na fydd achosion yn cyrraedd y Llys Apêl oherwydd diffyg cyllid, neu os na fyddant wedi'u paratoi'n briodol, ni all y Llys hwnnw gyflawni ei rôl hanfodol o ran cadw disgyblaeth gyfreithiol, dehongli'r gyfraith a phenderfynu ar ddedfrydu. Bydd anghysondeb wedyn ar lefelau is y system a risg sylweddol o anghyfiawnder. Yn bwysicach na hynny, yn fy marn i o leiaf, mae'r ffaith bod apêl ar gael i'r Llys Apêl yn ffactor pwysig iawn wrth gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn y SCT yn gyffredinol. Fel y nodwyd eisoes ym Mhennod 3, fy marn i yw hyd yn oed os bydd y diffynnydd yn aflwyddiannus wrth apelio yn y pen draw, mae'r ffaith ei fod wedi cael dweud ei ddweud yn ei gwneud yn haws derbyn penderfyniadau anffafriol.
- 14.10 Bydd nifer mawr o apelau i'r Llys Apêl o Lys y Goron yn cael eu cynnal gan eiriolwr y treial, a fydd wedi drafftio'r cais am apelio. Bydd y rhan fwyaf o apelau o'r fath wedi'u seilio ar gofnod Llys y Goron, ar bwynt cyfreithiol er enghraifft, neu wall honedig yng nghrynhoad yr achos, neu gymhwyso'r canllawiau dedfrydu yn anghywir. Ar gyfer yr apelau hynny, mae'r arfer gan y COA o gyfyngu'r Gorchymyn Cynrychiolaeth i'r eiriolwr yn bennaf yn un dealladwy.
- 14.11 Er hynny, hyd yn oed mewn apelau o'r fath mae rôl i'r cyfreithydd llys o hyd, yn cynnwys egluro'n bersonol i'r cleient beth sy'n digwydd, a chynorthwyo'r eiriolwr yn gyffredinol. Ni allaf ffurfio barn ar sail y dystiolaeth a gafwyd ynghylch arfer presennol y COA o gyfyngu'r Gorchymyn Cynrychiolaeth i'r eiriolwr; ni fyddwn ond yn awgrymu y dylid dal yr agwedd hon dan sylw, ac y dylid ystyried unrhyw

²¹² [2021_03_02 Westminster Commission Report FINAL \(criminaljusticehub.org.uk\)](https://www.criminaljusticehub.org.uk/2021/03/02/Westminster-Commission-Report-FINAL)

²¹³ [Microsoft Word - FINAL REPORT \(sussex.ac.uk\)](https://www.sussex.ac.uk/microsofword-final-report)

sylwadau rhesymol a gyflwynir i'r COA ar y pwynt hwn gan gyfreithyddion llys, fel y byddai'n sicr o ddigwydd.

- 14.12 Gyda golwg ar y ffioedd apeliadol yn gyffredinol, mae sail resymegol y barnau a fynegwyd eisoes yn gymwys i'r un graddau i waith yn y Llys Apêl ac, felly, yn fy marn i dylid cynyddu'r ffioedd a nodir ym mharagraffau 7 a 9 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau yn unol â'r cynnydd cyffredinol rwyf yn ei argymhell mewn mannau eraill. Rwyf yn nodi'n benodol nad yw'n ymddangos bod y ffioedd i gyfreithyddion llys a nodir ym mharagraff 7 o Atodlen 3 wedi cael eu diwygio er 1996, heblaw am y gostyngiad o 8.75% yn 2014.
- 14.13 Mewn perthynas ag apelau lle y rhoddwyd caniatâd i apelio a lle mae eiriolwr a/neu ffyrn newydd wedi cymryd drosodd, mae'n amlwg y bydd mwy o waith ynglŷn â pharatoi'r achos, ac mae'r un peth yn wir mewn achosion lle mae tystiolaeth newydd wedi dod i'r golwg, hyd yn oed yn bell ar ôl y digwyddiadau gwreiddiol efallai. Byddwn yn cymryd mewn amgylchiadau o'r fath y byddai'r Gorchymyn Cynrychiolaeth yn cynnwys y cyfreithydd llys. Os yw hynny'n wir, byddwn yn meddwl mewn egwyddor y byddai paragraff 7 o Atodlen 3, ynghyd â'r pŵer i gynyddu ym mharagraff 8 (sy'n awdurdodi hyd at ddwbl y gyfradd a ragnodwyd mewn rhai amgylchiadau) yn galluogi'r COA i roi cydnabyddiaeth ariannol i'r cyfreithydd llys am waith a wnaed yn briodol. Yn yr un modd, mae paragraff 9(4) yn galluogi'r COA i gynyddu ffi'r eiriolwr mewn amgylchiadau eithriadol os na fyddai'r swm sy'n daladwy fel arfer o dan y paragraff hwnnw'n darparu tâl rhesymol. Byddwn yn gobeithio na fyddai'r pwerau o dan Atodlen 3 yn cael eu dehongli mewn ffordd rhy gyfyng.
- 14.14 Mae CALA yn awgrymu y gellir cael dadl lawn ar apêl wrth wneud cais am ganiatâd sy'n cael ei wrthod yn y diwedd, fel na fydd y cyfreithwyr yn cael tâl. Er na fyddai neb am gefnogi apelau gwan neu wacsaw hyd yn oed, mae gwahaniaeth o bosibl rhwng apelau o'r fath ac apelau y gellir eu dadlau'n rhesymol er eu bod yn aflwyddiannus yn y pen draw. Yn unol â'r pwyntiau rwyf yn eu gwneud uchod, byddwn yn rhoi pwys, o safbwynt budd y cyhoedd, ar beidio ag anghymhell cyfreithwyr, rhag ofn peidio â chael eu talu, rhag cymryd ymlaen apelau a all fod yn rhesymol. Ymysg pethau eraill, byddwn yn tueddu i fod o blaid amddifadu'r Llys Apêl o'i rôl goruchwyllo beirniadol. Byddwn yn awgrymu, os yw'r pwynt a wnaeth CALA yn ffeithiol gywir, ei fod yn werth ei ystyried ymhellach, yn enwedig os oedd y mater yn dibynnu ar ffurf y gorchymyn a wnaed wrth wrthod yr apêl.
- 14.15 Yn gyffredinol, mae er budd i'r cyhoedd fod nifer digonol o gyfreithyddion llys yn barod i wneud gwaith apeliadol, a byddai'r Bwrdd Cynghorol yn gallu rhoi ystyriaeth bellach i ffyrdd i sicrhau hyn. Rwyf yn cyfeirio hefyd at y sylwadau a gyflwynwyd gan yr elusen Appeal ym Mhennod 15 isod.

Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol

- 14.16 Yn ôl Manyleb Trosedd Safonol yr LAA²¹⁴ mae cyngor a chynhorthwy ar geisiadau i'r CCRC i fod yn "broses sgrinio gychwynnol", yn bennaf i nithio hawliadau gwan sydd heb fodloni meini prawf y CCRC, gan mai lle'r CCRC yw penderfynu rhinweddau'r mater. Fodd bynnag, mae'r ffigurau a ddyfynnwyd uchod yn dangos bod yr LAA wedi caniatáu hawliadau o tua £1900 ar gyfartaledd, yn uwch o lawer na'r terfyn uchaf o £456.25. Mae hynny'n awgrymu bod yr LAA yn caniatáu rhywfaint o ryddid mewn perthynas â'r terfyn uchaf. Er hynny, mae'n ymddangos bod amwysedd o ran ble mae cymorth cyfreithiol am gyngor a chynhorthwy yn dod i ben, ac a yw'r gwaith sylweddol i ddod o dan gyllideb yr LAA neu gyllideb y CCRC. Nid wyf yn glir ynghylch y sail i ragdybiaeth yr LAA mai ar gyfer proses sgrinio gychwynnol yn unig y mae cyllid cymorth cyfreithiol i'w ddarparu, a ble mae'r llinell derfyn.
- 14.17 Mae'r CCRC yn gorff cyhoeddus a rhaid iddo ystyried y ceisiadau y mae'n eu cael pa un a yw'r ceisydd yn cael cyngor cyfreithiol neu beidio. Yn fy marn i, mae cyfyngiadau ar gymorth cyfreithiol ar gyfer ceisiadau i'r CCRC yn tueddu i orfodi mwy o gostau ar y corff hwnnw, ac mae hyn yn ymddangos yn enghraifft bellach lle mae un rhan o'r system yn ei gwneud yn fwy anodd i ran arall o'r system heb i neb fynegi barn am y system gyfan. Yn fy marn i, os bydd cymorth cyfreithiol am gyngor ar geisiadau i'r CCRC yn cael ei gyllido'n well, bydd hynny'n debygol o ddidoli achosion di-sail yn gynharach, helpu'r CCRC i ddelio â'i lwyth gwaith, a chynyddu ymddiriedaeth y cyhoedd yn y system gyfiawnder yn gyffredinol, hyd yn oed os bydd dull gweithredu o'r fath yn mynd ychydig yn bellach na'r cysyniad o "sgrinio cychwynnol".
- 14.18 Felly rwyf yn argymhell cynnydd yn y ffioedd am gyngor a chynhorthwy ar geisiadau i'r CCRC, yn unol â'r cynnydd cyffredinol mewn ffioedd rwyf yn ei argymhell, ynghyd â chyflwyno strwythur o ffioedd is, uwch ac ansafonol ar gyfer y gwaith hwn, yn debyg i gynllun y Llys Ynadon. Ar fater y llinell derfyn, credwn y byddai'n debygol o fod yn well yn gyffredinol fod cyflwyniad strwythuredig i'r CCRC yn cael ei gyllido mewn achos priodol, yn hytrach na chyfyngu cymorth cyfreithiol i "broses sgrinio gychwynnol" fel y mae Manyleb yr SCC yn nodi ar hyn o bryd. Mae angen gwneud rhagor o waith ynghylch ble i dynnu'r llinell derfyn, o ystyried y casgliadau yn adroddiadau San Steffan a Phrifysgol Sussex a grybwyllwyd uchod.
- 14.19 Yn fy marn i, byddai'r agwedd hon, ac eglurhad o'r modd y gellid rhoi help priodol i'r CCRC drwy'r cynnydd mewn cyllid cymorth cyfreithiol, yn agwedd bwysig i'w hastudio ymhellach gan y Bwrdd Cynghorol a'i dal dan sylw.
- 14.20 Yn yr un modd, mater i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cynghorol fyddai monitro'r diwygiadau rwyf yn eu hawgrymu gyda'r bwriad o gadw cnewyllyn digonol o gyfreithyddion llys apeliadol, a sicrhau bod cyngor ar gael i raddau rhesymol yn awr ac yn y dyfodol ar y rhagolygon ar gyfer apelio i bersonau tramgwyddedig sy'n dibynnu ar arian cyhoeddus.

²¹⁴ Paragraffau 11.19 i 11. 22

Achosion Cost Uchel lawn (VHCCs)

- 14.21 Gwneir trefniadau ar wahân ar gyfer rhai VHCCs. Yn y bôn, mae VHCCs yn achosion sy'n debygol o bara'n hirach na 60 diwrnod yn y treial ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn achosion twyll cymhleth. Er mwyn cynnal VHCC, rhaid bodloni meini prawf cymhwysra penodol. Rhaid hysbysu'r LAA am VHCC dichonol a bydd wedyn yn rhoi contract i'r ffyrn cyfreithwyr a'r eiriolwr/eiriolwyr sy'n gysylltiedig.
- 14.22 Yn achos cyfreithwyr, telir am waith paratoi, presenoldeb yn y llys ac amser teithio ac aros ar y cyfraddau yr awr a bennwyd yn Rhan 3 o Atodlen 6 i'r Rheoliadau Cydnabyddiaeth Ariannol. Mae'r ffioedd hyn yn adlewyrchu gostyngiad o 30% a ddaeth i rym ar ddechrau 2014 ac nid ydynt wedi newid ers hynny.
- 14.23 Yn achos eiriolwyr (yn fargyfreithwyr bron pob un) defnyddiwyd trefniant gwahanol er 2014, a elwir yn gynllun Cynnig Ffi Sefydlog Interim (IFFO). Bydd y ffi sefydlog hon yn cael ei negodi, ac mae'r LAA yn cymhwyso'r cyfraddau a bennwyd yn Rhan 3 o Atodlen 6 a gwybodaeth arall am yr achos i gyfrifo cynnig gan ddefnyddio cyfrifiannell model IFFO yr LAA. Os na fydd y cyfrifiad hwn yn cynhyrchu ffi sy'n adlewyrchu natur neu werth yr achos yn briodol, bydd disgresiwn gan uwch reolwr achosion perthnasol yr LAA i gynyddu (neu leihau, er fy mod yn deall nad yw hyn yn arferol) y ffi gan ystyried gwahanol feini prawf. Mae'r Adolygiad yn deall mai'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yw y ceir negodi rhwng y bargyfreithiwr/bargyfreithwyr cysylltiedig a'r LAA nes cytuno ar ffi, ac wedyn llofnodir contract IFFO. Mae'r Adolygiad yn deall bod y ffi a gytunir yn aml yn fwy na'r hyn a gyfrifwyd yn gyntaf drwy gyfrifiad model yr LAA. Ar ôl cytuno arni, telir y ffi yn rhandaliadau.
- 14.24 Mae patrwm y VHCCs wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl ffigurau a ddarparwyd gan yr LAA, yn 2014/15 roedd 139 o VHCCs wedi'u cwblhau. Cyfanswm y ffioedd cyfreithwyr a godwyd am y VHCCs oedd £30.7 miliwn, tra oedd cyfanswm y ffioedd i fargyfreithwyr yn £22.5 miliwn, gan ddod i gyfanswm terfynol o £53 miliwn. Yn 2018/19 cwblhawyd 28 o VHCCs, a chyfanswm y ffioedd i gyfreithwyr oedd £3.4 miliwn, a chyfanswm y ffioedd i fargyfreithwyr oedd £8.5 miliwn. Yn 2019/20 dim ond 8 VHCC a gwblhawyd, a chyfanswm y ffioedd i gyfreithwyr oedd £526,000 a chyfanswm y ffioedd i fargyfreithwyr oedd £2.4 miliwn, fel mai cyfanswm y gwariant oedd ychydig o dan £3 miliwn.
- 14.25 Er y bydd y ffigurau'n amrywio, am fod achosion VHCC yn gallu para'n hirach nag un flwyddyn, ac am nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng y taliadau a wneir mewn blwyddyn benodol a'r achosion a gwblhawyd yn y flwyddyn honno, cafwyd newid yng nghydbwysedd y gydnabyddiaeth ariannol am VHCCs oddi wrth gyfreithwyr ac at fargyfreithwyr er 2014. Yn ôl ffigurau a ddarparwyd gan yr LAA, mae costau cyfartalog cyfreithyddion llys am achos VHCC ar ei hyd wedi gostwng o £875,541 yn 2014/15 i £570,984 yn 2019/20, gostyngiad o 35%. Dros yr un cyfnod, mae costau cyfartalog bargyfreithwyr am bob achos wedi codi o £762,550 ar gyfer yr achos ar ei hyd yn 2014/15 i £2,121,908 yn 2019/20, cynnydd o 278%. Agwedd bwysig ar hyn yw'r cynnydd yn nifer yr achosion aml-barti sy'n cynnwys nifer o fargyfreithwyr. Ar y llaw arall, cafwyd llai o VHCCs yn gyffredinol.

- 14.26 Yn ôl yr LAA, mae Cwnsleriaid y Frenhines wedi bod â rhan mewn 54 o IFFOs yn cwmpasu 51 o VHCCs rhwng 2014 a 2021. Y cynnig cyfartalog i Gwnsleriaid y Frenhines yn y 27 cyntaf o'r achosion hyn (rhwng 2014 a Hydref 2017) oedd tua £205,400. Y cynnig cyfartalog i Gwnsleriaid y Frenhines yn y 27 achos mwyaf diweddar (rhwng Rhagfyr 2017 a Hydref 2021) oedd oddeutu £296,460, cynnydd o tua 44%. Yn ôl yr LAA, mae'r deg ffi fwyaf a dalwyd i fargyfreithwyr unigol dros y deng mlynedd diwethaf yn yr amrediad rhwng £345,000 a £586,000, ac roeddent yn fwy na hynny mewn dau achos. Wrth gwrs, gall y ffioedd hyn adlewyrchu gwaith ar yr achos dan sylw dros ddwy flynedd a mwy. Er hynny, mae'r achosion hyn yn ddrud o safbwynt y trethdalwr, yn enwedig os oes nifer o Gwnsleriaid amddiffyn yn yr un achos.
- 14.27 Ychydig iawn o dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad am VHCCs, ac mae'r gyfran o'r gwariant cymorth cyfreithiol cyfan ar y rhain wedi bod yn lleihau ers cryn amser. Mewn ymateb i'm cwestiynau am VHCCs, mynegwyd pryder gan yr LAA fod nifer o VHCCs ar y gweill a allai fod yn gostus iawn. Mae'r LAA wedi nodi hefyd fod ffioedd bargyfreithwyr am VHCCs wedi cynyddu a ffioedd y cyfreithyddion llys wedi lleihau. Er hynny, y prif bwynt sy'n peri pryder i'r LAA yw nad oes mecanwaith yn y trefniadau IFFO presennol i ddatrys anghydfod ynghylch ffioedd bargyfreithwyr cyn cytuno ar gontract. Yn ôl yr LAA, mae hyn yn creu sefyllfa anodd, gan fod yr LAA yn amharod iawn i fentro peryglu'r amddiffyniad mewn treial troseddol mawr drwy fethu â chytuno ar y ffioedd a geisir gan fargyfreithiwr. Roedd yr LAA yn awgrymu y byddai cyflwyno mecanwaith datrys anghydfodau gyda phenderfynwr annibynnol yn fodd i leddfu'r problem hon.
- 14.28 Nid wyf yn gallu ffurfio barn yng nghyd-destun yr Adolygiad hwn am resymoldeb ffioedd bargyfreithwyr mewn VHCCs; er bod rhai o'r ffigurau uchod yn ymddangos yn uchel yng nghyd-destun gwasanaethau sector cyhoeddus, maent yn adlewyrchu gwaith dros gyfnodau hir fel arfer. Gan ei bod yn ymddangos bod ffioedd bargyfreithwyr am VHCCs wedi cynyddu, gallaf weld y pwynt y mae'r LAA yn ei wneud, sef y posibilrwydd, ni waeth pa mor annhebygol, o fod heb ddewis bron ond derbyn cais am ffi y mae'r LAA yn ei hystyried yn rhy uchel, neu wynebu'r risg o weld treial cymhleth yn methu a'r holl ganlyniadau a ddaw yn sgil hynny.
- 14.29 Byddwn yn credu mai un cam a fyddai'n rhesymol o safbwynt budd y cyhoedd a'r partïon eu hunain fyddai cyflwyno darpariaeth statudol ar gyfer achosion VHCC²¹⁵ sef, os ceir anghytuno ynghylch ffioedd, y byddai'r partïon wedi'u rhwymo gan fecanwaith datrys anghydfodau annibynnol. Rwyf yn argymhell hyn.
- 14.30 Ar bwynt cysylltiedig, o ystyried geiriad Rheoliad 12A o'r Rheoliadau, nid wyf yn hollol glir ar ba sail gyfreithiol y mae'r LAA yn negodi ffioedd ar gyfer eiriolwyr sy'n wahanol i'r rheini a bennir yn Nhabl 2 yn Rhan 3 o Atodlen 6 i'r Rheoliadau, gan fod yr LAA hefyd yn cymhwyso Tabl 1 yn y ddarpariaeth honno wrth benderfynu ffioedd cyfreithyddion llys. Rwyf yn argymhell bod y sail gyfreithiol i hyn yn cael ei hegluro yn y Rheoliadau, lle y dylid hefyd roi ystyriaeth i'r mecanwaith datrys anghydfodau rwyf wedi'i argymhell.

²¹⁵ [VHCC Arrangements 2017 \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk)

- 14.31 Dewis arall wrth gwrs fyddai cynnwys achosion VHCC yn fframwaith yr LGFS a'r AGFS ar ôl eu diwygio a'u diweddarau, fel rwyf yn argymhell mewn lle arall yn yr Adolygiad hwn. Drwy gymryd y cam hwnnw, gellid datrys y sefyllfa afreolaidd braidd mewn perthynas â'r trefniadau IFFO. Wrth fynd ymlaen, byddai'r Bwrdd Cyngorol mewn lle da i fonitro datblygiadau yn y dyfodol mewn perthynas â VHCCs a gwneud argymhellion yn unol â hynny.
- 14.32 Yn olaf, mewn perthynas â ffioedd cyfreithyddion llys o dan Atodlen 6, Rhan 3, Tabl 1 yn y Rheoliadau, bydd angen addasu'r rhain i'w cynyddu yn unol â'm hargymhelliad cyffredinol ar gyfer cynyddu'r gydnabyddiaeth ariannol i gyfreithwyr. Os bydd y trefniadau IFFO yn parhau, nid wyf i fy hun yn gweld bod y cynnydd mewn cyfraddau am waith paratoi arbennig rwyf yn ei argymhell o dan yr AGFS yn rheswm ar ei ben ei hun dros gynyddu ffioedd VHCC ymhellach, gan fod costau achosion VHCC yn uchel eisoes, ond bydd rhesymoldeb cyffredinol y ffioedd yn fater i'w negodi yn yr achos dan sylw ac yn dod yn destun y mecanwaith datrys anghydfodau os bydd angen. Felly nid wyf yn argymhell unrhyw gynnydd yn y gydnabyddiaeth ariannol i fargyfreithwyr o dan y trefniadau IFFO.

Cyfraith Carchardai

- 14.33 O dan baragraff 11 o Atodlen 4 i'r Rheoliadau, mae cymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer cyngor a chynhorthwy, ac eiriolaeth, mewn perthynas ag achosion yn ymwneud â dedfrydau, achosion disgyblu ac achosion y Bwrdd Parôl.²¹⁶ Mae achosion ynghylch dedfrydau yn ymwneud yn y bôn â chyfrifo dyddiad rhyddhau'r carcharor, a all fod yn fater cymhleth yn ôl y ddeddfwriaeth sy'n gymwysadwy, y cyfnod a dreuliwyd ar remând (ac am ba drosedd), hyd y ddeddfryd wreiddiol (gyda rheolau gwahanol ar gyfer dedfrydau o lai na 12 mis), a yw'r dedfrydau am droseddau gwahanol yn rhai sy'n dilyn ei gilydd neu'n cydreddeg, cymhwysra ar gyfer rhyddhau o dan drwydded neu gyrffyw cyfyngu i'r cartref, a ffactorau eraill. Mae achosion disgyblu yn cynnwys, er enghraifft, materion fel bod â meddiant eitemau sydd heb eu hawdurdodi neu ddefnyddio cyffuriau, ac fe'u penderfynir drwy Feirniadaethau Annibynnol, fel arfer gan Farnwr Rhanbarth, a gallant arwain, er enghraifft, at ychwanegu amser at y ddeddfryd.²¹⁷ Mae achosion y Bwrdd Parôl yn cynnwys penderfynu a ddylai carcharorion aros yn y carchar os cawsant eu galw'n ôl am dorri amodau trwydded, ac a ddylai'r rheini a gafodd ddeddfryd o garchar am oes, dedfryd estynedig neu ddeddfryd Carcharu er Diogelu'r Cyhoedd (IPP) gael eu rhyddhau ar barôl. Mae darpariaethau parôl penodol yn gymwys hefyd i ddiffinyddion ifanc.

²¹⁶ A bod yn fanwl gywir, mae hyn yn amodol ar brawf modd. Mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol na fydd incwm gan garcharorion (sy'n wir fel arfer) a bod eu cyfalaf yn llai na £1000 (ar gyfer cyngor a chynhorthwy) neu £3000 (ar gyfer cynhorthwy cynrychiolaeth). Mae'r rhan fwyaf o garcharorion yn cwrdd â'r gofynion hyn.

²¹⁷ Mae beirniadaethau eraill o flaen Llywodraethwr y Carchar, er enghraifft anufuddhau i orchymyn gan swyddog carchar, nad ydynt yn gymwys ar gyfer cymorth cyfreithiol oni bai fod rheolau "Tarrant" yn gymwys, yn dibynnu yn y bôn ar ddifrifoldeb yr honiad a'r canlyniadau tebygol: gweler *R v Home Secretary ex parte Tarrant* [1985] QB 251.

- 14.34 O dan baragraff 11(1) o Atodlen 4, mae ffi sefydlog o £200.75 yn daladwy am gyngor a chynhorthwy, gyda throthwy ffi dianc o £602.25, drwy ddefnyddio'r cyfraddau yr awr a nodir ym mharagraff 11(2) i gyfrifo a yw'r swm hwn wedi'i gyrraedd, lle mae'r gyfradd am waith paratoi yn £42.80 yr awr. Dyma'r un egwyddor yn y bôn â chynllun gorsaf yr heddlu: dim ond y ffi sefydlog a delir am yr amser a dreulir nes cyrraedd swm y ffi dianc, a dim ond am yr amser ychwanegol uwchben trothwy'r ffi dianc y telir y cyfraddau yr awr.
- 14.35 Ar gyfer cynhorthwy eiriolaeth wrth gynnal achosion ynghylch dedfrydau a disgyblu, mae'r cynllun a amlinellir o dan baragraff 11(3) o Atodlen 4 yn un sydd ar yr un sail yn y bôn â chynllun y Llys Ynadon, hynny yw, ffi safonol is, ffi safonol uwch, a ffi ansafonol. Terfyn y ffi safonol is yw £357.06, y ffi safonol uwch yw £564.16 a therfyn y ffi safonol uwch (lle gellir hawlio'r ffi ansafonol am oriau o waith uwchlaw'r terfyn hwnnw) yw £1691.69. Y cyfraddau yr awr ar gyfer penderfynu pa ffi sy'n gymwys yw £51.24 am waith paratoi a £62.28 am eiriolaeth, tua 10% yn uwch na chyfraddau'r Llys Ynadon.
- 14.36 O dan baragraff 11(4) o Atodlen 4, mae cynllun tebyg yn gymwys i gynhorthwy eiriolaeth yn achosion y Bwrdd Parôl, ar yr un cyfraddau yr awr, ond terfyn y ffi safonol is yw £933.93, y ffi safonol uwch yw £1454.44, a therfyn y ffi safonol uwch yw £4362.54, sydd hefyd yn uwch o lawer na ffioedd eraill a bennwyd yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau.
- 14.37 Yn y blynyddoedd diwethaf, y gwariant ar gymorth cyfreithiol o dan gyfraith carchardai oedd tua £17 miliwn, a cheir tua 19,000 o hawliadau bob blwyddyn. Yn 2019/20 cafwyd tua 7,000 o hawliadau am Gyngor a Chynhorthwy ar Eu Pen eu Hunain (a oedd yn werth tua £3.5 miliwn), 6,800 ar gyfer Eiriolaeth ynghylch Disgyblu yn y Carchar/Dedfrydau (£2.1 miliwn), a 5,500 ar gyfer Eiriolaeth y Bwrdd Parôl (£12 miliwn).²¹⁸
- 14.38 Darparwyd y brif dystiolaeth i'r Adolygiad am gyfraith carchardai gan Gynghrair Howard er Diwygio Cosbau, a ddadleuodd fod y system cymorth cyfreithiol bresennol yn niweidiol ac anghynaliadwy ac yn methu â chwrdd ag anghenion carcharorion, dioddefwyr na'r cyhoedd. Gan fod poblogaeth y carchardai yn cynyddu, a nifer mwy o ddiffynyddion ifanc yn y carchar, a phroblemau iechyd meddwl yn cynyddu, mae hwn yn fater difrifol, yn anad dim am fod carcharorion yn agored i niwed drwy gamddefnyddio pŵer ac mai nifer bach ohonynt sy'n deall eu hawliau cyfreithiol. Ymysg ystadegau eraill, mae Cynghrair Howard yn tynnu sylw at adroddiad gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yn 2021 sy'n dangos bod 70% o ddiffynyddion ifanc yn y carchar yn profi problemau iechyd meddwl neu anawsterau o ran lleferydd, iaith neu gyfathrebu.²¹⁹ Yn ogystal â hyn, mae mwy na hanner y diffynyddion ifanc yn y carchar yn rhai o gefndir

²¹⁸ Tablau Ystadegau Cymorth Cyfreithiol, Ebrill-Mehefin 2021

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1021430/legal-aid-statistics-tables-apr-jun-2021.ods

²¹⁹

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/968700/experime

lleiafrifol ethnig. Mae'n hollbwysig bod mwy o gymorth yn cael ei ddarparu i'r rheini sydd yn y carchar, gan roi pwyslais ar adsefydlu o'r dechrau.

- 14.39 Mae Cynghrair Howard yn awgrymu bod y system bresennol yn creu anghymhelliaid i gyfreithwyr, gan eu gorfodi i ddewis rhwng gwneud y mymryn lleiaf o waith a gweithio am ddim. Po fwyaf agored i niwed yw'r carcharor, a pho fwyaf cymhleth yr achos, lleiaf fydd y cyfreithiwr yn cael ei dalu. Mae'r pwysau emosiynol o waith mewn carchardai yn fawr iawn, mae cyllid annigonol a llwythi achosion mawr yn cael effaith niweidiol ar gyfreithwyr iau, gan eu troi oddi wrth y proffesiwn. Yn ôl ffigurau'r LAA, roedd nifer y darparwyr sy'n gweithio ar gyfraith carchardai wedi gostwng 70% rhwng 2012/13 a 2019/20. Ar ben hynny, un o effeithiau LASPO yw bod cyngor ar gynllunio dedfrydau a mynediad at raglenni ymddygiad troseddol wedi'u tynnu allan o gwmpas cymorth cyfreithiol; byddai adfer hynny ar gost gymedrol yn dod â budd mawr i'r cyhoedd, gan gofio mai cost gyfartalog lle mewn carchar yw tua £44,000, a £101,000 mewn sefydliad troseddwyd ifanc.²²⁰
- 14.40 Roedd ymarferwyr a ymatebodd i'r Adolygiad wedi tynnu sylw yn bennaf at yr anawsterau o gael mynediad at gleientiaid yn y carchar, gydag oedi cyson mewn cynadleddau ffôn neu fideo, diffyg cyfleusterau cynadledda fideo, anawsterau wrth gyfathrebu â charchardai ac amseroedd aros wrth wneud ymweliadau personol. Nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr na thelir am ddim o'r amser hwn. Cyfeiriodd y CBA at ddiffyg cyfleusterau i alluogi'r diffynnydd i gael mynediad digidol at bapurau achos. Wrth gyfeirio at wrandawiadau o bell gan y Bwrdd Parôl yn ystod y pandemig, tynnodd Cynghrair Howard sylw at anawsterau wrth gymryd cyfarwyddiadau yn ystod y gwrandawiadau, a rhoi'r gefnogaeth gyfreithiol ac emosiynol sydd ei angen ar ddiffynnyddion ifanc y gofynnir iddynt ddelio â thrawma blaenorol yn eu bywyd wrth gyfathrebu o bell.

Dadansoddiad

- 14.41 Yn fy marn i, dylid diwygio'r trefniadau ar gyfer cyngor a chynhorthwy o dan baragraffau 11(1) a (2) o Atodlen 4, mewn ffordd debyg i'm hargymhellion ar gyfer cynllun gorsaf yr heddlu ac yn unol â'r trefniadau presennol ar gyfer cynllun y Llys Ynadon. Mewn geiriau eraill, dylid cael ffi safonol is, ffi safonol uwch a ffi ansafonol yn unol â'r egwyddorion a drafodwyd eisoes ym Mhennod 8. Mae hyn yn rhoi'r gallu i gyflawni gwaith yr oedd angen priodol am ei wneud heb y gosb o weithio am ddim mewn achosion mwy anodd fel sy'n ofynnol o dan fecanwaith presennol y ffi dianc.
- 14.42 Ar yr un pryd, dylid cynyddu'r cyfraddau sy'n gymwysadwy – sydd wedi aros yr un fath am flynyddoedd lawer heblaw am y gostyngiad yn 2014 – yn unol â'm hargymhelliaid cyffredinol ym Mhennod 7.
- 14.43 Mae'r cynllun ar gyfer cynhorthwy eiriolaeth mewn achosion dedfrydu, disgyblu a Bwrdd Parôl eisoes yn gweithredu ar sail ffioedd is, uwch ac ansafonol felly, yn fy marn i, nid oes galw am newid strwythurol. Yma eto, fodd bynnag, dylid

²²⁰ [Prison performance statistics 2019 to 2020 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/statistics/prison-performance-statistics-2019-to-2020)

cynyddu'r cyfraddau yn unol â'm hargymhelliad cyffredinol ym Mhennod 7 uchod.

- 14.44 Yn fwy cyffredinol, mae cymorth cyfreithiol ar gyfer cyfraith carchardai yn sefyll ar y groesffordd rhwng nifer o feysydd cydgysylltiedig, yn cynnwys gweinyddiaeth carchardai, polisi dedfrydu, adsefydlu troseddwy, a chyfiawnder ieuenctid; unwaith eto mae cymorth cyfreithiol yn llinyn sy'n rhedeg drwy bob un o'r meysydd hyn. Yn wyneb profiad cyfreithwyr cymorth cyfreithiol sy'n gweithio ym maes cyfraith carchardai ac elusennau fel Cynghrair Howard, ni all rhywun beidio â meddwl y byddai gwell darpariaeth o gyngor cyfreithiol i garcharorion gan gyfreithwyr hyfforddedig, yn cynnwys troseddwy ifanc yn enwedig, yn arwain at well canlyniadau, yn enwedig o ran cyfrifo dedfrydau a phenderfyniadau'r Bwrdd Parôl, a hynny'n arwain yn ei dro at leddfu'r pwysau ar yr ystad garchardai. Yn fy marn i, un dasg allweddol i'r Bwrdd Cynghorol, drwy gydweithio ag asiantaethau eraill fel y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, fyddai dod i well dealltwriaeth o'r ffordd y mae cyngor ar gyfraith garchardai o dan gymorth cyfreithiol yn cael ei drefnu a'i ddarparu, pa ddefnydd a wneir ohono (os o gwbl) yn nhermau gwahanol garchardai a gwahanol fathau o droseddwy, ble mae'r problemau, beth yw'r canlyniadau, beth yw'r dewisiadau eraill posibl, a fyddai angen hyfforddiant ychwanegol, yn enwedig wrth ddelio â throseddwy ifanc, a sut i gadw nifer digonol o gyfreithwyr sydd â gwybodaeth am gyfraith carchardai i gwrdd â'r angen. Byddai hyn yn rhoi'r gallu hefyd i wneud asesiad mwy gwybodus o gwmpas cymorth cyfreithiol mewn carchardai, gyda'r bwriad o bosibl o ehangu'r cwmpas hwnnw fel yr awgrymodd Cynghrair Howard yn ei thystiolaeth.
- 14.45 Rwyf yn awgrymu, o ystyried costau uchel carchardai, a sefydliadau troseddwy ifanc yn enwedig, fod rhagor o fuddsoddi mewn cymorth cyfreithiol mewn carchardai yn debygol o fod yn fanteisiol iawn o ran lleihau'r niferoedd mewn carchardai a gostwng aildroseddu. Ond mae angen cael mwy o ddata i roi prawf ar y ddamcaniaeth honno.
- 14.46 Yn olaf, o ran mynediad at gyfleusterau carchar, boed drwy ymweld â chleient yn bersonol yn y carchar neu drwy gynadledda fideo, oherwydd diffyg adnoddau a'r pwysau mawr ar staff carchardai yn ddi-os, yma eto mae'n hawdd i un rhan o'r system, sef y carchardai yn yr achos hwn, orfodi costau ar ran arall o'r system, sef cymorth cyfreithiol troseddol yn yr achos hwn. Rwyf yn sicr y sylweddolir bod gwell ffyrdd o gyfathrebu rhwng cyfreithwyr amddiffyn a chleientiaid yn y carchar yn arbed amser ac adnoddau i'r SCT gyfan, hyd yn oed os yw'n gost i gyllideb y carchar. Ym eto, rwyf yn sicr bod y buddsoddi mewn gwelliannau sydd wedi'i wneud eisoes, a'r buddsoddi mewn gwelliannau pellach, yn talu ar ei ganfed o ran gwella gweithrediad y SCT gyfan.

Ffioedd Tystion Arbenigol

- 14.47 Mae Atodlen 5 i'r Rheoliadau yn pennu ffioedd ar gyfer tystion arbenigol mewn achosion cyfraith trosedd. Nid yw'r rhain wedi newid ers blynnyddoedd lawer, ond cafwyd gostyngiad ynddynt o 20% yn 2014. Rwyf yn deall mai'r alldaliadau

i arbenigwyr yn 2019/20 oedd tua £30 miliwn, swm sydd eisoes wedi'i gynnwys yng nghost y gwahanol gynlluniau ffioedd.

- 14.48 Roedd y Sefydliad Tystion Arbenigol yn dadlau bod y ffioedd i dystion arbenigol yn rhy isel, fel bod nifer o dystion arbenigol yn amharod i ymgymryd â gwaith cymorth cyfreithiol. Yn wyneb y gostyngiad yn 2014, a'r ffaith na chafwyd cynnydd ers hynny, nid yw'r cyfraddau presennol yn ddigon i arbenigwyr dalu eu costau. O ganlyniad i hyn hefyd, cafwyd dirywiad yn ansawdd tystiolaeth arbenigwyr, gan arwain weithiau at ganlyniadau trychinebus lle mae treialon yn methu neu reithfarnau'n gorfod cael eu gwrthdroi ar apêl.
- 14.49 Nododd yr LCCSA fod alldaliadau i arbenigwyr yn y Llys Ynadon, yn wahanol i'r sefyllfa yn Llys y Goron, yn cael eu had-dalu gan yr LAA ar derfyn yr achos yn unig, a hynny'n arwain at broblemau o ran llif arian parod i ddarparwyr, yn enwedig mewn perthynas ag achosion y llys ieuenctid lle'r oedd angen cael tystiolaeth gan seicolegwyr a seiciatryddion yn aml. Roedd ymchwil gan Dr Lucy Welsh wedi dangos bod taliadau hwyr gan ddarparwyr i dystion arbenigol yn peri problem ddifrifol i'r tystion hynny, a oedd wedi awgrymu y gallent gael eu talu'n uniongyrchol gan yr LAA.
- 14.50 Roedd sylfaenydd Forensic Resources Cyf wedi gwneud nifer o bwyntiau tebyg, a chyfeiriodd at bolisi'r LAA ar ofyn am ddyfynbrisiau am waith tystion arbenigol, gan fod awgrym ei bod yn ymddangos bod yr LAA bob amser yn cymeradwyo'r arbenigwr rhataf a'i bod yn dilyn gweithdrefn bendrwm ac anghyson ar gyfer awdurdodi ymlaen llaw.
- 14.51 Yn fy marn i, mae tystion arbenigol yn chwarae rhan allweddol yng ngweinyddiad cyfiawnder, a dylai diffynyddion sy'n derbyn cymorth cyfreithiol fod â'r gallu i gael tystion arbenigol sy'n ddibynadwy, o ansawdd da, ac yn meddu ar ddealltwriaeth trwyadl o'u rôl er mwyn rhoi cymorth gonest a gwrthrychol i'r Llys. Mae hynny'n arbennig o wir mewn perthynas â thystiolaeth feddygol a'i thebyg, ond heb fod yn gyfyngedig i'r maes hwnnw o bell ffordd. Yn fy marn i, mae hwn yn faes lle mae gorgynilo ar ffioedd cymorth cyfreithiol i dystion arbenigol yn debygol o fod yn wrthgynhyrchol ac arwain at ganlyniadau negyddol.
- 14.52 Mae cyfraddau sy'n daladwy i dystion arbenigol mewn achosion troseddol yn cyfateb i'r rheini a ddefnyddir ar gyfer materion sifil, heblaw am y ddarpariaeth ar gyfer talu'n fwy na'r terfyn uchaf "mewn amgylchiadau eithriadol" ar gyfer yr olaf.²²¹ Cafwyd toriad o 20% ar y ddwy set o gyfraddau yn 2014.
- 14.53 Oherwydd y rhan bwysig y mae tystion arbenigol yn ei chwarae yng ngweinyddiad SCT deg, a'r ffaith bod mwy na saith mlynedd wedi mynd heibio ers y gostyngiad yn 2014, rwyf yn argymhell cynnydd sylweddol yn ffioedd tystion arbenigol yn unol â'r argymhellion mewn mannau eraill yn yr Adroddiad hwn.

²²¹ Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Cydnabyddiaeth Ariannol) 2013, Atodlen 5, paragraff 2

- 14.54 Gyda golwg ar y problemau o ran llif arian parod, nid wyf yn sicr pam mae rheolau gwahanol gan yr LAA ar gyfer ad-dalu alldaliadau yn y Llys Ynadon yn hwyrach nag yn Llys y Goron. Rwyf yn gobeithio y byddai modd addasu system yr LAA i sicrhau bod alldaliadau'n cael eu gwneud yn gynharach i'r darparwr, fel y bydd yr olaf yn gallu talu ffioedd arbenigwyr yn brydlon am waith yn y Llys Ynadon.
- 14.55 Ar fater y dyfynbrisiau, mae'r ffioedd cyffredinol wedi'u pennu o dan y Rheoliadau a gellir cymryd y bydd nifer o achosion lle y gellir gwneud amcangyfrif rhesymol o'r amser y bydd ei angen fel arfer. Mewn maes fel gwaith tystion arbenigol, byddwn yn anesmwyth ynghylch unrhyw olwg bod y dyfynbris isaf yn cael ei awdurdodi'n ddieithriad ym mhob achos, er fy mod yn deall yn iawn yr awydd i ddiogelu arian y cyhoedd. Rwyf yn awgrymu y dylai'r LAA adolygu ei gweithdrefnau ar gyfer awdurdodi ymlaen llaw gyda'r bwriad o sicrhau eu bod yn gymesur â'r angen.
- 14.56 Pe byddai newid yn y system sy'n golygu gwneud taliadau uniongyrchol gan yr LAA i'r arbenigwr, byddai canlyniadau pellgyrhaeddol i gymorth cyfreithiol troseddol a sifil, ac nid wyf wedi edrych ymhellach ar yr opsiwn hwnnw. Er hynny, rwyf yn gobeithio y bydd fy argymhellion ar gyfer cynnydd cyffredinol yn y ffioedd cymorth cyfreithiol a delir i gyfreithwyr yn fodd hefyd i liniaru unrhyw broblemau o ran llif arian parod a gafwyd yn y gorffennol.

PENNOD PYMTHEG: FFYRDD YMLAEN A MATERION SYDD HEB EU TRAFOD

- 15.1 O safbwynt cymorth cyfreithiol troseddol, mae'r Adolygiad hwn wedi gorfod ymdrin â phynciau o lawer math yn ymwneud â sawl agwedd ar y SCT, yn ogystal â phwyntiau manwl a thechnegol. Mae'n anochel, yn yr amser a oedd ar gael, nad oedd modd ymdrin yn fanwl â phob agwedd ar y Cylch Gorchwyl. Yn y Bennod olaf hon, rwyf yn nodi fy marn ar y llwybr i'w ddilyn yn y dyfodol, yn tynnu ynghyd nifer o'r materion a drafodwyd uchod ac yn rhoi sylw i rai faterion sydd heb eu trafod.

Y Bwrdd Cynghorol

- 15.2 Fel yr eglurwyd ym Mhennod 4 uchod, mae hanes cymorth cyfreithiol dros yr 20 mlynedd diwethaf ymhell o fod yn ddelfrydol. Mae'r cynlluniau'n ei chael yn anodd cadw'n wastad ag anghenion y SCT, a gwahanol bryderon y darparwyr. Pan fydd darparwyr yn wynebu anawsterau, mae tuedd i negodiadau â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gael eu cynnal yn ddwyochrog heb gynnwys rhanddeiliaid eraill.
- 15.3 Yn fy marn i, byddai Bwrdd Cynghorol annibynnol, yn adrodd yn rheolaidd i'r Arglwydd Ganghellor, yn gallu cymryd golwg ehangach ac, yn benodol, helpu i ddatblygu dull mwy cydgysylltiedig o drafod cymorth cyfreithiol troseddol yn y SCT. Byddwn yn deall yr amharodrwydd i weld "corff" arall eto yn cymryd rhan yn y broses ond rwyf yn cyflwyno'r rhesymau canlynol dros y cynnig hwn.
- 15.4 Yn gyntaf, ni fydd y system cymorth cyfreithiol troseddol yn cael ei hailgodi dros nos, a bydd yn cymryd cryn amser i weithredu argymhellion yr Adolygiad, i'r graddau y cânt eu mabwysiadu. Rwyf yn gweld rôl ganolog i'r Bwrdd Cynghorol wrth fonitro a meithrin y broses barhaus honno, gan ystyried gweithrediadau'r SCT yn ei chyfanrwydd.
- 15.5 Yn ail, rwyf yn gweld y Bwrdd Cynghorol annibynnol yn un sy'n wahanol i'r model traddodiadol sy'n seiliedig ar negodi dwyochrog uniongyrchol rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a darparwyr. Byddai'r Bwrdd Cynghorol yn annibynnol, ac mewn lle i ddal sylw ar fuddiannau defnyddwyr, a buddiannau'r SCT gyfan.
- 15.6 Yn drydydd, byddwn yn gweld y Bwrdd Cynghorol yn fforwm lle bydd rhanddeiliaid eraill, yn cynnwys y Swyddfa Gartref, yr Heddlu, y CPS, HMPPS a'r Llysoedd yn gallu trafod materion sydd o ddiddordeb cyffredin, er enghraifft ymgysylltu cynnar a pherchnogaeth ar achosion, fel y bydd yr effeithiau o newidiadau mewn cymorth cyfreithiol troseddol yn cael eu deall yn drwyadl ym mhob rhan o'r SCT, ac fel arall. Fel y dywedodd Syr Brian Leveson, dim ond

drwy ddod â'r holl gyfranogwyr at ei gilydd, yn cynnwys yr amddiffyniad, y gellir dod o hyd i atebion.²²²

- 15.7 Yn bedwerydd, byddwn am weld y Bwrdd Cyngorol yn helpu i lunio polisi. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a ddylai fod yn llwyr gyfrifol am bolisi, yn fy marn i, ond rwyf yn awgrymu, o gael Bwrdd sy'n gallu cynnig cyngor parhaus ar sail mewnbwn gan yr holl randdeiliaid yn y SCT, yn cynnwys yr LAA wrth gwrs, y byddai modd rhoi'r system gyfan ar sylfaen gadarnach, ac osgoi gobeithio yr angen am gynnal Adolygiadau fel hwn bob 10 neu 15 mlynedd.
- 15.8 Rwyf yn gobeithio hefyd y byddai'r Bwrdd Cyngorol yn gallu cymell gwell ymgysylltu o fewn y SCT ar lefel leol. Efallai mai'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol fyddai'r sefydliadau priodol i'r diben hwn: yn sicr mae'r dystiolaeth a gafwyd gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Swydd Hants ac Ynys Wyth yn egluro'r trefniadau lleol wedi bod o gymorth i'r Adolygiad. Bydd yr union fath o drefniadau lleol yn sicr o amrywio, ond gorau po fwyaf y gellir ei wneud i wyntyllu problemau cyffredin, yn cynnwys y rheini sydd gan ddarparwyr amddiffyn, ar lefel leol.
- 15.9 Yn olaf, ond nid lleiaf o bell ffordd, byddai'r Bwrdd Cyngorol yn gallu arwain a helpu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gasglu'r data sydd heb fod ar gael ar hyn o bryd er mwyn asesu i ba raddau y mae'r system cymorth cyfreithiol troseddol yn cwrdd ag anghenion defnyddwyr a chymdeithas fodern mewn gwirionedd. Er enghraifft, pam na wneir mwy o ddefnydd o gyngor cyfreithiol yng ngorsaf yr heddlu? A yw hyn yn amrywio rhwng gwahanol rannau o'r wlad, neu wahanol droseddau neu droseddwyr ac, os felly, pam? A oes digon o gyfreithwyr sydd â sgiliau i ddelio â diffynyddion ifanc neu ennill ymddiriedaeth rhai dan amheuaeth o gefndir lleiafrifol ethnig neu roi sylw i broblemau niwroamrywiol? A oes bylchau yn y system, er enghraifft, a oes digon o gyfreithwyr ym maes cyfraith carchardai, apelau, neu achosion POCA, neu rai sydd wedi'u hyfforddi i wneud gwaith y Llys leuenctid ac, os nad oes, sut y gellir cywiro hyn? Nid yw'r rhagdybiaeth y bydd y model preifat presennol yn gallu cwrdd bob amser, heb gymorth, â holl anghenion gwahanol ddefnyddwyr y system yn un y dylid ei chymryd yn ganiataol, fel y trafodir yn yr adran nesaf.

Datblygiadau Strwythurol

- 15.10 Gan fod lefel y morâl yn isel ac oherwydd anawsterau ariannol ymysg darparwyr presennol, a'r angen i'r SCT barhau i weithredu, yn enwedig i fynd i'r afael â'r ôl-groniad, nid oeddwn yn ei weld yn synhwyrol rhoi blaenoriaeth i ddiwygio o'r bôn i'r brig yn y system cymorth cyfreithiol troseddol bresennol.
- 15.11 Am y rhesymau a eglurwyd ym Mhennod 7 uchod, rwyf yn ei weld yn well mynd ati'n gyntaf i wella'r system bresennol. Ar wahân i'r canlyniadau cyfansoddiadol a sefydliadol o newid mawr, un o'r gwersi pennaf a ddysgwyd o'r ymdrechion

²²² *Review of Efficiencies in Criminal Proceedings* (paragraff 5, t. 3), y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson (2015)

ffaeledig i ddiwygio yn y cyfnod rhwng 2010 a 2016 yw'r anhawster o ddyfeisio atebion "o'r brig i lawr" mewn marchnad mor gymhleth. Mae'r system cymorth cyfreithiol troseddol wedi gallu ymdopi ag amrywiaeth fawr o achosion, yn amrywio o dwyll rhyngwladol soffistigedig iawn fel Encrochat hyd at helyntion mewn tafarndai, gyda gwahaniaethau sylweddol mewn anghenion rhwng gwahanol ardaloedd yng Nghymru a Lloegr, a gwahanol anghenion cymunedau amrywiol, yn enwedig y rheini o gefndir lleiafrifol ethnig.

- 15.12 Felly byddwn o blaid dull esblygol o weithredu tua'r dyfodol, gan ystyried y posibiladau canlynol ymysg eraill, y byddai pob un ohonynt yn galw am fyfrio pellach a chynlluniau treialu. Mae'n ddigon posibl, unwaith y sylweddolir nad yw manylion y system bresennol yn ddigynfawr o reidrwydd, y bydd darparwyr dichonol ac eraill yn camu ymlaen â chynigion pellach.

Nid er elw?

- 15.13 Yn gyntaf, dyna'r model "nid er elw". Roedd un ymatebydd i'r Adolygiad, Commons Law, wedi egluro eu bod yn Gwmni Buddiannau Cymunedol (CIC) a sefydlwyd gan nifer bach o gyfreithwyr a gytunodd i gapio eu cyflogau a gweithio fel ffyrm cyfreithwyr cymunedol. Mae Commons Law, sydd wedi'i leoli yn Ne Llundain, yn gweithio ar sail gyfannol, gan y bydd y cleient mewn mater troseddol yn un sydd ag amrywiaeth o broblemau fel arfer, boed yn anallu i gael swydd, neu dai, neu faterion mewnfudo neu ddomestig. Bydd Commons Law yn delio â mater troseddol y cleient fel ffyrm cyfreithwyr arferol, ond hefyd yn darparu cymorth parhaus i'r cleient wrth ddelio â'i broblemau ehangach, er enghraifft, drwy atgyfeirio neu gydgyssylltu â gweithwyr ieuchyd proffesiynol, gweithwyr cymdeithasol, darparwyr gofal, Cynghorau Lleol, ac elusennau i fynd i'r afael â'r problemau sylfaenol a allai fod wedi achosi'r ymddygiad troseddol yn y lle cyntaf. Yn ei ymateb i'r Adolygiad, roedd Commons Law yn feirniadol o'r seilios a sefydlwyd gan y gwahanol systemau ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throseddol, y dywedir eu bod yn rhwystr i'r model cyfannol. Mae'r cysyniad ar gyfer Commons Law yn deillio o'r Bronx Defenders yn Efrog Newydd, amddiffynnydd cyhoeddus sy'n cael ei ariannu'n bennaf o goffrau cyhoeddus.
- 15.14 Hyd yn oed o weithredu'r diwygiadau rwyf yn eu hargymhell, ni ellir ei gymryd yn ganiataol y bydd y sector preifat bob amser yn gallu darparu gwasanaeth cymorth cyfreithiol troseddol digonol ym mhob ardal. Mae anawsterau neilltuol yn codi am ryw reswm neu'i gilydd mewn rhannau o Gymru, yn Ynys Wyth, De-orllewin Lloegr ac East Anglia, er ei bod yn bosibl bod problemau yng nghanol rhai dinasoedd hefyd. Er mwyn llenwi'r bylchau hyn, byddai lle i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wahodd tendrau gan CICs neu gyrff tebyg i lenwi'r bylchau hyn, ac mae'n bosibl y byddai angen darparu cymorth grant i ddarparwyr nid er elw o'r fath er mwyn eu hannog i gymryd rhan. Ar sail y model hwn, byddai'r endidau cysylltiedig yn darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol yn yr un ffordd â darparwyr eraill, fel y mae Commons Law yn ei wneud. Mae'n amlwg y byddai angen rhoi mwy o ystyriaeth i'r ffordd y byddai hyn yn gweithio ochr yn

ochr â darparwyr presennol, ond mae hwn yn opsiwn ar gyfer ardaloedd lle nad oes gwasanaeth da gan y sector preifat.

Strwythur cyfannol?

- 15.15 Mae'r pwynt pellach a wnaiff Commons Law am y model "cyfannol" yn ymddangos yn un teg yn fy marn i. Ceir nifer mawr o achosion lle mae sawl problem gan yr unigolyn dan sylw, sy'n arwain at ymddygiad troseddol, ond nid yw delio â'r amddiffyniad i'r drosedd yn mynd i'r afael â'r problemau sylfaenol. Mae'n ymddangos bod hynny'n awgrymu na ddylai CICs neu gyrff tebyg fod yn gyfyngedig i achosion troseddol, ond y dylent allu delio ag achosion sifil hefyd, gan dderbyn cymorth grant o bosibl i weithio mewn ardaloedd lle nad oes cyflenwad digonol. Mae hynny'n dod â rhywun wedyn at y cwestiwn a ddylai'r gwahanol gynlluniau ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throseddol gael eu cydblethu'n well, neu hyd yn oed datblygu i fod yn gynllun sengl. Mae'r cwestiwn hwnnw y tu allan i gwmpas yr Adolygiad, ond mae'n bosibl y dylid ei ystyried yn y dyfodol fel modd i ganolbwyntio ar yr unigolyn penodol yn hytrach na meddwl a yw'r problemau i'w hystyried yn rhai "sifil" neu "droseddol".
- 15.16 Yng nghyd-destun cymorth cyfreithiol troseddol, byddai'n werth ystyried o ddifrif y posibilrwydd o drefnu bod cyllid ychwanegol ar gael i'r cyfreithiwr amddiffyn i ymgysylltu, cyn neu ar ôl cael euogfarn, â'r gwasanaethau cymorth perthnasol, yn cynnwys y gwasanaeth prawf neu'r Tîm Troseddau leuenctid lleol, gan dreialu hynny efallai yn ôl yr angen. Byddai hyn yn estyniad rhesymegol i'r cyllid rwyf wedi'i argymhell eisoes ar gyfer ymgysylltu cyn ac ar ôl cyhuddo ym Mhennod 9 uchod.

Targedu gwahanol ffyrmau ar wahanol rannau o'r farchnad?

- 15.17 Mae'n ymddangos bod strwythur yr SCC presennol yn cymryd yn ganiataol bod ei ofynion yn addas at bob math o ffym sy'n gwneud gwaith cymorth cyfreithiol troseddol, heb ystyried beth mae'r ffym yn ei wneud mewn gwirionedd. Y gwir yw y bydd y rhan fwyaf o ffyrmau'n ymgymryd â phob math o waith, drwy orsaf yr heddlu, y Llys Ynadon a Llys y Goron, ond byddai rhywun yn gallu rhag-weld modelau gwahanol lle na fyddai rhai ffyrmau, er enghraifft, yn ceisio gwneud yr achosion mwy cymhleth, neu'n eu cyfyngu eu hunain mewn rhyw ffordd neu'i gilydd i wneud gwaith "bara meny" llai difrifol yn unig, neu waith yn y Llys Ynadon yn unig, er enghraifft. Wedyn gallai rhywun addasu'r fframwaith rheoleiddio a chydymffurfio yn unol â hynny, gan osod costau gweinyddol (a chostau yswiriant) llai ar ffyrmau sy'n cynnig yr hyn y gellid ei alw'n wasanaeth "cyfyngedig" yn hytrach nag un "cynhwysfawr". Un o'r canlyniadau i hyn fyddai lleihau'r costau am ymuno, a hwyluso'r gallu i ymuno, er enghraifft gan ffyrmau CILEX sy'n gweithredu modelau symlach. Byddai fy argymhelliad y dylai pob un o'r prif ffrydiau gwaith cymorth cyfreithiol troseddol fod yn hunangynhaliol, yn wahanol i'r sefyllfa bresennol lle mae gwaith ar golled yn gorfod cael ei sybsideiddio gan waith arall, yn gallu peri bod yr awgrym hwn yn fwy dichonadwy, ac felly arwain at lai o gostau i'r trethdalwr yn gyffredinol.

- 15.18 Gellir gweld nifer o anawsterau ymarferol, ond os oedd tystiolaeth bod galw am ddull gweithredu o'r fath a bod darparwyr yn barod i'w ystyried, byddai'n werth ymchwilio iddo ymhellach yn fy marn i. Byddai dull gweithredu o'r fath yn gallu arwain at arbed costau gan hyrwyddo amrywiaeth yr un pryd.

Darparwyr penodol i ddiwallu anghenion penodol?

- 15.19 Yng nghyswllt y drafodaeth uchod, mae ymatebydd arall i'r Adolygiad, Appeal, yn ei ddisgrifio ei hun fel elusen a ffyrn cyfreithwyr, gyda chontract cymorth cyfreithiol sy'n gyfyngedig i apelau ac adolygiadau gan y CCRC. Mae Appeal yn dadlau bod y strwythur presennol ar gyfer cymorth cyfreithiol wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth y bydd trwygyrch cymharol uchel gan ffyrniau o achosion o sawl math gwahanol; nid yw'n darparu'n hwylus ar gyfer darparwyr sy'n arbenigo mewn meysydd penodol, fel Appeal sy'n canolbwyntio ar waith apeliadol ar sail nid er elw. Mae Appeal yn tynnu sylw at sefydliadau nid er elw yn UDA sy'n arbenigo mewn dosbarth achosion penodol, neu achosion sy'n cynnwys agweddau penodol fel problemau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau.
- 15.20 Yma eto, mae'n ymddangos i mi fod datblygu ffyrniau o fathau newydd, gyda chymorth grantiau bloc gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn arbenigo mewn mathau penodol o waith, troseddwy'r ifanc er enghraifft, neu feysydd a esgeuluswyd fel apelau neu gyfraith carchardai a drafodwyd ym Mhennod 14 uchod, yn ddull o weithredu y dylid ei ystyried o ddifrif gyda golwg ar y posibilrwydd o'i dreialu, fel modd i lenwi bylchau posibl nad yw'r farchnad yn gallu delio â nhw'n ddigonol.
- 15.21 Mae Appeal yn tynnu sylw hefyd at agwedd arall ar y system bresennol sydd eisoes wedi'i chrybwyll uchod, sef diffyg data clir ar gyfer targedu'r angen. Mae Appeal yn awgrymu, er enghraifft, ei bod yn ddigon posibl y byddai astudiaeth fanwl o achosion apêl yn dangos ble mae'r problemau. Byddwn yn meddwl y byddai ymchwil debyg o fudd mewn nifer o feysydd arbenigol.

Cymorth i hyfforddeion a newydd-ddyfodiaid ifanc

- 15.22 Roedd yr adroddiad diweddar gan y Pwyllgor Cyfiawnder²²³ yn argymhell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried galluogi'r LAA i ddarparu cyllid penodol i ddarparwyr cymorth cyfreithiol i gymryd ymlaen hyfforddeion, wedi'i dargedu ar ardaloedd lle mae cyngor arbenigol yn neilltuo o brin. Rwyf yn cefnogi'r argymhelliad hwn.
- 15.23 Yng nghyswllt y Bar, mae'n ymddangos yn eithaf clir bod y rheini o gefndiroedd llai breintiedig yn ei chael yn anodd dal ati yn y blynyddoedd cyntaf o ymarfer, yn enwedig yn Llundain. Gellid dweud mai effaith grymoedd y farchnad yw hyn a dim mwy, ond ar y llaw arall mae'n ymddangos bod y sefyllfa hon yn un strwythurol sy'n tueddu i barhau'r diffyg amrywiaeth ymysg bargyfreithwyr

²²³ The Future of Legal Aid (paragraff 153, t.65) – Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin - [The Future of Legal Aid \(parliament.uk\)](https://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/legal-aid/)

cymorth cyfreithiol troseddol. Mae hyn yn effeithio'n neilltuol ar y rheini o gefndiroedd cymdeithasol ddifreintiedig, yn cynnwys cyfreithwyr lleiafrifol ethnig. Rwyf yn awgrymu y dylai ystyriaeth gael ei rhoi gan wahanol siambrau, neu Ysbytyau'r Brawdlys, neu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, i drefnu bod grantiau ychwanegol ar gael i sicrhau na fydd cyfreithwyr ifanc ym maes cymorth cyfreithiol troseddol yn cael eu cau allan o'r proffesiwn am resymau ariannol yn unig yn y cyfnod cychwynnol wedi i ddisgybledd ddod i ben a chyn dechrau sicrhau incwm rheolaidd.

Strwythur proffesiwn y bargyfreithwyr

- 15.24 Roedd Syr Bill Jeffrey wedi awgrymu yn 2014 fod manteision posibl i'w cael, yn lle'r system bresennol lle mae cyfreithiwr ifanc yn gorfod dewis ar y dechrau a fydd yn gyfreithiwr neu'n fargyfreithiwr, a dilyn y llwybrau hyfforddi gwahanol a ddarperir, o gael patrwm gyrfa cyffredinol lle byddai'r rhan fwyaf o gyfreithwyr ifanc yn ymuno â ffyrniau cyfreithwyr ar y dechrau, gan ennill cyflog, cael eu rhoi ar ben ffordd, ac ennill profiad o eiriolaeth yn y llysoedd is, ac wedyn, os ydynt yn dewis, mynd ymlaen at y Bar yn ddiweddarach. Gallaf weld cryfderau yn ogystal â gwendidau yn yr awgrym hwn, yn anad dim y posibilrwydd y byddai llai byth o aelodau iau mewn siambrau sydd eisoes yn heneiddio. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd SQE newydd yr SRA yn cynnig cyfleoedd ehangach i ymgymhwyso'n gyfreithiwr. Dros amser, byddai sefyllfa lle mae cyfreithiwr sydd eisoes wedi ymgymhwyso yn trosglwyddo i'r Bar yn gallu dod yn ddewis mwy cyffredin yn lle'r disgybledd traddodiadol ac rwyf yn gobeithio y byddai bargyfreithwyr a ariennir gan y cyhoedd yn croesawu hynny.

Amrywiaeth

- 15.25 Cyfeiriwyd eisoes mewn Penodau blaenorol at nifer o faterion amrywiaeth, boed y rheini'n ymwneud ag oed, cefndir cymdeithasol, rhywedd neu ethnigrwydd. Mae'r materion sy'n effeithio ar ddiffynyddion ifanc a rhai ifanc dan amheuaeth, yn enwedig y rheini o gefndir BAME, wedi'u trafod eisoes ym Mhennod 8 (gorsaf yr heddlu), Pennod 11 (y Llys Ieuencid) a Phennod 14 (cyfraith carchardai) uchod. Yn yr un modd, mae materion sy'n effeithio ar aelodaeth CILEX, lle y ceir amrywiaeth sylweddol, wedi'u codi mewn perthynas â chymhwyster y cyfreithiwr ar ddyletswydd (Pennod 8) a'r posibilrwydd o ddatblygu model busnes gwahanol â chostau llai (y Bennod hon uchod). A siarad yn gyffredinol, dylid hyrwyddo'r rôl werthfawr a gyflawnir gan aelodau CILEX ym mhob rhan o'r sector cymorth cyfreithiol troseddol.²²⁴
- 15.26 Yng nghyd-destun amrywiaeth gymdeithasol, ryweddol neu ethnig, un pwynt cyffredin a wnaed i'r Adolygiad, er enghraifft gan CILEX, Rhwydwaith Cyfreithwyr Du, Grŵp Cyngorol Cyfreithwyr Mwslimaidd, ac yn y Grwpiau

²²⁴ Mae CILEX hefyd wedi tynnu sylw'r Adolygiad at yr anhawster o ddod yn Erlynydd y Goron gyda'r CPS heb ymgymhwyso'n gyfreithiwr yn ogystal, er bod aelodau CILEX yn gweithio i'r CPS fel Eiriolwyr Troseddol ac Erlynwyr Cyswllt. Mae'r mater hwn y tu allan i gwmpas yr Adolygiad er fy mod yn nodi'r angen i gynyddu amrywiaeth ym mhob rhan o'r SCT ac i gwrdd â'r galw oherwydd yr ôl-groniad.

Ffocws (Atodiad E) oedd bod lefel isel y cyfraddau cymorth cyfreithiol troseddol yn gyffredinol yn ei gwneud yn anodd i ffyrniau llai barhau i gynnig cyfleoedd gyrfa i gyfreithwyr o grwpiau cymdeithasol ddifreintiedig neu leiafrifol ethnig lle maent wedi arfer gwneud hynny. Oherwydd hynny, roedd llai o gyfreithwyr o'r cefndiroedd hyn yn dod i'r system. Gan fod y gyfran o ddiffynyddion cymdeithasol ddifreintiedig neu leiafrifol ethnig sydd yn y SCT yn gymharol uchel, roedd hynny'n golygu ymysg pethau eraill fod prinder o ran nifer y cyfreithwyr sy'n gallu dod i berthynas â'r diffynyddion hyn, ac fel arall, a bod hyn yn ei dro yn tanseilio ymddiriedaeth yn y system.

- 15.27 Rwyf yn gobeithio'n gyntaf y bydd y cynnydd cyffredinol rwyf yn ei argymhell mewn cyfraddau cymorth cyfreithiol yn ei gwneud yn haws i ffyrniau llai, ac yn wir i ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol yn gyffredinol, fuddsoddi a chynnig llwybr gyrfa i unigolion sydd ag egni a photensial, o ba gefndir bynnag. Mewn perthynas yn benodol â'r angen sydd heb ei ddiwallu oherwydd diffyg cyfatebiaeth ddiwylliannol rhwng cefndir nifer mawr o ddiffynyddion lleiafrifol ethnig a chefnidir y cyfreithwyr trosedd sydd ar gael i'w cynghori, mae'r pwynt hwn wedi'i wneud hefyd gan Mr Lammy. Fel y trafodwyd hefyd ym Mhennod 8, mae angen ymdrin o ddifrif â'r mater hwn, er enghraifft drwy ystyried mentrau wedi'u targedu, gyda chymorth grantiau gan Lywodraeth neu elusennau, mewn meysydd penodol er mwyn cyflenwi'r angen yn well, a chryfhau ymddiriedaeth yn y SCT. O safbwynt cymorth cyfreithiol, ni ddylid gadael i unrhyw anystwythder yn y system sefyll yn y ffordd wrth geisio atebion, er enghraifft dylid ystyried unrhyw addasu sydd ei angen ar y cynllun cyfreithiwr ar ddyletswydd. Rwyf yn gobeithio y byddai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn mynd ati ar y cyd â chymunedau lleol, a chyda chymorth y Bwrdd Cynghorol, i ystyried ffyrdd posibl i ddelio â'r materion hyn.
- 15.28 Gan droi'n fwy cyffredinol at ffyrniau cymorth cyfreithiol troseddol, mae'r Casgliad Data yn dangos bod lefelau'r rhywiau yn gyfartal yn fras ym mhob rhan o'r proffesiwn, gan ffafrio menywod yn bendant nes cyrraedd oddeutu 45 mlwydd oed, a bod y gyfran wedyn yn newid yn raddol o blaid dynion. Fodd bynnag, yng nghyswllt cyfreithwyr ar ddyletswydd mae'r Casgliad Data yn dangos bod rhaniad o 65/35 yn gyffredinol o blaid dynion, efallai o ganlyniad i'r ffaith bod oed cyfartalog y dynion yn codi. Fel y nodwyd ym Mhennod 8 uchod, nid yw'r un sefyllfa'n bodoli mewn perthynas â chynrychiolwyr achrededig yng ngorsaf yr heddlu lle mae'r rhaniad oddeutu 50-50.
- 15.29 Yn fy marn i, mae'n bwysig bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder, drwy gydweithio â'r LAA, a chynrychiolwyr cyfreithwyr, yn dod i ddeall pam mae diffyg cydbwysedd rhwng y rhywiau o blaid cyfreithwyr ar ddyletswydd gwrywaidd. Awgrymwyd i'r Adolygiad y gellir priodoli hyn yn rhannol i'r rheol 14 awr a drafodwyd ym Mhennod 8 uchod. Er fy mod yn deall bod yr LAA wedi addasu'r rheol hon, mae'n bwysig cadarnhau nad oes dim yn y system cymorth cyfreithiol troseddol sy'n cyfrannu at broblem amrywiaeth o'r math hwn. Os oedd hynny'n digwydd, dylid cymryd camau i'w gywiro.

- 15.30 Mewn perthynas â bargyfreithwyr, mae'n ymddangos bod nifer o faterion yn codi. Y cyntaf yw bod y proffesiwn yn mynd yn llai a llai amrywiol wrth i yrfa'r bargyfreithiwr ddatblygu, gan droi o gydbwysedd bras rhwng y rhywiau ar ddechrau'r yrfa, at raniad o 65:35 (dynion: menywod) tua 8-12 mlynedd yn ddiweddarach.
- 15.31 Yn ail, dyna'r ffaith bod bargyfreithwyr benywaidd yn ennill llai na'u cymheiriaid gwrywaidd ar ôl ymarfer am yr un nifer o flynyddoedd: gweler Tabl 13.5 ym Mhennod 13. Nid yw'n glir o gwbl sut mae'r sefyllfa olaf hon yn codi, ond ar yr olwg gyntaf mae'n ymddangos bod bargyfreithwyr gwrywaidd am ba reswm bynnag yn cael gwaith trosedd sy'n talu'n well na'r gwaith a gaiff bargyfreithwyr benywaidd o'r un hynafedd.
- 15.32 Yn drydydd, mae ffenomen debyg yn codi wrth gymharu enillion rhwng bargyfreithwyr gwyn a'r rheini o gefndiroedd nad ydynt yn wyn. Er bod y bwlch yn cau, yn achos bargyfreithwyr BAME sy'n aros yn y proffesiwn, ym mlynnyddoedd 1 i 7 mae'n ymddangos ei bod yn waeth o lawer ar fargyfreithwyr BAME nag ar eu cymheiriaid gwyn: gweler Tabl 13.6 uchod.
- 15.33 Mae'r adroddiadau gan Gyngor y Bar ar rywedd ac ethnigrwydd y cyfeiriwyd atynt ym Mhennod 13 uchod yn awgrymu bod y nodweddion hyn i'w cael ym mhob rhan o'r Bar, ac yn benodol fod bargyfreithwyr o gefndir ethnig yn wynebu rhwystrau systemig wrth ddilyn gyrfa wrth y Bar.
- 15.34 O safbwynt cymorth cyfreithiol troseddol, rwyf yn gobeithio y byddai'r cynnydd cyffredinol rwyf yn ei argymhell yn y ffioedd o dan yr AGFS yn lliniaru'r sefyllfa hon i ryw raddau ac, yn yr un modd, y byddai'r cynnydd rwyf yn ei argymhell yn y ffioedd i gyfreithwyr yn y Llys Ynadon a'r Llys Ieuencid yn galluogi'r cyfreithwyr hynny i dalu ffioedd mwy i fargyfreithwyr. Er hynny, nid yw hyn yn delio â'r gwahaniaethau sylfaenol hynny.
- 15.35 Mae cymorth cyfreithiol troseddol yn arian cyhoeddus ac, fel rwyf yn deall y sefyllfa, mae'r ffordd o ddosbarthu neu ddyrannu cyllid cyhoeddus yn fater sy'n dod o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Ond boed hynny'n wir neu beidio ym maes y gyfraith (ac nid wyf yn mynegi barn am hynny), mae'n amlwg ei bod yn annerbyniol os yw arian cyhoeddus yn cael ei ddosbarthu'n anghymesur ar sail rhywedd neu gefndir ethnig neu gymdeithasol. Er enghraifft, os oedd rhai bargyfreithwyr yn cael gwaith gwell dim ond ar sail eu rhywedd neu hil, heb ddim cyfiawnhad gwrthrychol, byddai angen cywiro hynny. Mae tystiolaeth y Grwpiau Ffocws yn Atodiad E yn awgrymu ei bod yn bosibl bod teipgastio'n digwydd, ar lefel is-ymwybodol o leiaf, ac roedd rhai cyfranogwyr o leiaf wedi amau tryloywder rhai arferion clericio, er bod eraill wedi cyfeirio at yr anawsterau y mae clercod yn eu hwynebu ac wedi sôn am bwysigrwydd addysg o ran newid arferion diwylliannol. I bawb sy'n gysylltiedig, byddwn yn awgrymu eu bod yn darllen tystiolaeth y Grwpiau Ffocws yn llawn.
- 15.36 Y cam cyntaf i'w gymryd, fel rwyf yn ei weld, yw i Gyngor y Bar a Bwrdd Safonau'r Bar ganfod beth yw achosion sylfaenol y sefyllfa hon, ac wedyn gweithio i'w datrys o gam i gam. O safbwynt cymorth cyfreithiol troseddol, mae

egwyddor cydraddoldeb wrth ddosbarthu cyllid cyhoeddus yn hollbwysig yn fy marn i. Maes o law, ac os na cheir atebion, cyfrifoldeb i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r LAA fydd sicrhau nad yw arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn ffyrdd sy'n peryglu egwyddorion cydraddoldeb.

Ansawdd

- 15.37 Ar faterion yn ymwneud ag ansawdd, rwyf eisoes wedi cyfeirio at broblemau sy'n codi mewn perthynas â gwaith yng ngorsaf yr heddlu (Pennod 8) ac wedi argymhell camau i'w cymryd i wella ansawdd yn y Llys Ieuencid, yn cynnwys system achredu (Pennod 11). Mynegwyd pryder i'r Adolygiad fod y cyfraddau isel ar gyfer cymorth cyfreithiol yn y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at "ddatsgilio" mewn nifer o feysydd, er enghraifft yng ngwaith y Llys Ynadon a gwaith paratoi gan gyfreithwyr yn Llys y Goron. Un o brif ddibenion y cynnydd mewn cyllid rwyf yn ei argymhell yw gwella ansawdd lle mae angen hynny. Yng nghyswllt cyfreithwyr, rwyf yn gweld bod y system adolygu gan gymheiriaid,²²⁵ a ddatblygwyd gyda chymorth y Sefydliad Uwchefrydiau Cyfreithiol, yn rhan bwysig o'r system. O'm rhan fy hun, byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar y math hwnnw o reoli ansawdd nag ar yr ymarferiadau mwy biwrocraidd a allai ddigwydd yn ystod prosesau archwilio, er enghraifft. Byddwn yn gwahodd yr LAA i ystyried, drwy ymgynghori â'r proffesiwn, a fyddai lleddfu beichiau gweinyddol eraill, fel a drafodir ymhellach isod, yn rhoi'r gallu i gynnal adolygiadau gan gymheiriaid yn amlach na phob tair blynedd (bob dwy flynedd dyweder).
- 15.38 O ran rheoli ansawdd ar ochr yr eiriolwyr, yn ôl yr hyn rwyf yn ei ddeall nid oes system ffurfiol ar waith ar gyfer rheoli ansawdd eiriolaeth ers dod â QASA i ben. Yng nghyswllt gwaith a ariennir gan y cyhoedd, mae hwnnw'n fwlch yn y system. Mae'r Bar a'r SRA yn rhoi pwys mawr iawn ar safonau eiriolaeth ac roeddent wedi comisiynu adroddiad ar safonau eiriolaeth gan ICPR a Choleg Birkbeck yn 2018,²²⁶ a fynegodd gryn bryder ynghylch eiriolwyr a oedd yn cymryd achosion heb fod yn gymwys i wneud hynny. Fel rwyf yn deall, mae'r SRA yn bwriadu adolygu ei safonau ar gyfer cyfreithwyr sy'n arfer hawliau i ymddangos mewn llysoedd uwch, yn ogystal â darparu mwy o adnoddau i helpu cyfreithwyr i gyrraedd ei safonau eiriolaeth.²²⁷ Yn ei ymateb i'r Adolygiad, cyfeiriodd yr LSB at ei adroddiad *State of Legal Services 2020* a fynegodd bryder ynghylch dod â QASA i ben, a hefyd at ei waith cyson ar sicrhau Cymhwysedd Parhaus cyfreithwyr ar ôl ymgymhwyso, ac at ei fwriad i gyflwyno gofynion newydd ar gyfer rheoleiddwyr yn y cyswllt hwnnw. Rwyf yn deall bod y CPS yn gweithredu system graddio.
- 15.39 O safbwynt cymorth cyfreithiol troseddol, mae'n amlwg yn bwysig na fydd eiriolwyr yn cymryd gwaith sydd y tu hwnt i'w gallu a'u profiad. Mae hefyd yn bwysig bod systemau sy'n cynnig adborth, hyd yn oed os ydynt yn anffurfiol, fel

²²⁵ Gweler Pennod 4 uchod

²²⁶ criminal-advocacy.pdf (sra.org.uk)

²²⁷ Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Sicrhau Safonau Eiriolaeth, Gorffennaf 2020

bod eiriolwyr yn gallu dysgu a bod yn ymwybodol o feysydd i'w gwella. Gan fod llawer o waith eiriolaeth yn ysgrifenedig erbyn hyn, gallai fod yn haws asesu cymhwysedd nag yr oedd yn y gorffennol. Yng nghyd-destun yr Adolygiad hwn, rwyf yn ystyried bod y mater hwn yn un sy'n gofyn gwaith parhaus gan y Rheoleiddwyr perthnasol, i'w adolygu wedi i'r LSB gyhoeddi ei ddisgwyliadau o ran Cymhwysedd Parhaus sydd i'w cyhoeddi yn Rhagfyr 2021 yn ôl yr hyn a ddeallir.

Tryloywder, Data a Chystadleuaeth

- 15.40 Fel y nodwyd uchod, un bwlch mawr yn y system bresennol yw diffyg data am y graddau y mae'r system cymorth cyfreithiol troseddol yn gallu ymateb i anghenion defnyddwyr (yn hytrach nag anghenion darparwyr). Felly, nid oes modd dibynadwy i ganfod pa mor dda y mae'r system yn ymateb i anghenion mewn ardaloedd penodol neu a oes angen dull gwahanol o weithredu mewn gwahanol leoliadau (yng Nghymru er enghraifft, neu yn Ynys Wyth) heb gael data mwy manwl. Ceir diffygion tebyg mewn perthynas ag anghenion gwahanol fathau o droseddwyr neu feysydd gwaith, fel y trafodwyd uchod. Ni ellir dibynnu ar y rhagdybiaeth sylfaenol y bydd "llaw anweledig" y farchnad bob amser yn diwallu'r angen mewn perthynas â chymorth cyfreithiol troseddol. Fy argymhelliad cyffredinol yw y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ystyried ffyrdd gwell iddi ddal sylw ar yr hyn sy'n digwydd a thrwy gydweithio â darparwyr ac asiantaethau eraill gasglu data lle bo'u hangen ar gyfer ystyried dewisiadau polisi. Byddwn yn gweld rôl yn hyn o beth i Fwrdd Cynghorol.
- 15.41 Yn benodol, credaf mai'r hyn fydd ei angen gyntaf ar y Bwrdd Cynghorol a/neu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yw data dibynadwy, gwrthrychol a di-dor am y sylfaen darparwyr.²²⁸ Un opsiwn fyddai cynnal arolwg blynyddol neu chwemisol o weithleoedd a fydd yn annibynnol a chyfrinachol, gan gytuno ar fanylion â'r Bwrdd Cynghorol. Ar ben hynny, nid oes digon o ddata ar gael ar hyn o bryd i asesu'r graddau y mae'r sylfaen darparwyr yn cwrdd ag anghenion y system, yn enwedig yn nhermau ardaloedd, dosbarthiadau defnyddwyr penodol, neu wahanol fathau o waith. Ychydig o ddata sydd ar gael am siwrnai diffynyddion drwy'r system, ac i ba raddau y mae honno'n amrywio yn ôl ffactorau daearyddol neu ddemograffig, er enghraifft, neu fathau o achos. Mae'r rhaglenni presennol ar gyfer diwygio digidol yn y SCT, yn cynnwys cyflwyno'r Llwyfan Cyffredin, yn cynnig cyfle i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder / Bwrdd Cynghorol ganfod a chywiro bylchau mewn data perthnasol, gan gydweithio hefyd â'r heddlu, y Swyddfa Gartref a'r Llysoedd, i sicrhau gwell canlyniadau.
- 15.42 Yn benodol, mewn perthynas â thryloywder, mae rhai agweddau lle nad yw'r system bresennol yn dryloyw iawn. Gwnaed sylwadau manwl eisoes am gam gorsaf yr heddlu ym Mhennod 8. Mae yr un mor bwysig cael dealltwriaeth gwell

²²⁸ Am un enghraifft o arolwg o'r math hwn gweler: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2015) "Survey of Not for Profit Legal Advice Providers in England and Wales") sydd ar gael ar-lein yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/485636/not-for-profit-la-providers-survey.pdf Argymhellir methodoleg sy'n defnyddio arolwg dros y ffôn er mwyn lleihau'r baich ar ddarparwyr a chynyddu'r gyfradd ymateb.

o'r rheswm nad yw rhai agweddau ar y system yn gweithio cystal ag y gallent, i bob golwg: pam er enghraifft (os felly y mae) nad yw ymgysylltu cynnar yn digwydd mor effeithiol ag y gallai, a yw anawsterau'n codi o ran cyflwyno'r IDPC, neu drefniadau rhestru, neu pam y ceir gwahaniaethau rhwng enillion ar sail rhywedd neu ethnigrwydd. Yn sicr, y broses i'w dilyn yw cadarnhau'r ffeithiau, canfod a oes problem ac, os oes, penderfynu ar y camau i'w cymryd i'w datrys. Nid yw'r Adolygiad hwn yn gallu datrys y problemau, ond fe all gymhell cydweithio a gweithredu agored rhwng yr holl bartïon wrth ganfod pam mae problemau'n codi a dod o hyd i ffyrdd i ddelio â'r problemau sylfaenol.

- 15.43 Gyda golwg ar gystadleuaeth, sef un o'r materion a grybwyllwyd yn y Cylch Gorchwyl, un prynwr sydd yn y farchnad hon, mae prisiau'n cael eu pennu drwy ddeddfwriaeth, ar ochr y cyfreithwyr mae costau anochel yn codi o'r SCC, mae'r galw y tu hwnt i reolaeth y darparwyr, ac mae amseriad darparu'r "cynnyrch" (cyngor neu gynrychiolaeth) yn cael ei bennu gan rymoedd allanol i raddau helaeth. Mewn amgylchiadau o'r fath, ychydig o le sydd i gystadleuaeth yn ôl yr ystyr mewn marchnadoedd defnyddwyr, gan dderbyn hefyd fod y "defnyddiwr" yn yr achos hwn yn defnyddio'r gwasanaethau'n anwirfoddol.
- 15.44 Er hynny, yn fy marn i mae grymoedd cystadleuol gwirioneddol ar waith yn nhermau ansawdd, gwasanaeth ac enw da. Yn gyffredinol, bydd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn ffynnu ar sail eu gwaith caled, sylw i fanylion, a gwasanaeth i'r cleient, ac mae'r rhain yn rymoedd pwerus sy'n diogelu'r defnyddiwr a'r budd cyhoeddus. Ar hyn o bryd, nid wyf yn gweld cyfle i gyflwyno rhagor o fecanweithiau wedi'u seilio ar y farchnad rydd wrth gyflenwi cymorth cyfreithiol troseddol.
- 15.45 Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, rwyf yn gweld bod cyfle i "ochr y prynwr", h.y. y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ddefnyddio grantiau a mecanweithiau eraill i hyrwyddo mathau newydd o ddarparwyr i gwrdd ag anghenion sydd heb eu diwallu. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o farchnadoedd, lle y gall entrepreneur sylwi ar fwch a datblygu cynnyrch newydd i'w lenwi, byddwn yn meddwl bod y gallu i gymhell newid yn y farchnad hon, fel yn y rhan fwyaf o farchnadoedd gwasanaethau cyhoeddus strwythuredig, yn perthyn i'r prynwr yn bennaf.
- 15.46 O safbwynt cystadleuaeth, fodd bynnag, y brif problem sy'n wynebu cymorth cyfreithiol troseddol yw cystadleuaeth o natur dra gwahanol, sef y gystadleuaeth am dalent. Honno yw'r brif problem o ran cystadleuaeth sydd angen ei datrys, fel y mae fy argymhellion yn ceisio gwneud.

Rhestru

- 15.47 Mae problemau o ran rhestru yn codi'n bennaf oherwydd yr anawsterau wrth geisio rhag-weld pa mor hir y bydd achosion yn para a'r posibilrwydd cyson y bydd achosion yn aneffeithiol am ryw reswm neu'i gilydd neu'n "chwalu" ar y funud olaf. Mae'n gwbl ddealladwy bod swyddogion rhestru yn credu na all y Llys wynebu'r risg o gael ei adael heb waith, yn enwedig o ystyried y rheidrwydd i leihau'r ôl-groniad.

- 15.48 Mae gweithdrefnau rhestru yn amrywio, ac yn rhai o ganolfannau Llys y Goron mae'n ymddangos bod cyfran fwy o dreialon â dyddiad penodedig neu dreialon na ellir pennu dyddiad ar eu cyfer, sy'n ei gwneud yn haws rhag-weld yr amserlen. Fodd bynnag, mewn rhai Llysoedd ceir "rhestr rybudd" sy'n dangos y gellir cynnwys achos yn y rhestr o fewn cyfnod penodol ond ar ddyddiad sydd heb ei bennu. O safbwynt yr eiriolwyr, gall fod yn anodd cymryd gwaith arall a allai wrthdaro â chyfnod y rhestr rybudd, ond mae risg bob amser na fydd yr achos yn cael ei wrando wedi'r cyfan o fewn y cyfnod "rhybudd". Dywedwyd wrthyf fod nifer gormodol o achosion yn cael eu rhestru yn y Llys Ynadon ac yn Llys y Goron gan ragdybio y bydd cyfran o'r achosion yn cael eu datrys heb fod angen gwrandawriad llawn. Dywedwyd bod hyn yn arwain at sefyllfa lle mae dioddefwyr, tystion a'r cyfreithwyr cysylltiedig yn cyrraedd y Llys, dim ond i weld nad yw eu hachos yn effeithiol a'u bod yn gorfod dychwelyd rywbryd arall.
- 15.49 Roedd pob cydnabyddiaeth yn y dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad fod y Llysoedd yn wynebu problemau anodd iawn wrth ddelio â rhestru, yn enwedig mewn perthynas â'r ôl-groniad. Er hynny, nodwyd bod system y rhestr rybudd wedi'i beirniadu'n hallt gan Syr Bill Jeffrey yn 2014, a chan Syr Brian Leveson yn 2015. Dywedodd y CBA fod y rhestr rybudd yn "blot on the system of criminal justice" ac roedd y YBC wedi pwysleisio bod system y rhestr rybudd yn achosi problemau i gyfreithwyr iau. Un o'r prif bwyntiau a wnaed i'r Adolygiad oedd y gall yr eiriolwr baratoi'r achos yn gydwybodol, dim ond i weld ei fod yn cael ei gynnwys yn y rhestr yn annisgwyl pan na fydd yr eiriolwr ar gael. Os bydd hynny'n digwydd o dan yr AGFS fel y mae ar hyn o bryd, ni fydd yr eiriolwr yn cael ei dalu. Dywedwyd bod achosion yn aml yn diflannu oddi ar y rhestr heb esboniad a heb nemor ddim rhybudd.
- 15.50 Dywedwyd wrth yr Adolygiad fod y sefyllfa'n arwain yn gyffredinol at baratoi annigonol, un ai am nad yw'r eiriolwr am fentro paratoi achos na chaiff ei wrando, neu am fod ei ddychwelyd yn hwyr i fargyfreithiwr arall yn golygu na fydd hwnnw wedi cael amser i baratoi ychwaith, a hynny'n arwain at y dull "byw o'r llaw i'r genau" y cyfeiriwyd ato gan Syr Bill Jeffrey. Mae Cadeirydd y CBA wedi nodi wrth yr Adolygiad nad oes nemor ddim cyfathrebu mewn rhai ardaloedd rhwng swyddogion rhestru a'r eiriolwyr a gyfarwyddwyd, fel ei bod yn anodd iawn gwasanaethu cleientiaid neu drefnu dyddiaduron. Soniwyd wrthyf am achosion sylweddol, yr oedd disgwyl iddynt bara dwy neu dair wythnos, neu fwy hyd yn oed, yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr heb ddim neu nemor ddim cyfathrebu ymlaen llaw .
- 15.51 O safbwynt cymorth cyfreithiol troseddol, mae'n bwysig cymell gwaith paratoi a pherchnogaeth ar achosion. Felly, rwyf eisoes wedi argymhell ym Mhennod 13 uchod y dylid talu am waith paratoi a wastraffwyd o fwy na dwy awr (dyweder), os nad yw'r eiriolwr yn gallu gwneud y gwrandawriad yn yr achos, heb fod bai arno ef. Fel arall, yn fy marn i, mae perygl i'r AGFS gosbi'r rheini sy'n paratoi'r achosion yn gydwybodol. Y disgwyl yw y byddai hawliadau am waith paratoi a wastraffwyd yn arwain maes o law at well asesu ar y costau cysylltiedig. Mae'r system bresennol o beidio â thalu yn arwain hefyd at baratoi annigonol ac

anfodlonrwydd mawr ynghylch gwaith cymorth cyfreithiol troseddol, ymysg eiriolwyr iau yn ogystal â rhai hŷn. Mae hynny yn ei dro yn tanseilio cynaliadwyedd y Bar troseddol at y dyfodol.

- 15.52 Mae rhestru yn swyddogaeth farnwrol, nad yw'n dod o fewn cylch gwaith yr Adolygiad hwn. Fodd bynnag, o safbwynt cymorth cyfreithiol troseddol, os caf ddweud, mae perchnogaeth ar achosion a gwaith paratoi priodol yn hanfodol i'r system cymorth cyfreithiol troseddol. Yn fy ngolwg i, mae newidiadau hwyr yn y rhestr, rhestru gormod o achosion, neu anallu i rag-weld wrth restru yn tanseilio'r amcanion hynny. O safbwynt cymorth cyfreithiol, nid yw'n fater o sicrhau "hwylustod i'r cwnsler", ond yn hytrach dilyniant o ran cynrychiolaeth o safbwynt y defnyddiwr, yn enwedig lle y gall yr eiriolwr amddiffyn fod wedi cael nifer o gynghoriadau eisoes gyda'r diffynnydd. Wrth wneud penderfyniadau ar restru, byddwn yn gobeithio y byddai sylw'n cael ei roi i'r safbwynt cymorth cyfreithiol troseddol ac y byddai cyfathrebu da yn parhau rhwng swyddogion rhestru ac eiriolwyr mewn cydymdrech i ddod o hyd i atebion lle bynnag y bo modd.

Technoleg Cysylltu o Bell yn y Llysoedd

- 15.53 Mater sy'n gysylltiedig â'r uchod yw technoleg cysylltu o bell yn dilyn y profiad o'r pandemig. Fel y gellid disgwyl, roedd nifer o ymatebwyr i'r Adolygiad wedi dadlau bod y defnydd o dechnoleg cysylltu o bell, lle'r oedd yn briodol, yn arbed costau ac amser, yn enwedig amser teithio, yn hyrwyddo perchnogaeth ar achosion, gan alluogi eiriolwr y treial i wneud ceisiadau cyn y treial er enghraifft, sef gwaith a fyddai wedi'i ddirprwyo o'r blaen i eiriolwr gwahanol. Er nad oedd yn addas ar gyfer treialon ac achlysuron eraill lle'r oedd angen i'r diffynnydd fod yn bresennol, dywedwyd bod materion eraill o natur weinyddol yn bennaf y gellir delio â nhw'n hwylus o bell. Yn benodol, roedd y defnydd o slotiau wedi'u hamseru yn cynyddu effeithlonrwydd. Roedd un ymatebydd i'r Adolygiad wedi siarad ar ran llawer wrth ddweud "The days of a 4-hour round trip for a ten-minute mention in the Crown Court must never return". Roedd ymatebwyr eraill wedi pwysleisio bod y rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu yn cael budd neilltuol o dechnoleg cysylltu o bell.
- 15.54 Roedd Cadeirydd y CBA hefyd wedi mynegi pryder wrthyf fod rhai Llysoedd, o weld bod anterth y pandemig wedi mynd heibio yn ôl pob golwg, yn troi'n ôl at bolisi o alw am bresenoldeb yn y Llys gan mwyaf, hyd yn oed ar gyfer ceisiadau y gellid eu cynnal o bell. Mae'n ymddangos bod yr ymarfer yn amrywio rhwng Llysoedd yn hyn o beth.
- 15.55 Mae penderfyniadau ar fater technoleg cysylltu o bell yn fater i'r Llysoedd, o dan arweiniad yr Arglwydd Brif Ustus,²²⁹ nid i'r Adolygiad. Er hynny, byddwn yn mentro awgrymu y dylid ystyried safbwynt cymorth cyfreithiol troseddol wrth wneud y penderfyniadau hynny. Os gellir penderfynu'n briodol ar rai materion

²²⁹ [Lord Chief Justice – Legal Wales Conference closing keynote speech | Courts and Tribunals Judiciary](#), 8 Hydref 2021.

drwy wneud hynny o bell, bydd hynny'n arbed amser, ac yn osgoi costau i goffrau cyhoeddus. Mae darparwyr cymorth cyfreithiol troseddol yn cael eu talu o gronfeydd cyhoeddus ac mae eu hamser nhw yn adnodd cyhoeddus hefyd. Os gellir defnyddio'r amser hwnnw'n fwy effeithlon, bydd hynny'n arbediad i'r system gyfan. Mae'r amser a dreulir ar deithio, sydd yn aml yn ddrud, ac ar aros yn "oriau segur" sydd yn gost i'r system ar ei phen ei hun. Os bydd technoleg cysylltu o bell yn hwyluso gwell perchnogaeth ar achosion, sef un o brif amcanion y SCT, bydd hynny hefyd yn ystyriaeth. Mae ffyrdd o ddefnyddio technoleg cysylltu o bell i ymateb i'r materion pwysig o ran amrywiaeth a drafodwyd uchod hefyd yn ystyriaeth bwysig o safbwynt cymorth cyfreithiol troseddol. Rwyf yn gobeithio gyda phob parch na fydd y materion hyn yn cael eu diystyru neu eu tanbrisio.

Yr LAA

- 15.56 Mae'r LAA yn asiantaeth sy'n rhan ffurfiol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae fframwaith ei gweithrediadau'n cael ei bennu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.²³⁰ Mae Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cymeradwyo cynlluniau busnes a chorfforaethol yr LAA cyn iddynt fynd at yr Arglwydd Ganghellor, ac ef yw'r prif swyddog cyfrifyddu. Mae'r Arglwydd Ganghellor yn atebol i'r Senedd dros yr LAA, ac yn cymeradwyo penodiad y Prif Weithredwr, sef y Cyfarwyddwr sy'n arfer cyfrifoldeb ffurfiol ar ran yr Arglwydd Ganghellor am gymeradwyo grantiau o gymorth cyfreithiol troseddol yn unol â LASPO. Mae'r LAA yn gyfrifol am ad-dalu i ddarparwyr, ac mae hefyd yn gosod telerau'r SCC (gan ddilyn y cyfarwyddyd gan Weinidogion), yn trefnu'r broses tendro am gontractau, ac yn goruchwyllo'r system o adolygu gan gymheiriaid o dan yr SCC. Costau gweinyddu'r LAA yn 2019/20 oedd tua £95 miliwn, ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil yn ogystal â chymorth cyfreithiol troseddol wrth gwrs.
- 15.57 Yn y bôn, mae'r LAA yn gyfrifol am weinyddu cymorth cyfreithiol troseddol, a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gyfrifol am bolisi. Fodd bynnag, gall y llinell rhwng "gweinyddu" a "pholisi" fod braidd yn annelwig weithiau gan fod yr SCC, er enghraifft, yn adlewyrchu agweddau ar y ddau.

Y dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad

- 15.58 Mewn llawer o'r dystiolaeth a gafodd yr Adolygiad, yn cynnwys yr hyn a gafwyd gan Gymdeithas y Gyfraith, y CLSA, Cymdeithas Cyfreithwyr Birmingham, a CILEX, yn ogystal â nifer o ymatebion gan unigolion, mynegwyd rhwystredigaeth ynghylch rhai agweddau ar weithrediadau'r LAA. Dywedwyd bod strwythur rheoliadol yr SCC yn rhy feichus, a bod y gofynion am gynnal marciau ansawdd, archwilio, adolygu gan gymheiriaid a gwiriadau eraill yn mynd dros ben llestri; bod hawliadau'n cael eu bwrw'n ôl yn rhy aml, gyda'r honiad bod diwylliant o wrthod, a bod penderfyniadau'n anghyson; a bod yr amser heb dâl a dreuliwyd yn delio â gofynion yr LAA yn faich ychwanegol

²³⁰ [LAA framework document \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk)

afresymol ar fusnesau a oedd eisoes yn ei chael yn anodd. Ymysg y pwyntiau eraill a wnaed, sy'n cael eu trafod mewn rhannau eraill o'r Adroddiad hwn, roedd effaith y rheol 14 awr, yr anhawster a wynebwr gan aelodau CILEX wrth ddod yn gyfreithwyr ar ddyletswydd, y broses ar gyfer cael dyfynbrisiau i gyfarwyddo tystion arbenigol, ac oedi cyn gwneud taliadau yn y Llys Ynadon ac o dan yr AGFS.

Adroddiadau'r Pwyllgor Cyfiawnder

- 15.59 Yn Adroddiadau Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin yn 2017/2018²³¹ ac yn fwy diweddar yn 2020/21²³² rhoddwyd ystyriaeth i'r LAA. Un casgliad penodol yn yr adroddiad olaf, wrth drafod cymorth cyfreithiol sifil a throreddol, oedd:

“the Government and the Ministry of Justice need to reevaluate the Legal Aid Agency’s priorities. By asking the Agency to prioritise the “error rate” over other considerations, particularly access to justice and the sustainability of providers, the Government risks missing the wood for the trees...The Government should ensure that providers are not required to conduct disproportionate amounts of unpaid work to apply for funding. (Paragraff 150)

...

The Government should consider creating a system of earned autonomy that places more trust in the decision making of providers with strong records of high-quality decision making. The Agency’s processes should have some incentives for providers to work towards gradually reducing the burden of administrative requirements. Given the difficulties facing legal aid providers, placing greater trust in their ability to decide on eligibility would expand their capacity which would be beneficial for access to justice. (Paragraff 150) ...

Sylwadau

- 15.60 Mae'n ddealladwy y bydd yr LAA o'r farn, nes cael ei chyfarwyddo fel arall, mai ei blaenoriaeth fydd diogelu gwariant arian cyhoeddus i'r graddau mwyaf posibl. Gall yr LAA fod yn agored i feirniadaeth ei hun gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) (a oedd wedi datgan barn amodol am gyfrifon yr LSC mewn blynyddoedd olynol rhwng 2008/09 a 2011/12 (yn gynwysedig)), neu gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, os yw'n ymddangos bod ei gweithdrefnau wedi mynd yn rhy lac a bod hawliadau'n llithro drwodd heb gyfiawnhad. Gwaetha'r modd, nid yw pob darparwr yn arfer gofal trwyadl wrth gyflwyno hawliadau, gan wneud bywyd yn fwy anodd i'r mwyafrif gofalus. Ar faterion rheolaidd, fel caniatáu ceisiadau²³³ a'r amser ar gyfer talu am hawliadau, mae'r ystadegau'n awgrymu bod yr LAA yn cyrraedd nifer o'i hamcanion, ac roedd ei hymateb yn ystod y pandemig wedi'i ganmol yn Adroddiad Tŷ'r Cyffredin a grybwyllwyd uchod.

²³¹ [Criminal Legal Aid \(parliament.uk\)](https://www.parliament.uk/publications/2018/01/criminal-legal-aid/)

²³² [The Future of Legal Aid \(parliament.uk\)](https://www.parliament.uk/publications/2021/01/the-future-of-legal-aid/)

²³³ Fodd bynnag, mae'n ymddangos mai un problem barhaus yw'r dystiolaeth sydd ei hangen i ganiatáu cymorth cyfreithiol ar gyfer diffynyddion hunangyflogedig lle mae angen mwy o amser i gasglu'r manylion.

- 15.61 O safbwynt y system ehangach, fodd bynnag, mae biwrocratiaeth ormodol yn symud costau at y mwyafrif o ddarparwyr sy'n cyflwyno hawliadau y credant eu bod yn rhesymol. Mae amser di-dâl y darparwyr wrth ddelio â gweithdrefnau'r LAA yn gost i'r system, er ei bod yn anweladwy, yn enwedig os nad yw'n economaidd i ddarparwyr herio penderfyniadau i wrthod. Rhaid cydbwysu'r agweddau hyn â'r "arbed" ar arian cyhoeddus y gellir ei sicrhau drwy ddull caeth o weithredu. Mae biwrocratiaeth ormodol, wedi'i hysgogi o bosibl gan y pwyslais ar arbed costau, sef y sbardun gwreiddiol i LASPO, yn gallu gwanhau gallu darparwyr i wrthsefyll. Yn sgil hynny, ceir canlyniad gwrthgynhyrchol.
- 15.62 Yn fy marn i, y brif flaenoriaeth yw bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhoi canllawiau cliriach i'r LAA o ran ei blaenoriaethau ac amcanion priodol, yn cynnwys cytundeb ar hyblygrwydd a fydd yn gweithio er budd yr argymhellion rwyf wedi'u gwneud ac yn cynnal ymddiriedaeth y trethdalwr. Byddwn yn argymhell, o ystyried sefyllfa gyffredinol y darparwyr cymorth cyfreithiol troseddol, mai'r prif amcanion priodol i'r LAA yw cynnal cadernid y system cymorth cyfreithiol troseddol, lleihau'r beichiau biwrocraidd ar ddarparwyr, ac nid "arbed ceiniogau ar bob cyfrif". Gan ddal y nod hwnnw mewn cof, rwyf yn awgrymu y dylai'r LAA a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder weithio gyda'i gilydd drwy'r SCC (yn cynnwys y KPIs) a gweithdrefnau'r LAA i weld lle y gellid diweddarau a symleiddio'r system.
- 15.63 Mae'n bosibl y bydd modd adolygu'r diwygiadau rwyf yn eu cynnig ar gyfer gwaith gorsaf yr heddlu, y Llys Ynadon a'r LGFS, a hawliadau am ffioedd safonol is ac uwch drwy samplu yn y broses archwilio yn hytrach na thrwy weithdrefn fwy beichus. Gellid delio â nifer mawr o'r hawliadau o dan yr AGFS yn yr un ffordd; er na chynhelir archwiliadau fel y cyfryw o hawliadau gan fargyfreithwyr, dylai fod yn bosibl i'r systemau ganfod unrhyw batrymau hawlio anarferol y gellir ymchwilio iddynt wedyn. Byddai rhywun yn gobeithio hefyd y bydd y Llwyfan Cyffredin yn lleihau'r angen i'r LAA wirio ddwywaith i ganfod, er enghraifft, a oedd cais penodol wedi'i wneud mewn gwirionedd yn y Llys ar y diwrnod yn yr hawliad. Beth bynnag, rwyf yn credu y byddai'n annhebygol yn y rhan fwyaf o achosion y byddai darparwyr yn gwneud hawliadau am waith Llys nad oedd wedi'i gyflawni mewn gwirionedd, felly mae'n bosibl y gellid derbyn heb amau yn amlach nag a wneir ar hyn o bryd efallai. Yn fy marn i, mae'n eithaf posibl y gellid prosesu cyfran gymharol fawr o achosion ar sail hapwiriadau o ganlyniadau. Byddai hynny'n fater i'w ystyried ymhellach gan yr LAA, ar y cyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Bydd hyn i gyd yn cael ei hwyluso drwy gadw gwell cofnodion o oriau gwaith gan ddarparwyr.
- 15.64 Fodd bynnag, o'm rhan i, byddwn yn cytuno â Phrif Weithredwr yr LAA, yn ei hymateb i Bwyllgor Tŷ'r Cyffredin, y byddai system o "ymreolaeth a enillwyd" lle'r oedd mwy o "ymddiried" mewn rhai darparwyr nag eraill, yn gallu bod yn annheg a heb fod yn effeithiol o reidrwydd. Byddwn yn meddwl bod modd "ysgafnhau" y system heb ddilyn y llwybr hwnnw.
- 15.65 Er hynny, wrth geisio gwneud y system yn "llai beichus", mae un agwedd a ddylai gael ei chydabod. Mae'r diwygiadau rwyf yn eu hawgrymu yn debygol o olygu y bydd mwy o hawliadau am ffioedd ansafonol o dan yr LGFS, a mwy o hawliadau am waith paratoi arbennig a gwaith paratoi a wastraffwyd o dan yr AGFS. Bydd hyn yn galw am ddau beth. Yn gyntaf, ar ran y darparwyr, cofnodi

oriau gwaith yn fanwl gywir, a disgrifio'n briodol y gwaith a wnaed. Mae'r rhan fwyaf o systemau cofnodi amser modern yn hwyluso hyn, a byddwn yn cymryd y byddai taflenni amser digidol yn cael eu cyflwyno i ategu hawliadau. Yn ail, ar ran yr LAA, mae'n ddigon posibl y bydd y diwygiadau hyn yn galw am hyfforddiant gwell ac ychwanegol i alluogi staff yr LAA i ddelio â'r hawliadau mwy cymhleth. Os bydd hynny'n effeithio ar gyllideb yr LAA, gan fy mod yn derbyn y gallai wneud, byddwn yn ystyried hynny'n ffordd dda o wario arian er budd y SCT gyfan.

- 15.66 Yn olaf, os ceir anghydfod, y weithdrefn bresennol o dan baragraff 28 o'r Rheoliadau yw bod y darparwr yn gofyn am ail benderfyniad gan yr LAA, ac yn mynd ag apêl wedyn os bydd angen at Farnwr Costau o dan baragraff 29. Gall y weithdrefn hon fod yn gymharol hir a beichus gan arwain hefyd at oedi cyn talu. Rwyf yn awgrymu mai un o'r materion i'w hadolygu ymhellach yw a ellir symleiddio'r weithdrefn hon ac, yn benodol, a ddylai arbenigedd y Barnwyr Costau fod ar gael yn gynharach yn y broses nag y mae yn awr.

PENNOD UN AR BYMTHEG: CRYNODEB O'R ARGYMHELLION

Argymhelliad 1: Bwrdd Cynghorol (Pennod 15)

- 16.1 Dylid sefydlu Bwrdd Cynghorol annibynnol i gynghori'r Arglwydd Ganghellor yn rheolaidd ar y trefniadau ar gyfer cyflenwi cymorth cyfreithiol troseddol. Dylai cylch gwaith y corff hwn gynnwys (i) cyfranogi gan randdeiliaid eraill, yn cynnwys yr Heddlu, y CPS, a'r Llysoedd, yn ogystal â darparwyr, er mwyn meithrin tryloywder a dealltwriaeth o'r ffordd y mae penderfyniadau ar gymorth cyfreithiol troseddol yn effeithio ar y SCT yn gyffredinol, ac fel arall; (ii) ystyriaeth barhaus i'r system cymorth cyfreithiol troseddol, gan nodi problemau penodol wrth iddynt godi, a diwygiadau pellach dichonol, yn cynnwys ffyrdd newydd o weithio; (iii) cynghori'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch y data sydd eu hangen i sicrhau bod cymorth cyfreithiol troseddol yn effeithlon ac ymatebol, ym mhob ardal yn Lloegr, ac yng Nghymru, a (iv) meithrin amrywiaeth a chyfle cyfartal.

Argymhelliad 2: Dod o hyd i atebion lleol (Pennod 15)

- 16.2 Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hyrwyddo a hwyluso trefniadau lleol, boed drwy Fyrddau Cyfiawnder Troseddol lleol neu fel arall, i wella llinellau cyfathrebu rhwng yr amddiffyniad, yr Heddlu, y CPS a'r Llysoedd, er mwyn deall problemau cyffredin a dod o hyd i atebion er budd y SCT gyfan, gan barchu gwahanol rolau cyfansoddiadol y gwahanol randdeiliaid.

Argymhelliad 3: Anghenion heb eu diwallu a ffyrdd newydd o weithio (Pennod 15)

- (i) Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ystyried, ar y cyd â'r Bwrdd Cynghorol fel y bo'n briodol, y graddau y mae anghenion sydd heb eu diwallu o ran cymorth cyfreithiol troseddol yng Nghymru neu yn Lloegr, er enghraifft yn nhermau ardaloedd penodol (boed yn lleoliadau gwledig, trefi bach neu ganol dinasoedd), mathau penodol o ddefnyddiwr (fel rhai ifanc sy'n ddiffynyddion/dan amheuaeth, neu'r rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl), cymunedau penodol (fel y rheini o gefndir lleiafrifol ethnig) neu feysydd gwaith penodol (fel apelau neu gyfraith carchardai); ac os oes anghenion sydd heb eu diwallu, sut y dylid cwrdd â'r anghenion hynny, yn benodol drwy grantiau cymorth i sefydliadau nid er elw neu eu tebyg, neu drwy fesurau eraill, er mwyn treialu cynlluniau. Dylai ystyriaeth o'r fath gynnwys ffyrdd newydd dichonol o weithio fel a drafodwyd ym Mhennod 15, yn cynnwys "modelau cyfannol" sy'n cwmpasu anghenion troseddol a sifil, gan ganolbwyntio ar anghenion y defnyddiwr,
- (ii) Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ystyried grantiau hyfforddi i helpu mwy o hyfforddeion mewn ffyrmiau cymorth cyfreithiol troseddol.

Argymhelliad 4: Data (Pennod 15)

- 16.3 Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fuddsoddi mewn gwaith i gasglu data a threfnu iddynt fod ar gael yn fwy eang o lawer er mwyn gwella'r gallu i asesu effeithlonrwydd, cymhellion, costau ac effeithiolrwydd cymorth cyfreithiol troseddol a'r gwahanol gynlluniau ffioedd, yn cynnwys effaith penderfyniadau mewn gwahanol rannau o'r system cyfiawnder troseddol ar gost cymorth cyfreithiol troseddol a'r ddarpariaeth ohono.

Argymhelliad 5: Cynnydd cyffredinol yn y gydnabyddiaeth ariannol i ffyrmiau cymorth cyfreithiol troseddol (Penodau 6 a 7)

- 16.4 Dylid cael cynnydd sylweddol yn y gydnabyddiaeth ariannol sydd ar gael i ffyrmiau sy'n gwneud gwaith cymorth cyfreithiol troseddol, er mwyn rhoi mwy o allu i ffyrmiau cymorth cyfreithiol troseddol fuddsoddi i recriwtio, cystadlu am dalent, cynnal ansawdd, darparu hyfforddiant a sicrhau eu bod yn cadw staff. Mae angen cyllid ychwanegol o £100 miliwn y flwyddyn o leiaf (cynnydd cyffredinol o tua 15%), yn anad dim er mwyn galluogi ffyrmiau cymorth cyfreithiol troseddol i gynnig cydnabyddiaeth ariannol sy'n gymesur yn fras â hynny yn y CPS,²³⁴ ac i sicrhau cydraddoldeb arfau. Er mwyn cynyddu effeithlonrwydd a diogelu'r trethdalwr, dylai cynnydd o'r fath fynd law yn llaw â diwygiadau yn y strwythur tâl sydd wedi'u hamlinellu isod.

Argymhelliad 6: Diwygio strwythurau cynlluniau ffioedd sy'n effeithio'n bennaf ar ffyrmiau cymorth cyfreithiol troseddol (Pennod 7)

- 16.5 Yr egwyddorion cyffredinol y dylid eu mabwysiadu ar gyfer diwygio cynlluniau tâl cyfreithwyr yw (i) y dylid talu'n briodol am waith a wnaed (ii) y dylid dileu cymhellion gwrthnysig a (iii) y dylid lleihau costau gweinyddu. Y cyfaddawd gorau sydd ar gael i gwrdd â'r amcanion hyn yw'r cynllun tâl presennol ar gyfer y Llys Ynadon, sy'n system o ffioedd safonol is, safonol uwch, a ffioedd ansafonol, sy'n caniatáu i'r rhan fwyaf o'r gwaith arferol gael ei gyflawni ar gost sefydlog, gan ganiatáu hawliadau rhesymol am achosion mwy cymhleth. Rwyf yn argymhell y dylai cynllun y Llys Ynadon fod yn fodel sylfaenol hefyd i waith cymorth cyfreithiol troseddol yng ngorsaf yr heddlu a Llys y Goron. Er mwyn bod yn glir, dylai'r model tâl fod yn un sy'n adlewyrchu hynafedd y cyfreithiwr lle y bo'n briodol. Dylai'r tâl fod yn gymhelliad hefyd ar gyfer arfer perchnogaeth ar achosion, ymgysylltu cynnar â'r heddlu/CPS, a gwaith paratoi priodol. Mewn egwyddor, dylai pob un o brif elfennau'r gwaith, sef gorsaf yr heddlu, y Llys Ynadon a Llys y Goron, fod yn un nad yw'n ddibynol ar sybsideiddio gan waith arall.

Argymhelliad 7: Tâl yng ngorsaf yr heddlu (Pennod 8)

- 16.6 Dylid ailstrwythuro'r gydnabyddiaeth ariannol sy'n daladwy am gyngor a chynhorthwy yng ngorsaf yr heddlu fel ei bod yn debyg i gynllun tâl y Llys Ynadon, sef ffi safonol is, ffi safonol uwch, a ffi ansafonol mewn achosion eithriadol, er mwyn adlewyrchu gwahanol amgylchiadau'r achosion yn well, gwella ansawdd, a sicrhau bod cyngor a chynhorthwy priodol ar gael mor

²³⁴ Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw incwm o dan yr AGFS.

gynnar â phosibl. Dylid seilio ailstrwythuro o'r fath ar y materion a bennwyd ym mharagraff 2(3) o Atodlen 4 sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i gyfrifo'r ffi dianc, ond dylid adlewyrchu hynafedd y cyfreithiwr dan sylw hefyd. Dylid cynyddu'r cyfraddau tâl fel yr argymhellwyd uchod, a dylid rhoi terfyn cyn gynted â phosibl ar gyfraddau gwahanol sydd wedi'u seilio ar orsafoedd heddlu penodol.

Argymhelliad 8: Agweddau eraill ar waith gorsaf yr heddlu (Pennod 8)

- 16.7 Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gymryd camau, ar y cyd â'r Bwrdd Cyngorol fel y bo'n briodol, a thrwy gydweithredu â'r heddlu a'r Swyddfa Gartref, i gynnal astudiaeth fanwl o weithrediad ac effeithiolrwydd y cyngor a chynhorthwy yng ngorsaf yr heddlu, yn cynnwys casglu data mwy manwl, er enghraifft ynghylch a ellir cymell mwy o rai dan amheuaeth i gymryd cyngor o'r fath, ansawdd y gwasanaeth a roddir, y dull darparu (yn y fan a'r lle neu o bell), y posibilrwydd o leoli cyfreithwyr ar ddyletswydd mewn gorsafoedd heddlu mwy, defnyddio cynrychiolwyr achrededig a'u goruchwyllo'n effeithiol, a gwelliannau cyffredinol sydd eu hangen mewn hyfforddiant a/neu achredu, ac yn benodol mewn perthynas â rhai ifanc neu agored i niwed sydd dan amheuaeth, a'r rheini o gefndir lleiafrifol ethnig.

Argymhelliad 9: Ymgysylltu cyn cyhuddo (Pennod 9)

- 16.8 Dylid talu am ymgysylltu cyn cyhuddo. Dylid talu am y gwaith paratoi sydd ei angen i benderfynu a yw ymgysylltu cyn cyhuddo yn briodol neu beidio pa un a fydd ymgysylltu cyn cyhuddo yn digwydd wedyn neu beidio. Yn yr un modd, dylid talu am waith sydd ei angen yn rhesymol i aros mewn cysylltiad â'r heddlu a/neu y cleient yn y cyfnod rhwng yr arestio/cyf-weld cychwynnol yng ngorsaf yr heddlu a'r penderfyniad ar gyhuddo, pa faint bynnag o ymgysylltu sylweddol cyn cyhuddo a geir wedyn, a pha un a fydd cyhuddiad yn cael ei wneud yn y diwedd neu beidio. Dylid trin y gydnabyddiaeth ariannol hon fel estyniad i gynllun gorsaf yr heddlu, ar ôl ei ddiwygio yn unol â'r argymhelliad uchod.

Argymhelliad 10: Ymgysylltu ar ôl cyhuddo (Pennod 9)

- 16.10 Er mwyn hyrwyddo cymaint â phosibl o gyfathrebu rhwng yr heddlu/y CPS a'r amddiffyniad cyn y gwrandawriad cyntaf yn y Llys Ynadon, dylai cyllid cymorth cyfreithiol troseddol fod ar gael i dalu am drafodaeth rhwng yr amddiffyniad a'r erlyniad cyn y gwrandawriad cyntaf, yn cynnwys talu am y gwaith paratoi sydd ei angen ar gyfer trafodaeth o'r fath, er enghraifft unrhyw geisiadau rhesymol yn ymwneud â datgelu manylion cychwynnol achos yr erlyniad neu ddeunydd nas defnyddiwyd. Dylid seilio'r tâl hwn ar yr un strwythur â chynllun presennol y Llys Ynadon.

Argymhelliad 11: y Llys Ynadon (Pennod 10)

- (1) Dylid cadw cynllun presennol y Llys Ynadon, ond cynyddu'r gydnabyddiaeth ariannol yn unol â'r cynnydd cyffredinol mewn cydnabyddiaeth ariannol sydd wedi'i argymhell uchod,

- (2) Dylid cael system o ffioedd safonol is ac uwch ar gyfer apelau a thraddodi ar gyfer dedfrydu o'r Llys Ynadon i Lys y Goron,
- (3) Ni ddylai'r tâl am draddodi ar gyfer dedfrydu fod yn llai na'r tâl cyfatebol am ble euog yn Llys y Goron,
- (4) Rwyf yn argymhell ystyried (ond ni allaf argymhell yn ffurfiol) y dylai cymorth cyfreithiol ar gyfer diffynnydd a draddodwyd i'w ddedfrydu yn Llys y Goron gael ei seilio ar feini prawf cymhwysra Llys y Goron yn hytrach na meini prawf cymhwysra y Llys Ynadon.

Argymhelliad 12: Y Llys leuenctid (Pennod 11)

- (1) Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder roi blaenoriaeth yn gyffredinol i neilltuo rhagor o adnoddau ar gyfer y Llys leuenctid, yn benodol drwy gynyddu'r ffioedd un ai at y lefel a fyddai'n gymwys os oedd yr achos yn cael ei roi ar brawf yn Llys y Goron, neu'n gyffredinol mewn perthynas â ffioedd eraill y Llys Ynadon, a darparu y bydd tystysgrifau ar gyfer cynghori ar gyfer ymddangosiadau yn y Llys leuenctid,
- (2) Dylid datblygu system achredu briodol gyda hyfforddiant priodol ar gyfer eiriolwyr sy'n ymddangos yn y Llys leuenctid.

Argymhelliad 13: Ailstrwythuro Cynllun Ffioedd Graddedig Cyfreithyddion Llys (LGFS) (Pennod 12)

16.11 Dylid ailstrwythuro'r LGFS, ar sail y dealltwriaeth nad oes bwriad i leihau'r gydnabyddiaeth ariannol i gyfreithwyr yn gyffredinol ond, yn hytrach, newid cydbwysedd y gydnabyddiaeth ariannol honno er mwyn adlewyrchu'n well y gwaith a wnaed mewn gwirionedd a hwyluso'r cynnydd cyffredinol mewn ffioedd sydd wedi'i argymhell uchod.

16.12 Dylid ailstrwythuro'r LGFS yn y ffyrdd canlynol:

- (i) Dylid ymestyn yr egwyddor o ffioedd safonol is, ffioedd safonol uwch a ffioedd ansafonol a ddefnyddir yn y Llys Ynadon, ac sydd wedi'i hargymhell uchod ar gyfer cyngor a chynhorthwy yng ngorsaf yr heddlu, i'r LGFS, gan gymhwyso gwahanol ffioedd at y gwahanol ddosbarthiadau o droseddau a ddangosir yn Nhabl Troseddau yr LGFS, gan symleiddio'r tabl hwnnw fel y bo'n briodol,
- (ii) Dylai'r cyfraddau am waith paratoi a chyfraddau eraill a delir wrth yr awr a'r symiau a fydd yn sail i ffioedd safonol is, safonol uwch ac ansafonol yr LGFS fod yn rhai sy'n adlewyrchu'r angen i dalu'n briodol am y gwaith a wnaed, gan sicrhau yn gyffredinol y bydd modd ymgymryd â gwaith cyfreithyddion llys yn Llys y Goron ar sail ddichonadwy,
- (iii) Dylid cynyddu'r cyfraddau ar gyfer achosion atafaelu sy'n cael eu trafod o dan baragraff 26 o'r LGFS er mwyn cymell digon o gyfreithyddion llys i ymgymryd â'r gwaith hwn,
- (iv) Dylid diddymu'r darpariaethau yn Atodlen 2, Rhan 3 o'r LGFS sy'n darparu ar gyfer ffi sefydlog yn Llys y Goron mewn achosion penodol.

Argymhelliad 14: Cynnydd cyffredinol yn y gydnabyddiaeth ariannol o dan yr AGFS (Pennod 13)

16.13 Yn unol â'm hargymhelliad ym Mhennod 13, dylid cynyddu'r gydnabyddiaeth ariannol i eiriolwyr²³⁵ o dan yr AGFS tua £35 miliwn (15%) yn gyffredinol, yn rhannol drwy gynnydd cyffredinol mewn ffioedd, ac yn rhannol drwy ailstrwythuro'r AGFS fel yr argymhellir isod.

Argymhelliad 15: Ailstrwythuro'r AGFS (Pennod 13)

16.14 Wrth ailstrwythuro'r AGFS dylid cynnwys cynnydd cyffredinol mewn ffioedd a'r newidiadau canlynol:

- (i) Dylid adolygu'r berthynas rhwng ffioedd briff am wahanol droseddau, yn benodol i benderfynu a yw ffioedd am achosion llofruddiaeth a throseddau rhywiol difrifol yn adlewyrchu'n ddigonol y difrifoldeb a'r cymhlethdod, ac a yw PPE yn cael effaith gamystumiol,
- (ii) Mwy o hyblygrwydd yn y darpariaethau ar gyfer gwaith paratoi arbennig fel y gellir talu'n briodol am waith a wnaed yn rhesymol,
- (iii) Cynyddu'r ffioedd am waith paratoi arbennig ac ystyried deunydd nas defnyddiwyd,
- (iv) Dylid gallu hawlio am waith paratoi a wastraffwyd lle nad yw eiriolwr yn gallu bod yn bresennol mewn treial heb fod bai arno ef ym mhob achos lle cafwyd gwaith paratoi a wastraffwyd o fwy na 2 awr,
- (v) Dylid gallu hawlio a derbyn tâl am waith a gyflawnwyd yn rhesymol o fewn 90 o ddiwrnodau heb orfod aros tan ddiwedd y treial cyn hawlio tâl,
- (vi) Dylid gallu hawlio tâl ychwanegol ar ben ffioedd sefydlog o dan yr AGFS, yn cynnwys y rheini a ddarperir ar gyfer y PTPH, drwy hawlio am waith paratoi arbennig neu fel arall, er mwyn adlewyrchu'r gwaith yr oedd yn angenrheidiol ei wneud yn yr amgylchiadau penodol,
- (vii) Yn rhan o'r cynnydd cyffredinol mewn ffioedd, dylid cynyddu'r ffioedd ar gyfer materion atafaelu fel y bydd cymhelliad digonol i eiriolwyr gymryd y gwaith hwn,
- (viii) Dylid diddymu Rhan 4 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau, yn yr un modd ag ar gyfer yr LGFS uchod.

Argymhelliad 16: Gwariant Arall ar Gymorth Cyfreithiol Troseddol (Pennod 14)

16.15 Dylid gweithredu'r argymhellion sydd wedi'u nodi ym Mhennod 14 uchod mewn perthynas ag apelau, cyfeirio i'r CCRC, IFFOs, cyfraith carchardai a ffioedd arbenigwyr, yn enwedig o ran y canlynol:

- (i) Y cynnydd cyffredinol mewn cydnabyddiaeth ariannol sydd wedi'i argymhell yno,
- (ii) Ailstrwythuro'r tâl am gyngor a chynhorthwy ar waith y CCRC gyda ffioedd is, uwch ac ansafonol,
- (iii) Mewn perthynas ag IFFOs, diwygio'r Rheoliadau i egluro'r sail statudol a darparu mecanwaith ar gyfer datrys anghydfodau,

²³⁵ Mae hyn yn cynnwys bargyfreithwyr a chyfreithwyr eiriolwyr

- (iv) Mewn perthynas â chyfraith carchardai, ailstrwythuro'r gwaith cyngor a chynhorthwy gyda ffioedd is, uwch ac ansafonol.

Argymhelliad 17: Amrywiaeth (Pennod 15)

- (i) Rwyf yn argymhell y dylai'r LAA gydweithio â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a chynrychiolwyr cyfreithwyr, i ganfod pam mae'r cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn perthynas â chyfreithwyr ar ddyletswydd yn ffafrio cyfreithwyr gwrywaidd, a pha gamau y dylid eu cymryd i sicrhau mwy o gydbwysedd rhwng y rhywiau,
- (ii) Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Cyngor y Bar a Bwrdd Safonau'r Bar gymryd camau i ganfod y graddau y ceir gwahaniaethau ar sail rhywedd neu ethnigrwydd, a'r rhesymau drostynt os ydynt yn bod, mewn perthynas ag incymau a enillir o gronfeydd cyhoeddus neu'r gwaith y mae bargyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol yn ymgymryd ag ef, er mwyn cymryd unrhyw gamau sydd eu hangen i gywiro hynny, gan ddal sylw ar egwyddorion cydraddoldeb wrth wario arian cyhoeddus,
- (iii) Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, wrth gydweithio â Chyngor y Bar a Bwrdd Safonau'r Bar fel y bo'n briodol, roi ystyriaeth i'r priodoldeb o ddarparu cymorth ychwanegol i fargyfreithwyr ifanc ar ôl eu disgybledd, er mwyn cynyddu amrywiaeth yn y proffesiwn ac, os dylid gwneud hynny, ym mha ffordd y dylid cyflawni hynny.

Argymhelliad 18: Aelodau CILEX yn gyfreithwyr ar ddyletswydd (Pennod 8)

- 16.16 Rwyf yn argymhell bod yr LAA a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn adolygu'r darpariaethau mewn perthynas â derbyn aelodau CILEX yn gyfreithwyr ar ddyletswydd.

Argymhelliad 19: Yr LAA (Pennod 15)

- (i) Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ailystyried ac aileirio amcanion yr LAA i'r perwyl mai prif amcanion yr LAA fydd cynnal cadernid y system cymorth cyfreithiol troseddol a lleihau biwrocratiaeth ddiangen, gan gadw rheolaeth gymesur dros gostau,
- (ii) Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr LAA a rhanddeiliaid perthnasol fynd ati i ystyried telerau presennol yr SCC a gweithdrefnau cysylltiedig yr LAA gyda'r bwriad o symleiddio a lleihau beichiau gweinyddol lle y bo'n briodol,
- (iii) Dylai'r LAA adolygu ei rhaglenni hyfforddi staff gyda'r bwriad o weithredu'r dull mwy hyblyg o ddelio â hawliadau am ad-dalu sydd wedi'i argymhell yn yr Adolygiad hwn gan fod yn ymwybodol o'r angen i wrthod hawliadau afresymol a diogelu budd y trethdalwr,
- (iv) Dylai'r LAA ystyried y gwahanol faterion penodol a godwyd yn yr Adroddiad hwn yn enwedig mewn perthynas â'r DSCC (Pennod 8), gweithrediadau cynllun gorsaf yr heddlu yn cynnwys achredu (Pennod 8), y rheol 14 awr (Pennod 8), talu ffioedd eiriolwyr yn gynharach (Pennod 13), ac ad-dalu ffioedd arbenigwyr yn y Llys Ynadon (Pennod 14), er mwyn penderfynu ar y cyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder y camau y gallai fod yn briodol eu cymryd.

16.17 Yn olaf, rwyf yn gobeithio y bydd rhanddeiliaid eraill y cyfeirir atynt yn yr Adolygiad hwn, yn enwedig yr heddlu, y CPS a'r Llysoedd ymysg eraill, yn gweld yr Adroddiad hwn fel y mae wedi'i fwriadu, yn gyfraniad adeiladol at ddatrys problemau sy'n effeithio ar gymorth cyfreithiol troseddol; ac y bydd darparwyr cymorth cyfreithiol troseddol yn eu tro yn cydnabod y pwysau sy'n cael eu hysgwyddo gan bawb sy'n gweithio yn y SCT ac y byddant yn cydweithio i sicrhau atebion.

Christopher Bellamy

29 Tachwedd 2021